

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

22/01/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)
[Questions to the Minister for Finance](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#)
[Questions to the Minister for Local Government and Government Business](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.3 i Addasu Cylch Gwaith a Theitlau Pwyllgorau](#)
[Motion under Standing Order 16.3 to Alter the Remits and Titles of Committees](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc](#)
[The Enterprise and Business Committee's Report on the Inquiry into Youth Entrepreneurship](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Llifogydd](#)
[Welsh Conservatives Debate: Flooding](#)

[Dadl Plaid Cymru: Y Gymraeg](#)
[Plaid Cymru Debate: The Welsh Language](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Dyhead Gwirioneddol i Bawb?](#)
[Short Debate: The Best Start in Life: A Genuine Aspiration for All?](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Questions to the Minister for Finance

Gwariant Cyfalaf

Capital Expenditure

13:30 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gwariant cyfalaf yn 2014? OAQ(4)0357(FIN)

1. Will the Minister make a statement on her priorities for capital expenditure in 2014? OAQ(4)0357(FIN)

13:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance

We set out our priorities for capital investment in the Wales infrastructure investment plan. This informs our capital allocations.

Nodwn ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yng nghynllun buddsoddi seilwaith Cymru. Mae hyn yn llywio ein dyraniadau cyfalaf.

13:30 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Mae'r cwestiwn wedi cael ei godi gyda fi yn lleol ynglŷn â'r posibilrwydd o awdurdodau lleol yn cynnig am grantiau tai cymdeithasol, ar ffurf dewisol, fel y gallant wella eu stoc a'u cynaliadwyedd. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau am hyn yn sgîl gwariant cyfalaf?

I have been asked locally about the possibility of local authorities bidding for social housing grant, on an optional basis, so that they can improve their stock and their sustainability. Have you had any discussions about this as a result of capital spending?

- 13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Keith Davies for that question. In fact, substantial investment is made in the sustainability of the social housing stock in Wales. We are providing over £390 million for building new sustainable homes through the social housing grant, and local authorities are responsible for ensuring that new homes that are built by their registered social landlord partners meet their strategic housing priorities. That includes the sustainability of housing stock.
- Diolch i Keith Davies am y cwestiwn hwnnw. Yn wir, mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud yng nghynaliadwyedd y stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn darparu dros £390 miliwn i adeiladu tai cynaliadwy newydd drwy'r grant tai cymdeithasol, ac mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod cartrefi newydd a adeilidir gan eu partneriaid sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn bodloni eu blaenoriaethau o ran tai strategol. Mae hynny'n cynnwys cynaliadwyedd ein stoc tai.
- 13:31 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, in your allocation of capital expenditure last October, you committed £7.5 million in 2014-15, and £12.5 million in 2015-16, towards flood and coastal risk management programmes. Clearly, over Christmas and the new year, we have seen extensive flooding. In the light of that extreme weather, do you have any plans to reprioritise the money that you are planning to make available to schemes to improve and maintain flood defences?
- Weinidog, yn eich dyraniad o wariant cyfalaf fis Hydref diwethaf, gwnaethoch ymrwymo £7.5 miliwn yn 2014-15, a £12.5 miliwn yn 2015-16, tuag at raglenni rheoli llifogydd ac arfordiroedd. Yn amlwg, dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd, rydym wedi gweld llifogydd helaeth. Yng ngoleuni'r tywydd eithafol hwnnw, a oes gennych unrhyw gynlluniau i ail-flaenoriaethu'r arian yr ydych yn bwriadu sicrhau y bydd ar gael i gynlluniau er mwyn gwella a chynnal amddiffynfeydd rhag llifogydd?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is important that the Minister for Natural Resources and Food announced his review, which is now being undertaken, to ascertain whether there were particular needs in terms of flood defences and investment, and you will have welcomed his announcement yesterday of an additional £2 million for emergency needs. Of course, we also have the investment of £49.8 million from European structural funds.
- Mae'n bwysig bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi cyhoeddi ei adolygiad, sydd bellach yn mynd rhagddo, er mwyn canfod a oedd anghenion penodol o ran amddiffynfeydd rhag llifogydd a buddsoddi, a byddwch wedi croesawu ei gyhoeddiad ddoe o £2 filiwn ychwanegol ar gyfer anghenion brys. Wrth gwrs, mae gennym fuddsoddiad o £49.8 miliwn hefyd o gronfeydd strwythurul Ewropeaidd.
- 13:32 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae rhywun yn poeni am effaith ymarferol toriadau mewn gwariant cyfalaf. Mae grant o bron i £5 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu cartref henoed Penucheldre yng Nghaergybi wedi caniatáu datblygiad gwirioneddol arloesol, mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Tai Eryri. Sut allwch chi sicrhau digon o arian yn y dyfodol ar gyfer prosiectau cyfalaf tebyg, sy'n galluogi moderneiddio gwasanaethau, a, thrwy hynny, dynnu'r pwysau oddi ar gyllidebau adrannau gwasanaethau cymdeithasol?
- One worries about the practical effect of capital expenditure cuts. A Welsh Government grant of nearly £5 million for the building of the Penucheldre home for the elderly in Holyhead has allowed for a truly innovative development, in a partnership between the Isle of Anglesey County Council and Tai Eryri. How can you ensure that there is enough money available in the future for similar capital projects, which allow for the modernisation of services, thereby relieving some of the pressure on social services departmental budgets?
- 13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, these are very important examples of partnership, particularly with RSLs, who can lever in additional finance. As of this month, a further £30 million package of housing investment has been made, including funding for affordable housing, and other housing priorities. Of course, that can include those kinds of examples.
- Yn amlwg, mae'r rhain yn enghreifftiau pwysig iawn o bartneriaeth, yn enwedig gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a all ddenu cyllid ychwanegol. O'r mis hwn ymlaen, mae pecyn arall o £30 miliwn o fuddsoddiad mewn tai wedi cael ei wneud, gan gynnwys cyllid ar gyfer tai fforddiadwy, a blaenoriaethau tai eraill. Wrth gwrs, gall hynny gynnwys y mathau hynny o enghreifftiau.
- 13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

- 13:33 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as you know, we are soon to get control of business rates, and I understand that work is ongoing with UK Government officials around that particular transfer of power. Given that, in England, local authorities have the opportunity to keep rates that are collected as a result of regeneration projects—I know that you have been looking at this for some particular time—do you have any plans, as part of your discussions on business rates, to use them in this innovative way, to supplement capital budgets?
- Weinidog, fel y gwyddoch, maes o law byddwn yn rheoli ardrethi busnes, a deallaf fod y gwaith yn mynd rhagddo gyda swyddogion Llywodraeth y DU ynghylch trosglwyddo'r pŵer penodol hwnnw. O gofio hynny, yn Lloegr, mae gan awdurdodau lleol y cyfle i gadw ardrethi a gesglir o ganlyniad i brosiectau adfywio—gwn eich bod wedi bod yn ystyried hyn ers peth amser—a oes gennych unrhyw gynlluniau, fel rhan o'ch trafodaethau ar ardrethi busnes, i'w defnyddio yn y ffordd arloesol hon, i ategu cyllidebau cyfalaf?
- 13:34 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, we are considering the package that was announced by the UK Government, and we have already made progress in terms of the announcement last week in relation to the local government revenue settlement and the accelerator. Of course, we will come back with consideration. The Minister for Economy, Science and Transport leads on this.
- Yn amlwg, rydym yn ystyried y pecyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, ac rydym eisoes wedi gwneud cynnydd o ran y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf mewn perthynas â setliad reffeniw llywodraeth leol a'r cyflymydd. Wrth gwrs, byddwn yn trafod hyn ar ôl ei ystyried. Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sy'n arwain ar hyn.
- 13:34 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. You will know—as I have been raising this issue of tax increment finances for the best part of 18 months—that, in that time, English cities have benefited tremendously from being able to keep that element of business rates, and invest in regeneration. What study has your officials carried out of the way that those projects are running in England, and have any lessons been drawn from that, or is that work yet to start?
- Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Gwyddoch—gan fy mod wedi bod yn codi mater cyllid drwy gynyddrannau treth ers bron i 18 mis—fod dinasoedd yn Lloegr, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi elwa'n eithriadol ar y gallu i gadw'r elfen honno o ardrethi busnes, a buddsoddi mewn dulliau adfywio. Pa astudiaeth a gynhaliwyd gan eich swyddogion o'r ffordd y mae'r prosiectau hynny yn cael eu cynnal yn Lloegr, ac a ddysgwyd unrhyw wersi o hynny, neu a yw'r gwaith eto i ddechrau?
- 13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The working group that was set up by the Minister has taken on board the importance of looking at the impact of tax increment financing and I know that that will be fed back to the Minister in due course.
- Mae'r gweithgor a sefydlwyd gan y Gweinidog wedi derbyn pa mor bwysig yw edrych ar effaith cyllid drwy gynyddrannau treth a gwn y caiff hynny ei fwydo'n ôl i'r Gweinidog maes o law.

Grant Bloc Cymru

Welsh Block Grant

- 13:35 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith toriadau Llywodraeth y DU ar grant bloc Cymru? OAQ(4)0352(FIN)*
- 2. What assessment has the Minister made of the impact of the UK Government's cuts to the Welsh block grant? OAQ(4)0352(FIN)*
- 13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We have faced a series of difficult settlements as a result of UK Government budget cuts, the cumulative impact of which is that, by 2015-16, our budget will be 10% lower in real terms than it was in 2010-11.
- Rydym wedi wynebu cyfres o setliadau anodd o ganlyniad i doriadau cyllidebol Llywodraeth y DU, ac effaith gronol hynny, erbyn 2015-16, fydd bod gennym gyllideb a fydd 10% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11.

13:35

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. You cannot take £1.7 billion out of a block grant and think that it is not going to have any effect. Cuts to local government funding in Denbighshire are having a disastrous effect on leisure services there. Denbighshire has decided to withdraw funding to an arm's-length company that ran three very important tourist facilities, but also facilities that many residents used. Many residents, and constituents of mine, will lose their jobs and will also lose those facilities because of the withdrawal of this funding. There did not appear to be any contingency plans put in place for the withdrawal of funding. What advice can Welsh Government offer to councils that are looking to have arm's-length companies running their services?

Diolch ichi am hynny, Weinidog. Ni allwch gymryd £1.7 biliwn allan o grant bloc a meddwl nad yw'n mynd i gael unrhyw effaith. Mae toriadau i gyllid llywodraeth leol yn Sir Ddinbych yn cael effaith drychinebus ar wasanaethau hamdden yno. Mae Sir Ddinbych wedi penderfynu tynnu'n ôl gyllid i gwmni hyd braich a oedd yn rhedeg tri chyfleuster twristiaeth pwysig iawn, ond cyfleusterau hefyd yr oedd llawer o drigolion yn eu defnyddio. Bydd llawer o drigolion, a'm hetholwyr i, yn colli eu swyddi a byddant hefyd yn colli'r cyfleusterau hynny am fod y cyllid hwn wedi'i dynnu'n ôl. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw gynlluniau wrth gefn ar waith os oedd cyllid yn cael ei dynnu'n ôl. Pa gyngor y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i gynghorau sy'n bwriadu cael cwmnïau hyd braich yn rhedeg eu gwasanaethau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, this is something that we need to look at, as I do with the Minister for Local Government and Government Business, in terms of new opportunities and options. However, I would say, particularly in terms of leisure facilities, that we were able to lever in £5 million for 2015-16 for a pilot capital scheme loan for sports and leisure facilities. That might be a way forward to address those issues.

Yn amlwg, mae hyn yn rhywbeth y mae angen inni edrych arno, fel y gwnaf gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, o ran cyfleoedd ac opsiynau newydd. Fodd bynnag, byddwn yn dweud, yn enwedig o ran cyfleusterau hamdden, inni lwyddo i ddenu £5 biliwn yn 2015-16 ar gyfer benthyciad cynllun cyfalaf pilot ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Gallai hynny fod yn ffordd ymlaen i fynd i'r afael â'r materion hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, it is continually being claimed by your Government that you are fighting the constraints imposed by UK Government cuts, but in truth, in money terms, Wales has suffered far less than other areas. If we look at the departmental expenditure limits for the UK Government, since 2008, Wales has had a 2.7% increase, greater than the average change of 2.1%; 13 other departmental limits in England, for example, have had far lower settlements. We have received an extra £57 million for broadband support and £2 billion of investment in our railways. When these investments are offset against—

Weinidog, honnir yn barhaus gan eich Llywodraeth eich bod yn brwydro yn erbyn y cyfyngiadau a osodir gan doriadau Llywodraeth y DU, ond mewn gwirionedd, yn nhermau arian, mae Cymru wedi dioddef llai o lawer nag ardaloedd eraill. Os edrychwn ar y terfynau gwariant adrannol ar gyfer Llywodraeth y DU, ers 2008, mae Cymru wedi gweld cynnydd o 2.7%, sy'n fwy na'r newid cyfartalog o 2.1%; mae 13 o derfynau adrannol eraill yn Lloegr, er enghraifft, wedi cael setliadau llai o lawer. Cawsom £57 miliwn ychwanegol ar gyfer cymorth band eang a £2 biliwn o fuddsoddiad yn ein rheilffyrdd. Pan gaiff y buddsoddiadau hyn eu gwrthbwysu yn erbyn—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ask a question please.

Gofynnwch gwestiwn os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you agree, Minister, that Wales as a whole is much better off than you would care to admit? Will you agree to look at your own internal processes and improve the way in which Welsh Government is spending its money?

A ydych yn cytuno, Weinidog, bod Cymru gyfan yn llawer gwell ei byd nag y byddech yn fodlon cyfaddef? A wnewch chi gytuno i edrych ar eich prosesau mewnol eich hunain a gwella'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gwario ei harian?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We finally got to the question. I say to Antoinette Sandbach that, if the budget proposed from your side of the Chamber had been put forward in 2010, there would have been a 12.2% cut in resources to local government. Over the past three years, local government in Wales has received a better settlement than it expected and authorities have continued to receive a better settlement than their counterparts in England.

Rydym o'r diwedd wedi cyrraedd y cwestiwn. Dywedaf wrth Antoinette Sandbach, pe bai'r gyllideb a gynigiwyd gan eich ochr chi o'r Siambr wedi cael ei chyflwyno yn 2010, byddai toriad o 12.2% wedi bod mewn adnoddau i lywodraeth leol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae llywodraeth leol yng Nghymru wedi cael setliad gwell na'r disgwyl ac mae awdurdodau wedi parhau i gael setliad gwell nag awdurdodau cyfatebol yn Lloegr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.	Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.	Senedd.tv Fideo Video
13:38	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography	Will you confirm that statements made by Mr Edward Balls and the leader of the Labour Party indicate that, if Labour forms the next UK Government, it intends to stick to the Tory Chancellor's spending plans?	A wnewch chi gadarnhau bod datganiadau a wnaed gan Mr Edward Balls ac arweinydd y Blaid Lafur yn dangos, os bydd Llafur yn ffurfio Llywodraeth nesaf y DU, ei bod yn bwriadu cadw at gynlluniau gwariant y Canghellor Toriaidd?	Senedd.tv Fideo Video
13:38	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	I am the Minister for Finance for Wales.	Fi yw Gweinidog Cyllid Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
13:38	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography	You constantly make reference to the UK Government—you have just made reference to the present settlement from the UK Government—so I will ask the question again. Statements made by Ed Balls and the leader of the Labour Party indicate that Labour intends to stick to the same spending plans, specifically in the first year if Labour forms the next UK Government. Can you confirm that or not?	Rydych yn gyson yn cyfeirio at Lywodraeth y DU—rydych wedi cyfeirio at y setliad presennol gan Lywodraeth y DU—felly gofynnaf y cwestiwn eto. Mae datganiadau a wnaed gan Ed Balls ac arweinydd y Blaid Lafur yn dangos bod Llafur yn bwriadu cadw at yr un cynlluniau gwariant, yn benodol yn y flwyddyn gyntaf os yw Llafur yn ffurfio Llywodraeth nesaf y DU. A allwch gadarnhau hynny ai peidio?	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	We face a difficult challenge. We only have to look at the recent projections of the Institute for Fiscal Studies with regard to ongoing austerity in terms of public finances. What is very clear to me is that we have to use our money and manage our money effectively, and, of course, make the case for adequate provision in terms of the Welsh block grant.	Wynebwn her anodd. Rhaid inni ond edrych ar amcanestyniadau diweddar y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o ran cynildeb parhaus mewn perthynas â chyllid cyhoeddus. Yr hyn sy'n glir iawn imi yw bod yn rhaid inni ddefnyddio ein harian a rheoli ein harian yn effeithiol, ac, wrth gwrs, dadlau o blaid darpariaeth ddigonol o ran grant bloc Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
Y Rhaglen Buddsoddi i Arbed		Invest-to-Save Programme		
13:39	Lynne Neagle Bywgraffiad Biography	<i>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Buddsoddi i Arbed? OAQ(4)0359(FIN)</i>	<i>3. Will the Minister make a statement on the Invest to Save programme? OAQ(4)0359(FIN)</i>	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Since 2009, we have invested through the invest-to-save initiative £77 million of repayable funding in 68 improvement projects, which are forecasting annual savings of some £104 million within five years of starting.	Ers 2009, rydym wedi buddsoddi, drwy'r fenter buddsoddi i arbed, £77 miliwn o gyllid ad-daladwy mewn 68 o brosiectau gwella, sy'n rhagweld arbedion blynyddol o tua £104 miliwn o fewn pum mlynedd i ddechrau.	Senedd.tv Fideo Video
13:40	Lynne Neagle Bywgraffiad Biography	I was pleased to hear about the new initiative at Aneurin Bevan Local Health Board, funded through invest-to-save, which will see all hospital linen and laundry electronically tagged in a bid to cut the £300,000 a year that the health board currently spends on lost linen. Would you agree, Minister, that, even in these difficult economic times, it is absolutely vital that the Welsh Government continues to support investment in such common sense schemes that can deliver considerable savings over the long term for a relatively small outlay?	Roeddwn yn falch o glywed am y fenter newydd ym Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, a ariennir drwy buddsoddi i arbed, a fydd yn gweld holl lieiniau a dillad ysbytai yn cael eu tagio'n electronig mewn ymgais i leihau'r £300,000 y flwyddyn a gollir gan y bwrdd iechyd mewn lieiniau ar hyn o bryd. A fydddech yn cytuno, Weinidog, ei bod yn hollbwysig, hyd yn oed yn y cyfnod economaidd anodd hwn, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi buddsoddiad mewn cynlluniau synnwyr cyffredin o'r fath a all sicrhau arbedion sylweddol yn y tymor hir am wariant cychwynnol cymharol fach?	Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I was pleased to visit Lynne Neagle's constituency in Torfaen and see for myself the Aneurin Bevan hospital laundry service, which services not just Aneurin Bevan health board, but also Velindre NHS Trust and Cardiff and Vale University Local Health Board. That innovative approach is expected to realise potential savings of £250,000 to £300,000 a year by the third year of operation. Clearly, we have to press forward with invest-to-save.

Roeddwn yn falch o ymweld ag etholaeth Lynne Neagle yn Nhorfaen a gweld drosof fy hun wasanaeth golchi dillad ysbty Aneurin Bevan, sydd, nid yn unig yn gwasanaethu bwrdd iechyd Aneurin Bevan, ond hefyd Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Disgwylir i'r dull arloesol hwnnw greu arbedion posibl o £250,000 i £300,000 y flwyddyn erbyn y drydedd flwyddyn o weithredu. Yn amlwg, rhaid inni fwrw ymlaen â buddsoddi i arbed.

13:41 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, there is no doubt that investing upfront can sometimes save a lot of money in the longer term. What discussions have you had with Wales's Minister for Natural Resources and Food about the opportunities that might be presented to local authorities and other riparian owners about investment in their flood defences in order to reduce the clean-up costs that might arise in the aftermath of flooding?

Weinidog, nid oes amheuaeth y gall buddsoddi ymlaen llaw weithiau arbed llawer o arian yn y tymor hwy. Pa drafodaethau a gawsoch gyda Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd Cymru am y cyfleoedd y gellid eu cynnig i awdurdodau lleol a pherchnogion glannau afonydd eraill ynghylch buddsoddi yn eu hamddiffynfeydd eu hunain rhag llifogydd er mwyn lleihau'r costau glanhau a allai godi yn sgil llifogydd?

13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

All local authorities and the public sector are aware of the opportunities of invest-to-save. I know, having recently announced a further round, that there might be some new bids forthcoming in this area. However, I would again have to go back to the point that the Minister has recently announced yet another tranche of funding—£240 million going into flood defence protection and coastal erosion initiatives from this administration.

Mae pob awdurdod lleol a'r sector cyhoeddus yn ymwybodol o'r cyfleoedd buddsoddi i arbed. Gwn, ar ôl cyhoeddi cylch arall yn ddiweddar, y gallai rhai ceisiadau newydd fod ar y gweill yn y maes hwn. Fodd bynnag, byddai'n rhaid imi unwaith eto godi'r pwynt bod y Gweinidog wedi cyhoeddi cyfran arall o gyllid yn ddiweddar—£240 miliwn yn mynd ar fentrau amddiffyn rhag llifogydd ac erydu arfordirol o'r weinyddiaeth hon.

Y Portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi

Communities and Tackling Poverty Portfolio

13:42 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllid cyffredinol i'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi? OAQ(4)0358(FIN)

4. Will the Minister make a statement on the overall funding allocation to the Communities and Tackling Poverty portfolio? OAQ(4)0358(FIN)

13:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The funding allocation to the communities and tackling poverty portfolio in 2014-15 is £212.7 million. This is an increase on the allocation in 2013-14, as restated in the last supplementary budget.

Y dyraniad ariannol i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi yn 2014-15 yw £212.7 miliwn. Mae hyn yn gynydd ar y dyraniad yn 2013-14, fel y'i hailddatganwyd yn y gyllideb atodol ddiwethaf.

13:42 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As I am sure that you are aware, the Department for Work and Pensions recently announced that funding for the localised social fund replacement scheme will come to an end in April 2015—a move that will also affect the discretionary assistance fund in Wales. What assessment has the Welsh Government made of the impact of this latest Tory-Lib Dem cut in Wales, and are there plans to replace the funding for this scheme, which we know, is often a lifeline for the increasing number of families that are struggling to make ends meet in Wales?

Fel y gwyddoch mae'n siŵr, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ddiweddar y daw cyllid ar gyfer cynllun lleol disodli'r gronfa gymdeithasol i ben ym mis Ebrill 2015—cam a fydd hefyd yn effeithio ar y gronfa cymorth dewisol yng Nghymru. Pa asesiad a wnaeth Llywodraeth Cymru o effaith y toriad diweddaraf hwn gan y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru, ac a oes unrhyw gynlluniau i ddisodli'r cyllid ar gyfer y cynllun hwn, sydd fel y gwyddom, yn achubiaeth i'r nifer gynyddol o deuluoedd sy'n cael anhawster i gael dau ben llinyn ynghyd yng Nghymru?

- 13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I thank the Member for enabling me to respond to that question by saying that the discretionary assistance fund is supporting our most vulnerable individuals. To date, the fund has helped nearly 20,000 people in Wales, across all of the constituencies that elected representatives are serving, with £4.9 million spent. That is extremely important. We are, of course, working hard to reduce the impact of the UK Government welfare reform agenda. Therefore, we will have to consider this position when the full facts are known about further reductions by this UK Government to schemes of this kind.
- Diolchaf i'r Aelod am fy ngalluogi i ymateb i'r cwestiwn hwnnw drwy ddweud bod y gronfa cymorth dewisol yn cefnogi ein hunigolion mwyaf agored i niwed. Hyd yma, mae'r gronfa wedi helpu bron i 20,000 o bobl yng Nghymru, ar draws yr holl etholaethau y mae cynrychiolwyr etholedig yn eu gwasanaethu, gan wario £4.9 miliwn. Mae hynny'n hynod o bwysig. Rydym, wrth gwrs, yn gweithio'n galed i leihau effaith agenda diwygio lles Llywodraeth y DU. Felly, bydd yn rhaid inni ystyried y sefyllfa hon pan fydd y ffeithiau llawn yn hysbys am ostyngiadau pellach gan Lywodraeth y DU i gynlluniau o'r fath.
- 13:43 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Given that the Welsh Government has decided to include fuel poverty within its tackling poverty strategy in the communities and tackling poverty portfolio, how do you refer to the statement in Consumer Futures's draft work plan for 2014-15, that,
- O gofio bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnwys tldi tanwydd o fewn ei strategaeth trechu tldi yn y cymunedau a'r portfolio trechu tldi, sut rydych yn cyfeirio at y datganiad yng nghynllun gwaith drafft Dyfodol Defnyddwyr ar gyfer 2014-15, sef
- 'in Wales, we will seek to make sure fuel poverty is a central priority for the Welsh Government's Tackling Poverty strategy and commands sufficient resources to address the scale of the problem?'
- 'yng Nghymru, byddwn yn ceisio sicrhau bod tldi tanwydd yn un o flaenoriaethau canolog strategaeth Trechu Tldi Llywodraeth Cymru a bod digon o adnoddau ar gael iddi i fynd i'r afael â graddfa'r problem'
- 13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Improving the energy efficiency of homes is the most direct way that Welsh Government can tackle fuel poverty, and we make homes cheaper to heat through our Arbed and NEST schemes.
- Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi yw'r ffordd fwyaf uniongyrchol y gall Llywodraeth Cymru drechu tldi tanwydd, ac rydym yn gwneud cartrefi yn rhatach i'w gwresogi drwy ein cynlluniau Arbed a NEST.
- 13:44 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Weinidog, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod diweithdra wedi gostwng yn y Deyrnas Unedig, ond mae tystiolaeth yn dangos bod pobl yn gorfod gweithio'n hirach a bod eu hincwm yn mynd i lawr. Pa asesiad ydych chi, fel Llywodraeth, wedi'i wneud o'r modd mae'r dirwasgiad wedi effeithio ar incwm teuluoedd, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru?
- Minister, the latest figures show that unemployment has fallen in the United Kingdom, but evidence shows that people are having to work much longer and that incomes are falling. What assessment have you made, as a Government, of how the recession has affected family incomes, especially in rural Wales?
- 13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- There is much to welcome today in terms of the figures that Wales is out-performing the UK as a whole in crucial areas such as youth employment. We attribute that to our Jobs Growth Wales scheme and the investment that we are putting into apprenticeships as well, but it is clear that we have to ensure that all the tackling poverty strands in our action plan are geared towards all parts of Wales, including rural areas.
- Mae llawer i'w groesawu heddiw o ran y ffigurau sy'n dangos bod Cymru yn perfformio'n well na'r DU gyfan mewn meysydd allweddol megis cyflogaeth ieuentid. Priodolwn hynny i'n cynllun Twf Swyddi Cymru a'r buddsoddiad a wnawn mewn prentisiaethau hefyd, ond mae'n amlwg bod yn rhaid inni sicrhau bod yr holl linyrnau trechu tldi yn ein cynllun gweithredu yn cael eu hanelu at bob rhan o Gymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig.
- Cyfleoedd i Bobl Ifanc** **Opportunities for Young People**
- 13:45 **Simon Thomas** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
5. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cynnal ynglŷn â sut y gellir defnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd i greu cyfleoedd i bobl ifanc? OAQ(4)0356(FIN)
5. What discussions has the Welsh Government conducted in relation to how European structural funds can be used to create opportunities for young people? OAQ(4)0356(FIN)

- 13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The new European structural funds programmes have been developed in partnership and include dedicated investment priorities to support youth employment in Wales.
- Mae'r rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd newydd wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth ac maent yn cynnwys blaenoriaethau buddsoddi pwrpasol i gefnogi cyflogaeth pobl ifanc yng Nghymru.
- 13:45 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. A gaf i dynnu sylw'r Gweinidog at gyhoeddiad newydd heddiw gan y Sefydliad Materion Cymreig ynglŷn â chreu gwasanaeth dinesig i Gymru? Mae gwasanaethau tebyg mewn gwledydd eraill yn derbyn cefnogaeth gan y cronfeydd strwythurol, felly rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn edrych ar y posibilrwydd o gefnogi'r math hwnnw o ddatblygiad. Yn ogystal, mae yna gronfa Ewropeaidd ar gyfer diogelu swyddi i bobl ifanc, y gronfa gwarant swyddi Ewropeaidd, nad yw'n rhedeg ar hyn o bryd yng Nghymru oherwydd yr amodau. A ydych chi, fel Llywodraeth, yn gweithio i gael y gronfa hon hefyd yn agored i gefnogaeth yng Nghymru?
- I thank the Minister for that response. May I draw the Minister's attention to the new publication that was released today by the Institute of Welsh Affairs on the creation of a citizen service for Wales? Similar services in other nations are supported by the structural funds, so I hope that the Government will look at the possibility of supporting such a development here. In addition, there is a European fund for safeguarding jobs for young people, the European jobs guarantee fund, which is not currently operational in Wales, because of the conditions. Are you working, as a Government, to get that fund also open for support in Wales?
- 13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We will look at and welcome any proposals that can help to support our young people. Of course, our ESF programmes for the next round will target youth employment and youth attainment, especially for those at risk of becoming not in education, employment or training. We are also discussing ways forward in terms of increasing support for youth employment measures and early years with the new programmes and those, of course, include discussions around the youth guarantee.
- Byddwn yn edrych ar unrhyw gynigion a all helpu i gefnogi ein pobl ifanc ac yn eu croesawu. Wrth gwrs, bydd rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer y rownd nesaf yn targedu gwaith ieuencid a chyrhaeddiad ieuencid, yn enwedig i'r rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Rydym hefyd yn trafod ffyrdd ymlaen o ran cynyddu'r gefnogaeth i fesurau cyflogaeth ieuencid a'r blynyddoedd cynnar gyda'r rhaglenni newydd ac mae'r rheini, wrth gwrs, yn cynnwys trafodaethau am y warant ieuencid.
- 13:46 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, since becoming an Assembly Member, one of the things that I have taken a particular interest in is the creation and support of opportunities for young people. During my discussions across Wales with young people, the main barrier seems to be accessibility to those opportunities, which are normally found in our towns and cities. What work have you undertaken to ensure that the ever-updating and changing national transport plan makes best use of European structural funds, with a view to building an infrastructure that allows young people to travel easily?
- Weinidog, ers dod yn Aelod o'r Cynulliad, un o'r pethau yr wyf wedi cymryd diddordeb arbennig ynddo yw creu a chefnogi cyfleoedd i bobl ifanc. Yn ystod fy nhrafodaethau ledled Cymru gyda phobl ifanc, y prif rwystr yn ôl pob tebyg yw sut i fanteisio ar y cyfleoedd hynny, sydd fel arfer i'w cael mewn trefi a dinasoedd. Pa waith a wnaethoch i sicrhau bod y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol sy'n newid ac yn cael ei ddiweddarau drwy'r amser, yn gwneud y defnydd gorau o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd, gyda'r nod o greu strwythur seilwaith sy'n caniatáu i bobl ifanc deithio yn hawdd?
- 13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for Economy, Science and Transport is very aware of these issues and breaking down the barriers to ensure that young people can access those job opportunities, which are well reflected in terms of the statistics today, which show that unemployment among 16 to 17-year-olds and 18 to 24-year-olds is falling faster in Wales than across other parts of the UK, thanks to Welsh Government and European structural funds investment.
- Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ymwybodol iawn o'r materion hyn ac o'r angen i chwalu rhwystrau er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn manteisio ar y cyfleoedd swyddi hynny, sy'n cael eu hadlewyrchu'n dda o ran yr ystadegau heddiw, sy'n dangos bod diweithdra ymysg pobl ifanc 16 i 17 oed a 18 i 24 oed yn gostwng yn gyflymach yng Nghymru nag ar draws rhannau eraill o'r DU, diolch i Lywodraeth Cymru a buddsoddiad y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

13:47	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>It is critical to Wales's economic success in the future that we retain the very brightest and best young graduates. However, no successor scheme to the Powis programme has been announced. What discussions have you had with the Minister for the economy on how the next round of EU structural funds could be used to retain that very highly skilled workforce that is a key selling point for any developed economy?</p>	<p>Mae'n hanfodol i lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol ein bod yn cadw'r graddedigion ifanc disgleiriaf a'r rhai gorau. Fodd bynnag, nid oes cynllun olynol i raglen Powis wedi cael ei gyhoeddi. Pa drafodaethau a gawsoch gyda Gweinidog yr economi ar sut y gallai'r rownd nesaf o gronfeydd strwythurol yr UE gael ei defnyddio i gadw'r gweithlu medrus iawn sy'n bwynt gwerthu allweddol ar gyfer unrhyw economi ddatblygedig?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I have close working relationships with all my ministerial colleagues, particularly where there is success in terms of the outcomes of these schemes.</p>	<p>Mae gen i berthynas waith agos â'm holl gyd-Weinidogion, yn enwedig lle mae llwyddiant o ran canlyniadau'r cynlluniau hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Anghenion Menywod		Women's Needs	
13:48	<p>Julie Morgan Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i sicrhau bod anghenion menywod yn cael eu hystyried wrth gyflawni'r portffolio Cyllid? OAQ(4)0360(FIN)</i></p>	<p><i>6. What actions has the Minister taken to ensure that women's needs are taken into account when delivering the Finance portfolio? OAQ(4)0360(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I have taken steps to ensure that women's needs are reflected in the equality impact assessment of the Welsh Government's budget, which has been strengthened over the past few years.</p>	<p>Rwyf wedi cymryd camau i sicrhau bod anghenion menywod yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad o effaith cyllideb Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb, a atgyfnerthwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Julie Morgan Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Minister for that response. The gender impact of the Westminster coalition's tax and benefit changes was shown in an analysis by the Institute for Fiscal Studies and the Fawcett Society, that is, that they disproportionately affected women. How does she ensure that that does not happen when she plans changes to the finances of the Welsh Government?</p>	<p>Diolchaf i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Dangoswyd effaith ar sail rhyw newidiadau i drethi a budd-daliadau clymblaid San Steffan mewn dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Chymdeithas Fawcett, hynny yw, eu bod yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Sut mae hi'n sicrhau na fydd hynny'n digwydd pan fydd yn cynllunio newidiadau i gyllid Llywodraeth Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>As I said—I thank Julie Morgan for that question—as a result of evidence from the Fawcett Society and the IFS, we have taken a much more robust approach to the equality impact assessment. That looks at the consideration of the impact on women of our budget. I would also say that establishing a budget advisory group for equalities is assisting in that respect, because it includes representatives from the women's equality network.</p>	<p>Fel y dywedais—diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn hwnnw—o ganlyniad i dystiolaeth gan Gymdeithas Fawcett a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, rydym wedi mabwysiadu ymagwedd fwy cadarn o lawer tuag at yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae hwnnw'n ystyried effaith ein cyllideb ar fenywod. Byddwn hefyd yn dweud bod sefydlu grŵp cynghori ar y gyllideb ar gyfer cydraddoldebau yn helpu yn hynny o beth, oherwydd mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r rhydwraith cydraddoldeb menywod.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, the chief executive of Chwarae Teg said, in November last year,</p> <p>'Wales is guilty of an "occupational segregation" which confines many talented women to lower-skilled and lower-paid jobs due to cultural constraints, lack of job flexibility and out-dated views about gender roles.'</p>	<p>Weinidog, dywedodd prif weithredwr Chwarae Teg, ym mis Tachwedd y llynedd,</p> <p>Mae Cymru'n euog o "wahanu galwedigaethol" sy'n cyfyngu llawer o fenywod talentog i swyddi â sgiliau is a llai o gyflog oherwydd cyfyngiadau diwylliannol, diffyg hyblygrwydd swyddi a barn hen ffasiwn am rolau'r rhywiau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

What priority did the Minister give to advancing the role of women in the workplace when delivering the finance portfolio?

Pa flaenoriaeth a roddodd y Gweinidog i hyrwyddo rôl menywod yn y gweithle wrth gyflwyno'r portffolio cyllid?

13:50 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, Chwarae Teg's flagship Agile Nation project is something that we support as the Welsh Government, and also the European structural funds support it. That is about promoting gender equality, supporting career advancement, and contributing to a reduction in the gender pay gap.

Wrth gwrs, mae prosiect Cenedl Hyblyg blaenllaw Chwarae Teg yn rhywbeth a gefnogwn fel Llywodraeth Cymru, ac mae'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn ei gefnogi hefyd. Mae a wnelo hynny â hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, cefnogi hybu gyrfa, a chyfrannu at leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the research shows that women are disproportionately affected by the UK Government's welfare reform, what contingencies have you put in place to specifically help to counteract those adverse impacts?

Gan fod yr ymchwil yn dangos bod diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, pa gynlluniau wrth gefn yr ydych wedi'u rhoi ar waith er mwyn helpu'n benodol i wrthbwysu'r effeithiau andwyol hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That also goes back to the importance of our equality impact assessment in terms of budget judgments. Clearly, as women are particularly affected, issues and areas such as supporting the development of affordable childcare and sustaining it are a great key to enabling women to access and stay in work. I believe that the Flying Start investment helps to deliver that.

Mae hynny hefyd yn mynd yn ôl at bwysigrwydd ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o ran dyfarniadau'r gyllideb. Yn amlwg, gan fod hyn yn effeithio ar fenywod, mae materion a meysydd fel cefnogi'r gwaith o ddatblygu gofal plant fforddiadwy a'i gynnal yn allweddol iawn i alluogi menywod i gael gafael ar waith ac aros mewn gwaith. Credaf fod buddsoddiad Dechrau'n Deg yn helpu i gyflawni hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwerth am Arian

Value for Money

13:51 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth am arian ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0351(FIN)

7. Will the Minister make a statement on value for money across the Welsh Government's budget? OAQ(4)0351(FIN)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government is committed to ensuring that we secure value for money for every pound that we spend.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian am bob punt a wariwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am heartened to hear that, Minister, because over £3.28 million was spent in three years on attending overseas events and taking stalls in predominantly food-based fairs, but that figure does not include the stall costs for the attendance of Hybu Cig Cymru, and neither are you able to reveal the cost of civil servant attendance, their travel costs or their accommodation costs. Given that you cannot identify those costs, how are you ensuring and measuring value for money for that expenditure?

Mae'n fy nghalonogi i glywed hynny, Weinidog, oherwydd gwariwyd dros £3.28 miliwn mewn tair blynedd ar fynd i ddigwyddiadau tramor a threfnu stondinau mewn ffeiriau bwyd yn bennaf, ond nid yw'r ffigur hwnnw yn cynnwys costau stondinau ar gyfer presenoldeb Hybu Cig Cymru, ac nid ydych ychwaith yn gallu datgelu cost presenoldeb gweision sifil, eu costau teithio na'u costau llety. O gofio na allwch nodi'r costau hynny, sut rydych yn sicrhau ac yn mesur gwerth am arian ar gyfer y gwariant hwnnw?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I cannot help thinking that Antoinette Sandbach does not want Wales and its food producers and businesses to go out to make sure that we are exporting, selling and demonstrating what the worth of Wales is. I am very disappointed in her question.

Ni allaf ond meddwl nad yw Antoinette Sandbach am i Gymru a'i chynhyrchwyr a'i busnesau bwyd fynd allan i wneud yn siŵr ein bod yn allforio, gwerthu ac arddangos gwerth Cymru. Mae ei chwestiwn yn fy siomi'n fawr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the opposition spokesperson. No, I am sorry; I call Llyr Gruffydd. Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid. Na, mae'n ddrwg gennyf, galwaf ar Llyr Gruffydd.
- 13:52 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch, Lywydd. Minister, best value or value for money is a key consideration when it comes to public procurement, which does not necessarily mean going for the cheapest option, as we all know. The third sector in Wales has been shown to offer a higher return on investment when it comes to delivering public services through procured work and, of course, the amount of money that remains within the local economy is also higher when you adopt that approach. Will the Government undertake to do more to encourage and support social enterprise, for example, to deliver more public services in Wales? Diolch, Lywydd. Weinidog, mae gwerth gorau neu werth am arian yn ystyriaeth allweddol ym maes caffael cyhoeddus, nad yw o reidrwydd yn golygu mynd am yr opsiwn rhataf, fel y gŵyr pob un ohonom. Dangoswyd bod y trydydd sector yng Nghymru yn cynnig mwy o elw o fuddsoddi pan ddaw yn fater o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy waith a gaffaelwyd ac, wrth gwrs, mae swm yr arian sy'n aros yn yr economi leol hefyd yn uwch pan fabwysiedir yr ymagwedd honno. A wnaiff y Llywodraeth ymrwymo i wneud mwy i annog a chefnogi mentrau cymdeithasol, er enghraifft, er mwyn darparu mwy o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?
- 13:52 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
It certainly will, and I am sure that you will be aware of the important joint-bidding guide to assist the third sector, which was produced by the Wales Co-operative Centre and the Wales Council for Voluntary Action. Yn sicr bydd yn gwneud hynny, ac rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r canllaw ceisiadau ar y cyd i helpu'r trydydd sector, a luniwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
- 13:53 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
One key aspect of delivering value for money is, surely, to see that services, and indeed capital investment, are produced to a sustainable standard. In that context, Minister, do you share my concern that representatives of the Welsh Government who are working with local authorities to deliver the twenty-first century schools programme have recently signalled a change of emphasis in terms of moving from transformational schools with a life of up to 60 years to schools with a life of some 30 years, and cutting back on some of the sustainability features of the builds? In that context, Minister, do you think that it would be more prudent, rather than cutting the cost of the builds, to investigate alternative innovative sources of funding, such as in the Republic of Ireland where the European Investment Bank has helped to safeguard the future of the school-building programme? Onid agwedd allweddol ar sicrhau gwerth am arian yw sicrhau bod y gwasanaethau hynny, ac yn wir fuddsoddiad cyfalaf, yn cael eu cynhyrchu i safon gynaliadwy. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryder bod cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflwyno'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr 21ain wedi nodi yn ddiweddar newid pwyslais o ran symud o ysgolion gweddnewidiol sydd ag oes o hyd at 60 mlynedd i ysgolion sydd ag oes o tua 30 mlynedd, a thorri'n ôl ar rai o nodweddion cynaliadwyedd yr adeiladau hynny? Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, a gredwch y byddai'n ddoethach, yn hytrach na thorri costau'r adeiladau, ymchwilio i ffynonellau arloesol amgen o gyllid, megis yng Ngweriniaeth Iwerddon lle mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi helpu i ddiogelu dyfodol y rhaglen adeiladu ysgolion?
- 13:53 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am not aware of those changes. Obviously, that is a matter for the Minister for Education and Skills. However, I know that you would welcome, and have welcomed, the use of the local government borrowing initiative, which is an innovative way of assisting local authorities with their prudential borrowing. We are looking for further opportunities for innovative finance and talking closely to the EIB. Nid wyf yn ymwybodol o'r newidiadau hynny. Yn amlwg, mater i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yw hynny. Fodd bynnag, gwn y byddech yn croesawu, a'ch bod wedi croesawu, y defnydd o'r fenter benthycu llywodraeth leol, sy'n ffordd arloesol o gynorthwyo awdurdodau lleol gyda'u benthycu darbodus. Rydym yn chwilio am gyfleoedd pellach am gyllid arloesol ac yn trafod hyn yn fanwl â Banc Buddsoddi Ewrop.
- 13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
And now I call the opposition spokesperson, Paul Davies. Ac yn awr galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.

13:54	Paul Davies Bywgraffiad Biography	<p>Diolch, Lywydd. Minister, as you know, the Finance Committee recently published a report on enterprise zones that challenged their objectives and achievements, and revealed that scrutinising the zones was somewhat difficult. As Minister for Finance, can you tell us what financial arrangements are in place to monitor the outputs achieved by enterprise zones in Wales to ensure that they are ultimately providing value for money?</p>	<p>Diolch, Lywydd. Weinidog, fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid yn ddiweddar adroddiad ar ardaloedd menter sy'n herio eu hamcanion a'u cyflawniadau, ac yn dangos bod y gwaith o graffu ar yr ardaloedd braidd yn anodd. Fel y Gweinidog Cyllid, a allwch ddweud wrthym pa drefniadau ariannol sydd ar waith i fonitro'r allbynnau a gyflawnwyd gan ardaloedd menter yng Nghymru i sicrhau eu bod yn y pen draw yn darparu gwerth am arian?</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>Clearly, that is a matter for those who are leading the enterprise zones locally and, of course, they are being held to account by the Minister. Clearly, it is transparent in terms of the expectations that we have for value for money.</p>	<p>Yn amlwg, mater i'r rhai sy'n arwain yr ardaloedd menter yn lleol yw hynny ac, wrth gwrs, cânt eu dwyn i gyfrif gan y Gweinidog. Yn amlwg, mae'n dryloyw o ran y disgwyliadau sydd gennym ar gyfer gwerth am arian.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Paul Davies Bywgraffiad Biography	<p>I am interested, Minister, that you say that this is the responsibility of those who are leading the enterprise zones in Wales. During the committee's evidence session with the chairs of two of the enterprise zones, we were told that the zones were not given specific budgets to work with. Could you explain, Minister, how enterprise zone boards are supposed to prioritise, develop plans and advise the Government without knowing the specific level of funding that the Welsh Government is making available? Also, could you tell us how, in those particular circumstances, the monitoring of value for money is being achieved?</p>	<p>Mae'n ddiddorol eich clywed yn dweud, Weinidog, mai cyfrifoldeb y rhai sy'n arwain yr ardaloedd menter yng Nghymru yw hyn. Yn ystod sesiwn dystiolaeth y pwyllgor gyda chadeiryddion dwy o'r ardaloedd menter, dywedwyd wrthym nad oedd yr ardaloedd yn cael cyllidebau penodol i weithio gyda hwy. A allech egluro, Weinidog, sut y disgwylir i fyrddau ardaloedd menter flaenoriaethu, datblygu cynlluniau a chynghori'r Llywodraeth heb wybod beth yw'r lefel benodol o gyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru? Hefyd, a allech ddweud wrthym sut, o dan yr amgylchiadau penodol hynny, y mae'r gwaith o flaenoriaethu gwerth am arian yn cael ei gyflawni?</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:55	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>It is very clear that the Finance Committee's report has been welcomed by the Minister. Many of those recommendations are already being implemented, as she has reported. However, it is very important that engagement with enterprise zones is about ensuring that there are projects that are appropriate to the delivery of the outcome of enterprise zones. They will be reflected in bids to our Wales infrastructure investment plan.</p>	<p>Mae'n amlwg iawn bod adroddiad y Pwyllgor Cyllid wedi cael ei groesawu gan y Gweinidog. Mae llawer o'r argymhellion hynny eisoes yn cael eu rhoi ar waith, fel yr adroddwyd ganddi. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn bod a wnelo ymgysylltu ag ardaloedd menter â sicrhau bod prosiectau ar gael sy'n briodol i sicrhau canlyniad ardaloedd menter. Cânt eu hadlewyrchu mewn cynigion i gynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Bil Drafft Cymru		Draft Wales Bill		
13:56	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	<p>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau Bil Cymru drafft ar ei dyletswyddau? OAQ(4)0355(FIN)</p>	<p>8. Will the Minister make a statement on the implications of the draft Wales Bill on her duties? OAQ(4)0355(FIN)</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:56	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>With the passage of the draft Wales Bill, the National Assembly and the Welsh Government will acquire important new powers in relation to borrowing and taxation. I am leading the work to implement and make best use of those powers.</p>	<p>Gyda hynt Bil drafft Cymru, bydd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn cael pwerau newydd pwysig mewn perthynas â benthyca a threthiant. Rwy'n arwain y gwaith o weithredu a gwneud y defnydd gorau o'r pwerau hynny.</p>	Senedd.tv Fideo Video

13:56	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>A ydych chi'n rhannu fy mhryder i nad yw'r Bil drafft yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer creu swyddogaeth Trysorlys, sef swyddogaeth y bydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru er mwyn ymdrin â phwerau benthyca newydd a phwerau trethu posibl, gan gynnwys pwerau dros dreth incwm? Yn ogystal, a ydych hefyd yn rhannu fy mhryder nad oes darpariaeth ddigonol i sicrhau sut y bydd gwaith craffu'n cael ei wneud ar y gyllideb yn y cyd-destun newydd, ac mewn perthynas â rôl holl Aelodau Cynulliad Cymru i sicrhau bod gwaith craffu digonol yn cael ei wneud ar y pwerau newydd?</p>	<p>Do you share my concern that the draft Bill does not make adequate provision for the creation of a Treasury function, which is a function that will be required by the Welsh Government in order to deal with the new borrowing powers and possible taxation powers, including powers over income tax? Furthermore, do you share my concern that there is not adequate provision made to ensure the scrutiny of the budget in the new context, and with regard to the role of all Assembly Members in ensuring that there is adequate scrutiny of the new powers?</p>
13:57	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>It is very important that we develop our Treasury. Clearly, that is what we are doing in taking the lead on that. We are also engaging at official and inter-governmental level in terms of the costs and impacts of developing that Treasury, in order to deliver our new responsibilities. I certainly would want to ensure that there was full and clear opportunity for scrutiny, in terms of the development of the Treasury and its delivery, in terms of its responsibilities.</p>	<p>Mae'n bwysig iawn ein bod yn datblygu ein Trysorlys. Yn amlwg, dyna'r hyn yr ydym yn ei wneud wrth arwain y blaen ar hynny. Rydym hefyd yn cymryd rhan ar lefel swyddogol a rhyng-lywodraethol o ran costau ac effeithiau datblygu'r Trysorlys hwnnw, er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau newydd. Yn sicr, byddwn am sicrhau bod cyfle llawn a chlir i graffu, o ran datblygu'r Trysorlys a'i ddarpariaeth, o ran ei gyfrifoldebau.</p>
13:57	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, the draft Wales Bill will of course give you borrowing powers. What consideration are you giving now to the ways in which you might consult with and report to this Assembly on the terms on which those moneys might be borrowed?</p>	<p>Weinidog, bydd Bil drafft Cymru wrth gwrs yn rhoi pwerau benthyca ichi. Pa ystyriaeth a roddwch yn awr i'r ffyrdd y gellid ymgynghori â'r Cynulliad hwn a bod yn atebol iddo ar y telerau y gellid benthyca'r arian hwnnw?</p>
13:57	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Clearly, we look forward to accessing those borrowing powers. We feel that we could have a higher limit than £500 million. We need that funding to deliver on our Wales infrastructure investment plan and the infrastructure needs of Wales. We are quite clear about our priorities. Of course, I will come back to the Assembly on the delivery of those plans and the way in which we will use the borrowing powers.</p>	<p>Yn amlwg, rydym yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r pwerau benthyca hynny. Teimlwn y gallem gael terfyn uwch na £500 miliwn. Mae arnom angen y cyllid hwnnw i gyflawni cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru ac anghenion seilwaith Cymru. Rydym yn eithaf clir ynglŷn â'r blaenoriaethau. Wrth gwrs, dof yn ôl i'r Cynulliad ar gyflawni'r cynlluniau hynny a'r ffordd y byddwn yn defnyddio'r pwerau benthyca.</p>
Asesiad Ariannol Trylwyr o Filiau		Thorough Financial Assessment of Bills
13:58	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>9. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau asesiad ariannol trylwyr o Filiau? OAQ(4)0362(FIN)</p>	<p>9. What steps does the Minister take to ensure the thorough financial assessment of Bills? OAQ(4)0362(FIN)</p>
13:58	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We undertake a financial assessment at a number of key points in the development of legislation, culminating in the regulatory impact assessment. We keep costs under review as legislation progresses.</p>	<p>Cynhaliwn asesiad ariannol ar nifer o adegau allweddol yn natblygiad y ddeddfwriaeth, gan arwain at yr asesiad effaith rheoleiddiol. Adolygwn gostau yn rheolaidd wrth i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi.</p>

13:58	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i></p> <p>While considering the Social Services and Wellbeing (Wales) Bill, the Health and Social Care Committee came to the conclusion that it was not satisfied with the information that had been made available to it on the cost of the Bill, and had not received any evidence to convince the committee that the Bill would be cost-neutral, as claimed by the Deputy Minister. Are you satisfied with the financial information that has come forward with this Bill, and do you still maintain that the Bill is indeed cost-neutral?</p>	<p>Wrth ystyried y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), daeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r casgliad nad oedd yn fodlon ar y wybodaeth a ryddhawyd am gost y Bil, ac nad oedd wedi cael unrhyw dystiolaeth i argyhoeddi'r pwyllgor y byddai'r Bil yn niwtral o ran cost, fel yr honnwyd gan y Dirprwy Weinidog. A ydych yn fodlon ar y wybodaeth ariannol a gyflwynwyd gyda'r Bil hwn, ac a ydych yn honni o hyd bod y Bil yn wir yn niwtral o ran cost?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:59	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>As we all know, this legislation—and I know that you recognise this, as leader of the Welsh Liberal Democrats—is going to transform the way that we deliver services and make them sustainable. The Deputy Minister has made it clear that there is no additional money, but has provided transitional funding. Of course, that is the important way to support our partners that deliver the legislation. There is also a commitment by Gwenda Thomas to develop secondary legislation, where she will assess the costs and benefits in specific areas.</p>	<p>Fel y gwyr pob un ohonom, mae'r ddeddfwriaeth hon—a gwn eich bod yn cydnabod hyn, fel arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—yn mynd i drawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau a'u gwneud yn gynaliadwy. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi nodi'n glir nad oes arian ychwanegol, ond mae wedi darparu cyllid trosiannol. Wrth gwrs, mae hynny'n ffordd bwysig o gefnogi ein partneriaid sy'n cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Ceir hefyd ymrwymiad gan Gwenda Thomas i ddatblygu is-ddeddfwriaeth, lle bydd yn asesu'r costau a'r manteision mewn meysydd penodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:59	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, the Finance Committee made it clear last term that there are real concerns around the costs of already-enacted legislation—that they are not fully known, fully budgeted, or, indeed, transparent. Can you tell us what work you have done since the publication of the Finance Committee's report to rectify this, and will you commit to providing up-to-date figures on the actual costs of already-enabled legislation?</p>	<p>Weinidog, nododd y Pwyllgor Cyllid yn glir y tymor diwethaf fod pryderon gwirioneddol ynghylch costau deddfwriaeth sydd eisoes wedi'i deddfu—nad ydynt yn gwbl hysbys, nad ydynt wedi'u cyllidebu'n llawn, ac nad ydynt, yn wir, yn dryloyw. A allwch ddweud wrthym pa waith rydych wedi ei wneud ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyllid i unioni hyn, ac a wnewch chi ymrwymo i ddarparu'r ffigurau diweddaraf ar gostau gwirioneddol deddfwriaeth sydd eisoes wedi'i galluogi?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:00	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>It is very important—and I am sure the finance spokesperson, Paul Davies, will recognise this—that we have addressed this in our budget for the next two years. We are making sure that preparations for regulatory impact assessments are more realistically built into the legislative process, and making sure that there is rigour, as I said, in terms of the development, and then the delivery and review, of the implementation costs of legislation.</p>	<p>Mae'n bwysig iawn—ac rwy'n siŵr y bydd y llefarydd cyllid, Paul Davies, yn cydnabod hyn—ein bod wedi mynd i'r afael â hyn yn ein cyllideb ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Rydym yn sicrhau bod paratodau ar gyfer asesiadau effaith rheoleiddiol yn cael eu cynnwys mewn ffordd fwy realistig yn y broses ddeddfwriaethol, ac yn sicrhau bod trylwyrdd, fel y dywedais o ran datblygu, ac yna o ran cyflawni ac adolygu costau gweithredu'r ddeddfwriaeth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Portffolio Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth</p>		<p>Local Government and Government Business Portfolio</p>	
14:00	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb a ddyrennir i'r portffolio Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth? OAQ(4)0354(FIN)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister make a statement on the budget allocation to the Local Government and Government Business portfolio? OAQ(4)0354(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:00	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>The budget for the local government main expenditure group for 2014-15 is £4.6 billion, as set out in the final budget approved by the Assembly in December.</p>	<p>Y gyllideb ar gyfer prif grŵp gwariant llywodraeth leol ar gyfer 2014-15 yw £4.6 biliwn, fel y nodir yn y gyllideb derfynol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:01	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, your strategic framework for libraries says that your Government is committed to maintaining a strong network of public libraries across Wales. How do you reconcile this with the fact that many of our libraries are now earmarked for closure?</p>	<p>Weinidog, dywed eich fframwaith strategol ar gyfer llyfrgelloedd fod eich Llywodraeth wedi ymrwymo i gynnal rhwydwaith cryf o lyfrgelloedd cyhoeddus ar draws Cymru. Sut rydych yn cysoni hyn â'r ffaith bod llawer o'n llyfrgelloedd bellach wedi'u clustnodi ar gyfer cau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I know the Minister for Culture and Sport has reported on the investment he is making of around £12 million in modernising 89 libraries in Wales as part of the community learning libraries programme. Again, this is an area where we will be working very closely across portfolios, and, indeed, with local government, to assist it in looking at ways in which it can support these important services.</p>	<p>Rwy'n gwybod bod y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon wedi cyflwyno adroddiad ar y buddsoddiad o tua £12 miliwn y mae'n ei wneud i foderneiddio 89 o lyfrgelloedd yng Nghymru fel rhan o'r rhaglen llyfrgelloedd dysgu cymunedol. Unwaith eto, mae hwn yn faes lle y byddwn yn gweithio'n agos iawn ar draws portffolios, ac, yn wir, â llywodraeth leol, i'w chynorthwyo i edrych ar ffyrdd o gefnogi'r gwasanaethau pwysig hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, while the grant for the regional collaboration fund has not been subject to budget cuts, funding for Safer Communities and the Care and Social Services Inspectorate Wales was cut in real terms by nearly 2%. Given the Williams commission's assertion that:</p> <p>'evidence shows clearly that collaboration has had little impact on service standards or on attaining outcomes'</p> <p>and that strong leadership is required, would you outline what discussions you have had with the Minister for local government in order to ensure that this strong leadership is provided, and it is not a case of just throwing more money at it?</p>	<p>Weinidog, er nad oedd y grant ar gyfer y gronfa gydweithredu ranbarthol wedi bod yn destun toriadau yn y gyllideb, torrwyd cyllid ar gyfer Cymunedau Mwy Diogel ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn termau real bron 2%. O gofio honiad comisiwn Williams fod:</p> <p>'y dystiolaeth yn dangos yn glir nad yw trefniadau cydweithio wedi cael fawr ddim effaith ar safonau gwasanaeth nac ar gyflawni canlyniadau'</p> <p>a bod angen arweinyddiaeth gref, a fydddech yn amlinellu pa drafodaethau a gawsoch â'r Gweinidog llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod yr arweinyddiaeth gref hon yn cael ei darparu, ac nad achos o daflu arian ati yn unig yw hyn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I am sure you will agree that you would not want to undermine those important collaborative projects that serve your communities, constituency and region. It is very important that we look at the outcomes of collaboration in terms of delivery and, indeed, in terms of innovation.</p>	<p>Wel, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno na fydddech am danseilio'r prosiectau cydweithredol pwysig hynny sy'n gwasanaethu eich cymunedau, eich etholaeth a'ch rhanbarth. Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar ganlyniadau cydweithio o ran darpariaeth ac, yn wir, o ran arloesedd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, while recognising the difficult choices that local government has to make, there are clearly examples, whether it is libraries or leisure services, where closure will lead to councils already admitting that they will not be able to meet national Welsh Government programmes. What guidance is issued to local authorities in their consideration of such proposals—for example, the closure of Plas Madoc leisure centre in Wrexham?</p>	<p>Weinidog, wrth gydnabod y dewisiadau anodd y mae llywodraeth leol yn gorfod eu gwneud, mae'n amlwg bod enghreifftiau, boed yn llyfrgelloedd neu'n wasanaethau hamdden, lle y bydd cau yn arwain at gynghorau eisoes yn cyfaddef na fyddant yn gallu cyflawni rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Pa ganllawiau a roddir i awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried y fath gynigion—er enghraifft, cau canolfan hamdden Plas Madoc yn Wrecsam?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I have already referred, in answer to an earlier question, to the important new £5 million pilot fund that we have—a loan fund—for local authorities in terms of safeguarding and developing leisure services. I am sure that there will be other opportunities of that kind to work with local authorities on these important services.</p>	<p>Rwyf eisoes wedi cyfeirio, mewn ateb i gwestiwn cynharach, at y gronfa beilot £5 miliwn newydd bwysig sydd gennym—cronfa benthyciadau—i awdurdodau lleol o ran diogelu a datblygu gwasanaethau hamdden. Rwy'n siŵr y bydd cyfleoedd eraill o'r fath i weithio gydag awdurdodau lleol ar y gwasanaethau pwysig hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Pwerau Ariannol Ychwanegol

Additional Financial Powers

- 14:03 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
11. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Gweinidogion y DU am bwerau ariannol ychwanegol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru? OAQ(4)0353(FIN)
- 14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I have regular discussions with the Secretary of State for Wales and the Chief Secretary to the Treasury regarding all financial matters affecting Wales, including the proposed new financial powers in the draft Wales Bill.
- 14:04 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank the Minister for that response. Now that we are finally getting borrowing powers, and following the reports in the Sunday papers about the fact that Legal & General Group plc is intending to invest £5 billion over the next 10 years in housing and infrastructure, what proposals does she have to interest organisations such as Legal & General and other pension funds to invest in Welsh infrastructure projects over the next 10 years?
- 14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, fortunately, we have already moved ahead, before getting those borrowing powers, working with the private sector, particularly with the implementation of the housing finance grant. Working collaboratively with the private sector, we are accessing capital markets that are financing our investment in housing and in infrastructure more broadly. This does reflect the strong financial covenant that these sectors represent. Those institutional investors are important to us.
- 14:05 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Would the Minister kindly outline discussions on the possible timetable for enacting new financial powers?
- 14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Clearly, we have a draft Wales Bill. We appeared before the Welsh Affairs Select Committee on Monday, the First Minister and I, and we look forward to the Bill being published, hopefully after the Queen's Speech, and coming through to Royal Assent in 2015. However, we have the promise of early access to borrowing powers because of our Welsh Development Agency powers, and I am working inter-governmentally with the Chief Secretary to the Treasury to access those.
- 11. What recent discussions has the Minister had with UK Ministers about additional financial powers planned for Wales? OAQ(4)0353(FIN)*
- Caf drafodaethau rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch yr holl faterion ariannol sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys y pwerau ariannol newydd a gynigir ym Mil drafft Cymru.
- Diolchaf i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Gan ein bod o'r diwedd yn cael pwerau benthyca, ac yn dilyn yr adroddiadau yn y papurau dydd Sul am y ffaith bod Grŵp Legal & General ccc yn bwriadu buddsoddi £5 biliwn yn ystod y 10 mlynedd nesaf mewn tai a seilwaith, pa gynlluniau sydd ganddi i ennyn diddordeb sefydliadau fel Legal & General a chronfeydd pensiwn eraill i fuddsoddi mewn mhrosiectau seilwaith Cymru dros y 10 mlynedd nesaf?
- Wel, yn ffodus, rydym eisoes wedi symud ymlaen, cyn cael y pwerau benthyca hynny, gan weithio gyda'r sector preifat, yn enwedig i weithredu'r grant cyllid tai. Gan weithio ar y cyd â'r sector preifat, rydym yn cael mynediad i farchnadoedd cyfalaf sy'n ariannu ein buddsoddiad mewn tai a seilwaith yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfamod ariannol cryf y mae'r sectorau hyn yn ei gynrychioli. Mae'r buddsoddwyr sefydliadol hynny yn bwysig i ni.
- A fyddai'r Gweinidog mor garedig ag amlinellu trafodaethau ar yr amserlen bosibl ar gyfer deddfu'r pwerau ariannol newydd?
- Yn amlwg, mae gennym Fil drafft Cymru. Bu inni ymddangos gerbron y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ddydd Llun, y Prif Weinidog a minnau, ac rydym yn edrych ymlaen at weld y Bil yn cael ei gyhoeddi, gobeithio ar ôl Araith y Frenhines, ac yn cael Cydsyniad Brenhinol yn 2015. Fodd bynnag, mae gennym yr addewid o fynediad cynnar i bwerau benthyca oherwydd pwerau Awdurdod Datblygu Cymru, ac rwy'n gweithio'n rhynglywodraethol gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i gael gafael arnynt.

14:05 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The First Minister has said that income tax devolution proposals containing the so-called lockstep are 'pretty much useless'. That may be an analysis that this side could agree with. However, we know that income tax can unlock larger amounts of borrowing. With borrowing being crucial for Government spending, are you seeking to use your influence as the Welsh Minister to get that lockstep removed from the current UK legislation?

Mae'r Prif Weinidog wedi dweud bod cynigion datganoli treth incwm sy'n cynnwys y system 'lockstep' fel y'i gelwir yn yr Alban fwy neu lai yn dda i ddim. Gall hynny fod yn ddadansoddiad y gallai'r ochr hon gytuno ag ef. Fodd bynnag, gwyddom y gall treth incwm ddatgloi symiau mwy o fenthyciadau. Gyda benthyciadau yn hanfodol ar gyfer gwariant y Llywodraeth, a ydych yn ceisio defnyddio eich dylanwad fel Gweinidog Cymru i ddileu'r system 'lockstep' honno o ddeddfwriaeth gyfredol y DU?

14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have made it very clear publicly, with the First Minister on Monday in the Welsh Affairs Select Committee, and also in my response to the draft Wales Bill, that the lockstep is inappropriate. It certainly was not recommended by either Gerry Holtham or the cross-party Silk commission. As the First Minister says, 'What's the use of having one gear in the car?'

Rwyf wedi ei gwneud yn glir yn gyhoeddus, gyda'r Prif Weinidog ddydd Llun yn y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, a hefyd yn fy ymateb i Fil drafft Cymru, fod y system 'lock-step' yn amhriodol. Yn sicr, ni chafodd ei argymhell gan Gerry Holtham na chomisïwn trawsbleidiol Silk. Fel y dywed y Prif Weinidog, 'Beth yw diben cael un gêr yn y car?'

Y Portffolio Tai ac Adfywio

Housing and Regeneration Portfolio

14:06 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau sydd ganddi i ychwanegu at y gyllideb gyfalaf ar gyfer y portffolio Tai ac Adfywio? OAQ(4)0348(FIN)

12. Will the Minister make a statement on any plans she has to supplement the capital budget for the Housing and Regeneration portfolio? OAQ(4)0348(FIN)

14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Since 2012, we have generated additional investment of over £0.5 billion to support housing initiatives through both allocations from capital reserves and innovative finance.

Ers 2012, rydym wedi cynhyrchu buddsoddiad ychwanegol o dros £0.5 biliwn i gefnogi mentrau tai drwy ddyraniadau o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn a chyllid arloesol.

14:06 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. Given the restrictions on capital finance at the moment, what further innovations are you looking at to try to ensure that, when you invest in schools, houses or other concrete proposals in a particular area, they are able to generate regeneration from that and local authorities are able to raise additional money to do that?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. O ystyried y cyfyngiadau ar gyllid cyfalaf ar hyn o bryd, pa dduilliau arloesol pellach yr ydych yn eu hystyried er mwyn sicrhau, pan fyddwch yn buddsoddi mewn ysgolion, tai neu gynigion cadarn eraill mewn ardal benodol, y gallant greu dulliau adfywio o hynny ac y gall awdurdodau lleol godi arian ychwanegol i wneud hynny?

14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, we are moving ahead, working in partnership, particularly with Community Housing Cymru and local authorities, to ensure that we have innovative sources of finance for housing. I have already mentioned the investment earlier on in an answer to a question, but we are also looking, for example, at a pilot affordable housing land scheme in 2014-15, which will be through financial transactions. I believe that it is our work on procurement and community benefits that will enable us to move forward in terms of regeneration. I visited a project recently and the first thing the contractor said to me was, 'I'd like to introduce you to local young people who are now our apprentices. We are regenerating this part of our town'.

Yn amlwg, rydym yn symud ymlaen, gan weithio mewnartneriaeth, yn enwedig â Chartrefi Cymunedol Cymru ac awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod gennym ffynonellau arloesol o gyllid ar gyfer tai. Rwyf eisoes wedi sôn am y buddsoddiad yn gynharach mewn ateb i gwestiwn, ond rydym hefyd yn edrych, er enghraifft, ar gynllun peilot tir ar gyfer tai fforddiadwy yn 2014-15, a wneir drwy drafodion ariannol. Credaf mai ein gwaith ar gaffael a buddiannau cymunedol fydd yn ein galluogi i symud ymlaen o ran adfywio. Ymwelais â phrosiect yn ddiweddar a'r peth cyntaf a ddywedodd y contractwr wrthyf oedd, 'Hoffwn eich cyflwyno i bobl ifanc leol sy'n gweithio fel prentisiaid inni bellach. Rydym yn adfywio'r rhan hon o'n tref'.

14:08	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Given that the borrowing cap agreed between the Welsh Government and HM Treasury for local authorities to exit the housing revenue account subsidy leaves a borrowing headroom of only £471 million, how do you anticipate the stock retention of local authorities in Wales funding the achievement of the Welsh housing quality standard and maintaining that for the 30 years required?</p>	<p>O ystyried nad yw'r cap benthycya y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM i awdurdodau lleol adael cymhorthdal y cyfrif refeniw tai ond yn gadael swm benthycya wrth gefn o £471 miliwn, sut rydych yn rhagweld y bydd cadw stoc awdurdodau lleol yng Nghymru yn ariannu cyflawniad safon ansawdd tai Cymru ac yn ei gynnal am y 30 mlynedd angenrheidiol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>We were pleased to come to an agreement with the UK Government to enable those 11 stock-retaining local authorities to exit the HRAS and become self-financing. The settlement will benefit those authorities. They will have the financial flexibility to invest in housing, with tenants benefitting from improvements to their homes, which include, of course, meeting the Welsh housing quality standard.</p>	<p>Roeddem yn falch o ddod i gytundeb â Llywodraeth y DU i alluogi'r 11 awdurdod lleol hynny sy'n cadw stoc i adael cymhorthdal y cyfrif refeniw tai ac ariannu eu hunain. Bydd y setliad o fudd i'r awdurdodau hynny. Bydd ganddynt yr hyblygrwydd ariannol i fuddsoddi mewn tai, gyda thenantiaid yn elwa ar welliannau i'w cartrefi, sy'n cynnwys, wrth gwrs, gyrraedd safon ansawdd tai Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Trysorlys i Gymru</p>	<p>A Welsh Treasury</p>	
14:09	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p><i>13. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sefydlu Trysorlys i Gymru? OAQ(4)0349(FIN)</i></p>	<p><i>13. What progress is being made towards setting up a Welsh Treasury? OAQ(4)0349(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Work is underway to put in the capacity and capability the Welsh Government needs to manage new tax and borrowing powers effectively. In doing so, we will be building on our existing strategic finance functions.</p>	<p>Mae gwaith ar y gweill i gynnig y capasiti a'r gallu sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru i reoli pwerau treth a benthycya newydd yn effeithiol. Wrth wneud hynny, byddwn yn adeiladu ar ein swyddogaethau cyllid strategol presennol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for your response, Minister. May I, first of all, congratulate you on successfully making the case for devolving tax-raising and borrowing powers? Minister, what consideration has been given to where the treasury department would be situated and would the department's remit be open to scrutiny by the Assembly?</p>	<p>Diolch am eich ymateb, Weinidog. A gaf yn gyntaf eich llongyfarch ar ddadlau'n llwyddiannus o blaid datganoli pwerau codi trethi a benthycya? Weinidog, pa ystyriaeth a roddwyd i ble y byddai adran y trysorlys yn cael ei lleoli ac a fyddai cylch gwaith yr adran yn agored i broses graffu gan y Cynulliad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I have already responded to the question on scrutiny. I am very pleased to confirm again that I am committed to ensuring we have a thorough scrutiny regime in place, not just in terms of the Silk agenda and what we will get in terms of new powers and responsibilities, but also, in terms of where the Welsh treasury will be located, it will be integrated into the existing finance functions of the Welsh Government.</p>	<p>Rwyf eisoes wedi ymateb i'r cwestiwn ar graffu. Rwy'n falch iawn o gadarnhau eto fy mod yn ymrwymedig i sicrhau bod gennym system graffu drylwyr ar waith, nid yn unig o ran agenda Silk a'r hyn a gawn o ran pwerau a chyfrifoldebau newydd, ond hefyd, o ran ble y caiff trysorlys Cymru ei leoli. Caiff ei integreiddio yn swyddogaethau cyllid presennol Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:10 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, given the much discussed Williams commission report this week, acknowledging the huge scope of the public sector in Wales, and, indeed, recommending a reduction of the different levels and layers within the public sector, will you rule out setting up a Welsh treasury at a time when other public sector bodies are being cut, reorganised or scrapped, and perhaps remind the Member for Swansea East that creating a bigger public sector will only lead to more borrowing and greater taxation for his hard-pressed constituents?

Weinidog, o ystyried adroddiad comisiwn Williams a drafodwyd gryn dipyn yr wythnos hon, ac a wnaeth gydnabod cwmpas enfawr y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac yn wir, a argymhellodd leihau'r lefelau a'r haenau gwahanol yn y sector cyhoeddus, a wnewch chi ddiystyru sefydlu trysorlys Cymreig ar adeg pan fo cyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn cael eu torri, eu had-drefnu neu eu dileu, ac efallai atgoffa'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe mai dim ond arwain at fwy o fenthycu a threthi i'w etholwyr sydd o dan bwysau a wnaiff creu sector cyhoeddus mwy o faint?

14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I am very surprised that Byron Davies does not appear to be supporting the draft Wales Bill that has, of course, been brought forward by his Government.

Wel, synnaf yn fawr nad yw Byron Davies, yn ôl pob golwg, yn cefnogi Bil drafft Cymru sydd, wrth gwrs, wedi cael ei gyflwyno gan ei Lywodraeth.

Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

The Health and Social Services Portfolio

14:10 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglyn â'r dyraniad cyllideb i'r portffolio hwnnw? OAQ(4)0350(FIN)

14. What discussions has the Minister had with the Minister for Health and Social Services regarding the budget allocation to that portfolio? OAQ(4)0350(FIN)

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I meet regularly with the Minister for Health and Social Services to discuss a range of financial matters, including the overall budget allocation.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod amrywiaeth o faterion ariannol, gan gynnwys dyraniad cyffredinol y gyllideb.

14:11 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. Last year, the British Medical Association warned that rising levels of smoking, drinking and obesity, alongside health inequalities across Wales, were leading to worsening numbers of chronic diseases, which would inevitably place a greater strain on health services in Wales. What priority was given to tackling health inequalities in your discussions with the Minister for Health and Social Services, please?

Diolch, Weinidog. Y llynedd, rhybuddiodd Cymdeithas Feddygol Prydain fod lefelau cynyddol o ysmegu, yfed a gordewdra, ochr yn ochr ag anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru, yn arwain at nifer o glefydau cronig fwyfwy difrifol, a fyddai'n anochel yn rhoi mwy o straen ar wasanaethau iechyd yng Nghymru. Pa flaenoriaeth a roddwyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn eich trafodaethau â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, os gwelwch yn dda?

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

These are key priorities, as far as the Minister for Health and Social Services—and, indeed, the whole of Welsh Government, is concerned. I would also draw attention to the important speech that the Minister made last week, when he talked about the importance of us adopting a policy of prudent medicine, prioritising resources on proven care, and that, of course, includes prevention.

Mae'r rhain yn flaenoriaethau allweddol, o ran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol—ac, yn wir, o ran Llywodraeth Cymru i gyd. Hoffwn hefyd dynnu sylw at araith bwysig y Gweinidog yr wythnos diwethaf, pan soniodd am bwysigrwydd mabwysiadu polisi o feddygaeth ddarvoudus, gan flaenoriaethu adnoddau ar ofal profedig, ac mae hynny, wrth gwrs, yn cynnwys atal.

Y Portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi

The Communities and Tackling Poverty Portfolio

- 14:12 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllid i'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi? OAQ(4)0361(FIN)
15. Will the Minister make a statement on the allocation of funding to the Communities and Tackling Poverty portfolio? OAQ(4)0361(FIN)
- 14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 The funding allocation to the communities and tackling poverty portfolio in 2014-15 is £212.7 million, an increase on the allocation for this year, as we stated at the last supplementary budget.
 Dyraniad y gyllideb i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi yn 2014-15 yw £212.7 miliwn, sef cynnydd o gymharu â'r dyraniad ar gyfer eleni, fel y nodwyd genym yn y gyllideb atodol ddiwethaf.
- 14:12 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Out of that budget allocation, Minister, your ministerial colleague announced £1.8 million of funding for the expansion of credit unions as far back as June of last year, with the money to be spent in this financial year. Funding approval, however, was only given last week. What discussions have you had with the Minister to ensure that credit unions will have an extended deadline and that funding from your budget allocation is actually used to support our credit unions?
 Allan o'r dyraniad hwnnw o'r gyllideb, Weinidog, cyhoeddodd eich cyd-Weinidog £1.8 miliwn o gyllid i ehangu undebau credyd mor bell yn ôl â mis Mehefin y llynedd, gyda'r arian i'w wario yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, dim ond yr wythnos diwethaf y cymeradwywyd y cyllid. Pa drafodaethau a gawsoch â'r Gweinidog i sicrhau y bydd gan undebau credyd derfyn amser estynedig ac y caiff cyllid o ddyraniad eich cyllideb ei ddefnyddio mewn gwirionedd i gefnogi ein hundebau credyd?
- 14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Well, I am sure that Janet Finch-Saunders is, in some way or other, welcoming this £1.2 million that we have levered in and found for credit unions. It is going to be allocated to 19 projects, seven of which are national schemes, including the north Wales credit union, which, as I am sure you were aware, will spend £679,000 managing a national marketing campaign to increase credit union membership. Clearly, that has been welcomed.
 Wel, rwy'n siŵr bod Janet Finch-Saunders, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn croesawu'r £1.2 miliwn yr ydym wedi ei gyflwyno a'i ganfod ar gyfer undebau credyd. Caiff ei ddyrannu i 19 o brosiectau, y mae saith ohonynt yn gynlluniau cenedlaethol, gan gynnwys undeb credyd gogledd Cymru, a fydd, fel y gwyddoch mae'n siŵr, yn gwario £679,000 yn rheoli ymgyrch farchnata genedlaethol i gynyddu aelodaeth o undebau credyd. Yn amlwg, croesawyd hynny.
- 14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you, Minister. Diolch, Weinidog.

Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Comisiwn Williams

Questions to the Minister for Local Government and Government Business

The Williams Commission

- 14:13 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0358(LG)
1. Will the Minister provide an update on the work of the Williams Commission on Public Service Governance and Delivery in relation to local government in Wales? OAQ(4)0358(LG)
- Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Comisiwn Williams o ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0371(LG)
7. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's response to the Williams Commission review on the future of public services in Wales? OAQ(4)0371(LG)

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n ymateb i adroddiad Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus? OAQ(4)0372(LG)

9. Will the Minister make a statement on how she is responding to the report of the Williams Commission on Public Service Governance and Delivery? OAQ(4)0372(LG)

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. Pa broses y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dilyn wrth ystyried argymhellion Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus? OAQ(4)0370(LG)

10. What process will the Welsh Government follow in considering the recommendations of the Williams Commission on Public Service Governance and Delivery? OAQ(4)0370(LG)

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau argymhellion Comisiwn Williams i lywodraeth leol? OAQ(4)0361(LG)

12. Will the Minister make a statement on the implications of the Williams Commission recommendations on local government? OAQ(4)0361(LG)

14:13

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

Presiding Officer, I understand that you have given your permission for questions 1, 7, 9, 10 and 12 to be grouped.

Lywydd, deallaf eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 1, 7, 9, 10 a 12 gael eu cyfuno.

The Williams commission has published a wide-ranging report. The Welsh Government and all political parties will now want to carefully consider its findings. The First Minister has made it clear that cross-party agreement will be needed to progress with pace the proposals for public service reform. These proposals are, of course, wider than local government mergers and are needed to deliver improved public services for the people of Wales. The First Minister will lead a debate in this Chamber on 28 January.

Mae comisiwn Williams wedi cyhoeddi adroddiad eang ei gwmpas. Bydd Llywodraeth Cymru a'r holl bleidiau gwleidyddol yn awyddus yn awr i ystyried ei ganfyddiadau yn ofalus. Mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir y bydd angen cytundeb trawsbleidiol er mwyn rhoi'r cynigion ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus ar waith ar fyrder. Mae'r cynigion hyn, wrth gwrs, yn ehangach nag uno llywodraeth leol ac mae eu hangen er mwyn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru. Bydd y Prif Weinidog yn arwain dadl yn y Siambr hon ar 28 Ionawr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that response, Minister, and for tabling a debate next week on this topic. The commission's report truly is a extensive piece of work. I therefore wonder whether consideration could be given to making Sir Paul Williams available to Assembly Members in order for him to answer any further technical questions.

Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog, ac am gyflwyno dadl yr wythnos nesaf ar y pwnc hwn. Mae adroddiad y comisiwn yn wir yn ddarn eithriadol o waith. Felly tybed pa un a ellid ystyried gofyn i Syr Paul Williams a fyddai'n fodlon ateb unrhyw gwestiynau technegol pellach gan Aelodau'r Cynulliad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I am sure that that is something that we could consider.

Gellid, rwy'n siŵr bod hynny'n rhywbeth y gallem ei ystyried.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for that answer as well, but, when you are deliberating the outcome of the Williams report, can I have assurances that you will take care to consider the importance of protecting local identity and democratic accountability through the structures of local government, Minister?

Diolch am yr ateb hwnnw hefyd, ond, pan fyddwch yn trafod canlyniad adroddiad Williams, a allwch fy sicrhau y byddwch yn ystyried pwysigrwydd diogelu hunaniaeth ac atebolrwydd democrataidd lleol drwy'r strwythurau llywodraeth leol, Weinidog?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think that that is certainly an important part. I think that local authorities absolutely have a role in ensuring that local voices are heard. It is very important that democracy is sustained through openness and transparency, and also through robust scrutiny.

Gallaf, credaf fod hynny'n sicr yn rhan bwysig. Heb os, credaf fod gan awdurdodau lleol ran i'w chwarae wrth sicrhau y caiff lleisiau lleol eu clywed. Mae'n bwysig iawn sicrhau democratiaeth drwy fod yn agored a thryloyw, a hefyd drwy drefniadau craffu cadarn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:15	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.	Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.	Senedd.tv Fideo Video
14:15	Peter Black Bywgraffiad Biography	Thank you for that answer, Minister. Do you accept that, if we are going to preserve accountability and transparency with larger authorities and fewer councils, the best way to do that is through the single transferable vote system?	Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. A dderbyniwch, er mwyn gwarchod atebolrwydd a thryloywder gydag awdurdodau mwy a llai o gynghorau, mai'r ffordd orau o wneud hynny yw drwy'r system pleidleisiau trosglwyddadwy sengl?	Senedd.tv Fideo Video
14:15	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	No. My party has a very well-established position on that. It certainly was not something that was reported in the Williams report at all.	Na wnaif. Mae gan fy mhlaid farn gadarn iawn yn hynny o beth. Yn sicr, nid oedd yn rhywbeth a nodwyd yn adroddiad Williams o gwbl.	Senedd.tv Fideo Video
14:15	Peter Black Bywgraffiad Biography	Well, of course, Minister, there is the Sunderland commission report, so there is a report to the Assembly that sets that out and makes recommendations on that. If you are not prepared to consider that, does that mean that you are not prepared to talk to the Liberal Democrats and Plaid Cymru about how we take this report forward?	Wel, wrth gwrs, Weinidog, mae adroddiad comisiwn Sunderland, felly mae adroddiad i'r Cynulliad sy'n nodi hynny ac yn gwneud argymhellion ar hynny. Os nad ydych yn barod i ystyried hynny, a yw'n golygu nad ydych yn barod i drafod â'r Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru sut y dylem weithredu mewn perthynas â'r adroddiad hwn?	Senedd.tv Fideo Video
14:15	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	No, absolutely not. The First Minister made it very clear yesterday that cross-party agreement will be needed to take it forward.	Na, dim o gwbl. Datganodd y Prif Weinidog yn glir iawn ddoe y bydd angen cytundeb trawsbleidiol er mwyn gweithredu.	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Weinidog, os yw'r argymhellion i fynd ymlaen, rhaid ystyried bod awgrym bod rhai cynghorau lle mae'r stoc tai wedi cael ei eithrio yn uno gyda chynghorau sydd dal gyda stoc tai. A oes unrhyw drafodaeth wedi bod ymysg y Llywodraeth ynglŷn â'r problemau ymarferol sydd yn codi o hynny?	Minister, if these recommendations are to proceed, it must be borne in mind that there are suggestions that some councils where the housing stock has been excepted merge with councils that still have housing stock. Has there been any discussion within the Government about the practical problems that arise from that?	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	I know that you asked that question to the First Minister yesterday and, clearly, there will have to be discussions on that very point as we move forward.	Gwn eich bod wedi gofyn y cwestiwn hwnnw i'r Prif Weinidog ddoe ac, yn amlwg, bydd yn rhaid trafod yr union bwynt hwnnw wrth inni symud ymlaen.	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call on Rhodri Glyn Thomas, the Plaid Cymru spokesperson.	Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas, llefarydd Plaid Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Weinidog, a ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r nifer o gynghorwyr a fydd gyda'r trefniadau newydd hyn? Ai'r bwriad yw cadw'r cap o 75 o gynghorwyr i bob cyngor?	Minister, have you given any consideration to the number of councillors with the new arrangements? Is the intention to keep the cap of 75 councillors for each council?	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	No, again, that is something that we will have to look at. The First Minister, again, made it very clear yesterday that there will be a reduction in councillor numbers in the future.	Na, unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid inni ei ystyried. Datganodd y Prif Weinidog yn glir iawn, unwaith eto, ddoe y bydd gostyngiad yn nifer y cynghorwyr yn y dyfodol.	Senedd.tv Fideo Video

- 14:17 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Mae adroddiad Williams yn cyfeirio at y gwasanaethau brys ac yn nodi nad yw plismona wedi ei ddatganoli a bod hynny yn ei wneud yn anodd iddo gydweithio. A fydd unrhyw ystyriaeth yn cael ei roi i hyn, oherwydd mae Ffederasiwn yr Heddlu Cymru a Lloegr yn dweud wrthyf nad yw'n gallu lobbio ar y mater hwn oherwydd nad yw wedi cael ei ddatganoli ar hyn o bryd?
- The Williams report refers to the emergency services and notes that policing is not devolved and that that would make it difficult for it to collaborate. Will any consideration be given to this, because the Police Federation for England and Wales told me that it cannot lobby on this issue because it is non-devolved at present?
- 14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- As you said, that is something that has been highlighted in the Williams report and is something that concerns us as a Government. The report also makes reference to the fact that the fire and rescue authorities and the ambulance services should work more closely together. Therefore, again, that is something that we need to look at as we go carefully through the report.
- Fel y dywedaso, mae hynny'n rhywbeth y tynnwyd sylw ato yn adroddiad Williams ac mae'n rhywbeth sy'n peri pryder inni fel Llywodraeth. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at y ffaith y dylai awdurdodau tân ac achub a'r gwasanaethau ambiwlans gydweithio'n agosach. Felly, unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni edrych arno wrth inni roi ystyriaeth ofalus i'r adroddiad.
- 14:17 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Mae adroddiad Williams yn dweud llawer iawn mwy nag awgrymu newid ffiniau, wrth gwrs. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais mawr ar gydweithio rhwng cynghorau a chael partneriaethau. Mae adroddiad Williams yn galw'r rhain yn 'feichus' ac yn 'orgymhleth' ac yn mynd ymlaen i ddweud nad ydynt wedi cael dim effaith ar safonau gwasanaeth. Yn wyneb y feirniadaeth hon, beth y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud?
- The Williams report says a great deal more than suggesting changing boundaries, of course. Over the last few years, the Welsh Government has placed a great emphasis on collaboration between councils and the development of partnerships. The Williams report calls these 'burdensome' and 'over-complicated' and goes on to state that they have had no effect on standards of service. In the face of such criticism, what does the Government intend to do?
- 14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- You picked just a few words out of, I think, 115,000 words. You should say as well that it also recognised the importance of collaboration and makes recommendations that we pursue collaboration. It is very consistent with what we have done as a Government to establish a programme to support collaboration. However, that is not an end in itself; it does mean supporting the integration of services that are tailored to meet the needs of individuals, families and communities.
- Rydych wedi dewis ychydig eiriau o blith 115,000 o eiriau, credaf. Yn ogystal, dylech ddweud iddo hefyd gydnabod pwysigrwydd cydweithredu a'i fod yn gwneud argymhellion yn hynny o beth. Mae'n gyson iawn â'r hyn a wnaed gennym fel Llywodraeth i lunio rhaglen i gefnogi cydweithredu. Fodd bynnag, nid yw hynny'n nod ynddo'i hun; mae'n golygu cefnogi cynigion i integreiddio gwasanaethau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau.
- 14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I call on the opposition spokesperson, Janet Finch-Saunders.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Janet Finch-Saunders.
- 14:18 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Minister, I would like to place on record my acknowledgement of the immense work undertaken by the Williams commission in bringing forward 62 key recommendations. However, irrespective of the eventual local authority numbers, this report highlights significant failings and required improvements now, as a matter of some urgency. Do you support these recommendations?
- Weinidog, hoffwn gofnodi fy nghydnabyddiaeth i'r gwaith aruthrol a wnaed gan gomisiwn Williams wrth gyflwyno 62 o argymhellion allweddol. Fodd bynnag, ni waeth sawl awdurdod lleol fydd yn y pen draw, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at fethiannau sylweddol a gwelliannau angenrheidiol yn awr, fel mater o frys. A ydych yn cefnogi'r argymhellion hyn?
- 14:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I cannot give you a blanket 'yes' for all 62; obviously, we will need time to consider all 62. I should also place my thanks on the record to all members of the Williams commission for their work.
- Ni allaf ateb yn gadarnhaol i bob un o'r 62 o argymhellion; bydd angen amser arnom i ystyried pob un ohonynt. Dylwn hefyd gofnodi fy niolch i holl aelodau comisiwn Williams am eu gwaith.

The Williams report did not lay the blame anywhere. It highlighted some very difficult areas of public service performance and provision. The words 'patchy' and 'poor' in places were used and it is characterised by a lack of ambition. It is something that local government and the Welsh Government need to look at. We work in partnership. However, it sets out very clearly why radical action is needed.

Nid oedd adroddiad Williams yn bwrw'r bai ar unrhyw un yn benodol. Tynnodd sylw at rai meysydd anodd iawn o ran perfformiad gwasanaethau cyhoeddus a'r trefniadau ar gyfer eu darparu. Defnyddiwyd y geiriau 'anghyson' a 'gwael' mewn manau ac fe'i nodweddir gan ddiffyg uchelgais. Mae'n rhywbeth y mae angen i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ei ystyried. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae'n nodi'n glir iawn pam bod angen cymryd camau radical.

14:20 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Failings include the Welsh Government not always driving and supporting collaboration effectively and indiscriminately and without due regard to costs and benefits. Williams highlights failures in the current scrutiny process and governance failures in Anglesey, Blaenau Gwent and Caerphilly and, of course, we know about Carmarthen. Does this not cement the assertion by Williams that local government performance in Wales under your stewardship has a long way to go to reach best in class, and that is in the report?

Mae'r methiannau yn cynnwys y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru bob amser yn llywio nac yn cefnogi cydweithrediad mewn ffordd effeithiol a diwahaniaeth ac heb roi ystyriaeth briodol i gostau a buddiannau. Mae Williams yn tynnu sylw at fethiannau yn y broses graffu bresennol a methiannau llywodraethu yn Ynys Môn, Blaenau Gwent a Chaerffili ac, wrth gwrs, rydym yn gwybod am Gaerfyrddin. Onid yw hon yn atgyfnerthu'r honiad gan Williams, ac a nodir yn yr adroddiad, fod angen gwella perfformiad llywodraeth leol yng Nghymru o dan eich stiwardiaeth chi yn sylweddol er mwyn iddo gyrraedd y lefelau perfformiad gorau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said, I think it highlights that radical action is needed. I do not think that it lays the blame anywhere. It is very important that we work in partnership with local government, but these are locally elected representatives who are there to represent their locality and their wards. I think that we need to work through it to see where we can help them improve.

Fel y dywedais, credaf ei fod yn amlygu'r ffaith bod angen cymryd camau radical. Ni chredaf ei fod yn bwrw'r bai ar unrhyw un. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, ond cynrychiolwyr a etholwyd yn lleol i gynrychioli eu hardal leol a'u wardiau ydynt. Credaf fod angen inni weithio drwyddo er mwyn gweld ble y gallwn eu helpu i wella.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, this is a very complex, strategic document and the First Minister has made it clear that he is seeking to decide how much of this document to accept by Easter of this year. I would like to know what other ongoing pieces of work has the Welsh Government undertaken to look at some of the more detailed complexities that arise from this report, ranging from, as previous Members have mentioned, voting intention capability through to job equalisation, proper cost-benefit analysis, asset management and the list goes on. I ask this because without those tools and understanding of all the ongoing tactical requirements of this strategic document, it is going to be very hard to agree it and then go forward to implement it.

Weinidog, mae'r ddogfen hon yn un strategol, gymhleth iawn ac mae'r Prif Weinidog wedi ei gwneud yn glir ei fod yn ceisio penderfynu faint o'r ddogfen hon y dylid ei derbyn erbyn y Pasg eleni. Hoffwn wybod pa ddarnau eraill o waith sy'n mynd rhagddynt gan Lywodraeth Cymru i ystyried rhai o'r cymhlethdodau manylach sy'n deillio o'r adroddiad hwn, gan amrywio, fel y crybwyllodd Aelodau blaenorol, o'r gallu mewn perthynas â'r bwriad i bleidleisio i gydraddoli swyddi, dadansoddiadau priodol o gostau a buddiannau, rheoli asedau ac yn y blaen. Gofynnaf hyn oherwydd heb yr adnoddau hynny a dealltwriaeth o holl ofnyon tactegol parhaus y ddogfen strategol hon, bydd yn anodd iawn cytuno arni a bwrw ati i'w rhoi ar waith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What the First Minister made clear was that by Easter he would like to be in a position where every party in the Assembly would have a definite opinion. He has also made it clear that the process, obviously, will not be over by Easter 2014. The next step will be to consider in which way the changes should happen. I think that there is a long practical process that we need to go through.

Eglurodd y Prif Weinidog ei fod yn awyddus i fod mewn sefyllfa, erbyn y Pasg, lle y byddai gan bob plaid yn y Cynulliad farn bendant. Eglurodd hefyd na fydd y broses, yn amlwg, wedi'i chwblhau erbyn Pasg 2014. Y cam nesaf fydd ystyried sut y dylai'r newidiadau ddigwydd. Credaf fod proses ymarferol hir y mae angen inni ei dilyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Minister, this particular report not only mentions local government but also Welsh Government. One of the elements of concern is about the focus on objectives not on outcomes and the overemphasis on indicators, targets and so forth. What has your Government taken on board in relation to the criticism that lies at your door?	Weinidog, yn ogystal â llywodraeth leol, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Un o'r elfennau sy'n peri pryder yw bod y ffocws ar amcanion yn hytrach na chanlyniadau a'r pwyslais gormodol ar ddangosyddion, targedau ac ati. Beth yw ymateb eich Llywodraeth i'w feirniadaeth ohoni?	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Again, we only had the report on Monday. We are all reading it and working through it alongside our officials. You are quite right that it is not just about local government; it is about the whole public sector in Wales. I am sure, as we go through the coming weeks, we will be able to answer those questions more thoroughly.	Unwaith eto, dim ond dydd Llun y cawsom yr adroddiad. Mae pob un ohonom wrthi'n ei ddarllen ac yn gweithio drwyddo ochr yn ochr â'n swyddogion. Rydych yn llygad eich lle nad dim ond mater i lywodraeth leol yw hwn; mae'n berthnasol i'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Rwy'n siŵr, yn ystod yr wythnosau nesaf, y byddwn yn gallu ateb y cwestiynau hynny yn fwy trylwyr.	Senedd.tv Fideo Video
14:22	William Graham Bywgraffiad Biography	Does this mean then, Minister, with respect to the Williams commission, that in future all councils, in setting their budget and setting their priorities for the following year, will have to ensure that they are Williams-proofed?	A yw hyn yn golygu, Weinidog, o ran comisiwn Williams, y bydd yn rhaid i bob cyngor yn y dyfodol, wrth bennu eu cyllidebau a phennu eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol ag egwyddorion Williams?	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	No, local government is in the process now of setting its budgets, for instance. So, it will clearly be in the same position as we are in. It will be reading the report, working through the recommendations and taking on board what Williams has said about performance and scrutiny as it goes forward.	Na, mae llywodraeth leol wrthi ar hyn o bryd yn pennu ei chyllidebau, er enghraifft. Felly, bydd yn amlwg yn yr un sefyllfa â ni. Bydd yn darllen yr adroddiad, gan weithio drwy'r argymhellion ac ystyried yr hyn a ddywedodd Williams am berfformiad a chraffu wrth iddi wneud hynny.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Un o'r argymhellion, wrth gwrs, yw'r angen i edrych ar un ac ehangu cyngorau bro a thref. Hoffwn ofyn i chi fel Gweinidog â gofal dros lywodraeth leol am eich barn ynglŷn â'r potensial i wneud hynny.	One of the recommendations, of course, is the need to merge and expand town and community councils. I would like to ask you, as Minister with responsibility for local government, for your views on the potential to do that.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	We intend to look very closely at town and community councils. I think that it says in the Williams report that there are 935 public sector organisations in Wales. I think that 730 plus of those are town and community councils. There was not a lot in the Williams report about town and community councils but it is certainly an area where we need to have a very close look at in order to take it forward.	Rydym yn bwriadu edrych yn ofalus iawn ar gynghorau tref a chymuned. Credaf fod adroddiad Williams yn nodi fod 935 o sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru. Credaf fod dros 730 ohonynt yn gynghorau tref a chymuned. Nid yw adroddiad Williams yn cyfeirio rhyw lawer at gynghorau tref a chymuned ond yn sicr, mae'n faes y mae angen inni ei ystyried yn ofalus iawn er mwyn gallu gweithredu.	Senedd.tv Fideo Video
14:24	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Minister, the history of local government in Wales is one of failed reorganisation after failed reorganisation. When you talk about proceeding with pace, will you ensure that you do not unwittingly rush headlong into another one? Secondly, referring to Joyce Watson's good question about local identity, I have not heard much talk about the public and what it wants. These proposals were not in any party's manifesto, but will you undertake to engage with the public as well, before any proposals are implemented, to make sure that these bodies are reflective and are doing what local people want?	Weinidog, mae hanes llywodraeth leol yng Nghymru yn un o ymdrech ar ôl ymdrech ofer i ad-drefnu. Wrth siarad am fwrw ati'n gyflym, a sicrhewch na fyddwch ond yn bwrw ati blith draphlith i ymdrech ofer arall? Yn ail, gan gyfeirio at gwestiwn da Joyce Watson ynghylch hunaniaeth leol, nid wyf wedi clywed llawer o sôn am y cyhoedd a'i ddymuniadau. Nid oedd y cynigion hyn yn rhan o fanifesto unrhyw blaid, ond a ymrwymwch i ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd, cyn y caiff unrhyw gynigion eu rhoi ar waith, er mwyn sicrhau bod y cyrff hyn yn fyfyrionol a'u bod yn gwneud yr hyn y mae pobl leol am iddynt ei wneud?	Senedd.tv Fideo Video

14:24	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>At the moment we are working with the reorganisation brought forward by John Redwood and, clearly, there are ways that we believe we can improve on that. You are right about pace. There is a need for pace. However, we need to be very careful about how we take the recommendations forward. There has been extensive consultation from Williams as he has taken this commission forward since May of last year.</p>	<p>Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda'r ad-drefnu a gyflwynwyd gan John Redwood ac, yn amlwg, mae yna ffyrdd y credwn y gallwn wella ar hynny. Rydych yn llygad eich lle o ran cyflymder. Mae angen cyflymder. Fodd bynnag, mae angen inni fod yn ofalus iawn o ran sut y caiff yr argymhellion eu gweithredu. Gwnaeth Williams ymgynghori'n helaeth gan fod y comisiwn hwn wedi bod ar waith ers mis Mai y llynedd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:25	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Of course, Minister, the report deals with more than just local government. Given that it has created some uncertainty about the future shape of local government, will you be speaking to the Welsh Language Commissioner about the impact of the report on the findings from her investigations, which are currently being conducted with local authorities, bearing in mind that that report is due in May, and that that the Williams report suggests that something needs to be done with reorganisation by Easter?</p>	<p>Wrth gwrs, Weinidog, mae'r adroddiad yn ymdrin â mwy na dim ond llywodraeth leol. O gofio ei fod wedi creu cryn ansicrwydd o ran ffurf llywodraeth leol yn y dyfodol, a fyddwch yn siarad â Chomisynydd y Gymraeg am effaith yr adroddiad ar ganfyddiadau ei hymchwiliadau, sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gydag awdurdodau lleol, gan gofio bod disgwyl i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi ym mis Mai, a bod adroddiad Williams yn awgrymu bod angen gweithredu erbyn y Pasg mewn perthynas ag ad-drefnu?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:25	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I would be very happy to speak to the Welsh Language Commissioner. I met with her quite recently, but I am very happy to meet with her again if she wishes to discuss that with me.</p>	<p>Byddwn yn fwy na pharod i siarad â Chomisynydd y Gymraeg. Cyfarfûm â hi yn gymharol ddiweddar, ond rwy'n fwy na pharod cyfarfod â hi eto os yw'n awyddus i drafod hynny gyda mi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Troseddu Rhwng Cenedlaethau		Intergenerational Offending	
14:25	<p>Christine Chapman Bywgraffiad Biography</p> <p><i>2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i leihau'r risg o droseddu rhwng cenedlaethau yng Nghymru? OAQ(4)0365(LG)</i></p>	<p><i>2. What is the Welsh Government doing to help reduce the risk of intergenerational offending in Wales? OAQ(4)0365(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:25	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>We are working with key criminal justice partners in Wales to address this issue. Our work with the Youth Justice Board for England and Wales and the National Offender Management Service in Wales addresses, in partnership, some of the complex needs of those who offend in order to reduce this risk. I will also be introducing the prevention of offending by young people (Wales) Bill.</p>	<p>Rydym yn gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol allweddol yng Nghymru i ymdrin â'r mater hwn. Mae ein gwaith gyda Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr yn ymdrin, mewn partneriaeth, â rhai o anghenion cymhleth y rheini sy'n troseddu er mwyn lleihau'r risg hon. Byddaf hefyd yn cyflwyno'r Bil atal troseddu gan bobl ifanc (Cymru).</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:26	<p>Christine Chapman Bywgraffiad Biography</p> <p>Currently, 65% of boys in the UK with a convicted father will go on to offend, which is an alarming statistic. All the evidence suggests that children of prisoners are a highly vulnerable group who require extensive support if poor life outcomes are to be avoided. The Invisible Walls project, which I recently visited at Parc prison in Bridgend is tackling this head on, making rehabilitation through the family and the prisoner's child a central part. Minister, would you take the time to visit this very worthwhile project to see for yourself the great results that it is having, which are of benefit not only to the prisoner and his family but to the whole community as well?</p>	<p>Ar hyn o bryd, bydd 65% o fechgyn yn y DU y mae ganddynt dad sydd wedi'i gael yn euog o drosedd yn mynd ati i droseddu, sy'n ystadegyn brawychus. Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod plant carcharorion yn grŵp hynod fregus y mae angen cefnogaeth sylweddol arnynt er mwyn osgoi canlyniadau gwael mewn bywyd. Mae'r prosiect Invisible Wales, yr ymwelais ag ef yn ddiweddar yng ngharchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol, gan sicrhau bod trefniadau adsefydlu gan gynnwys y teulu a phlentyn y carcharor yn greiddiol. Weinidog, a wnewch roi o'ch amser i ymweld â'r prosiect gwerthfawr iawn hwn er mwyn gweld drosoch eich hun y canlyniadau ardderchog sydd yno, sydd o fudd, nid yn unig i'r carcharor a'i deulu, ond i'r gymuned gyfan hefyd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:27

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The family interventions unit at Parc has been running with proven success, and I have heard that the Invisible Walls project is building on that. I have asked to visit, and I am waiting for a definitive date to do so. I have also visited a number of custodial establishments; only last week I was at Cardiff prison looking at the work being undertaken to give prisoners training and skills. I had lunch in the Clink restaurant, which Members will probably know is part of a charity that helps prisoners learn the skills that they will need for when they go out into the community, in the hope that they will not reoffend.

Bu'r uned ymyriadau teuluol yn y Parc yn llwyddiant ysgubol, a chlywaf fod prosiect Invisible Walls yn adeiladu ar y llwyddiant hwnnw. Rwyf wedi gofyn am gael ymweld, ac rwy'n aros am ddyddiad pendant ar gyfer hynny. Rwyf hefyd wedi ymweld â nifer o garchardai; dim ond yr wythnos diwethaf, roeddwn yng ngharchar Caerdydd yn edrych ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i roi hyfforddiant a sgiliau i garcharorion. Cefais ginio ym mwyty Clink, sydd, fel y bydd yr Aelodau fwy na thebyg yn gwybod, yn rhan o elusen sy'n helpu carcharorion i feithrin y sgiliau y bydd eu hangen arnynt pan fyddant yn dychwelyd i'r gymuned, yn y gobaith na fyddant yn ailddosoddu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:27

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given that the police and crime commissioner's draft police and crime plan for north Wales says that reducing victim-based crime will remain the only target established within the plan, and that he expects the delivery of the new code of practice for victims of crime to be issued by the UK Home Secretary in October, how will you as the Welsh Government monitor the implementation and effects of the statement in the code that if an offender is under 18, the victim is entitled to be offered the opportunity of voluntary restorative justice activities, bringing together victims with those responsible for the harm to find a positive way forward?

O ystyried bod cynllun heddlu a throseddu drafft comisiynydd heddlu a throseddu gogledd Cymru yn nodi mai lleihau troseddau seiliedig ar ddiodeffwyr fydd yr unig darged a gaiff ei sefydlu o fewn y cynllun o hyd, a'i fod yn disgwyl i Ysgrifennydd Cartref y DU gyflwyno'r cod ymarfer newydd ar gyfer diodeffwyr troseddau ym mis Hydref, sut y byddwch chi fel Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses o weithredu'r rhan o'r cod sy'n datgan os yw troseddwr o dan 18 oed, bod hawl gan y diodeffwr i gael cynnig y cyfle i ymgymryd â gweithgareddau cyfiawnder adferol gwirfoddol, gan ddod â diodeffwyr ger bron y rheini sy'n gyfrifol am y niwed er mwyn dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen, a sut y byddwch yn monitro effeithiau'r broses honno?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:28

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the reasons I am bringing forward the Bill to which I referred in my answer to Christine Chapman is because I want to ensure that we particularly assist the number of young people who are in custody. Up to last week, 49 young people were in custody, which is a huge drop from three years ago when we had over 150. However, you are left with this core of people who are hard to reach and have very complex needs. So, it is very important that we build on the very good work that we have done in relation to reoffending, particularly with young people. We have the all-Wales reducing reoffending strategy, and it is something that I discuss regularly in my meetings with the police and crime commissioners.

Un o'r rhesymau dros gyflwyno'r Bil y cyfeiriais ato yn fy ateb i Christine Chapman yw fy mod am sicrhau ein bod yn rhoi cymorth penodol i'r nifer o bobl ifanc sydd yn y ddalfa. Tan yr wythnos diwethaf, roedd 49 o bobl ifanc yn y ddalfa, sy'n ostyngiad enfawr o gymharu â thair blynedd yn ôl, pan oedd dros 150. Fodd bynnag, mae'r craidd hwn o bobl anodd eu cyrraedd ag anghenion cymhleth iawn yn weddill. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn adeiladu ar y gwaith da iawn a wnaed gennym mewn perthynas ag ailddosoddu, yn enwedig gyda phobl ifanc. Mae strategaeth lleihau ailddosoddu Cymru gyfan ar waith gennym, ac mae'n rhywbeth rwy'n ei drafod yn rheolaidd yn fy nghyfarfodydd gyda'r comisiynydd heddlu a throseddu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynghorau yng Nghymru

Councils in Wales

14:29

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r canllawiau y mae ei hadran wedi eu rhoi i Gyngorau yng Nghymru ynghylch sut i ateb yr heriau o leihau eu cyllidebau?
OAQ(4)0360(LG)

3. Will the Minister outline the guidance her department has provided to Councils in Wales over how to meet the challenges of reducing their budgets? OAQ(4)0360(LG)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:29	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Each authority is responsible for managing its budget. Welsh Government has worked in partnership with local government by providing support and funding mechanisms to implement innovative projects, to promote the transformational change needed to adapt to demand and the financial challenges, and continue to deliver vital services.	Mae pob awdurdod yn gyfrifol am reoli ei gyllideb. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol drwy ddarparu systemau cymorth ac ariannu i weithredu prosiectau arloesol, er mwyn hyrwyddo'r newid trawsffurfiol sydd ei angen i addasu i'r galw a'r heriau ariannol, a pharhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol.	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography My question has been overtaken somewhat by events. However, in terms of managing budgets, I am sure you will be aware of the great work done by Monmouthshire County Council in this area, which held a consultation with members of the public to ask them how they felt services should be managed, and where cutbacks should be made. That attracted over 450 residents, many of whom have told me that they really welcomed that engagement process. Will you see that this good practice is extended to other authorities, and it may be something that the Welsh Government itself might like to consider?	Mae digwyddiadau wedi achub y blaen ar fy nghwestiwn i ryw raddau. Fodd bynnag, o ran rheoli cyllidebau, rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r gwaith ardderchog a wnaed gan Gyngor Sir Fynwy yn y maes hwn, a gynhaliodd ymgynghoriad ag aelodau o'r cyhoedd er mwyn gofyn iddynt sut y dylid rheoli gwasanaethau, yn eu barn hwy, a ble y dylid gwneud toriadau. Denodd yr ymgynghoriad dros 450 o drigolion, y mae llawer ohonynt wedi dweud wrthyf eu bod yn wir wedi croesawu'r broses ymgysylltu. A sicrhewch y caiff yr arfer da hwn ei ehangu i awdurdodau eraill, a gall fod yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ei hun ei ystyried?	Senedd.tv Fideo Video
14:30	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I think that Monmouthshire has certainly led the way in its engagement with the community, and I have followed it on Twitter with interest. I have spoken to other local authorities and have told them to look at Monmouthshire. However, Monmouthshire is not alone; there are other parts of the country where local authorities have done similar work, but I do think that Monmouthshire has been very good.	Credaf fod Sir Fynwy yn sicr wedi arwain y ffordd drwy ymgysylltu â'r gymuned, ac rwyf wedi dilyn hynt y broses ar Twitter gyda diddordeb. Rwyf wedi siarad ag awdurdodau lleol eraill ac wedi dweud wrthynt i edrych ar Sir Fynwy. Fodd bynnag, nid Sir Fynwy yw'r unig awdurdod; mae awdurdodau lleol wedi gwneud gwaith tebyg mewn rhannau eraill o'r wlad, ond credaf fod Sir Fynwy yn esiampl dda iawn.	Senedd.tv Fideo Video
14:30	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography A allwch chi roi un enghraifft o arfer da ymhlith cynghorau Cymru o ran arbed arian sydd wedi arwain at well gwasanaeth i'r cyhoedd?	Can you give me one example of good practice among Welsh councils in relation to saving money that has led to better services for the public?	Senedd.tv Fideo Video
14:30	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I am sorry; I did not hear all of the question.	Mae'n ddrwg gennyf, ni chlywais y cwestiwn cyfan.	Senedd.tv Fideo Video
14:30	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography A allwch chi roi enghraifft o arfer da lle mae arbed arian wedi arwain at well gwasanaeth i'r cyhoedd?	Can you give me one example of good practice where saving money has led to better services for the public?	Senedd.tv Fideo Video
14:30	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Has that given you time to think, Minister? [Laughter.]	A yw hynny wedi rhoi amser ichi feddwl, Weinidog? [Chwerthin.]	Senedd.tv Fideo Video
14:30	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Yes; I just did not hear the question, I am sorry. [Laughter.]	Do; ond ni chlywais y cwestiwn, yn anffodus. [Chwerthin.]	Senedd.tv Fideo Video

When I toured the local authorities over the summer, I saw some very good examples of good practice. I do not think that it is all about saving money; I think that it is about providing better services. Certainly, in Merthyr Tydfil, I saw a very good example of the local authority working with social services and with housing associations to ensure that housing provision for people who needed sheltered accommodation, but not perhaps residential care, was very much to the fore. So, I think that that was a very good example. I am sure that it would save money; if you think about the social services aspect of it, it would certainly save money.

Pan ymwelais â'r awdurdodau lleol dros yr haf, gwelais rai enghreifftiau da iawn o arfer da. Ni chredaf mai mater syml o arbed arian mohono; credaf ei fod yn ymwneud â darparu gwasanaethau gwell. Yn sicr, ym Merthyr Tudful, gwelais enghraifft dda iawn o'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a gyda chymdeithasau tai i sicrhau bod y ddarpariaeth tai ar gyfer pobl roedd angen llety gwarchod arnynt, ond nid o reidrwydd ofal preswyl, yn cael sylw gofalus. Felly, credaf fod hynny'n enghraifft dda iawn. Rwy'n siŵr y byddai'n arbed arian; os ystyriwch yr agwedd gwasanaethau cymdeithasol, yn sicr, byddai'n arbed arian.

14:31 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one example of where saving money could lead to better service delivery is by grouping facilities such as libraries, arts centres, and things along those lines, where they are under threat, and grouping them together in community hubs, so that the community still has access to them. Yesterday, we debated the economic and social value of libraries and arts facilities, and yet Rhondda Cynon Taf County Borough Council, in my own region, is closing libraries, and is consulting on closing the Muni Arts Centre as well. Will you be encouraging local authorities to look at this as an example of best practice that they could follow?

Weinidog, un enghraifft lle y gallai arbed arian arwain at ddarparu gwasanaethau gwell yw drwy drefnu cyfleusterau fel llyfrgelloedd, canolfannau celfyddydol, a phethau tebyg, yn grwpiau, lle maent o dan fygythiad, a'u trefnu'n ganolfannau cymunedol, er mwyn sicrhau y gall y gymuned barhau i'w mwynhau. Ddoe, cafwyd dadl ynghylch gwerth economaidd a chymdeithasol llyfrgelloedd a chyfleusterau celfyddydol, ond eto i gyd mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn fy rhanbarth i, yn cau llyfrgelloedd, ac yn ymgynghori ar gynnig i gau Canolfan Gelfyddydau'r Miwni hefyd. A fyddwch yn annog awdurdodau lleol i ystyried hyn fel enghraifft o arfer gorau y gallent ei dilyn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I certainly think that there are some examples of good practice. For instance, I know that some local authorities are thinking about having a mobile library van, rather than having buildings. I think that life would be pretty miserable without libraries, museums, and arts centres, so I think that it is really important that local authorities find innovative ways of providing these services in these very difficult financial times.

Byddaf. Yn sicr, credaf fod rhai enghreifftiau o arfer da. Er enghraifft, gwn fod rhai awdurdodau lleol yn ystyried defnyddio fan llyfrgell symudol, yn hytrach nag adeiladau. Credaf y byddai bywyd yn eithaf diflas heb lyfrgelloedd, amgueddfeydd, a chanolfannau celfyddydol, felly credaf ei bod yn bwysig iawn i awdurdodau lleol ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ddarparu'r gwasanaethau hyn yn ystod y cyfnod ariannol anodd iawn hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diwygio'r Sector Cyhoeddus

Reforming the Public Sector

14:32 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio'r sector cyhoeddus yng Nghymru?* OAQ(4)0364(LG)

4. *Will the Minister make a statement on reforming the public sector in Wales?* OAQ(4)0364(LG)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Williams commission identifies the need for change now, in order to deliver improved public services for the people of Wales. The Welsh Government has a comprehensive programme, which lays the foundation for this wide-ranging public sector reform, ensuring that collective leadership and will continue to play an important role in delivering public service reforms.

Noda comisiwn Williams yr angen am newid yn awr, er mwyn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru raglen gynhwysfawr, sy'n gosod y sylfaen ar gyfer y cynigion eang hyn i ddiwygio'r sector cyhoeddus, gan sicrhau bod arweinyddiaeth gyfun yn chwarae rhan bwysig wrth ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac y bydd yn parhau i chwarae'r rhan honno.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:33

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog. O edrych ar yr hyn sy'n cael ei argymhell gan gomisiwn Williams, byddwch yn gwybod mai un posibilrwyd yn y gorllewin yw uno tair sir yr hen Ddyfed. Er, yn bersonol, y byddai'n well gen i weld yr opsiwn hwnnw'n cael ei weithredu, rwy'n ymwybodol iawn bod gan Gyngor Sir Ceredigion bartneriaethau cryf iawn ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol gyda Chyngor Sir Powys, dros y ffin. Mae'r cyngor hefyd yn gwneud penodiadau ar y cyd â Phowys. Mae'r un peth yn wir am nifer o siroedd eraill yng Nghymru, lle maent wedi ffurfio partneriaethau dros ffiniau y mae Williams yn awr yn eu hargymhellu. Pa neges yr ydych chi'n ei gyrru i'r cyngorau a'r partneriaethau hynny, gan nad ydych wedi rhoi unrhyw amcan i ni heddiw o beth yw penderfyniad y Llywodraeth ynglŷn â chomisiwn Williams?

Thank you, Minister. In looking at the recommendations of the Williams commission, you will know that, in west Wales, one possibility is the merger of the three counties of the old Dyfed. Although, personally, I would prefer to see that option being implemented, I am very much aware that Ceredigion County Council has very strong partnerships in the fields of education and social services with Powys County Council over the border. The council has also made joint appointments with Powys. The same is true of a number of other counties in Wales, where partnerships have been formed across the boundaries that Williams is now suggesting. What message are you now giving to those councils and partnerships, as you have not given us any idea at all today of the Government's decision on the Williams commission?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is because we have not made any decisions. We had the report on Monday, and it is Wednesday today. We will be looking very carefully at the considerations, as I am sure your party, the Welsh Liberal Democrats, and the Welsh Conservatives will be doing. However, you make a very important point about partnerships. I was lobbied quite assertively, shall we say, over the past few months when I spoke to local authorities about these issues. You make a very important point about partnerships that are in place now.

Mae hynny am nad ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau. Dydd Llun y cawsom yr adroddiad, a dydd Merched ydyw heddiw. Byddwn yn edrych yn ofalus iawn ar yr ystyriaethau, fel y bydd eich plaid chi, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei wneud, rwy'n siŵr. Fodd bynnag, gwnewch bwynt pwysig iawn o ran partneriaethau. Cefais fy lobio'n eithaf cryf, dywedwn, yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf pan siaradais ag awdurdodau lleol am y materion hyn. Gwnewch bwynt pwysig iawn o ran y partneriaethau sydd ar waith yn awr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in light of the Williams report, there are significant implications for Powys, namely the merger of the county council with the health board. Just a few years ago, this was an issue that was examined in detail by both organisations. The issues that concern me, and others, are in relation to the historic debt of the local health board. How would it be managed if a merger takes place, how do we put the staff of both organisations on an equal footing, and how do we address the democratic accountability? I fully understand that the Government is in the early stages of its analysis, but I would be grateful for your initial observations at this stage about that specific recommendation.

Weinidog, yng ngoleuni adroddiad Williams, mae goblygiadau sylweddol i Bowys, sef y caiff y cyngor sir ei uno â'r bwrdd iechyd. Dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd hwn yn fater a ystyriwyd yn fanwl gan y ddau sefydliad. Mae a wnelo'r materion sy'n peri pryder imi, ac eraill, â dyled hanesyddol y bwrdd iechyd lleol. Sut y câi ei rheoli pe unwyd y ddau sefydliad, sut y byddwn yn sicrhau bod staff y ddau sefydliad ar sail gyfartal, a sut y byddwn yn ymdrin â'r atebolrwydd democrataidd? Rwy'n deall yn iawn mai megis dechrau ar ei dadansoddiad y mae'r Llywodraeth, ond byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau cychwynnol yn ystod y cam hwn am yr argymhelliad penodol hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, thank you. We will look carefully at the proposals to merge Powys County Council and the Powys teaching health board. It is far too early to make any commitments, but I will be having early discussions with my colleague, the Minister for Health and Social Services, in relation to the recommendation; I will be meeting him next week. We know that there are significant issues around finance and governance and that obviously needs to be considered in detail before we respond to that recommendation. Clearly, legislation could also be needed, so we need to look very carefully at that.

Ie, diolch. Byddwn yn edrych yn ofalus ar y cynigion i uno Cyngor Sir Powys a bwrdd addysgu iechyd Powys. Mae'n llawer rhy gynnar i ymrwymo i unrhyw beth, ond byddaf yn cael trafodaethau cynnar gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn perthynas â'r argymhelliad; byddaf yn cwrrd ag ef yr wythnos nesaf. Gwyddom fod problemau sylweddol o ran cyllid a llywodraethu ac, yn amlwg, bod angen ystyried hynny'n fanwl cyn inni ymateb i'r argymhelliad hwnnw. Yn amlwg, gellid bod angen deddfwriaeth hefyd, felly mae angen inni ystyried hynny yn ofalus iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Perfformiad Cyngorau

Performance of Councils

- 14:35 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad cynghorau yng Nghymru? OAQ(4)0369(LG)
5. Will the Minister make a statement on the performance of councils in Wales? OAQ(4)0369(LG)
- 14:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 The Welsh Government monitors the performance of Welsh councils. Next week, I will be publishing the latest edition of the annual compendium looking at the performance of local authority services.
 Mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad cynghorau yng Nghymru. Yr wythnos nesaf, byddaf yn cyhoeddi'r rhifyn diweddaraf o'r compendïwm blynyddol yn edrych ar berfformiad gwasanaethau awdurdodau lleol.
- 14:35 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Powys County Council is currently out to public consultation on options for its budget. The process has been seriously flawed in a number of important ways, but, most disturbingly of all, rather than consulting on generic services, staff and service recipients have found out about proposed closures via a generic consultation. Those include the families of relatives with special needs and learning disabilities who receive respite care in Ystradgynlais, and the parents of children in all the additional learning need support centres throughout the county. Would you agree with me that people in receipt of very specific services, and the staff who deliver them, deserve better than to be treated by Powys County Council in this fashion?
 Mae Cyngor Sir Powys wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau ar gyfer ei gyllideb. Bu'r broses yn ddiffygiol iawn mewn sawl ffordd bwysig, ond, yn fwyaf gofidus, yn hytrach nag ymgynghori ar wasanaethau cyffredinol, cafodd staff a derbynwyr gwasanaethau wybod am gynigion i ddiddymu gwasanaethau drwy ymgynghoriad cyffredinol. Mae'r rheini yn cynnwys teuluoedd perthnasau ag anghenion arbennig ac anabledau dysgu sy'n cael gofal seibiant yn Ystradgynlais, a rhieni plant yn yr holl ganolfannau cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ledled y sir. A gytunedd â mi fod pobl sy'n cael gwasanaethau penodol iawn, a'r staff sy'n eu darparu, yn haeddu gwell na chael eu trin gan Gyngor Sir Powys yn y fath fodd?
- 14:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 It is very unfortunate if staff and the people who use the services feel that way. Clearly, there have been a number of issues at Powys County Council recently. I am due to meet the new leader in the near future, and it has had a new cabinet put in place. I hope that that cabinet is now able to take forward on a much more consensual status the difficulties that it has been facing.
 Mae'n anffodus iawn os yw staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn teimlo felly. Yn amlwg, bu nifer o broblemau yng Nghyngor Sir Powys yn ddiweddar. Rwy'n bwriadu cyfarfod â'r arweinydd newydd yn y dyfodol agos, ac mae wedi rhoi cabinet newydd ar waith. Gobeithio y bydd y cabinet hwnnw yn awr yn gallu ymateb i'r anawsterau y bu'n eu hwynebu mewn ffordd llawer mwy cytûn.
- 14:37 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, the very recent inspection report by the Wales Audit Office into Caerphilly County Borough Council highlighted a catalogue of weak governance and failing arrangements. Continued weaknesses persist in audit training, whistleblowing, HR functions, procurement and inconsistent scrutiny arrangements, concluding that where improvements have been made, their sustainability is uncertain. As part of your monitoring process, what strong leadership are you going to show now in ensuring that there are proper and appropriate governance arrangements within Caerphilly County Borough Council in order for it to deliver the quality services that our Welsh residents deserve?
 Weinidog, tynnodd yr adroddiad arolygu diweddar iawn gan Swyddfa Archwilio Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sylw at gatalog o drefniadau llywodraethu gwan a methiannau. Mae gwendidau yn parhau o hyd ym maes hyfforddiant archwilio, chwythu'r chwiban, swyddogaethau adnoddau dynol, caffael a threfniadau craffu anghyson, gan ddod i'r casgliad lle y gwnaed gwelliannau, bod eu cynaliadwyedd yn ansicr. Fel rhan o'ch proses fonitro, pa arweinyddiaeth gref y bwriadwch ei dangos yn awr wrth sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyfiawn a phriodol ar waith o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd y mae trigolion yng Nghymru yn ei haeddu?
- 14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Following that inspection by the Auditor General for Wales, he has gone again to have a look at Caerphilly, and I am awaiting his report. I expect to see a significant improvement on the previous report.
 Yn dilyn yr arolygiad hwnnw gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, aeth i gael golwg ar Gaerffili unwaith yn rhagor, ac rwy'n aros am ei adroddiad. Disgwyliaf weld gwelliant sylweddol o gymharu â'r adroddiad blaenorol.

14:38	<p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, a ydych yn derbyn bod perfformiad llywodraeth leol yn gallu bod yn well mewn cynghorau llai o faint nag ydyw mewn cynghorau mwy o faint? Rwy'n meddwl am gyngor fel Ceredigion a'r maes addysg yn enwedig, lle mae'r perfformiad gyda'r gorau yng Nghymru. Os byddwch chi fel Llywodraeth yn uno cynghorau, sut fyddwch chi'n sicrhau bod perfformiad y salaf yn codi, yn hytrach na gweld sefyllfa lle mae perfformiad y gorau yn gostwng wrth uno?</p>	<p>Minister, do you accept that local government performance can be better in smaller councils than in larger ones? I am thinking about a council like Ceredigion and the field of education in particular, where its performance is among the best in Wales. If you, as a Government, decide to merge councils, how will you ensure that the poorest performing councils improve and that we do not see a situation where the performance of the best deteriorates as a result of merger?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:38	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Williams states very clearly that performance is patchy and poor in places and characterised by a lack of ambition. That is in the report. There is no reason why smaller authorities or larger authorities should have that patchiness. I do not see that, and I certainly did not see that as I went around Wales over the summer visiting all the local authorities. Equally, I do not see why any larger authority should be any less democratic or more remote from the community. That all ties in together.</p>	<p>Mae Williams yn datgan yn glir iawn bod perfformiad yn anghyson ac yn wael mewn mannau a'i fod wedi'i nodweddu gan ddiffyg uchelgais. Mae hynny yn yr adroddiad. Nid oes unrhyw reswm pam y dylai awdurdodau llai nac awdurdodau mwy fod yn anghyson yn y fath fodd. Ni welaf hynny, ac yn sicr, ni welais hynny wrth deithio ledled Cymru dros yr haf yn ymweld â'r holl awdurdodau lleol. Yn yr un modd, ni welaf pam y dylai unrhyw awdurdod mwy fod yn llai democrataidd nac yn fwy anghysbell mewn unrhyw ffordd. Mae cyswllt rhwng pob elfen.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Diogelwch Cymunedol		Community Safety	
14:39	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol? OAQ(4)0366(LG)</i></p>	<p><i>6. Will the Minister outline her priorities for community safety? OAQ(4)0366(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:39	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Chapter 7 of the programme for government outlines our commitment to making communities safer across Wales. The recent achievement of one of our top 'five for a fairer future' priorities, namely the recruitment of an extra 500 community support officers across Wales, is already helping people feel safer in their community.</p>	<p>Mae Pennod 7 o'r rhaglen lywodraethu yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod cymunedau yn fwy diogel ledled Cymru. Mae'r ffaith ein bod wedi cyflawni un o'n blaenoriaethau o ran 'pump am ddyfodol tecach', sef recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol ledled Cymru, eisoes yn helpu pobl i deimlo'n fwy diogel yn eu cymuned.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:39	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch, Weinidog. Mae sawl etholwr wedi dod ataf gyda phryderon am ddiwylliant posib o fwlio yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae diffoddwyr tân yn gwneud swyddi arbennig, yn aml o dan amodau caled. Os oes diwylliant o fwlio yn bodoli, bydd yn effeithio ar allu'r gwasanaeth i sicrhau diogelwch ein cymunedau. Rwyf wedi galw am ymchwiliad annibynnol, gan ei bod yn hanfodol fod staff yn teimlo'n hyderus y byddai unrhyw honiadau yn derbyn ystyriaeth briodol. Mae craffu yn y gwasanaeth tân a gwasanaethau argyfwng eraill yn hollbwysig. Beth yw eich disgwyliadau ar gyfer y ddarpariaeth craffu?</p>	<p>Thank you, Minister. A number of constituents have approached me with concerns about a possible bullying culture within the Mid and West Wales Fire and Rescue Service. Firefighters do an excellent job, very often under difficult conditions. If there is a culture of bullying in existence, it would impact upon the service's ability to safeguard our communities. I have called for an independent inquiry, as it is crucial that staff have the confidence that any claims would be given appropriate consideration. Scrutiny of the fire service and of other emergency services is crucially important. What are your expectations in terms of that scrutiny provision?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:40 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Bullying is obviously unacceptable and should not be tolerated. It is for each fire and rescue authority to scrutinise the efficient and effective deployment of resources and the achievement of performance targets. You raise a specific issue, which is a matter for the mid and west Wales service. Again, Williams praised fire service performance; he said that it impressed him and the commission, but that the services needed to improve its scrutiny. That is a recommendation that we will be closely looking at.
- Mae bwlio yn amlwg yn annerbyniol ac ni ddylid ei oddef. Mae cyfrifoldeb ar bob awdurdod tân ac achub i graffu ar y defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau a'r ffordd y caiff targedau perfformiad eu cyflawni. Rydych yn codi mater penodol, sy'n ymwneud â gwasanaeth canolbarth a gorllewin Cymru. Unwaith eto, canmolodd Williams berfformiad y gwasanaeth tân; dywedodd ei fod wedi creu argraff arno ac ar y comisiwn, ond bod angen i'r gwasanaethau wella eu trefniadau craffu. Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwnnw yn ofalus.
- 14:41 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, greater community cohesion is essential if community safety is to be strengthened. One way in which communities can be brought together is through inter-faith fora to facilitate dialogue between the major faith communities. What action has the Welsh Government taken to encourage local authorities to set up such faith groups locally?
- Weinidog, mae mwy o gydlyniant cymunedol yn hanfodol er mwyn atgyfnerthu diogelwch cymunedol. Un ffordd y gellir dwyn cymunedau ynghyd yw defnyddio ffordd rhyngffydd i hwyluso trafodaethau rhwng y prif gymunedau ffydd. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i annog awdurdodau lleol i sefydlu grwpiau ffydd o'r fath yn lleol?
- 14:41 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is something that I have encouraged. I attended a meeting at a mosque in Cardiff where Cardiff Council was working closely with the people who attended the mosque. We had a very productive meeting around community cohesion. It was a very good example of the council working with such groups.
- Mae'n rhywbeth rwyf wedi'i annog. Bûm mewn cyfarfod mewn mosg yng Nghaerdydd lle roedd Cyngor Caerdydd yn cydweithio'n agos â'r bobl a oedd yn mynd i'r mosg. Cawsom gyfarfod cynhyrchiol iawn am gydlyniant cymunedol. Roedd yn enghraifft dda iawn o'r cyngor yn gweithio gyda grwpiau o'r fath.
- 14:41 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, no-cold-calling zones offer greater protection to the most vulnerable people in our communities. What action will you be taking to help residents who live in those areas without no-cold-calling zones to avoid becoming victims of scams and distraction burglaries?
- Weinidog, mae parthau dim galw diwahoddiad yn cynnig mwy o ddiogelwch i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i helpu trigolion sy'n byw yn yr ardaloedd hynny lle nad oes parthau dim galw diwahoddiad i osgoi dioddef sgamiau a byrgleriaethau drwy dynnu sylw?
- 14:42 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In our programme for government, we made a commitment to support the extension of no-cold-calling zones, to warn rogue traders and cold callers that they are being watched. I visited a house in a no-cold-calling zone in Rhondda Cynon Taf, to talk to the lady in the house and her neighbours about its success. This is something that I have highlighted with local authorities. We have funding available, but not many local authorities have actually put in for that funding. I need to understand why they are not doing it, because it is very important that we extend the zones as much as possible.
- Yn ein rhaglen lywodraethu, gwnaethom ymrwymiad i gefnogi ymdrechion i ehangu parthau dim galw diwahoddiad, er mwyn rhybuddio masnachwyr twyllodrus a galwyr diwahoddiad eu bod yn cael eu gwyllo. Ymwelais â thŷ mewn parth dim galwadau dirybudd yn Rhondda Cynon Taf, i siarad â'r wraig yn y tŷ a'i chymdogion am ei llwyddiant. Rwyf wedi tynnu sylw awdurdodau lleol at hyn. Mae'r arian ar gael, ond nid oes llawer o awdurdodau lleol wedi mynd ati i wneud cais am yr arian hwnnw. Mae angen imi ddeall pam nad ydynt yn gwneud hynny, gan ei bod yn bwysig iawn ein bod yn ehangu'r ardaloedd cymaint â phosibl.
- 14:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 7 has been asked, so we move to question 8; Rhun ap Iorwerth.
- Gofynnwyd cwestiwn 7, felly symudwn at gwestiwn 8; Rhun ap Iorwerth.

Llywodraeth Leol

Local Government

- 14:42 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol llywodraeth leol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0359(LG) *8. Will the Minister make a statement on the future of local government in north Wales? OAQ(4)0359(LG)*
- 14:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
The Williams commission published its report on the future of the public sector, including local government, on 20 January. We wish to carefully consider our response. However, I expect all local authorities, including north Wales authorities, to continue to deliver high-quality services for the people of Wales. Cyhoeddodd comisiwn Williams ei adroddiad ar ddyfodol y sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol, ar 20 Ionawr. Rydym yn awyddus i ystyried ein hymateb yn ofalus. Fodd bynnag, disgwyliaf i bob awdurdod lleol, gan gynnwys awdurdodau gogledd Cymru, barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl Cymru.
- 14:43 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Yn amlwg, byddai uno cyngorau yn cael effaith ar nifer yr uwch-reolwyr ar draws awdurdodau a fyddai'n cael eu huno, wrth geisio osgoi dyblygu cyfrifoldebau, ond un o'r prif amcanion o gymryd y camau hyn fyddai arbed arian er mwyn cynnig gwell gwasanaethau. Pa sicrwydd y gallwch chi ei roi y bydd swyddi'r rheini sy'n darparu ac yn delifro gwasanaethau ar y 'front line' yn cael eu gwarchod a'u hamddiffyn yn sgil yr uno? Obviously, merging councils will have an effect on the number of senior managers across those authorities affected, in an effort to avoid duplication of responsibilities, but one of the main objectives in taking these steps would be to save money in order to offer better services. What certainty can you give that the jobs of those who provide and deliver services on the front line will be safeguarded and protected in the wake of any mergers?
- 14:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Authorities, unfortunately, have to reduce staff numbers because of the continued squeeze on public expenditure at the present time. Obviously, the senior officers, if the number is reduced, like anyone who finds themselves without jobs, will have statutory entitlements. It is very important that we look carefully at staff. My message to local authorities as they are setting their budgets for next year is that they should not just be looking at salami slicing of services or looking at redundancies, as they also need to work very closely on saving as many jobs as possible. Yn anffodus, rhaid i awdurdodau leihau nifer y staff o ganlyniad i'r pwysau parhaus sydd ar wariant cyhoeddus ar hyn o bryd. Yn amlwg, os caiff eu nifer ei lleihau, bydd gan uwch swyddogion, fel unrhyw un sy'n ei gael ei hun heb swydd, hawliau statudol. Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych yn ofalus ar staff. Fy neges i awdurdodau lleol wrth iddynt bennu eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf yw na ddylent ond ystyried cwtogi gwasanaethau neu ddiswyddiadau, ond bod angen iddynt hefyd wneud gwaith manwl i arbed cymaint o swyddi â phosibl.
- 14:44 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, the Conservatives previously put forward an amendment to the Local Government (Democracy) (Wales) Bill, which would have allowed the recommendations of the independent remuneration panel for Wales to be binding regarding a cap on chief executives' pay. Given the Williams report and the fact that, in north Wales, at least 26 council employees are earning over £100,000 a year, will you be looking at, potentially, allowing the recommendations of the Independent Remuneration Panel for Wales to set binding levels of pay? Nothing frustrates local people more than seeing their services cut while people at the top of the council are receiving huge remuneration packages. Weinidog, cyflwynodd y Ceidwadwyr yn flaenorol welliant i'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), a fyddai wedi caniatáu i argymhellion y panel annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol ynghylch cap ar gyflogau prif weithredwyr fod yn gyfrwysol. O ystyried adroddiad Williams a'r ffaith bod o leiaf 26 o gyflogeion cyngorau yng ngogledd Cymru yn ennill dros £100,000 y flwyddyn, a fyddwch yn ystyried y posibilrwydd o ganiatáu i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol bennu lefelau cyflog cyfrwysol? Nid oes unrhyw beth yn fwy rhwystredig i bobl na gweld eu gwasanaethau yn cael eu cwtogi tra bod y bobl ar frig y cyngor yn cael pecynnau cydnabyddiaeth ariannol enfawr.
- 14:45 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, I think that it is something that does concern members of the public. Obviously, it is for each local authority to decide on the salaries of their senior officers, but I would be happy to look at whether further changes to the powers of the independent remuneration panel would be required in future. Byddaf. Credaf fod hynny'n rhywbeth sy'n peri pryder i aelodau'r cyhoedd. Yn amlwg, cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw pennu cyflogau eu huwch swyddogion, ond byddwn yn fwy na pharod i ystyried pa un a fyddai angen newidiadau pellach i bwerau'r panel ar gydnabyddiaeth ariannol yn y dyfodol.
- 14:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Question 9 and question 10 have been asked. Gofynnwyd cwestiynau 9 a 10.

Rheoli Perfformiad

14:45 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli perfformiad mewn awdurdodau lleol? OAQ(4)0363(LG)

14:45 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Local authorities are responsible for managing and improving their own performance. The Welsh Government monitors performance and has provided formal support, directions or intervention to address specific governance or performance challenges faced by authorities.

14:46 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank the Minister for that reply. The Williams commission report is clear that benchmarking—here within Wales, outside Wales and internationally—must become a key part of the new national performance framework. The Welsh Government will be taking a lead in that. How does the Minister propose to support local authorities in developing comparable performance data and systems in the period ahead?

14:46 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We will be examining all of the recommendations in the commission's report, and we need to look very carefully at how we develop an integrated programme of action. I think that it is too soon to say what our response will be to specific recommendations or, indeed, to set out a timetable for implementation. However, we already work closely with local government and we have an established programme in place to ensure that it is focused on managing and improving performance. I expect that work to continue, even in light of the Williams commission reporting, and I do not expect to see any loss of momentum.

14:47 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, evidence collated suggests a wide discrepancy in the monitoring of information by our local authorities, including pay policy statements, compromise agreements and implementation of the model code of guidance for complaints. Minister, in evidence to us in committee, you have heralded this as being marvellous. Are you aware, though, that, in Cardiff, complaints went from 2,080 in 2010-11 to 4,474 in 2011-12? Furthermore, Cardiff does not even record whether complaints are upheld or dismissed. Minister, this is hardly a ringing endorsement of performance management. What are you doing to ensure a consistent approach to something as fundamental as our complaints procedure? Remember, when it is good it is very good, but when it is bad it can be tragic, such as in the case of health.

Performance Management

11. Will the Minister make a statement on performance management in local authorities? OAQ(4)0363(LG)

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli a gwella eu perfformiad eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad ac mae wedi cyflwyno cymorth ffurfiol, cyfarwyddiadau neu ymyriadau i ymdrin â heriau penodol o ran llywodraethu neu berfformiad a wynebir gan awdurdodau.

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Mae adroddiad comisiwn Williams yn nodi'n glir bod yn rhaid i feincnodi—yma yng Nghymru, y tu allan i Gymru ac yn rhyngwladol—ddod yn rhan allweddol o'r fframwaith perfformiad cenedlaethol newydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd yr awenau yn hynny o beth. Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu helpu awdurdodau lleol i ddatblygu data perfformiad a systemau cymharol yn ystod y cyfnod sydd i ddod?

Byddwn yn ystyried pob un o'r argymhellion yn adroddiad y comisiwn, ac mae angen inni edrych yn ofalus iawn ar sut y gallwn ddatblygu rhaglen weithredu integredig. Credaf ei bod yn rhy gynnar i nodi beth fydd ein hymateb i argymhellion penodol nac, yn wir, i bennu amserlen ar gyfer gweithredu. Fodd bynnag, rydym eisoes yn cydweithio'n agos â llywodraeth leol ac mae rhaglen sefydledig ar waith gennym i sicrhau bod y gwaith hwnnw yn canolbwyntio ar reoli a gwella perfformiad. Disgwyliaf i'r gwaith hwnnw barhau, hyd yn oed o ystyried adroddiad comisiwn Williams, ac ni ddisgwyliaf unrhyw golled o ran momentwm.

Weinidog, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu anghysondeb eang o ran trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer monitro gwybodaeth, gan gynnwys datganiadau polisi ar gyflogau, cytundebau cyfaddawdu a'r broses o roi'r cod canllawiau enghreifftiol ar gyfer cwynion ar waith. Weinidog, mewn tystiolaeth inni yn y pwyllgor, gwnaethoch ganmol hyn fel rhywbeth gwych. Fodd bynnag, a ydych yn ymwybodol, yng Nghaerdydd, bod nifer y cwynion wedi cynyddu o 2,080 yn 2010-11 i 4,474 yn 2011-12? At hynny, nid yw Caerdydd hyd yn oed yn cofnodi pa un a gaiff cwynion eu cadarnhau neu eu gwrthod. Weinidog, prin y gellid disgrifio hyn fel enghraifft wych o reoli perfformiad. Pa gamau sydd ar waith gennyh i sicrhau dull gweithredu cyson o ran ein gweithdrefn gwyno? Cofiwch, pan fo'n effeithiol, mae'n effeithiol iawn, ond pan nad yw'n effeithiol, gall fod yn drasig, yn achos iechyd, er enghraifft.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I was not aware of the specific numbers to which you referred, but local authorities are required by law to report publicly on their performance annually. Obviously, the Auditor General for Wales also assesses their performance management arrangements and their effectiveness annually. So, there is a great deal of performance monitoring going on in local authorities. I mentioned that I will be reporting next week on the annual compendium of performance.

Nid oeddwn yn ymwybodol o'r niferoedd penodol y gwnaethoch gyfeirio atynt, ond mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yn ôl y gyfraith, gyflwyno adroddiad cyhoeddus ar eu perfformiad bob blwyddyn. Yn amlwg, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn asesu eu trefniadau rheoli perfformiad a'u heffeithiolrwydd bob blwyddyn. Felly, mae cryn dipyn o waith monitro perfformiad yn mynd rhagddo o fewn awdurdodau lleol. Soniais fy mod yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y compendium perfformiad blynyddol yr wythnos nesaf.

14:48 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I wonder what thought you have given further to the remuneration of managers in local government, especially with regard to the cuts that are being made. It stands to reason in my mind that, if staffing budgets are going down and services are being outsourced, those managers will have fewer responsibilities, yet they are the ones delivering the cuts to other staff. So, how do we go about making those particular changes without it coming from a higher level to the managers in local councils? I wonder whether you have any thoughts on that, Minister.

Weinidog, tybed pa ystyriaeth bellach rydych wedi'i rhoi i gydnabyddiaeth ariannol rheolwyr mewn llywodraeth leol, yn enwedig o ran y toriadau sy'n mynd rhagddynt. Wrth reswm, yn fy marn i, os yw cyllidebau staffio yn lleihau a gwasanaethau yn cael eu gosod ar gontractau allanol, bydd gan y rheolwyr hynny lai o gyfrifoldebau, ond eto i gyd, nhw sy'n cyflwyno'r toriadau i aelodau eraill o staff. Felly, sut y gallwn fwrw ati i wneud y newidiadau penodol hynny heb iddynt gael eu cyflwyno o lefel uwch i'r rheolwyr o fewn cynghorau lleol? Tybed a oes gennych unrhyw sylwadau ar hynny, Weinidog.

14:49 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

It is something that I have discussed with local authority chief executives and leaders, but it is a matter for each local authority to set the salaries for its senior officers. They are the people who are locally elected; they are the ones responsible for providing local services, and I think that it is right that the decision lies with them.

Mae'n rhywbeth rwyf wedi'i drafod â phrif weithredwyr ac arweinwyr awdurdodau lleol, ond mater i bob awdurdod lleol yw pennu cyflogau ei uwch swyddogion. Dyma'r bobl a gaiff eu hethol yn lleol; dyma'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau lleol, a chredaf ei bod yn briodol mai nhw sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad.

14:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Question 12 has been asked. Gofynnwyd cwestiwn 12.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Anti-Social Behaviour

14:49 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? OAQ(4)0368(LG)

13. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to tackle anti-social behaviour? OAQ(4)0368(LG)

14:49 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We have delivered on our programme for government commitment of an additional 500 community support officers to make our communities safer. Our youth crime prevention fund continues to support projects for diverting young people away from crime and anti-social behaviour and we are supporting the development of more no-cold-calling zones.

Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu i ddarparu 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol i sicrhau bod ein cymunedau yn fwy diogel. Mae ein cronfa atal troseddau gan ieuencid yn parhau i gefnogi prosiectau i atal pobl ifanc rhag troseddu ac ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol ac rydym yn cefnogi ymdrechion i ddatblygu mwy o parthau dim galw diwahoddiad.

- 14:50 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae Llanelli a threfi eraill yn ne Cymru wedi cael problemau gydag argaeledd y cyffur 'methodone'. Lanswyd ffilm fer yr wythnos diwethaf i bobl ifanc yn eu harddegau ym Mlaenau Gwent a Chaerffili ar beryglon y cyffur. Yn ogystal â'r effaith ar iechyd, mae hefyd effaith fawr ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. A yw ffilmiau byr i'w dangos mewn ardaloedd sy'n gysylltiedig â'r cyffur yn gyntaf yn rhywbeth i'r Llywodraeth ei reoli gyda phobl ifanc ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, addysg ac iechyd, fel yr ydych gyda'r llinell gymorth camddefnyddio cyffuriau?
- Llanelli and other towns in south Wales have had problems with the availability of methodone. A short film was launched last week for teenagers in Blaenau Gwent and Caerphilly on the drug's dangers. As well as the effect on health, it also has a huge impact on anti-social behaviour. Are short films to be shown first in areas where there is a problem with the drug a tool that the Welsh Government should control with young people in relation to anti-social behaviour, education and health, as you do with the drug misuse helpline?
- 14:50 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that short films can be used to reinforce such messages as part of the overall education and preventative strategy. That matter sits outside of my portfolio; it sits with the Minister for Health and Social Services, so I will ask him to respond to you.
- Credaf y gellir defnyddio ffilmiau byr i atgyfnerthu negeseuon o'r fath fel rhan o'r strategaeth addysg ac atal gyffredinol. Nid yw'r mater hwnnw yn rhan o'm portffolio; mae'n rhan o bortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, felly gofynnaf iddo ymateb ichi.
- 14:51 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The police and crime commissioner in north Wales has piloted a participatory budgeting grant scheme allowing local communities in north Wales to decide which projects to help cut crime and reduce anti-social behaviour are given financial support. What consideration have you or will you give to this form of community engagement to help not only drive forward improved communities and tackling anti-social crime, but genuinely delivering co-production and resilient communities?
- Mae'r comisiynydd heddlu a throseddau yng ngogledd Cymru wedi treialu cynllun grant cyllidebu cyfranogol sy'n caniatáu i gymunedau lleol yn y gogledd benderfynu pa brosiectau i helpu i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gaiff gymorth ariannol. Pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi neu y byddwch yn ei rhoi i'r math hwn o ymgysylltu â'r gymuned, nid yn unig er mwyn helpu i sicrhau cymunedau gwell a mynd i'r afael â throseddau gwrthgymdeithasol, ond hefyd i sicrhau o ddifrif bod trefniadau cyd-gynhyrchu a chymunedau gwydn gennym?
- 14:51 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is certainly something that sounds very interesting. I am due to meet the police and crime commissioners next month, and I will raise it with the north Wales PCC.
- Yn sicr, mae'n rhywbeth sy'n swno'n ddi-ddorol iawn. Rwyf wedi trefnu i gyfarfod â'r comisiynydd heddlu a throseddau fis nesaf, a chodaf y mater gyda chomisiynydd gogledd Cymru.
- 14:51 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, constituents in Powys have raised with me recently the growing prevalence of illegal off-roading activities, especially at weekends and during the night. This could be particularly damaging at this time of year, with its increased mud and unstable soil, as it can cause further damage to the ground and indeed, additional unwanted sediment to enter waterways and drainage channels, with the inevitable consequences. Will you please outline what specific steps the Welsh Government can take in partnership with local authorities and the police to address this worrying trend?
- Weinidog, mae etholwyr ym Mhowys wedi codi gyda mi yn ddiweddar y cynnydd o ran gweithgareddau anghyfreithlon oddi ar y ffordd, yn enwedig ar benwythnosau ac yn ystod y nos. Gallai hyn fod yn arbennig o niweidiol yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn, lle ceir mwy o fwd a phridd ansefydlog, oherwydd gall achosi difrod pellach i'r ddaear ac yn wir, gall achosi i waddod diangen ychwanegol fynd i ddyfrffyrdd a sianelau draenio, a'r canlyniadau anochel sy'n deillio o hynny. A fydddech cystal ag amlinellu pa gamau penodol y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r heddlu i ymdrin â'r duedd ofidus hon?
- 14:52 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That has never been specifically raised with me, but I will write to the Member with further details.
- Ni chodwyd hynny'n benodol gyda mi erioed, ond ysgrifennaf at yr Aelod gyda manylion pellach.

Mentrau Cyfiawnder Ieuencid

Youth Justice Initiatives

- 14:52 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
14. Pa asesiadau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal o lwyddiant mentrau cyfiawnder ieuenctid Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno'r Bil Cyfiawnder Ieuenctid? OAQ(4)0362(LG)
14. What assessments has the Minister made of the success of Welsh Government youth justice initiatives prior to the introduction of the Youth Justice Bill? OAQ(4)0362(LG)
- 14:52 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 The evidence in the Green Paper consultation and the responses received provide a strong evidence base that, while the numbers have reduced, the young people who are in the system have more complex needs and are more likely to reoffend. This is why I am legislating for the prevention of offending by young people.
 Mae'r dystiolaeth yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd a'r ymatebion a gafwyd yn darparu sail dystiolaeth gref, er bod nifer y bobl ifanc sy'n rhan o'r system wedi lleihau, bod gan y bobl ifanc hynny anghenion mwy cymhleth a'u bod yn fwy tebygol o ail-droeddu. Dyma pam fy mod yn deddfu er mwyn atal troseddau gan bobl ifanc.
- 14:52 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Rydych chi wedi sôn am yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ond mae cryn dipyn o feirniadaeth ynglŷn â'r ffaith nad yw asesiadau cyflawn a chadarn wedi eu cwblhau mewn rhai manau. A fydddech yn barod i gyhoeddi'r holl asesiadau hynny wrth inni ystyried y Bil?
 You mentioned the responses to the consultation, but there has been a lot of criticism of the fact that full and robust assessments have not been completed in some places. Would you be willing to publish all the assessments as we consider the Bill?
- 14:53 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 I think that the responses that we had to the Green Paper were testament to the success of the initiatives that we have had. I mentioned in an earlier answer, I think, to Keith Davies the number of young people who were in custody three years ago and the number that we have as of last week. However, as I said in my opening answer to you, we are now left with a group of very hard-to-reach young people with very complex needs.
 Credaf fod yr ymatebion a gawsom i'r Papur Gwyrdd yn brawf o lwyddiant y mentrau a roddwyd ar waith gennym. Cyfeiriais mewn ymateb cynharach, credaf, i Keith Davies at y nifer o bobl ifanc a oedd yn y ddalfa dair blynedd yn ôl a'r nifer gyfatebol yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy ateb agoriadol ichi, mae gennym bellach grŵp o bobl ifanc sy'n anodd iawn eu cyrraedd ag anghenion cymhleth iawn.
 The responses provide that clear evidence base about a specific set of issues that the young people in youth custody now face. For instance, a significant number of them are involved in social services, have mental health issues and have no qualifications. I am happy to publish any responses that I am legally able to publish. I am going to publish the White Paper on 5 February and I hope to introduce the Bill to the Assembly early next year.
 Mae'r ymatebion yn darparu'r sail dystiolaeth glir honno am set benodol o broblemau y mae pobl ifanc yn y ddalfa bellach yn eu hwynebu. Er enghraifft, mae nifer sylweddol ohonynt yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol, yn meddu ar broblemau iechyd meddwl ac heb unrhyw gymwysterau. Rwy'n fwy na pharod i gyhoeddi unrhyw ymatebion y gallaf eu cyhoeddi'n gyfreithiol. Byddaf yn cyhoeddi'r Papur Gwyn ar 5 Chwefror a gobeithiaf gyflwyno'r Bil i'r Cynulliad yn gynnar y flwyddyn nesaf.
- 14:54 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Minister, I would be interested to hear your views about how the learning initiative for young people in the criminal justice system has worked since its creation in 2010, specifically with a focus on young people aged between 11 and 17, attached to the consortia for youth offending teams, and how the initiative dovetails with the National Offender Management Service Cymru.
 Weiniadog, byddai diddordeb gennyf i glywed eich barn am sut mae'r fenter dysgu i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol wedi gweithio ers ei chreu yn 2010, gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc rhwng 11 a 17 oed, sy'n gysylltiedig â'r consortia ar gyfer timau troseddwr ifanc, a sut mae'r fenter yn gyson â Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr Cymru.
- 14:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 You heard me say in my answer to Aled Roberts that I think that the responses that we have had in relation to the Green Paper are testament to the success of the many initiatives that we have in relation to young people in custody. However, reoffending does concern me and it is on the rise. That is why I want to have this standalone Bill. You heard me say that the number of young people in custody has dropped significantly—by 56%—which is testament to the success of our schemes.
 Fel y clywsoc yn fy ateb i Aled Roberts, credaf fod yr ymatebion a gawsom mewn perthynas â'r Papur Gwyrdd yn brawf o lwyddiant y mentrau niferus sydd ar waith gennym mewn perthynas â phobl ifanc yn y ddalfa. Fodd bynnag, mae ail-droeddu yn peri pryder imi ac mae ar gynydd. Dyna pam rwy'n awyddus i gael y Bil annibynnol hwn. Fe'm clywsoc yn dweud bod nifer y bobl ifanc yn y ddalfa wedi lleihau'n sylweddol—o 56%—sy'n brawf o lwyddiant ein cynlluniau.

Setliad Llywodraeth Leol

Local Government Settlement

- 14:55 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad Llywodraeth Leol yn Nhorfaen? OAQ(4)0367(LG)
- 14:55 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I announced the final local government settlement for 2014-15 in December. It was approved by this Assembly on 14 January. It provides authorities, including Torfaen County Borough Council, with the information that they need to set their budget for next year.
- 14:55 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It is clearly right that we are all debating and reflecting on the work of the Williams commission, but do you agree that, at a time when we are asking councils across Wales to make very deep and painful cuts and when any savings from reorganisation will not be delivered until far into the future, it is essential that we take enough time to get this right rather than rushing headlong into a process for the sake of meeting what feels like a pretty arbitrary Easter deadline?
- 14:55 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I set out before what our expectation is about the Easter deadline, but I think that you are absolutely right: we need to give very careful consideration to the many recommendations of the commission's report before we can produce a clear timescale for implementation.
- 14:56 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, the Estyn inspection of education services in Torfaen identified serious weaknesses requiring significant improvement. The Deputy Minister for Skills and Technology has announced the establishment of a recovery board to assist Torfaen in addressing these weaknesses due to the slow progress being made. Do you agree that the local government settlement for Torfaen should be sufficient to enable it to deliver a good education service for the children?
- 14:56 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The local government settlement is very difficult, and I acknowledge that. However, I can only give local government the money that I have, and the Welsh Government can only give out the money that the UK Government gives it. We have had a significant reduction in our budget. I am very hopeful that all local authorities will come up with balanced budgets—it is their legal responsibility to do so—and be able to provide very good public services for the people of their area.
15. Will the Minister make a statement on the Local Government settlement in Torfaen? OAQ(4)0367(LG)
- Cyhoeddais y setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2014-15 ym mis Rhagfyr. Fe'i cymeradwywyd gan y Cynulliad hwn ar 14 Ionawr. Mae'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar awdurdodau, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, i bennu eu cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Mae'n amlwg yn briodol ein bod oll yn trafod ac yn myfyrio ar waith comisiwn Williams, ond a gytunwch, ar adeg pan rydym yn gofyn i gynghorau ledled Cymru wneud toriadau sylweddol ac anodd iawn a phan na chaiff unrhyw arbedion sy'n deillio o ad-drefnu eu gwireddu am gryn amser, ei bod yn hanfodol inni gymryd digon o amser i wneud pethau'n iawn yn hytrach na rhuthro ar ein pennau i roi proses ar waith er mwyn bodloni terfyn amser braidd yn fymppyol, sef cyn y Pasg?
- Nodais eisoes ein disgwyliad o ran terfyn amser y Pasg, ond credaf eich bod yn llygad eich lle: mae angen inni roi ystyriaeth ofalus iawn i argymhellion niferus adroddiad y comisiwn cyn y gallwn lunio amserlen weithredu glir.
- Weinidog, nododd arolygiad Estyn o wasanaethau addysg yn Nhorfaen wendidau difrifol y mae angen eu gwella'n sylweddol. Mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg wedi cyhoeddi y caiff bwrdd adfer ei sefydlu er mwyn helpu Torfaen i ymdrin â'r gwendidau hyn oherwydd y cynnydd araf a wneir. A gytunwch y dylai'r setliad llywodraeth leol ar gyfer Torfaen fod yn ddigon i alluogi iddo ddarparu gwasanaeth addysg da i'r plant?
- Mae'r setliad llywodraeth leol yn anodd iawn, ac rwy'n cydnabod hynny. Fodd bynnag, ni allaf ond rhoi'r arian sydd gennyf i lywodraeth leol, a gall Llywodraeth Cymru ond dosbarthu'r arian a gaiff gan Lywodraeth y DU. Gostyngwyd ein cyllideb yn sylweddol. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd pob awdurdod lleol yn llwyddo i fantoli eu cyllidebau—mae cyfrifoldeb cyfreithiol arnynt i wneud hynny—ac y byddant yn gallu darparu gwasanaethau cyhoeddus da iawn i'r bobl yn eu hardal.

14:57

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Questions to the Assembly Commission

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No questions have been tabled.

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.3 i Addasu Cylch Gwaith a Theitlau Pwyllgorau

Cynnig NDM5403 Rosemary Butler

Motion under Standing Order 16.3 to Alter the Remits and Titles of Committees

Motion NDM5403 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, yn cytuno i:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 16.3, agrees to:

1. newid cylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i gynnwys Addysg Uwch;

1. alter the remit of the Children and Young People Committee to include Higher Education;

2. newid teitl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg;

2. change the title of the Children and Young People Committee to the Children, Young People and Education Committee;

3. trosglwyddo twristiaeth o gylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes.

3. transfer tourism from the remit of the Communities, Equality and Local Government Committee to that of the Enterprise and Business Committee.

14:57

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc

I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee to move the motion.

The Enterprise and Business Committee's Report on the Inquiry into Youth Entrepreneurship

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5404 Nick Ramsay

Motion NDM5404 Nick Ramsay

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2013.

Notes the Enterprise and Business Committee's Report on the Inquiry into Youth Entrepreneurship, which was laid in the Table Office on 14 November 2013.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As Chair of the Enterprise and Business Committee, I am delighted to open today's debate on our report into youth entrepreneurship. I believe that this was one of the most interesting and inspiring inquiries that the committee has carried out. We were privileged to speak to many young entrepreneurs during our visits to the Alacrity Foundation in Newport and the Flintshire Enterprise Club in Deeside. May I take this opportunity to thank both organisations? I am glad to see the Flintshire Enterprise Club feature so positively in the Welsh Government's response to our report. The committee is also extremely grateful to all the young entrepreneurs and their advisers who took part in the video that the committee saw. Many of the entrepreneurs are with us today in the Assembly. This video was produced by the Assembly's outreach team, and in it those entrepreneurs talked about their experiences and how the current system of support for entrepreneurship could be improved. That gave us a solid base of evidence that informed the rest of the inquiry. It is on the Assembly's website and I would really encourage Members to watch it—it is fantastic.

We would particularly like to thank Gareth Jones, captain of the Innovation Centre for Enterprise in Caerphilly, who hosted the launch of our report in the company of his community of young entrepreneurs. We are grateful for the time that they put into reading and responding to our report and the recommendations and in making the effort to sit in the public gallery and listen to today's debate. Gareth said during the launch that we needed

'to celebrate the skills of all young people, not highlight skill gaps';

that more Welsh businesses needed

'to take risks to inspire a new generation of innovative thinkers';

and that

'open innovation needs to be at the core of all problem solving within government and local authorities, with the young entrepreneur community incentivised to take on the challenges'.

Those words really impressed me and other members of the committee; I could not agree more.

In terms of what the committee found, we were generally impressed by the Welsh Government's commitment to promote youth entrepreneurship and the range of initiatives that have been put in place in pursuit of that goal. However, we were frustrated to discover that, while statistics show an upward trend in enthusiasm and interest in youth entrepreneurship in Wales, there is a significant gap between that swell of ambition and the actual reality.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, rwy'n falch iawn o agor y ddadl heddiw ar ein hadroddiad ar entrepreneuriaeth ieuentid. Credaf fod hwn yn un o'r ymchwiliadau mwyaf diddorol ac ysbrydoledig y mae'r pwyllgor wedi ei gynnal. Cawsom y fraint o siarad â llawer o entrepreneuriaid ifanc yn ystod ein hymweliadau â Sefydliad Alacrity yng Nghasnewydd a Chlwb Menter Sir y Fflint yng Nglannau Dyfrdwy. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r ddau sefydliad. Rwy'n falch o weld Clwb Menter Sir y Fflint yn cael sylw mor gadarnhaol yn ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad. Mae'r pwyllgor hefyd yn hynod ddiolchgar i'r holl entrepreneuriaid ifanc a'u cynghorwyr a gymerodd ran yn y fideo a welodd y pwyllgor. Mae llawer o'r entrepreneuriaid gyda ni yma heddiw yn y Cynulliad. Cynhyrchwyd y fideo hwn gan dîm allgymorth y Cynulliad, ac ynddo soniodd yr entrepreneuriaid hynny am eu profiadau a sut y gellid gwella'r system bresennol o gymorth i entrepreneuriaeth. Rhoddodd hynny sylfaen gadarn o dystiolaeth a lywiodd weddill yr ymchwiliad. Mae ar gael ar wefan y Cynulliad a hoffwn annog Aelodau i'w wyllo—mae'n wych.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Gareth Jones, capten y Ganolfan Arloesi Menter yng Nghaerffili, a gynhaliodd lansiad ein hadroddiad yng nghwmni ei gymuned o entrepreneuriaid ifanc. Rydym yn ddiolchgar iddynt am roi o'u hamser i ddarllen ac ymateb i'n hadroddiad a'r argymhellion ac am wneud yr ymdrech i eistedd yn yr oriel gyhoeddus a gwrandao ar y ddadl heddiw. Dywedodd Gareth yn ystod y lansiad bod angen inni

ddathlu sgiliau'r holl bobl ifanc, yn hytrach na thynnu sylw at fylchau mewn sgiliau;

bod angen i fwy o fusnesau yng Nghymru

fentro er mwyn ysbrydoli cenhedlaeth newydd o feddylwyr arloesol;

a

bod angen i arloesi agored fod wrth wraidd pob proses datrys problemau o fewn y llywodraeth ac awdurdodau lleol, gyda'r gymuned o entrepreneuriaid ifanc yn cael cymhellion i ateb yr heriau.

Gwnaeth y geiriau hynny argraff fawr arnaf i ac aelodau eraill y pwyllgor; cytunaf yn llwyr.

O ran yr hyn a ganfu'r pwyllgor, gwnaeth ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo entrepreneuriaeth ieuentid a'r ystod o fentrau a roddwyd ar waith er mwyn cyflawni'r nod hwnnw argraff dda arnom ar y cyfan. Fodd bynnag, bu'n rhwystredig inni ddarganfod, er bod ystadegau'n dangos tuedd tuag i fyny o ran brwdfrydedd a diddordeb mewn entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yng Nghymru, fod bwlch sylweddol rhwng yr uchelgais cynyddol hwn a'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd.

Evidence put forward by the higher education sector showed that Wales has a higher rate of graduate start-ups per head of population than the rest of the UK, yet evidence from the Federation of Small Businesses indicated that Wales has lower overall business start-ups, suggesting a comparative lack of start-ups among non-graduates.

We came across a number of other challenges. As one witness told us, the landscape of opportunities, initiatives and organisations involved in entrepreneurship is 'a minefield'. We were also concerned to discover that there is no rigorous monitoring or evaluation of all the schemes and initiatives that are going on across Wales so that we could promote and share best practice. I am sure that my fellow Members will speak later about the variation that we found across Wales.

Based on the evidence that we received, the committee developed a clear vision. We want to see entrepreneurship placed at the heart of Wales's education system, so that young people are exposed at an early age to the spirit of entrepreneurialism. Rather than being a bolt-on, it should be embedded in their everyday lives. We therefore recommended that the Welsh Government should consider how entrepreneurship can be further mainstreamed within the revised Welsh baccalaureate qualification, which is to be introduced from September 2015.

We want to see a simplification of the support available to existing and potential young entrepreneurs. There needs to be a one-stop shop where young people can go for initial advice and a clear route-map of the opportunities available to them. We want to see better co-ordination of the many organisations and programmes that currently provide support. That is a real challenge as it will involve more joined-up thinking across Government departments. The Welsh Government and its partners also need to improve the continuity of their investment, so that young entrepreneurs are nurtured on a longer term basis.

Furthermore, the Welsh Government needs to develop robust monitoring and evaluation systems so that its strategy for youth entrepreneurship can achieve maximum effectiveness for the long term. In our report we suggested that the new regional youth entrepreneurship hubs could play an increasing role in making all of this happen. I am delighted that, since we published our report in November, there has been a flurry of new activity. I was pleased to see that a panel has been set up to provide the Welsh Government with strategic guidance and expertise for the development and delivery of the entrepreneurship agenda. Significantly, two members of that panel provided the committee with oral evidence.

Dangosodd tystiolaeth a gyflwynwyd gan y sector addysg uwch fod cyfradd uwch o raddedigion y pen o'r boblogaeth yn dechrau busnes yng Nghymru na gweddill y DU, ac eto roedd tystiolaeth gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yn nodi bod cyfraddau dechrau busnes is yng Nghymru yn gyffredinol, sy'n awgrymu diffyg cymharol o ran dechrau busnesau newydd ymhlith pobl nad ydynt yn raddedigion.

Daethom ar draws nifer o heriau eraill. Fel y dywedodd un tyst wrthym, mae'r dirwedd o gyfleoedd, mentrau a sefydliadau sy'n ymwneud ag entrepreneuriaeth 'yn dir peryglus'. Roedd yn achos pryder hefyd inni ddarganfod nad oes unrhyw waith monitro na gwerthuso trylwyr ar yr holl gynlluniau a mentrau sy'n digwydd ledled Cymru fel y gallem hyrwyddo a rhannu arfer gorau. Rwy'n siŵr y bydd fy nghyd-Aelodau yn sôn yn ddiweddarach am yr amrywiad a welsom ledled Cymru.

Ar sail y dystiolaeth a gawsom, datblygodd y pwyllgor weledigaeth glir. Rydym am weld entrepreneuriaeth wrth wraidd system addysg Cymru, fel y bydd pobl ifanc yn cael eu hamlygu'n gynnar i ysbryd entrepreneuriaeth. Yn hytrach na bod yn rhywbeth a ychwanegir ar y diwedd, dylai fod yn rhan annatod o'u bywydau bob dydd. Felly, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir prif ffrydio entrepreneuriaeth ymhellach o fewn cymhwyster bagloriaeth Cymru ar ei ffurf ddiwygiedig, a fydd yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2015.

Rydym am weld y cymorth sydd ar gael i entrepreneuriaid ifanc presennol a darpar entrepreneuriaid ifanc yn cael ei symleiddio. Mae angen siop un stop y gall pobl ifanc droi ati am gyngor cychwynnol a thrywydd clir o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Rydym am weld gwell cydgysylltu ymhlith y nifer fawr o sefydliadau a rhaglenni sy'n rhoi cymorth ar hyn o bryd. Mae hynny'n her wirioneddol gan y bydd yn cynnwys mwy o feddwl cydgysylltiedig ar draws adrannau'r Llywodraeth. Mae angen hefyd i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid wella parhad eu buddsoddiad, er mwyn i entrepreneuriaid ifanc gael eu meithrin yn y tymor hwy.

Ar ben hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu systemau monitro a gwerthuso cadarn fel y gall ei strategaeth ar gyfer entrepreneuriaeth ieuentid fod mor effeithiol â phosibl yn yr hirdymor. Yn ein hadroddiad awgrymwyd y gallai'r canolfannau entrepreneuriaeth ieuentid rhanbarthol newydd chwarae rôl gynyddol i sbarduno hyn i gyd. Rwy'n falch iawn, ers inni gyhoeddi ein hadroddiad ym mis Tachwedd, fod lluo o weithgareddau newydd. Roeddwn yn falch o weld bod panel wedi cael ei sefydlu er mwyn rhoi arweiniad ac arbenigedd strategol i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu a chyflawni'r agenda entrepreneuriaeth. Yn bwysig ddigon, rhoddodd dau aelod o'r panel hwnnw dystiolaeth lafar i'r pwyllgor.

I also welcomed the Cabinet written statement, issued before Christmas, which gave an update on the youth entrepreneurship strategy action plan. It was significant that the statement came from the Minister for Economy, Science and Transport. Given that this is a joint strategy with the Department for Education and Skills, I would have expected other Ministers to have also issued a statement. I would say that there is clearly a precedent for joint statements in the past. Perhaps this is something that the Minister could outline and explain in her response.

The Welsh Government has responded comprehensively and generally positively to our report. Ministers have accepted outright seven of our 10 recommendations, accepted two in principle and rejected one. In rejecting our recommendation for the Government to publish an explanation of the assessment that it made of Young Enterprise's effectiveness before funding for the organisation was withdrawn, the Minister has effectively stated that no assessment took place, but the decision was justified as part of a wider change in the remit of Careers Wales. That makes our recommendation 7, for the Government to monitor and review the impact that the change in the remit of Careers Wales will have on entrepreneurship activities for young people, even more pertinent. The Welsh Government's response implies that Careers Wales will be monitored through ongoing activity by the Department for Education and Skills. Therefore, I would like the Minister to clarify in her response today how the impact on youth entrepreneurship, in particular, will be measured and evaluated.

In closing, I would like to stress that youth entrepreneurship is not simply about starting up a business. Entrepreneurship is a way of looking at the world, whether you are self-employed or someone else's employee. Our report also stressed the importance of social enterprise. Entrepreneurship and social entrepreneurship is a whole culture and lifestyle that is essential for driving Wales's future economy, an economy that should be built on the pursuit of innovation and knowledge and on a culture of partnership working.

I conclude by thanking my fellow committee members for their enthusiastic input into this inquiry, particularly Eluned Parrott and Alun Ffred Jones who contributed to a video that responded to the comments that we received from the young entrepreneurs. I also thank Alun Ffred for his unstinting service to the committee. I look forward to listening to the rest of the debate today and to the Minister's response.

Croesawais hefyd ddatganiad ysgrifenedig y Cabinet, a gyhoeddwyd cyn y Nadolig, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gweithredu'r strategaeth entrepreneuriaeth ieuencid. Roedd yn arwyddocaol i'r datganiad gael ei wneud gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. O ystyried bod hon yn strategaeth ar y cyd â'r Adran Addysg a Sgiliau, byddwn wedi disgwyl i Weinidogion eraill gyhoeddi datganiad hefyd. Dywedaf fod cynsail amlwg dros ddatganiadau ar y cyd yn y gorffennol. Efallai fod hyn yn rhywbeth y gallai'r Gweinidog ei amlinellu a'i esbonio yn ei hymateb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'n hadroddiad mewn ffordd gynhwysfawr a chadarnhaol ar y cyfan. Mae'r Gweinidogion wedi derbyn saith o'n 10 argymhelliad yn eu cyfanrwydd, wedi derbyn dau mewn egwyddor ac wedi gwrthod un. Wrth wrthod ein hargymhelliad i'r Llywodraeth gyhoeddi esboniad o'r asesiad a wnaeth o effeithiolrwydd Menter yr Ifanc cyn i gyllid i'r sefydliad gael ei dynnu'n ôl, mae'r Gweinidog wedi datgan i bob diben na fu unrhyw asesiad, ond cyfiawnhawyd y penderfyniad fel rhan o newid ehangach yng nghylch gwaith Gyrfa Cymru. Mae hynny'n gwneud argymhelliad 7, sef y dylai'r Llywodraeth fonitro ac adolygu'r effaith y bydd y newid yng nghylch gwaith Gyrfa Cymru yn ei chael ar weithgareddau entrepreneuriaeth ar gyfer pobl ifanc, hyd yn oed yn fwy perthnasol. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn awgrymu y bydd Gyrfa Cymru yn cael ei fonitro drwy weithgarwch parhaus yr Adran Addysg a Sgiliau. Felly, hoffwn ofyn i'r Gweinidog egluro yn ei hymateb heddiw sut y bydd yr effaith ar entrepreneuriaeth ieuencid, yn arbennig, yn cael ei mesur a'i gwerthuso.

Wrth gloi, hoffwn bwysleisio nad yw entrepreneuriaeth ieuencid yn ymwneud â dechrau busnes yn unig. Mae entrepreneuriaeth yn ffordd o edrych ar y byd, pa un a ydych yn hunangyflogedig neu'n gweithio i rywun arall. Pwysleisiodd ein hadroddiad hefyd pa mor bwysig yw mentergarwch cymdeithasol. Mae entrepreneuriaeth ac entrepreneuriaeth gymdeithasol yn ddiwylliant ac yn ffordd o fyw sy'n hanfodol i ysgogi economi Cymru yn y dyfodol, economi y dylid ei seilio ar hybu arloesi a gwybodaeth ac ar ddiwylliant o weithio mewn partneriaeth.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'm cyd-aelodau yn y pwyllgor am eu cyfraniad brwdfrydig i'r ymchwiliad hwn, yn enwedig Eluned Parrott ac Alun Ffred Jones, a gyfrannodd at fideo a ymatebodd i'r sylwadau a gawsom gan entrepreneuriaid ifanc. Hoffwn hefyd ddiolch i Alun Ffred am ei wasanaeth difflino i'r pwyllgor. Edrychaf ymlaen at wrando ar weddill y ddadl heddiw ac at ymateb y Gweinidog.

I certainly welcome the report. It has been an extremely interesting inquiry. I want to touch on three of the recommendations. On recommendation 10, which is about encouraging and incentivising young people and that more young people should be able to share and learn skills through networking and mentoring, I want to say something about mentoring. I think that it can be a very powerful tool. It has been around forever; it is not new. In general, I think that I saw an element of that this morning. The Finance Committee had a breakfast meeting, where we discussed Finance Wales with businesses. It was very good to see successful businesses talking to some start-up companies, and you could see, in a very short time, the enthusiasm and expertise being shared across the table. Therefore, mentoring can be a very powerful tool. However, mentoring must be effective as well. I endorse the comments by UnLtd, which said that being able to access someone who supports, trusts and enables our young people to reach their entrepreneurial potential is critical. Those mentors must be consistent as well. Again, this is about making sure that we have those good people on board. I also want to endorse Chwarae Teg's evidence that mentors must also be diverse and represent all aspects of society. That is really important as well, if we want to broaden the enterprise base in Wales. That is something that is really important.

My second point is on recommendation 4, which talks about the fact that it is important that entrepreneurship is embedded into the curriculum. I welcome the Government's comments regarding the role of the Welsh baccalaureate. All learners will benefit from the development of the confidence and creativity skills that are linked to entrepreneurial activity. That is about employment, but, as Nick Ramsay alluded to, it is also about life in general. If you do not even go on to run a business, these sorts of skills—confidence and creativity—will enable people in all walks of life. We need to make sure, in addition to enterprise skills, that our young people also have the business skills that they need to achieve success. What I mean is this: I know that sometimes, when I speak to businesses, they are doing okay in their business, but they seem to be let down by the fact that, if they want to improve or expand their business, they lack the soft skills to do so. This is about confidence, writing business plans or marketing, for example. Those are the things that they sometimes fall down on, and they are very important parts of this as well.

Finally, on recommendation 7, I want to briefly mention the education and business links that the Welsh Government referred to in its response to the recommendation. We know now that this is in the remit of Careers Wales. However, I also note that, in Estyn's thematic report, not all the schools that have been involved in this are as good as others. I am concerned—and I have raised this many times here—that those less economically advanced parts of Wales could lose out because there are fewer businesses or entrepreneurs for schools to forge links with. In some areas, if there not as many businesses, those schools that are relying on these links will be in a disadvantaged position. Again, this will impact on learners. I would be very keen to know what more the Welsh Government can do to make sure that this is not the case, and that the young people in those areas most in need do not miss out.

Croesawaf yr adroddiad yn sicr. Bu'n ymchwiliad hynod ddiddorol. Hoffwn sôn am dri o'r argymhellion. O ran argymhelliad 10, sef annog a chymell pobl ifanc ac y dylai mwy o bobl ifanc fod yn gallu rhannu a dysgu sgiliau drwy rwydweithio a mentora, hoffwn ddweud rhywbeth am fentora. Credaf y gall fod yn adnodd pwerus iawn. Mae wedi bodoli am oesoedd; nid yw'n rhywbeth newydd. Yn gyffredinol, credaf imi weld elfen o hynny y bore yma. Cafodd y Pwyllgor Cyllid gyfarfod brechwast, lle y trafodwyd Cyllid Cymru gyda busnesau. Roedd yn braf iawn gweld busnesau llwyddiannus yn siarad â rhai cwmnïau newydd, a gallech weld, mewn amser byr iawn, y brwdfrydedd a'r arbenigedd yn cael eu rhannu ar draws y bwrd. Felly, gall mentora fod yn bwerau iawn. Fodd bynnag, rhaid i fentora fod yn effeithiol hefyd. Ategaf sylwadau UnLtd, a ddywedodd fod y gallu i gael gafael ar rywun sy'n cefnogi ein pobl ifanc, yn ymddiried ynddynt ac yn eu galluogi i gyflawni eu potensial entrepreneuriaidd yn hollbwysig. Rhaid i'r mentoriaid hynny fod yn gyson hefyd. Unwaith eto, mae hyn yn ymwneud â sicrhau ein bod yn ennyn cefnogaeth y bobl dda hynny. Hoffwn hefyd ategu tystiolaeth Chwarae Teg fod yn rhaid i fentoriaid hefyd fod yn amrywiol a chynrychioli pob agwedd ar gymdeithas. Mae hynny'n bwysig iawn hefyd, os ydym am ehangu'r sylfaen fenter yng Nghymru. Mae hynny'n rhywbeth sy'n bwysig iawn.

Mae fy ail bwynt yn ymwneud ag argymhelliad 4, sy'n sôn am y ffaith ei bod yn bwysig bod entrepreneuriaeth yn rhan annatod o'r cwricwlwm. Croesawaf sylwadau'r Llywodraeth ynglŷn â rôl bagloriaeth Cymru. Bydd pob dysgwr yn elwa ar ddatblygu sgiliau hyder a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â gweithgaredd entrepreneuriaidd. Mae hynny'n ymwneud â chyflogaeth, ond, fel y crybwyllodd Nick Ramsay, mae hefyd yn ymwneud â bywyd yn gyffredinol. Hyd yn oed os na fyddwch yn rhedeg busnes, bydd y mathau hyn o sgiliau—hyder a chreadigrwydd—yn galluogi pobl o bob rhan o gymdeithas. Mae angen inni sicrhau, yn ogystal â sgiliau menter, bod ein pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau busnes sydd eu hangen arnynt i sicrhau llwyddiant. Dyma'r hyn a olygaf: gwn weithiau, pan siaradaf â busnesau, bod eu busnes yn gwneud yn iawn, ond os ydynt am wella neu ehangu eu busnes, mae'n ymddangos nad oes ganddynt y sgiliau meddal i wneud hynny. Mae hyn yn ymwneud â hyder, llunio cynlluniau busnes neu farchnata, er enghraifft. Dyna'r pethau sy'n golygu eu bod yn methu weithiau, ac maent yn rhannau pwysig iawn o hyn hefyd.

Yn olaf, o ran argymhelliad 7, hoffwn sôn ychydig am y cysylltiadau rhwng addysg a busnes y cyfeiriodd Llywodraeth Cymru atynt yn ei hymateb i'r argymhelliad. Gwyddom erbyn hyn fod hyn yn dod o dan gylch gwaith Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, nodaf hefyd, yn adroddiad thematig Estyn, nad yw pob ysgol sydd wedi bod yn gysylltiedig â hyn cystal ag eraill. Pryderaf—ac rwyf wedi codi hyn lawer gwaith yma—y gallai'r rhannau llai economaidd ddatblygedig hynny o Gymru fod ar eu colled am fod llai o fusnesau neu entrepreneuriaid ar gael y gall ysgolion greu cysylltiadau â hwy. Mewn rhai ardaloedd, os nad oes cymaint o fusnesau, bydd yr ysgolion hynny sy'n dibynnu ar y cysylltiadau hyn o dan anfantais. Unwaith eto, bydd hyn yn effeithio ar ddysgwyr. Rwy'n awyddus iawn i wybod beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau nad yw hyn yn digwydd, ac nad yw'r bobl ifanc yn yr ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf ar eu colled.

Byron Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you very much for this opportunity to speak in this debate about the Enterprise and Business Committee's report on youth entrepreneurship. I have to say that I thoroughly enjoy my role on the Enterprise and Business Committee. It is especially good when we look at important issues, such as encouraging the next generation of entrepreneurs in Wales.

Nick Ramsay, our Chairman, has outlined many of the key recommendations in the report, and I will not dwell too much on the points that he raised. Nevertheless, it was pleasing to see the Government accept all of our recommendations, bar recommendation 6, of course, as has already been said. Touching briefly on recommendation 6, it would have been worthwhile to review the effectiveness of Careers Wales's support for Young Enterprise Wales. While I recognise that a political choice was made about the direction of Careers Wales, I believe that it is extremely bad practice to end funding streams without reviewing their impact and effectiveness and considering what will replace them. You have missed an opportunity, but at this stage I do not think that dwelling on it today will add anything to the debate.

On a broader point, prior to this debate we met with several young entrepreneurs—all driven, passionate and proud Welsh businessmen and businesswomen. We discussed and debated with them their views and aspirations—to hear them was encouraging for the future of Welsh business—and we discussed support from the Welsh Government. This, in my view, is crucial. In fact, throughout the inquiry, the common theme that emerged was that it was never too young to plant the seed of entrepreneurship. Many of the witnesses felt passionately about what they were doing within their own businesses. They mostly commented that they felt that if it was given more importance within the school curriculum, they could have started earlier. With additional time in school their creativity and business skills would have started to develop earlier. It was an interesting thought that provoked some interesting debate within the committee. It feeds directly into our recommendations, and recommendation 1 highlights much of the problem—the apparent disconnect between the aspirations of young people and them starting up in business.

It is not all bad, though, as acknowledged in the Government response: 53% of young people under 25 now have aspirations to work for themselves, and be their own boss—a rise from 42% in 2004. There has also been a rise in young people starting up in business. This does need to improve, though, and perhaps more does need to be done to bridge the gap between the aspirations of young people and starting up in business. I welcome the Government's acknowledgement of this.

I would also like to mention recommendation 4,

'Ensure entrepreneurship and social entrepreneurship are embedded into the curriculum in primary, secondary and further and higher education rather than being a bolt-on'.

Diolch yn fawr iawn am y cyfle hwn i siarad yn y ddadl hon ynglŷn ag adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar entrepreneuriaeth ieuencid. Rhaid imi ddweud fy mod yn mwynhau fy rôl ar y Pwyllgor Menter a Busnes. Mae'n arbennig o dda pan edrychwn ar faterion pwysig, megis annog y genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid yng Nghymru.

Mae Nick Ramsay, ein Cadeirydd, wedi amlinellu sawl un o'r argymhellion allweddol yn yr adroddiad, ac nid wyf am dreulio gormod o amser ar y pwyntiau a gododd. Serch hynny, roedd yn braf gweld y Llywodraeth yn derbyn pob un o'n hargymhellion, ar wahân i argymhelliad 6, wrth gwrs, fel y dywedwyd eisoes. Gan droi'n fyr at argymhelliad 6, byddai wedi bod yn fuddiol adolygu effeithiolrwydd cymorth Gyrfa Cymru i Fenter yr Ifanc Cymru. Er fy mod yn cydnabod bod dewis gwleidyddol wedi'i wneud ynglŷn â chyfeiriad Gyrfa Cymru, credaf ei fod yn arfer gwaol dros ben i roi terfyn ar ffrydiau ariannu heb adolygu eu heffaith na'u heffaithiolrwydd ac ystyried yr hyn a fydd yn cymryd eu lle. Rydych wedi colli cyfle, ond ar hyn o bryd ni chredaf y bydd treulio amser yn ei drafod heddiw yn ychwanegu at y ddadl.

Gan godi pwynt ehangach, cyn y ddadl hon cyfarfuom â sawl entrepreneuriaid ifanc—pob un yn bobl fusnes uchelgeisiol, angerddol a balch o Gymru. Trafodwyd â hwy eu safbwyntiau a'u huchelgeisiau—bu'n galonogol o ran dyfodol byd busnes yng Nghymru eu clywed yn siarad—a thrafodwyd cymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn, yn fy marn i, yn hanfodol. Yn wir, drwy gydol yr ymchwiliad, y thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg oedd nad yw byth yn rhy gynnar i blannu hadau entrepreneuriaeth. Teimlai llawer o'r tystion yn frwd iawn dros yr hyn y maent yn ei wneud o fewn eu busnesau eu hunain. Yn bennaf, dywedwyd eu bod yn teimlo y gallent fod wedi dechrau yn gynt pe rhoddid mwy o bwys ar entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm ysgol. Gydag amser ychwanegol yn yr ysgol byddai eu sgiliau creadigrwydd a busnes wedi dechrau datblygu'n gynharach. Roedd yn syniad diddorol a ysgogodd drafodaeth ddiddorol yn y pwyllgor. Mae'n cael ei adlewyrchu'n uniongyrchol yn ein hargymhellion, ac mae argymhelliad 1 yn tynnu sylw at lawer o'r broblem—y diffyg cysylltiad ymddangosiadol rhwng uchelgais pobl ifanc a mynd ati i ddechrau busnes newydd.

Nid yw'n ddrwg i gyd, fodd bynnag, fel y cydnabyddir yn ymateb y Llywodraeth: mae gan 53% o bobl ifanc o dan 25 oed uchelgais bellach i weithio drostynt eu hunain—o gymharu â 42% yn 2004. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y bobl ifanc sy'n dechrau busnes. Mae angen i hyn wella, fodd bynnag, ac efallai fod angen gwneud rhagor i bontio'r bwlch rhwng uchelgais pobl ifanc a mynd ati i ddechrau busnes. Croesawaf gydnabyddiaeth y Llywodraeth o hyn.

Hoffwn hefyd sôn am argymhelliad 4,

'Sicrhau bod entrepreneuriaeth ac entrepreneuriaeth gymdeithasol yn rhan annatod o'r cwricwlwm mewn addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch yn hytrach nag yn rhywbeth sydd wedi'i ychwanegu ar y diwedd'.

This, in my view, is the critical test for Government. You have accepted this in principle and credit much of your future plans to the Welsh baccalaureate. I would like to see more detail emerge on how the Government will deliver this recommendation. It is crucial that we embed the passion for entrepreneurship into our curriculum if we are to achieve long-term economic success as a country. We need to be a nation of businessmen and businesswomen, social entrepreneurs and creative geniuses. There are particularly good examples of this, and I visited a couple in Swansea only this week—a Micro-Tyco scheme and the Skills Wales scheme. I do not think that the Welsh baccalaureate is a fix-all, and we will need to look again at the curriculum and the need for entrepreneurship in our schools. I will be watching with interest how this recommendation moves forward, and I hope that all Members will. I really do commend this report, and recommend it as a thoroughly good read. I thank the Government for its mostly positive response.

Dyna'r prawf allweddol i'r Llywodraeth, yn fy marn i. Rydych wedi derbyn hyn mewn egwyddor a bydd llawer o'ch cynlluniau at y dyfodol yn cael eu gweithredu drwy fagloriaeth Cymru. Hoffwn weld mwy o fanylion ynghylch sut y bydd y Llywodraeth yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod brwdfrydedd tuag at entrepreneuriaeth yn rhan annatod o'n cwricwlwm os ydym am gyflawni llwyddiant economaidd yn yr hirdymor fel gwlad. Mae angen inni fod yn wlad o bobl fusnes, entrepreneuriaid cymdeithasol ac athrylithoedd creadigol. Ceir enghreifftiau arbennig o dda o hyn, ac ymwelais ag un neu ddau yn Abertawe yr wythnos hon—cynllun Micro-Tyco a chynllun Sgiliau Cymru. Ni chredaf mai bagloriaeth Cymru yw'r ateb i bopeth, a bydd angen inni edrych eto ar y cwricwlwm a'r angen am entrepreneuriaeth yn ein hysgolion. Byddaf yn edrych â diddordeb ar y ffordd y mae'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu, a gobeithio y bydd pob Aelod yn gwneud yr un fath. Cymeradwyaf yr adroddiad hwn yn wresog, a'i argymell fel rhywbeth diddorol iawn i'w ddarllen. Hoffwn ddiolch i'r Llywodraeth am ei hymateb cadarnhaol ar y cyfan.

15:13

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y cyfle i fod yn rhan o'r ymchwiliad hwn. Heb bobl yn mentro ac yn buddsoddi, nid oes dyfodol i'n pentrefi, ein trefi, na'n dinasoedd, nac i Gymru. Felly, beth bynnag mae'r Llywodraeth, llywodraeth leol neu un o'r asiantaethau yn ei wneud, dylem ganolbwyntio ar gefnogi, galluogi a rhoi hyder i bobl ifanc i ddatblygu a gweithredu eu syniadau, mewn busnes fel ym mhob maes arall.

Dywedodd Nick Ramsay yn ei gyflwyniad rhywbeth a oedd yn bwysig iawn, achos pwysleiswyd drosodd a throsodd yn y dystiolaeth bod sgiliau entrepreneuriaeth ar waith mewn llawer maes y tu allan i greu busnesau. Mae'r Llywodraeth yn gwneud cryn dipyn yn y maes, ac mae yna enghreifftiau o arfer da. Mae'r ganolfan fenter yng Nghaerffili yn enghraifft o arfer da. Mae'r gefnogaeth i entrepreneuriaid, sy'n seiliedig yn y ganolfan Cymunedau yn Gyntaf yn Shotton, yn enghraifft arall o arfer da, er nad oedd y gweithgarwch yna yn rhan ganolog o waith Cymunedau yn Gyntaf, yn rhyfedd iawn.

Y gwyn bennaf yw bod darganfod y gefnogaeth yn gallu bod yn anodd. Yn ôl tystiolaeth un gŵr ifanc o Gastell-nedd, mae'n gallu bod yn ddrislyd iawn. Cafodd ei gyfeirio o un person i'r llall wrth chwilio am gefnogaeth wrth ddechrau busnes, nes iddo, yn y pen draw, gael llond bol—neu, yn ei iaith ef, 'danto'—a jyst mentro ar ei liwt ei hun. Cawsom adroddiad calonogol o un ganolfan entrepreneuriaeth ranbarthol sy'n cynnig pob math o gefnogaeth ddiddorol a gwreiddiol, ond nid oedd tystiolaeth bod canolfannau eraill yn gweithredu yn yr un ffordd. Mae hynny'n cefnogi'r darlun o batrwm di-drefn ac anghyson o anogaeth a chefnogaeth drwy Gymru.

Thank you for the opportunity to participate in this inquiry. Without entrepreneurship and without investment, there is no future for our villages, towns and cities or for Wales as a whole. So, whatever the Government, local government or the various agencies do, we should concentrate on supporting, enabling and giving young people confidence to develop and implement their own ideas, in business as in all other areas.

Nick Ramsay said in his opening remarks something that was extremely important, because time and again the evidence we received emphasised that entrepreneurship skills are active in a number of areas outwith business creation. The Government is doing a fair bit in this area, and there are examples of good practice. The innovation centre in Caerphilly is an example. The support given to entrepreneurs, based at the Communities First centre in Shotton, is another example of good practice, although that activity was not a central part of the work of Communities First, strangely enough.

The major complaint is that finding that support can be difficult. According to the evidence of one young man from Neath, it can be very confusing. He was referred from one individual to another when seeking support to establish a business, until, finally, he had had enough, and he just went off and endeavoured to do it on his own. We received a heartening report from one regional entrepreneurship centre that does offer all sorts of interesting and original support, but there was no evidence that other centres operated in the same way. This supports the picture of an inconsistent pattern of support and encouragement throughout Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae pobl ifanc mentrus a dychmygus eisiau cwmni pobl eraill o'r un anian â nhw. Dyna, mae'n debyg, sy'n creu'r brwdfrydedd a'r syniadau sy'n gallu arwain at lwyddiant. Fodd bynnag, mae creu'r rhwydweithiau hynny'n gallu bod yn heriol iawn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac, efallai, mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol, lle mae hyder wedi gostwng neu hyd yn oed ddiffannu.

Felly, byddwn yn ei ddweud mai'r her sy'n wynebu'r Llywodraeth yw creu eglurder o ran yr hyn sy'n digwydd a'r hyn sydd ar gael. Mae angen patrwm cyson drwy Gymru, gan gydnabod yr anawsterau sydd yn bodoli o ran hyder mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol, ac mewn ardaloedd gwledig.

Fel y dywedais, rwyf wedi mwynhau'r ymchwiliad. Credaf fod llawer o'r cynigion yn rhai synhwyrol, a gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn gweithredu arnynt. Rhaid i mi ategu'r hyn sydd wedi cael ei ddweud yn barod: mae'r penderfyniad i ddileu cyllid Young Enterprise yn annealladwy i mi, gan fod y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Young Enterprise yn ein hysgolion ymhrisiadwy. Os na fydd rhywbeth yn cymryd ei le, bydd yn golled fawr iawn.

Entrepreneurial young people want to work with others with the same entrepreneurial spirit. That is, it seems, what creates the enthusiasm and drive that can lead to success. However, actually creating those networks can be extremely challenging, particularly in rural areas, and, perhaps, in post-industrial areas where confidence has declined or, indeed, disappeared altogether.

So, I would say that the challenge facing Government is to provide clarity on what is happening and what is available. We need a consistent pattern throughout Wales, recognising the difficulties that exist in terms of confidence in post-industrial areas, as well as in rural areas.

As I said, I have enjoyed the inquiry. I think many of the recommendations are sensible, and I do hope that the Government will implement them. I have to endorse what has already been said this afternoon: the decision to abolish the funding of Young Enterprise is beyond me, because the work that was being done by Young Enterprise in our schools was priceless. If nothing takes its place, then it is a huge loss indeed.

15:16

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to echo the thanks to those young entrepreneurs who engaged with our inquiry and helped us understand what drives them and also what holds them back. If we want to build a thriving, indigenous economy for Wales, we need young people to have not only that drive, but also the confidence and support that will help them to take that step.

The report we have published highlights some important facts. I particularly want to talk about the disconnect between the level of interest and aspiration that young people have to set up a business and the actual level of business start-ups that young people create. Around 10% of 18 to 24-year-olds actively consider setting up their own business, according to the Global Entrepreneurship Monitor report, yet fewer than one in 20 of those young people actually go on to do that, which is lower than the UK-wide rate. What are the barriers preventing those budding entrepreneurs from taking that next step?

As the Chair said earlier, when we narrow the pool down to those individuals who are university students and graduates and college leavers, the figures are more favourable and we see Wales performing, per head of population, better than England. We really need to understand why that is, and identify what it is about the support that those individuals receive that makes the crucial difference. I would encourage the Welsh Government to do more research into this so that we can focus our efforts on the schemes that are the most effective and understand how we can encourage young people from other kinds of backgrounds to enjoy the same kind of success.

Hoffwn innau hefyd ddiolch i'r entrepreneuriaid ifanc hynny a gymerodd ran yn ein hymchwiliad a'n helpodd i ddeall yr hyn sy'n eu hysgogi, a hefyd yr hyn sy'n eu rhwystro. Os ydym am greu economi ffyniannus, gynhenid i Gymru, mae angen nid yn unig bod gan bobl ifanc ysgogiad o'r fath, ond hefyd yr hyder a'r cymorth a fydd yn eu helpu i gymryd y cam hwnnw.

Mae'r adroddiad yr ydym wedi'i gyhoeddi yn tynnu sylw at rai ffeithiau pwysig. Rwy'n awyddus iawn i sôn am y diffyg cysylltiad rhwng diddordeb ac uchelgais pobl ifanc i sefydlu busnes a lefel wirioneddol y busnesau newydd y mae pobl ifanc yn eu creu. Mae tua 10% o bobl 18 i 24 oed yn mynd ati i ystyried sefydlu eu busnes eu hunain, yn ôl yr adroddiad y Global Entrepreneurship Monitor, ond mae llai nag un o bob 20 o'r bobl ifanc hynny yn mynd ati i wneud hynny, sy'n is na'r gyfradd i'r DU gyfan. Beth yw'r rhwystrau sy'n atal rhai entrepreneuriaid rhag cymryd y cam nesaf hwnnw?

Fel y dywedodd y Cadeirydd yn gynharach, pan edrychwn ar yr unigolion hynny sy'n fyfyrwyr prifysgol ac yn raddedigion ac yn rhai sydd wedi gadael y coleg, mae'r ffigurau yn fwy ffafriol a gwelwn fod Cymru yn perfformio'n well na Lloegr fesul pen o'r boblogaeth. Mae gwir angen inni ddeall y rheswm dros hynny, a nodi'r hyn ynglŷn â'r cymorth y mae'r unigolion hynny yn ei gael sy'n gwneud y gwahaniaeth hollbwysig. Hoffwn annog Llywodraeth Cymru i wneud mwy o ymchwil i hyn fel y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar y cynlluniau sydd fwyaf effeithiol a deall sut y gallwn annog pobl ifanc o gefndiroedd eraill i gael yr un math o lwyddiant.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We do need a change of mindset. We need to challenge that kind of risk-averse culture, which I believe stymies our economy in lots of ways, and this is another area where it does so. It was interesting that the south-west Wales regional entrepreneurial hub told us that:

'It is not just about starting a business; it is about making young people more entrepreneurial...it is about making them more rounded individuals, so that they can bring something back to the Welsh economy, whether that is through a business start-up, which would be fantastic, or just through being enterprising within an industry.'

That is an important consideration, too.

So, a culture that values innovation and a certain element of risk is, I think, needed. However, we also need to ensure that the practical support is there, that Careers Wales and university career services are as effective at signposting young people to support for business start-ups as they are in signposting them to other career routes, and that that support, once they have been signposted in that direction, is effective and easy to use and find.

I want to talk about recommendation 10 of the report, which is about encouraging more young people to gain skills through networking and mentoring and more opportunities, as well, for one-to-one coaching. I think peer-to-peer mentoring for young people has an important potential role to play. If you are doing something that is different and a little bit risky, if you are in some way a pioneer, meeting someone who has also been in that kind of position and who has succeeded can really help to empower and encourage people, as well as advise them on a practical level.

UnLtd, a foundation for social entrepreneurs, which helped us in our inquiry, said that:

'recognition that another young person has...been on a similar journey to you, is a...powerful way of encouraging other young people to think of entrepreneurship, whether it is social, private or otherwise'.

However, it has to be supported properly. We had evidence from one witness who said that there is a potential need for young business leaders to be paid for the mentoring sessions that they hold, especially as some of them were very intensive in terms of the time requirement, and many young entrepreneurs, particularly if they are early on in their business careers, would find it quite difficult to bear the resource demands of eight meetings a month or more without some form of help.

I also think that it is important that we provide those young people who are going into mentoring programmes with support and advice, so that they are able to provide an effective level of service as well. It is about creating and developing those skills, and not assuming that, because you have set up a mentoring scheme, that scheme will deliver results without any kind of background at all.

Mae angen inni weld meddylfryd newydd. Mae angen inni herio'r math hwnnw o ddiwylliant sy'n amharod i fentro, sy'n lleisteirio ein heconomi mewn sawl ffordd yn fy marn i, ac mae hwn yn faes arall lle mae'n gwneud hynny. Roedd yn ddiddorol bod canolfan entrepreneuriaidd ranbarthol de-orllewin Cymru wedi dweud wrthym:

Mae hyn yn ymwneud â mwy na dechrau busnes; mae'n ymwneud â sicrhau bod pobl ifanc yn fwy entrepreneuriaidd ... mae'n ymwneud â gwneud unigolion yn fwy cytbwys, fel y gallant gynnig rhywbeth i economi Cymru, boed hynny drwy ddechrau busnes, a fyddai'n wych, neu drwy fod yn fentrus o fewn diwydiant.

Mae hynny'n ystyriaeth bwysig, hefyd.

Felly, mae angen diwylliant sy'n gwerthfawrogi arloesedd ac elfen o risg, yn fy marn i. Fodd bynnag, mae angen inni hefyd sicrhau bod y cymorth ymarferol ar gael, bod Gyrfa Cymru a gwasanaethau gyrfa yn y brifysgol mor effeithiol o ran cyfeirio pobl ifanc at gymorth i fusnesau newydd ag y maent o ran eu cyfeirio at lwybrau gyrfa eraill, a bod y cymorth hwnnw, unwaith y byddant wedi cael eu cyfeirio, yn effeithiol ac yn hawdd ei ddefnyddio a dod o hyd iddo.

Hoffwn sôn am argymhelliad 10 o'r adroddiad, sy'n ymwneud ag annog rhagor o bobl ifanc i ennill sgiliau drwy rwydweithio a mentora a mwy o gyfleoedd, hefyd, i gael hyfforddiant un i un. Credaf fod gan fentora cymheiriaid i bobl ifanc rôl bwysig i'w chwarae o bosibl. Os ydych yn gwneud rhywbeth sy'n wahanol ac sy'n dwyn ychydig o risg, os ydych yn arloesi mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, gall cyfarfod â rhywun sydd wedi bod mewn sefyllfa debyg hefyd ac sydd wedi llwyddo wir helpu i rymuso ac annog pobl, yn ogystal â rhoi cyngor ymarferol iddynt.

Dywedodd UnLtd, sefydliad i entrepreneuriaid cymdeithasol, a fu o gymorth inni yn ein hymchwiliad, fod:

cydnabyddiaeth bod person ifanc arall wedi ... bod ar daith debyg ichi, yn ... ffordd bwerus o annog pobl ifanc eraill i feddwl am entrepreneuriaeth, boed yn entrepreneuriaeth gymdeithasol, preifat neu fel arall.

Fodd bynnag, rhaid i entrepreneuriaeth gael ei chefnogi'n briodol. Cawsom dystiolaeth gan un tyst a ddywedodd fod angen talu arweinwyr busnes ifanc o bosibl am y sesiynau mentora a gynhelir ganddynt, yn enwedig gan fod rhai ohonynt yn gofyn iddynt roi cryn dipyn o'u hamser, a byddai llawer o entrepreneuriaid ifanc, yn enwedig os ydynt ar gam cynnar yn eu gyrfaeod busnes, yn ei chael hi'n eithaf anodd ysgwyddo'r gofynion sydd ynghlwm wrth wyth cyfarfod y mis neu fwy heb ryw fath o gymorth.

Credaf hefyd ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi cymorth a chyngor i'r bobl ifanc hynny a fydd yn ymgymryd â rhaglenni mentora, fel y gallant ddarparu gwasanaeth effeithiol hefyd. Mae'n ymwneud â chreu a datblygu'r sgiliau hynny, yn hytrach na thybio, am eich bod wedi sefydlu cynllun mentora, y bydd y cynllun hwnnw'n sicrhau canlyniadau heb unrhyw fath o gefndir o gwbl.

Finally, I want to look further ahead. Not only is it important that our young people have the confidence to establish a business, but, of course, we want to see those businesses succeed and thrive, and create jobs not only for the entrepreneurs themselves, but for others in the future. We need to ensure that we remain supportive of those businesses, particularly as they cross scale boundaries from being a microbusiness to a small business, from being a small business to a medium-sized business, and, hopefully, well beyond that. We need to make sure that that support does not drop out when they need to take things to the next level.

Yn olaf, hoffwn edrych ymlaen ymhellach. Nid yn unig y mae'n bwysig bod ein pobl ifanc yn magu'r hyder i sefydlu busnes, ond, wrth gwrs, rydym am weld y busnesau hynny yn llwyddo ac yn ffynnu, ac yn creu swyddi, nid yn unig i'r entrepreneuriaid eu hunain, ond i eraill yn y dyfodol. Mae angen inni sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gefnogol i'r busnesau hynny, yn enwedig wrth iddynt groesi ffiniau graddfa o fod yn ficrofusnes i fod yn fusnes bach, o fod yn fusnes bach i fod yn fusnes canolig ei faint, a, gobeithio, ymhell y tu hwnt i hynny. Mae angen inni sicrhau nad yw'r gefnogaeth yn lleihau pan fydd angen iddynt symud i'r lefel nesaf.

15:21

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel aelod o'r pwyllgor, rwyf yn croesawu'r adroddiad yn eiddgar iawn. Fel sydd wedi cael ei ddweud eisoes, derbyniwyd nifer o ymatebion i'r ymchwiliad, ac roedd yn bleser cwrdd â nifer o entrepreneuriaid ifanc, fel y rhai gwnaethom gwrdd â nhw dros amser cinio heddiw. Roedd eu sylwadau a'u profiadau yn wir wedi ein helpu ni i ffurio dealltwriaeth well.

Gall y gorffennol fod yn faich arnom. Am ddegawdau, y gair pwysig mewn addysg oedd 'ffrwd'. Hyd yn oed ar ôl i Gymru gofleidio'r system gyfun yn lle'r hen ysgolion gramadeg, mewn llawer o ysgolion roedd y plant mewn ffrwd a fyddai, yn rhy aml, yn penderfynu cwrs eu haddysg a hyd yn oed eu gyrfa. Roedd entrepreneuriaeth yn aml mewn gwrthgyferbyniad ag addysg academaidd. Addysg academaidd oedd etifeddu ffrwyth gwybodaeth y gorffennol, ac entrepreneuriaeth oedd byw ar eich 'wits'. Mae pethau wedi newid yn awr—a hen bryd hefyd.

Yn bersonol, yn gymdeithasol, ac yn rhyngwladol, mae'r newidiadau wedi bod yn aruthrol. Ein plant a'n pobl ifanc sy'n feistri ar ein fideos a'n cyfrifiaduron. Dyna a adlewyrchir yn argymhelliad 4, ar wneud entrepreneuriaeth gymdeithasol yn rhan annatod o'r cwricwlwm. Mae ein Llywodraeth yng Nghymru wedi ymrwymo i greu diwylliant entrepreneuraidd. Trwy'r cynllun gweithredu YES a chreu panel entrepreneuriaeth, gellir gweld y darlun llawn o ran creu'r agenda a llunio'r cyfeiriad.

Y pobl sydd wedi llwyddo'n rhyngwladol mewn busnes yw pobl fel Bill Gates, sydd wedi manteisio ar fyd y dechnoleg newydd, a dod o hyd i 'niche' neu agoriad yn y farchnad. Cymerwch Kevin Green, 'Secret Millionaire' Burry Port, sydd yn awr ar y panel a apwyntiwyd gan ein Gweinidog economi: ar ôl cyfnod o fod yn ddigartref, mae ei bortffolio eiddo yn y cannoedd, ac mae'n bennaeth ar sawl cwmni.

As a member of the committee, I welcome the report with great enthusiasm. As has already been said, we received a number of responses to the inquiry, and it was a pleasure to meet a number of young entrepreneurs, such as those we meet lunchtime today. Their comments and experiences were of genuine help to us in reaching a better understanding.

The past can be a burden. For decades, the important word in education was 'stream'. Even after Wales embraced the comprehensive system in place of the old grammar schools, in many schools the children were in a stream, which would, too often, decide the course of their education and even their career. Entrepreneurship was often in conflict with academic education. An academic education was inheriting the fruits of the knowledge of the past, and entrepreneurship was living on your wits. Things have now changed—and about time too.

Personally, socially, and internationally, the changes have been significant. Our children and young people are the masters of our videos and computers. That is what is reflected in recommendation 4, on making social entrepreneurship an integral part of the curriculum. Our Government in Wales is committed to creating an entrepreneurial culture. Through the YES action plan and creating an entrepreneurship panel, we can see the bigger picture in creating the agenda and shaping the future direction.

The people who have succeeded internationally in business are people like Bill Gates, who have taken advantage of new technology, and have found a niche or an opening in the market. Take Kevin Green, Burry Port's 'Secret Millionaire', who now sits on a panel appointed by the Minister for economy: after a period of homelessness, his property portfolio is in the hundreds, and he heads several companies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Hoffwn godi pwynt—mae wedi ei godi'n barod—ynghylch bagloriaeth Cymru. Mewn bywyd blaenorol, roedd gennyf rôl allweddol yn datblygu'r fagloriaeth. Mae'r model diwygiedig yn cynnwys her menter a chyflogadwyedd, gyda mwy o gyfraniad gan fusnesau a mudiadau gwirfoddol. Gydag enghreifftiau da o'r hyn a ddysgwyd gan ddisgyblion yn barod, mae cynnydd mewn cyfraniad eto i'w groesawu. Rwyf yn cofio o hyd profiadau'r disgyblion a'r cyfle iddynt lunio gweithgaredd menter—cyfle na fyddai ar gael yn yr ystafell ddosbarth. Un sydd yn aros yn fy nghof yw'r disgybl a luniodd model busnes gan ddefnyddio blancedi ar gefn da mewn caeau ger Llandeilo ar gyfer hysbysebion. Gwerthwyd pob un, ac yr oedd wedi rhedeg mas o flancedi cyn y diwedd. Mae hynny'n esiampl gref o ddefnyddio'r hyn sydd ar gael i chi ei ddefnyddio. Mae'r esiamplau'n parhau: dim ond eleni mae disgyblion gwasanaethau cyhoeddus Coleg Sir Gâr wedi creu ymgyrch marchnata sydd wedi ei seilio ar 'touch-screen watches', gan greu nwydd a gwneud ymchwil marchnata. I roi enghraifft arall, mae disgyblion Coleg Sir Gâr wrthi'n darparu cymorth i ysgol uwchradd yn y sir i greu 'surfer's wristband' a all anfon negeseuon 'SOS'.

Fel y dywedodd tystiolaeth Menter yr Ifanc, mae'r gallu i bobl ifanc gymryd cyfrifoldeb cymdeithasol dros fater lleol, a chreu newid hirdymor sy'n parhau, yn gyfle ffantastig. Gallant wneud hynny drwy fagloriaeth Cymru, ac, yn amlwg, gall ymestyn tu hwnt i elw a busnes a mynd i mewn i fenter gymdeithasol.

Yn olaf, rwyf wedi cael sawl achos yn lleol o bobl ifanc yn holi ynghylch y cymorth sydd ar gael, a lle mae dod o hyd i'r cymorth hwnnw. Felly, mae'r hyn a ddisgrifir yn argymhellion 9 a 10 yn bwysig, ac mae cynnydd mewn rhannu arfer gorau ledled ein gwlad wastad i'w groesawu. Hoffwn orffen drwy groesawu'r ffaith bod nifer helaeth o argymhellion y pwyllgor wedi eu derbyn gan y Llywodraeth. Mae'r ddadl heddiw'n gyfle gwych i wneud entrepreneuriaeth yn flaenoriaeth o ran addysg a'r economi.

I would like to raise a point—it has already been mentioned—about the Welsh baccalaureate. In a former life, I had a key role in developing the baccalaureate. The revised model includes an enterprise and employability challenge, with greater contribution from businesses and voluntary bodies. With good examples of what has been learned by pupils already, an increased contribution is to be welcomed. I always remember the experiences of the pupils and the opportunity for them to undertake enterprise activity—an opportunity that would not be available in the schoolroom. One that springs to mind is the pupil who created a business model using blankets on the backs of cattle in fields near Llandeilo for advertisements. He sold all of them, and ran out of blankets before the end. That is an excellent example of using what is available to you. The examples continue: only this year public services pupils in Carmarthenshire College have created a marketing campaign based on touch-screen watches, creating a product and undertaking market research. To give another example, Carmarthenshire College pupils are providing support to a secondary school in the county to create a surfer's wristband that can send SOS messages.

As the evidence from Young Enterprise said, the ability for young people to take social responsibility for a local matter, and create long-term change that lasts, is a fantastic opportunity. They can do that through the Welsh baccalaureate, and, obviously, that can extend beyond profit and business and into social enterprise.

Finally, I have had several cases locally of young people asking about the support available, and where it can be accessed. So, what is described in recommendations 9 and 10 is important, and progress in spreading good practice throughout the country is always to be welcomed. I conclude by welcoming the fact that the vast majority of the committee's recommendations have been accepted by the Government. This debate today is an excellent opportunity to make entrepreneurship a priority in terms of education and the economy.

15:25

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad Biography](#)

Nid oeddwn yn rhan o'r ymgyngoriad hwn. Ymunais â'r pwyllgor ar ôl i'r ymgyngoriad ddod i ben, ond roedd yn fraint cael bod yn rhan o'r lansiad yng Nghaerffili yn yr hydref a chyfarfod rhai o'r bobl ifanc arbennig hynny a fu'n cyfrannu tuag at waith yr ymchwiliad, ac mae'n braf gweld nifer ohonynt yn y galari heddiw.

Economi gryfach fydd sail dyfodol mwy llewyrchus ar gyfer Cymru, a'n pobl ifanc ni heddiw fydd wrth galon y twf economaidd hwnnw yr ydym i gyd yn y fan hon, rwy'n gobeithio, yn dymuno ei weld yn y dyfodol. Mae gan ein pobl ifanc ni botensial arbennig, ond, ar hyn o bryd, rwy'n ofni ein bod ni, ar sawl lefel, yn eu gadael i lawr. Mae'r ffigurau diweithdra diweddaraf yn galonogol iawn o ran y darlun cyfan, ond mae problem barhaus i'w gweld o ran lefel diweithdra ymhlith pobl ifanc. Mae'r adroddiad hwn wedi dangos, ar gyfer y rheini sy'n penderfynu cymryd eu ffawd eu hunain i mewn i'w dwylo eu hunain a thorri eu cwys eu hunain mewn busnes a bod yn entrepreneuriaidd, bod gwendidau sylfaenol wedi bod yn y cymorth sydd ar gael iddynt. Mae Alun Ffred Jones wedi tynnu sylw at nifer o'r elfennau hynny yn barod. Mae angen sicrhau cysondeb yn y gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc ledled Cymru.

I was not part of this inquiry. I joined the committee after the inquiry had concluded, but it was a privilege to take part in the launch in Caerphilly in the autumn and to meet some of those outstanding young people who contributed to the work of the inquiry, and it is good to see many of them in the gallery today.

A stronger economy will be the foundation of a more prosperous future for Wales, and our people today will be at the heart of that economic growth that all of us here, I hope, wish to see in the future. Our young people have particular potential, but, at the moment, I fear that we are letting them down on a number of levels. The recent unemployment figures are very encouraging in terms of the bigger picture, but there is a continuing problem in terms of the level of youth unemployment. What this report has demonstrated is that, for those who decide to take their fate into their own hands and plough their own furrow in business and be entrepreneurial, there has been a fundamental weakness in the support available to them. Alun Ffred Jones has highlighted many of those elements already. We need to ensure consistency in the support available to young people throughout Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae pobl eraill wedi cyfeirio at yr angen i sicrhau bod entrepreneuriaeth yn cael ei annog o oedran ifanc iawn a bod pob cymorth ar gael wedyn i droi'r syniadau entrepreneuriaidd hynny, yn y pen draw, yn fusnesau. Nid yw'n gwneud synnwyr, fel y dywedodd Cadeirydd y pwyllgor yn gynharach, bod mwy o ddiddordeb mewn entrepreneuriaeth i'w weld yng Nghymru ond nad yw'r syniadau hynny yn gallu dwyn ffrwyth yn y pen draw.

Mae problemau eraill. Rwyf wedi tynnu sylw'r Gweinidog yn y gorffennol at y gŵr ifanc yn fy etholaeth i a oedd ar dân eisiau agor siop. Roedd am fod yn ŵr busnes, ond, oherwydd ei fod ar raglen waith Llywodraeth Prydain, nid oedd yn gallu cael y math o gymorth ariannol oedd ar gael i bobl eraill er mwyn sefydlu ei fusnes ef. Penderfynodd fwrw ymlaen beth bynnag a chrafu'r ceiniogau at ei gilydd o blith ei ffrindiau a'i deulu, ond mae'n rhaid sicrhau, mewn achosion o'r fath, bod y cymorth iawn ar gael gan y Llywodraeth.

Mae angen sicrhau bod y cyfle gan bobl ifanc i ddatblygu sgiliau entrepreneuriaidd a datblygu diddordeb mewn entrepreneuriaeth—i hau hedyn entrepreneuriaeth, os licwch chi, ymhlith pobl ifanc. Wedyn, mae angen gallu adnabod lle mae'r potensial hwnnw i fynd â syniadau yn eu blaen. Lle mae syniadau yn egino, rhaid rhoi pob cyfle iddynt ddod yn fusnesau llwyddiannus wedi eu gwreiddio yng Nghymru a all fod, fel yr wyf wedi ei ddweud, yn sail gwirioneddol i ddyfodol economaidd mwy llewyrchus i Gymru.

Others have referred to the need to ensure that entrepreneurship is encouraged from a very young age and that every support is then available for those entrepreneurial ideas to be turned, at the end of the day, into businesses. It does not make sense, as the Chair of the committee stated earlier, that there is a greater interest in entrepreneurship in Wales but those ideas are not able to come to fruition at the end of the day.

There are other problems. I have drawn the Minister's attention in the past to a young man in my constituency who had a burning desire to open a shop. He wanted to be a businessman, but, because he was on the UK Government's work programme, he could not get the kind of financial support that was available to others in order to establish his own business. He decided to go ahead anyway and to scrape together the money from among friends and family, but we must ensure, in such cases, that the correct support is available from the Government.

We need to ensure that young people have the opportunity to develop entrepreneurial skills and develop an interest in entrepreneurship—to sow the seed, if you like, of entrepreneurship among young people. We then need to identify where there is potential to take those ideas forward. Where ideas do emerge, we need to give them every opportunity to become successful businesses based in Wales that can, as I have said, truly become the foundation for a more prosperous economic future for Wales.

15:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i siarad ar ran y Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:29 **Edwina Hart** [Bywgraffiad Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

I begin by very much welcoming the Enterprise and Business Committee's report on youth entrepreneurship. I particularly thank the Chair and Members and officials who were involved in its production. It seems to have been an excellent opportunity to discuss the success of young people in becoming entrepreneurs and how we can deal with some of the barriers that face them.

Dechreuaf drwy groesawu adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar entrepreneuriaeth ieuencid yn fawr iawn. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Cadeirydd a'r Aelodau a'r swyddogion a fu'n rhan o'r gwaith o'i baratoi. Ymddengys iddo fod yn gyfle gwych i drafod llwyddiant pobl ifanc i ddod yn entrepreneuriaid a sut y gallwn ymdrin â rhai o'r rhwystrau sy'n eu hwynebu.

I will begin by assuring you, Chair, that my Deputy Minister, Ken Skates, could just as easily have replied to the debate on the report, but we took the decision that I would do so, because the majority of the recommendations were for me. However, Ken Skates and I have discussed in detail the issues relating to education and training and, in due course, he will be updating Members, particularly on some of the points that have been raised today.

Dechreuaf drwy roi sicrwydd i chi, Gadeirydd, y gallai fy Nirprwy Weinidog, Ken Skates, fod wedi ymateb i'r ddatl ar yr adroddiad yn ddigon hawdd, ond penderfynwyd y byddwn yn gwneud hynny, gan mai ataf fi y mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion wedi'u hanelu. Fodd bynnag, mae Ken Skates a minnau wedi trafod yn fanwl y materion sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant a, maes o law, bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, yn enwedig ynglŷn â'r pwyntiau sydd wedi'u codi heddiw.

We are all absolutely committed to embedding an entrepreneurial culture in Wales, and pleased that the report recognises the strength of our commitment, and the range of initiatives that we have put in place in pursuit of that goal. Sometimes, the range of the initiatives does not give the necessary clarity to individuals, and the difficulty that individuals sometimes have in accessing information has been alluded to. I think that that is a very important point in the report that will need to be addressed.

Rydym i gyd yn gwbl ymrwymedig i sefydlu diwylliant entrepreneuriaidd yng Nghymru, ac yn falch bod yr adroddiad yn cydnabod cryfder ein hymrwymiad, a'r ystod o fentrau yr ydym wedi eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r nod hwnnw. Weithiau, nid yw'r amrywiaeth o fentrau yn ddigon eglur i unigolion fel sydd ei angen, a chyfeiriwyd at yr anhawster y mae unigolion yn ei gael weithiau i gael gafael ar wybodaeth. Credaf fod hynny'n bwynt pwysig iawn yn yr adroddiad y bydd angen rhoi sylw iddo.

Obviously, there is a lot of joint working between me and the Department for Education and Skills, because we jointly regard this as an important agenda. Of course, as we have considered the report in detail, you will be well aware that some of the recommendations do go to other colleagues. However, as I outlined in my initial response to the committee, we are starting to focus on the work, following the recommendations that you have made. Indeed, in his contribution, the Chair indicated how pleased he was that he thought that I had already taken up some of these recommendations in many ways, with some of the work that he has seen being developed since the committee reported.

We are obviously focused on delivering the actions within the youth entrepreneurship strategy in promoting the value of entrepreneurship and supporting young people with entrepreneurial learning opportunities and those who wish to start their own business. Eluned Parrott alluded to some of the issues as well, which I also think are very important. It is about the value of innovation and people understanding what risk is. It is quite important that those skills are understood, as part of the drive on this agenda.

We recently announced the establishment of a new entrepreneurship panel, under the chairmanship of James Taylor of SuperStars, to provide us with guidance and expertise on the development and the delivery of the entrepreneurship agenda in Wales. Members of that panel include Hayley Parsons, who is the founder and the chief executive officer of Gocompare.com, and academic and self-made multimillionaire Kevin Green. This panel will monitor progress on how we deliver the entrepreneurship programme, including the youth entrepreneurship strategy action plan, and will have its first meeting on 5 February.

We have, of course, established the regional entrepreneurship hubs to encourage collaboration, to interlink with wider economic developments and to provide a clear route for young people to take the next steps to entrepreneurship and start-up. The business-led Big Ideas Wales challenge was launched in October 2013, with the aim of identifying the next generation of entrepreneurs in Wales. Today's contributions have been interesting. Sometimes, six and seven-year-olds have the makings of good entrepreneurs—it is not just teenagers. I think that it is a question of how you encourage that spirit of development as well within the primary school agenda. I recall that when I was in school, during our lunchtime, some children at the age of eight or nine were selling the cakes that they had made at home with grandma. They should probably have been harnessed into other businesses when they were in school some 50-odd years ago with me. However, that is the type of encouragement that I think that you have to be given.

Yn amlwg, mae llawer o gydweithio rhyngof fi a'r Adran Addysg a Sgiliau, oherwydd ein bod ar y cyd yn ystyried bod hon yn agenda bwysig. Wrth gwrs, gan ein bod wedi ystyried yr adroddiad yn fanwl, byddwch yn ymwybodol y bydd cyd-Weinidogion eraill yn gyfrifol am rai o'r argymhellion. Fodd bynnag, fel yr amlinellais yn fy ymateb cychwynnol i'r pwyllgor, rydym yn dechrau canolbwyntio ar y gwaith, yn dilyn yr argymhellion a wnaed gennych. Yn wir, yn ei gyfraniad, dywedodd y Cadeirydd pa mor falch ydoedd ei fod yn meddwl fy mod eisoes wedi gweithredu ar rai o'r argymhellion hyn mewn sawl ffordd, gydag ychydig o'r gwaith y mae wedi gweld yn cael ei ddatblygu ers i'r pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad.

Rydym yn amlwg yn canolbwyntio ar gymryd y camau gweithredu yn y strategaeth entrepreneuriaeth ieuencid i hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth a rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am entrepreneuriaeth a chefnogi'r rhai sydd am ddechrau eu busnes eu hunain. Cyfeiriodd Eluned Parrott at rai o'r materion hefyd, sy'n bwysig iawn yn fy marn innau hefyd. Mae'n ymwneud â gwerth arloesi ac â phobl yn deall risg. Mae'n eithaf pwysig bod y sgiliau hynny'n cael eu deall, fel rhan o'r gweithredu ar yr agenda hon.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd y câi panel entrepreneuriaeth newydd ei sefydlu, o dan gadeiryddiaeth James Taylor o SuperStars, er mwyn rhoi arweiniad ac arbenigedd inni ar ddatblygu a chyflwyno'r agenda entrepreneuriaeth yng Nghymru. Mae aelodau o'r panel hwnnw yn cynnwys Hayley Parsons, sef sylfaenydd a phrif swyddog gweithredol Gocompare.com, a'r academydd a miliynydd Kevin Green sydd wedi creu busnes gwerth sawl miliwn. Bydd y panel hwn yn monitro cynnydd o ran sut rydym yn cyflwyno'r rhaglen entrepreneuriaeth, gan gynnwys cynllun gweithredu'r strategaeth entrepreneuriaeth ieuencid, a bydd yn cyfarfod ar 5 Chwefror am y tro cyntaf.

Rydym, wrth gwrs, wedi sefydlu'r canolfannau entrepreneuriaeth rhanbarthol i annog cydweithio, cydgysylltu â datblygiadau economaidd ehangach a chynnig llwybr clir i bobl ifanc i gymryd y camau nesaf tuag at entrepreneuriaeth a dechrau busnes newydd. Lanswyd her Syniadau Mawr Cymru o dan arweiniad byd busnes ym mis Hydref 2013, gyda'r nod o nodi'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid yng Nghymru. Bu cyfraniadau heddiw yn ddiddorol. Weithiau, mae plant chwech a saith oed yn dangos arwyddion o fod yn entrepreneuriaid—nid yn unig pobl ifanc yn eu harddegau. Yn fy marn i, y cwestiwn yw sut mae annog ysbryd datblygu o'r fath yn agenda'r ysgolion cynradd hefyd. Cofiaf pan oeddwn yn yr ysgol, yn ystod ein hamser cinio, fod rhai plant wyth neu naw oed yn gwerthu teisenod yr oeddent wedi'u gwneud gartref gyda mam-gu. Dylent fod wedi cael eu harneisio mewn busnesau eraill yn ôl pob tebyg pan oeddent yn yr ysgol ryw hanner canrif yn ôl gyda mi. Fodd bynnag, dyna'r math o anogaeth y mae'n rhaid ichi ei rhoi yn fy marn i.

This Big Ideas challenge also provides young people aged 16 to 24 with an opportunity to network and receive bespoke services from business to take their business ideas forward. Following a series of auditions across Wales, 42 young people have been selected to attend an entrepreneurial-led boot camp next weekend, where they will receive ongoing boardroom-style mentoring. That comes to the very important point that Christine Chapman made about mentoring, as did Eluned, I believe. Mentoring is quite key; it is important how you mentor the individual, and that you have the right person mentoring. Points were also made later on across the Chamber about some of these people who I am asking to be mentors, and about how the mentoring will impact on their business. I should therefore look at what type of support I can give to the mentors, for example financial assistance, given that they are giving their time. I think that these points have been particularly well made.

It will be interesting to see how the boot camp goes. This challenge is designed and is led by entrepreneurs to provide an intensive programme of activities. James Taylor is the challenge ambassador who will lead the weekend. He will be supported by business role models and business organisations who have pledged practical help for the young entrepreneurs; I think that we need to stress that they actually need some practical help.

I am pleased to say that we have made significant progress in raising young people's aspirations. I will allude to some of the statistics: 53% of young people who are under 25 have entrepreneurial aspirations—an increase of 42% on 2004—and the number of young people starting up in business has tripled since 2004. On the number of graduate start-ups, it was an interesting comparison about the good statistics in terms of graduate start-ups, and the fact that it was not so good in terms of other aspects. That is an area on which we will probably have to do more research, and look at what works successfully.

While we have been able to accept, or to accept in principle, the recommendations, as outlined in our response to the report, the withdrawal of funding in 2013 was not as a result of recommendation 6 and an assessment of Young Enterprise Wales effectiveness, but was as a result of the broader changes to the Careers Wales remit. Obviously, the Deputy Minister for Skills and Technology has heard the discussion about that particular issue today.

I welcome the opportunity across the piece to discuss this very important agenda, and in these difficult economic times it is vital that we encourage people to become entrepreneurially aware and active and that we provide young people with skills and aspirations. I believe the YES action plan has made significant progress and has been recognised by the European Commission and the World Economic Forum as an example of good practice in this particular area.

Mae her Syniadau Mawr hefyd yn rhoi cyfle i bobl ifanc 16 i 24 oed rwydweithio a chael gwasanaethau pwrpasol gan fusnesau er mwyn datblygu eu syniadau busnes. Yn dilyn cyfres o glyweliadau ledled Cymru, mae 42 o bobl ifanc wedi cael eu dewis i fynd i wersyll lesewch o dan arweiniad entrepreneuriaid y penwythnos nesaf, lle y byddant yn cael eu mentora ar lun mentora ystafell wrdd. Mae hynny'n dod â mi at y pwynt pwysig iawn a wnaed gan Christine Chapman ynglŷn â mentora, fel y gwnaeth Eluned, fe gredaf. Mae mentora yn eithaf allweddol; mae'n bwysig sut rydych yn mentora'r unigolyn, a'ch bod yn cael y person cywir i fentora. Gwnaed pwyntiau yn nes ymlaen hefyd yn y Siambwr ynglŷn â rhai o'r bobl hyn yr wyf yn gofyn iddynt fod yn fentoriaid, a sut y bydd mentora yn effeithio ar eu busnes. Felly dylwn ystyried pa fath o gymorth y gallaf ei roi i'r mentoriaid, er enghraifft, cymorth ariannol, o ystyried eu bod yn rhoi o'u hamser. Credaf fod y pwyntiau hyn yn rhai arbennig o dda.

Bydd yn ddiddorol gweld sut hwyl y caiff y gwersyll lesewch. Mae'r her hon wedi'i chynllunio ac wedi'i harwain gan entrepreneuriaid er mwyn cynnig rhaglen ddwys o weithgareddau. James Taylor yw llysgennad yr her a fydd yn arwain y penwythnos. Caiff ei gefnogi gan fodolau rôl busnes a sefydliadau busnes sydd wedi addo cymorth ymarferol i entrepreneuriaid ifanc; credaf fod angen inni bwysleisio bod angen rhywfaint o gymorth ymarferol arnynt mewn gwirionedd.

Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran codi uchelgais pobl ifanc. Cyfeiriaf at rai o'r ystadegau: mae gan 53% o bobl ifanc o dan 25 oed uchelgais entrepreneuriaid—cynnydd o 42% ers 2004—ac mae nifer y bobl ifanc sydd wedi dechrau busnes wedi treblu ers 2004. O ran nifer y graddedigion sy'n dechrau busnes, roedd yn gymhariaeth ddiddorol o ran yr ystadegau da ynghylch graddedigion sy'n dechrau busnes, a'r ffaith nad oeddent cystal o ran agweddau eraill. Mae hwnnw'n faes y bydd yn rhaid gwneud mwy o ymchwil iddo yn ôl pob tebyg, ac edrych ar yr hyn sy'n llwyddo.

Er ein bod wedi gallu derbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn ein hymateb i'r adroddiad, ni chafodd arian ei dynnu'n ôl yn 2013 o ganlyniad i argymhelliad 6 ac asesiad o effeithiolrwydd Menter yr Ifanc Cymru, ond o ganlyniad i'r newidiadau ehangach i gylch gwaith Gyrfa Cymru. Yn amlwg, mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg wedi clywed y drafodaeth ynghylch y mater penodol hwnnw heddiw.

Croesawaf y cyfle yn gyffredinol i drafod yr agenda dra phwysig hon, ac yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn, mae'n hanfodol ein bod yn annog pobl i fod yn entrepreneuriaid ymwybodol a gweithredol a'n bod yn rhoi cyfle i bobl ifanc a chanddynt sgiliau ac uchelgais. Credaf fod cynllun gweithredu'r strategaeth entrepreneuriaeth ieuencid wedi gwneud cynnydd sylweddol ac mae wedi cael ei gydnabod gan y Comisiwn Ewropeidd a Fforwm Economaidd y Byd fel enghraifft o arfer da yn y maes penodol hwn.

It is very important, and I think Byron Davies alluded to this when he was talking about the recommendations, to plant the seed of entrepreneurship with ideas at a very early stage. It is very important to take that particular issue forward. Also, Alun Ffred made the point about how we give advice and that we need to standardise it. People need to know where it is and where to go, which is also very important. Sometimes, we have a plethora of organisations that give advice, so it needs to be far more streamlined within those particular areas.

It is important that we build upon what we have achieved and incorporate this into the proposals that are being developed in the new European programme. I am pleased where we have successfully delivered, and where we have identified priorities. We will continue to work hard and try to ensure that progress is made on all the commitments that have been made in the YES action plan. I am sure that the committee will continue to monitor my implementation of its report in many ways. The issues around entrepreneurship and young people are issues in which all of us across the Chamber are interested. We want to ensure that there are opportunities for young people not only to start their own business but to feel that there can be entrepreneurship wherever they work, in whatever industry or in whatever career path they take. I thank you very much for the opportunity, Presiding Officer, to respond to what has been an extremely constructive and interesting debate today on an excellent committee report.

Mae'n bwysig iawn, a chyfeiriodd Byron Davies at hyn, fe gredaf, pan oedd yn sôn am yr argymhellion, blannu hadau entrepreneuriaeth drwy syniadau ar gam cynnar iawn. Mae'n bwysig iawn gweithredu ar y mater penodol hwnnw. Hefyd, gwnaeth Alun Ffred y pwynt ynglŷn â sut rydym yn rhoi cyngor a bod angen inni safoni hynny. Mae angen i bobl wybod ble y mae a ble i fynd, sydd hefyd yn bwysig iawn. Weithiau, mae lluo o sefydliadau gennym yn rhoi cyngor, felly mae angen symleiddio hynny cryn dipyn yn y meysydd penodol hynny.

Mae'n bwysig ein bod yn adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni a'i ymgorffori yn y cynigion sy'n cael eu datblygu yn y rhaglen Ewropeaidd newydd. Rwy'n falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni'n llwyddiannus, a lle rydym wedi nodi blaenoriaethau. Byddwn yn parhau i weithio'n galed a cheisio sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o ran yr holl ymrwymadau a wnaed yng nghynllun gweithredu'r strategaeth entrepreneuriaeth ieuencid. Rwy'n siŵr y bydd y pwyllgor yn parhau i fonitro'r gwaith o weithredu ei adroddiad mewn sawl ffordd. Mae'r materion sy'n ymwneud ag entrepreneuriaeth a phobl ifanc yn rhai y mae pob un ohonom yn y Siambr yn ymddiddori ynddynt. Rydym am sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc nid yn unig i ddechrau eu busnes eu hunain, ond i deimlo y gellir arddel entrepreneuriaeth lle bynnag y maent yn gweithio, ym mha ddiwydiant bynnag neu ym mha lwybr gyrfa bynnag a ddewisant. Diolch yn fawr iawn am y cyfle, Lywydd, i ymateb i'r hyn sydd wedi bod yn ddaidl hynod adeiladol a diddorol heddiw ar adroddiad ardderchog gan y pwyllgor.

15:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister. I now call on the Chair of the Enterprise and Business Committee, Nick Ramsay, to reply to the debate.

Diolch, Weinidog. Galwaf yn awr ar Nick Ramsay, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes a Menter i ymateb i'r ddaidl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:37 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#)

I thank all Members here today who have contributed to this debate that relates to an area that is of immense and increasing importance to the Welsh economy. I will pick up on some of the points that have been made very well by AMs during the course of this debate. First, Chris Chapman reiterated the fact that entrepreneurship is not just practiced by those who are seen as entrepreneurs running their own companies, but that it involves skills that can be carried out in any workplace at any time. That point came through in most of the evidence that we received during the course of the inquiry, and Chris was quite right to make that point. She also made the very interesting point that some areas of Wales do not have as many potential mentors as others, and this goes back to the issue of diversity across north Wales, south Wales, east Wales and west Wales. It is an interesting point, because I think that she was alluding to a possible spiral of decline there, where you have fewer mentors able to go into schools, and therefore fewer people coming out of those schools becoming entrepreneurs to be mentors themselves. So, she was quite right to identify that; that spiral needs to be stopped in its tracks.

Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau yma heddiw sydd wedi cyfrannu at y ddaidl hon sy'n ymwneud â maes sydd o bwys aruthrol ac o bwys cynyddol i economi Cymru. Ymddriniaf â rhai o'r pwyntiau da iawn a wnaed gan Aelodau Cynulliad yn ystod y ddaidl hon. Yn gyntaf, pwysleisiodd Chris Chapman y ffaith nad dim ond y rhai sy'n cael eu hystyried yn entrepreneuriaid ac sy'n cynnal eu cwmnïau eu hunain sy'n arddel entrepreneuriaeth, ond ei bod yn golygu sgiliau y gellir eu harfer ym mhob gweithle ar unrhyw adeg. Daeth y pwynt hwnnw i'r golwg yn y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymchwiliad, ac roedd Chris yn llygad ei lle i wneud y pwynt hwnnw. Gwnaeth y pwynt diddorol iawn hefyd nad oes cymaint o ddarpar fentoriaid mewn rhai ardaloedd o Gymru ag eraill, ac mae hyn yn mynd yn ôl at fater amrywiaeth yn y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin. Mae'n bwynt diddorol, oherwydd credaf ei bod yn awgrymu dirywiad graddol o bosibl yn hynny o beth, lle mae llai o fentoriaid sy'n gallu mynd i mewn i ysgolion, ac felly lai o bobl yn dod allan o'r ysgolion hynny sy'n dod yn entrepreneuriaid i fod yn fentoriaid eu hunain. Felly, roedd yn llygad ei lle i nodi hynny; bod angen rhoi terfyn ar y dirywiad graddol hwnnw ar unwaith.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We like having Byron Davies on the committee; I am glad that you enjoyed your time during the inquiry. You said that you are never too young to plant the seed, and that was picked up by the Minister as well. Younger people need to be introduced to the idea of entrepreneurial spirit as soon as they possibly can—the younger the better. I think that the committee concluded that it is better that they experience entrepreneurship and mentoring before they get into their teenage years. By that point, I would not say that it is too late, but something has been lost.

Alun Ffred Jones spoke again about entrepreneurship skills being active over a number of areas and he mentioned the innovation centre in Caerphilly, which we were lucky enough to visit, and the facility in Shotton. He referred to the difficulty in finding support, and that even when there is support, people do not always know where to access it. From what he was saying, although he did not say it explicitly, we need a one-stop-shop-type facility, which will achieve that. Creating a network is challenging, but, nonetheless, it does have to happen. That support needs to be clarified.

Eluned Parrott gave a good Liberal speech and referred to changing the mindset and the need for empowerment. All the buzz words were in there; Eluned did not disappoint. She reiterated the point about how young people can use entrepreneurial skills in whatever field they are in and that it does not just have to be in their own businesses. She mentioned recommendation 10, which refers to the all-important mentoring, which ties in with what she said about empowerment.

When we were at the Flintshire enterprise club, we realised how much a club like that relies on the enthusiasm and ability of the mentors, as well as the time they give up to be mentors. That is all-important. The point was made that it is not so easy, sometimes, to replicate that across Wales because you are relying on individual people to have that motivation and commitment. However, the club was more than willing to give the benefits of its knowledge and to try to help with the establishment or the spreading out of the good practice that is going on in Flintshire.

Keith Davies mentioned empowerment as well and the need to get rid of the divide between vocational and academic routes. We have had that discussion and debate many times in the Chamber, so I do not propose to cover old ground. However, yes, you are quite right to say that. It is good that people nowadays are more aware now than they were in the past of entrepreneurship as a route. We did not doubt that. We just think that more could be done, and you made that point very well. You also unwittingly hit on an important point—I think it was unwittingly, maybe you were more subtle than I gave you credit for in the speech—in relation to entrepreneurs. You mentioned Bill Gates. One of the important points that came through from the evidence was that you do not have to be a Bill Gates to be an entrepreneur. You do not have to be a millionaire. There are many entrepreneurs out there who are making quite a modest income, but they are, nonetheless, employing their entrepreneurial spirit in getting that income. I know that the young people who helped to make the video stressed that very importantly. Being an entrepreneur is not just about money.

Mae'n braf cael cwmni Byron Davies ar y pwyllgor; rwy'n falch ichi fwynhau eich amser yn ystod yr ymchwiliad. Dywedasochnad ydych byth yn rhy ifanc i blannu hadau, a chyfeiriodd y Gweinidog at hynny hefyd. Mae angen cyflwyno'r syniad o ysbryd entrepreneuriaidd i bobl ifanc mor fuan â phosibl—gorau po ifancaf. Credaf i'r pwyllgor ddod i'r casgliad ei bod yn well iddynt brofi entrepreneuriaeth a mentora cyn iddynt gyrraedd eu harddegau. Erbyn hynny, ni ddywedwn ei bod yn rhy hwyr, ond mae rhywbeth wedi cael ei goli.

Soniodd Alun Ffred Jones eto am y ffaith bod sgiliau entrepreneuriaeth yn weithredol dros nifer o feysydd a soniodd am y ganolfan arloesi yng Nghaerffili, y buom yn ddigon ffodus i ymweld â hi, a'r cyfleuster yn Shotton. Cyfeiriodd at yr anhawster i ddod o hyd i gymorth, a hyd yn oed pan fo gymorth ar gael, nad yw pobl bob amser yn gwybod ble i gael gafael arno. O'r hyn yr oedd yn ei ddweud, er na ddywedodd hynny'n benodol, mae angen cyfleuster siop un stop, a fydd yn cyflawni hynny. Mae creu rhwydwaith yn heriol, ond, serch hynny, rhaid i hyn ddigwydd. Mae angen eglurdeb ynglŷn â'r cymorth hwnnw.

Cawsom araith Ryddfrydol dda gan Eluned Parrott a gyfeiriodd at newid meddylfryd a'r angen am rymuso. Clywsom yr holl eiriau ffasiynol; ni chawsom ein siomi gan Eluned. Pwysleisiodd y pwynt ynghylch sut y gall pobl ifanc ddefnyddio sgiliau entrepreneuriaidd ym mha faes bynnag y bônt a'r ffaith nad oes rhaid iddo olygu eu busnesau eu hunain yn unig. Soniodd am argymhellid 10, sy'n cyfeirio at y mentora hollbwysig, sy'n cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd am rymuso.

Yn ystod ein hymweliad â chlwb menter Sir y Fflint, sylweddolwyd i ba raddau y mae clwb o'r fath yn dibynnu ar frwdfrydedd a gallu'r mentoriaid, yn ogystal â'r amser y maent yn ei roi i fod yn fentoriaid. Mae hynny'n holl bwysig. Gwnaed y pwynt nad yw mor hawdd, weithiau, efelychu hynny ledled Cymru, oherwydd eich bod yn dibynnu ar gymhelliant ac ymrwymiad pobl unigol. Fodd bynnag, roedd y clwb yn fwy na pharod i roi cyngor ar sail ei brofiad ei hun ac i geisio helpu i sefydlu neu ledaenu'r arfer da sy'n digwydd yn Sir y Fflint.

Soniodd Keith Davies am rymuso hefyd, a'r angen i gael gwared ar y rhaniad rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd. Rydym wedi cael y drafodaeth honno sawl gwaith yn y Siambr, felly ni fwriadaf ei drafod eto. Fodd bynnag, rydych yn llygad eich lle i ddweud hynny. Mae'n beth da bod pobl yn fwy ymwybodol erbyn hyn nag yr oeddent yn y gorffennol o entrepreneuriaeth fel llwybr. Nid oeddem yn amau hynny. Credu yr ydym y gellid gwneud rhagor, a gwnaed y pwynt hwnnw yn dda iawn gennyh. Bu ichi hefyd daro'n ddjarwybod ar bwynt pwysig—credaf ei bod yn ddjarwybod, efallai eich bod yn fwy cynnill yn eich araith nag yr oeddwn yn ei dybio—mewn perthynas ag entrepreneuriaid. Bu ichi sôn am Bill Gates. Un o'r pwyntiau pwysig a ddaeth i'r amlwg o'r dystiolaeth oedd nad oes rhaid ichi fod yn debyg i Bill Gates er mwyn bod yn entrepreneur. Nid oes rhaid ichi fod yn filiynydd. Mae llawer o entrepreneuriaid yn ennill incwm cymharol fach, ond, serch hynny, maent yn arddel ysbryd entrepreneuriaidd er mwyn ennill yr incwm hwnnw. Gwn i'r bobl ifanc a helpodd i wneud y fideo bwysleisio bod hynny'n bwysig iawn. Mae bod yn entrepreneur yn golygu mwy nag arian.

I now turn to Rhun ap Iorwerth. I am pleased that you spoke because, yes, as you said, you were not there throughout the main part of the inquiry. It is always good to have a fresh pair of eyes. Sometimes you can get too close to these things and you cannot see the wood for the trees. I am pleased that you appreciated the end part of the inquiry and the launch of the report. You made a hard-hitting point that you feel that we—the universal ‘we’—have let young people down. Sometimes, that is not because support is not there; it is just that we are not providing them with the networks to access that support and showing them that they are available. That ties in with your colleague Alun Ffred Jones’s comment about a one-stop shop.

Finally, I turn to the Minister. I am pleased that you have accepted many of the recommendations. I was pleased to hear you talking about breaking down the barriers to entrepreneurship. You spoke about the all-important aspect of accessing information. I know that you know yourself that this is not rocket science. This is just about making things happen on the ground. It is very easy to come forward with a report and easier—not easier, but you know what I am saying—for the Government, sometimes, to accept things and not see things happen in practice. That is why we were pleased as a committee that you seemed to have made a good start on making sure that work is happening on the ground. That does not always happen when you do a committee report; you do not see the Government act quite so quickly, but you have. I hope that you will maintain that enthusiasm. I think that you appreciate, as we do on the committee that entrepreneurship, particularly at a difficult economic time, becomes even more important than at other times. You reiterated Byron Davies’s comments about planting that all-important seed, even if that seed does not deliver immediately, or does not always deliver in the way that, perhaps, people think it might when they are embarking on an entrepreneurial route. However, at some point in people’s lives, it may well come in very handy, whatever their line of work may end up being—even if they are involved in politics as we are, because entrepreneurialism has an important part to play in our mindset.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 15:43.

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank everyone who has contributed to this committee report. I ask on behalf of the committee that the Minister follows through with these recommendations. The committee will be watching closely to see that we do what we can to encourage a much greater entrepreneurial spirit in Wales.

Trof yn awr at Rhun ap Iorwerth. Rwy'n falch ichi siarad oherwydd, fel y dywedasoch, nid oeddech yn bresennol yn ystod y brif ran o'r ymchwiliad. Mae bob amser yn beth da cael pâr arall o lygaid. Weithiau gallwch fynd yn rhy agos at y pethau hyn, ac rydych yn colli golwg ar y darlun mawr. Rwy'n falch eich bod wedi gwerthfawrogi'r rhan olaf o'r ymchwiliad a lansiad yr adroddiad. Gwnaethoch bwynt diflewyn ar dafod eich bod yn teimlo ein bod ni—y 'ni cyffredinol—wedi gwneud tro sâl â phobl ifanc. Weithiau, digwydd hynny nid oherwydd nad oes cymorth ar gael; ond oherwydd nad ydym yn cynnig y rhwydweithiau iddynt gael gafael ar y cymorth hwnnw na dangos iddynt yr hyn sydd ar gael. Mae hynny'n cyd-fynd â sylw eich cyd-Aelod, Alun Ffred Jones ynglŷn â siop un stop.

Yn olaf, trof at y Gweinidog. Rwy'n falch ichi dderbyn llawer o'r argymhellion. Roeddwn yn falch o'ch clywed yn sôn am chwalu'r rhwystrau i entrepreneuriaeth. Soniwyd am yr agwedd hollbwysig sef cael gafael ar wybodaeth. Gwn eich bod chithau'n gwybod nad yw hyn yn rhywbeth cymhleth iawn. Mae ond yn golygu gwneud i bethau ddigwydd ar lawr gwlad. Mae'n hawdd iawn cyhoeddi adroddiad ac yn haws—nid yn haws, ond fe ddeallwch beth a olygaf—i'r Llywodraeth, weithiau, dderbyn pethau a pheidio â gweld pethau yn digwydd yn ymarferol. Dyna pam yr oeddem yn falch fel pwyllgor eich bod, yn ôl pob golwg, wedi gwneud dechrau da o ran sicrhau bod y gwaith hwnnw yn cael ei wneud ar lawr gwlad. Nid yw hynny bob amser yn digwydd pan fyddwch yn paratoi adroddiad pwyllgor; nid ydych yn gweld y Llywodraeth yn gweithredu yr un mor gyflym, ond gwnaethoch chi hynny. Gobeithio y bydd y brwdfrydedd hwnnw yn parhau. Credaf eich bod yn deall, fel y gwnawn ninnau ar y pwyllgor fod entrepreneuriaeth, yn arbennig ar adeg economaidd anodd, yn mynd hyd yn oed yn bwysicach nag ydyw ar adegau eraill. Ailadroddwyd sylwadau Byron Davies gennych ynghylch plannu'r hadau hollbwysig hynny, hyd yn oed os nad yw'r hadau hynny yn dwyn ffrwyth ar unwaith, neu os nad ydynt bob amser yn gwneud hynny yn y ffordd y mae pobl yn ei disgwyl pan fyddant yn cychwyn ar lwybr entrepreneuriaidd. Fodd bynnag, ar ryw adeg ym mywydau pobl, efallai y bydd yn ddefnyddiol iawn, beth bynnag fo'u galwedigaeth yn y pen draw—hyd yn oed os ydynt yn ymwneud â byd gwleidyddiaeth fel ninnau, oherwydd mae gan entrepreneuriaeth ran bwysig i'w chwarae yn ein meddylfryd.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 15:43.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad pwyllgor hwn. Ar ran y pwyllgor gofynnaf i'r Gweinidog weithredu ar yr argymhellion hyn. Bydd y pwyllgor yn cadw llygad barcud i weld ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i annog llawer mwy o ysbryd entrepreneuriaidd yng Nghymru.

15:44

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Enterprise and Business Committee's report. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw y dylid nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Llifogydd

Deholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3, 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts, gwelliant 2 yn enw Lesley Griffiths, a gwelliannau 7 ac 8 yn enw Elin Jones.

Cynnig NDM5407 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi llifogydd a difrod mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 sydd wedi effeithio ar bobl a chymunedau ledled Cymru.

2. Yn cydnabod gwaith rhagorol y gwasanaethau a'r sefydliadau brys o ran darparu cefnogaeth a chymorth i'r cymunedau hynny.

3. Yn credu y dylai'r defnydd deul posibl o brosiectau ynni adnewyddadwy lleol gael ei ystyried o ran darparu amddiffynfeydd môr pellach.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) mynd ati ar unwaith i adolygu Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Llifogydd;

b) datblygu ac ail-lansio'r cynllun grant a dreialwyd yn 2010/11 i ddarparu cyllid i'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd i wneud eu cartrefi'n fwy diogel rhag llifogydd;

c) cyhoeddi adroddiadau ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru i'r llifogydd diweddar, ar ôl eu cwblhau.

Welsh Conservatives Debate: Flooding

The following amendments have been selected: amendments 1, 3, 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts, amendment 2 in the name of Lesley Griffiths, and amendments 7 and 8 in the name of Elin Jones.

Motion NDM5407 William Graham

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the flooding and devastation of December 2013 and January 2014 which has affected people and communities throughout Wales.

2. Recognises the excellent work of the emergency services and organisations in providing support and relief to those communities.

3. Believes that the potential dual use of local renewable energy projects should be considered in providing further sea defences.

4. Calls on the Welsh Government to:

a) urgently review Technical Advice Note 15: Development and Flood Risk;

b) develop and re-launch the grant scheme piloted in 2010/11 to provide funding for those who are at greatest risk of flooding to make their homes more flood resilient; and

c) publish reports of the investigation of Natural Resources Wales into the recent flooding, once completed.

15:44

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

I welcome this opportunity to move the Welsh Conservative motion in the name of William Graham and before going any further I would like to say that I welcome the Minister's written statement that was issued last night. I always think that opposition day debates have an important role to play in this legislature, not just for debating issues that are of a political nature and are in the public interest, but also to persuade, or even sometimes force, the Welsh Government into thinking about or doing something differently that will have a positive benefit. I would like to think that the tabling of this debate today played some role in persuading the Minister to make his statement.

Cynigiau y cynnig.

Croesawaf y cyfle hwn i gynnal cynnig y Ceidwadwyr Cymreig yn enw William Graham a chyn mynd ymhellach hoffwn ddweud fy mod yn croesawu datganiad ysgrifenedig y Gweinidog a gyhoeddwyd neithiwr. Rwyf bob amser yn meddwl bod dadleuon diwrnod y gwrthbleidiau yn chwarae rhan bwysig yn y ddeddfwrfa hon, nid yn unig o ran trafod materion sydd o natur wleidyddol ac sydd er budd y cyhoedd, ond hefyd i ddarbwylo, neu hyd yn oed weithiau orfodi, Llywodraeth Cymru i ystyried rhywbeth gwahanol neu wneud rhywbeth yn wahanol a fydd yn cael budd cadarnhaol. Hoffwn feddwl bod y ddadl hon a gyflwynwyd heddiw wedi chwarae rhan i ddarbwylo'r Gweinidog i wneud ei ddatganiad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:45

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to my colleague for giving way. Would he agree that this must surely have also been brought on by his appearance in front of our committee tomorrow?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'm cyd-Aelod am ildio. A fyddai'n cytuno bod hyn, mae'n siŵr, hefyd wedi cael ei ysgogi gan ei ymddangosiad gerbron ein pwyllgor yfory?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, Chairman, I fully agree with your observation, although perhaps the Minister will have a different perception of our views.

However, the additional funding for those communities that have been badly affected by flood water and storm damage over the last couple of months will be greatly appreciated. There will be some concerns from local authorities that are still counting the cost of the damage that there may well be a significant shortfall, and that will be difficult for them to meet. The Government remains in dialogue with the UK Government and European Commission officials about additional sources of funding, and I hope that that dialogue is positive.

My position on issues like natural disasters is to try to seek consensus, because, on these issues that transcend politics, the focus must be on the people and the communities affected, as well as the desire to do everything we possibly can to assist those communities to get back on their feet and mitigate the same scale of damage from happening again in the future.

In terms of amendments, I want to support as many of them as I can. Unfortunately, despite the announcement last night, we simply cannot support the Government's amendments because they fundamentally alter the substance of our motion. The only other amendment that I am still yet to be convinced about is Plaid's call for a national flood forum. I have heard some of what the regional Member for north Wales has said recently regarding the policy, but, with the benefits of living in and representing a border constituency that relies heavily on cross-border co-operation between agencies, I am still not sure whether a separate forum to the England-Wales one that exists is necessary or cost-efficient. I am open to be convinced, and I look forward to hearing the Plaid's spokesman's rationale on this issue.

Over the last eight to 10 weeks, we have seen significant, unprecedented levels of rainfall, which, coupled with natural tidal occurrences, has caused unprecedented levels of structural damage, with north and north-west Wales taking the brunt of that damage. Climate scientists believe that extreme weather occurrences like this that we have experienced over the past few years, or frequent heavy sustained downpours, are going to be with us for some years to come as global temperatures continue to rise. How we meet these long-term climate challenges is going to depend on the policies and processes that we put in place, particularly at the front line.

I think that everyone in this Chamber would again like to put on record our sincere gratitude to the emergency services for the way in which they responded to each of those coastal events, and to the local authorities affected in how they dealt with the ongoing recovery work and trying to return those communities to some sort of normality. We would also wish to put on record our thanks to the many volunteers involved.

Byddwn, Gadeirydd, cytunaf yn llwyr â'ch sylw, er na fydd y Gweinidog yn cyd-fynd â'n sylwadau o bosibl.

Fodd bynnag, bydd yr arian ychwanegol i'r cymunedau hynny y mae dŵr llifogydd a difrod storm wedi cael effaith fawr arnynt yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn. Bydd rhai pryderon ymhlith awdurdodau lleol sy'n dal i gyfrifo cost y difrod y gall fod diffyg sylweddol, ac y bydd yn anodd ei iddynt ei dalu. Mae'r Llywodraeth yn parhau i drafod gyda swyddogion Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch ffynonellau ychwanegol o arian, a gobeithio y bydd y deialog hwnnw'n gadarnhaol.

Fy safbwynt i ar faterion fel trychinebau naturiol yw ceisio cael consensws, oherwydd, o ran y materion hyn sydd uwchlaw gwleidyddiaeth, rhaid i'r ffoecs fod ar y bobl a'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt, yn ogystal â'r awydd i wneud popeth o fewn ein gallu i helpu'r cymunedau hynny i adfer a lliniaru er mwyn atal difrod ar yr un raddfa rhag digwydd eto yn y dyfodol.

O ran y gwelliannau, hoffwn gefnogi cynifer â phosibl. Yn anffodus, er gwaethaf y cyhoeddiad neithiwr, ni allwn gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth am eu bod yn newid sylweddol ein cynnig yn llwyr. Yr unig welliant arall nad wyf wedi fy argyhoeddi yn ei gylch eto yw cais Plaid Cymru am fforwm llifogydd cenedlaethol. Rwyf wedi clywed ychydig o'r hyn y mae'r Aelod rhanbarthol dros ogledd Cymru wedi'i ddweud yn ddiweddar ynghylch y polisi, ond, a minnau'n cynrychioli ac yn byw mewn etholaeth ar y ffin sy'n dibynnu'n fawr ar gydweithredu trawsffiniol rhwng asiantaethau, nid wyf yn siŵr a yw fforwm ar wahân i'r un presennol i Gymru a Lloegr yn angenrheidiol neu'n gosteffeithlon. Rwy'n barod i gael fy argyhoeddi, ac edrychaf ymlaen at glywed rhesymeg llafarydd Plaid ar y mater hwn.

Dros yr wyth i 10 wythnos diwethaf, rydym wedi gweld lefelau sylweddol o law na welwyd eu tebyg o'r blaen, sydd, ynghyd â digwyddiadau llanw naturiol, wedi achosi mwy o ddifrod strwythurol nag erioed o'r blaen, a'r gogledd a'r gogledd-orllewin yn gweld y difrod mwyaf. Cred gwyddonwyr hinsawdd y byddwn yn gweld digwyddiadau tywydd eithafol fel y rhai a welsom yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, neu gawodydd trwm hir eu parhad a mynych, am rai blynyddoedd i ddod wrth i'r tymheredd byd-eang barhau i godi. Mae'r ffordd yr ydym yn ateb heriau'r hinsawdd yn yr hirdymor yn dibynnu ar y polisiâu a'r prosesau yr ydym yn eu rhoi ar waith, yn enwedig yn y rheng flaen.

Credaf y byddai pawb yn y Siambr hon unwaith eto yn dymuno diolch yn ddiffuant i'r gwasanaethau brys am y modd y maent wedi ymateb i bob un o'r digwyddiadau arfordirol hynny, ac i'r awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt am y ffordd y maent wedi ymdrin â'r gwaith adfer sy'n mynd rhagddo ac wedi ceisio creu ryw fath o normalrwydd unwaith eto i'r cymunedau hynny. Hoffem hefyd ddiolch yn gyhoeddus i'r llu o wirfoddolwyr dan sylw.

I also wish to put on record my many thanks to Natural Resources Wales and how it reacted and co-ordinated the national response. I went out with officials from Natural Resources Wales in Ceredigion to see the damage for myself. My conclusions from the discussions that I had with officials were that they were very much in control of the situation, and that they had done everything that they possibly could to mitigate the impact. I have some concerns about their ability to do the work in the future, as there has been a steady decline of nearly 10% of staff formerly from Environment Agency Wales to Natural Resources Wales. I hope that the Minister can pick up on that point.

We also feel that technical advice note 15 is in urgent need of review. The guidance is now old and there has been a great deal of changes to organisations, such as the abolition of drainage boards. We just need to look at the example of the preferred local development plan strategy in Cardiff. If that proposed development on greenbelt land in the north of the city goes ahead, it is just going to reduce the amount of natural defences available to absorb water and put the capital, which is already exposed to dangers of flooding, at greater risk.

I would also like to refer to a set of recommendations made by the previous environment committee during the third Assembly. In its 2010 report on flooding in Wales, recommendation 11 was to establish a scheme to provide funding to aid those who are at greatest risk of flooding and to retrofit their homes to become more flood resilient. The Government established a scheme and it was to be reviewed a couple of years ago. There was a commitment by Jane Davidson to relaunch an improved scheme if there was sufficient evidence of both the need and the success in reducing the consequences of flooding. Will the Minister tell us whether that review was conducted? If so, what were the conclusions? I believe that there is a need to relaunch this scheme. I know that there are businesses in Wales—like Design and Supply Ltd in Merthyr, which has just won a UK award for the design and development of probably the best flood protection for doors on the market—that are ready to meet the challenge of improving flood resilience.

I would like to focus on point 3 of the motion, which refers to the use of schemes and projects that have a dual purpose. Undoubtedly, there will be some aspects of the common agricultural policy, particularly under pillar 2, which the Minister will want to examine in terms of the management of flood risk on inland waterways, like upland flooding and the proper maintenance of watercourses. However, it is also the use of renewable energy schemes that could really have a significant impact, both inland and on our coastline. I believe that the use of technologies like tidal lagoons and large hydro dams could play a significant role in reducing the impact of future flood events. I am sure that those Members on the environment committee were as fascinated as I was when we had evidence just a few months ago from a number of witnesses who were talking to that effect, and there was not a single wind turbine in sight. I would also be interested to hear the Minister's views on the use of renewables to help mitigate flooding and what the Welsh Government is doing to take that agenda forward.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn hefyd i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ffordd yr ymatebodd ac y cydlynodd yr ymateb cenedlaethol. Euthum gyda swyddogion o Cyfoeth Naturiol Cymru yng Ngheredigion i weld y difrod dros of fy hun. Yr hyn a gesglais o'r trafodaethau a gefais gyda swyddogion yw bod ganddynt reolaeth dros y sefyllfa i raddau helaeth, a'u bod wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i liniaru'r effaith. Mae gennyf rai pryderon ynghylch eu gallu i wneud y gwaith yn y dyfodol, oherwydd bu gostyngiad cyson o bron i 10% o staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt i Cyfoeth Naturiol Cymru. Gobeithio y gall y Gweinidog ymdrin â'r pwynt hwnnw.

Teimlwn hefyd fod angen adolygu nodyn cyngor technegol 15 ar fyrder. Mae'r canllawiau yn hen bellach a gwelwyd llawer iawn o newidiadau i sefydliadau, megis diddymu byrddau draenio. Nid oes ond angen inni edrych ar strategaeth y cynllun datblygu lleol a ffeirir yng Nghaerdydd er enghraifft. Os bydd y datblygiad arfaethedig ar dir llain las yng ngogledd y ddinas yn mynd rhagddo, bydd yn lleihau'r amddiffynfeydd naturiol sydd yn gael i amsugno dŵr ac yn rhoi'r brifddinas, sydd eisoes yn agored i beryglon llifogydd, mewn mwy o berygl.

Hoffwn hefyd gyfeirio at gyfres o argymhellion a wnaed gan y pwyllgor amgylchedd blaenorol yn ystod y trydydd Cynulliad. Yn ei adroddiad yn 2010 ar lifogydd yng Nghymru, cynigiodd argymhelliad 11 y dylid sefydlu cynllun i ddarparu cyllid i gynorthwyo'r rhai yn y perygl mwyaf o lifogydd ac i ôl-gyfparu eu cartrefi er mwyn iddynt allu gwrthsefyll llifogydd yn well. Sefydlodd y Llywodraeth gynllun y dylai fod wedi cael ei adolygu ychydig flynyddoedd yn ôl. Cafwyd ymrwymiad gan Jane Davidson i ail-lansio cynllun gwel pe bai tystiolaeth ddigonol o'r angen a'r llwyddiant o ran lleihau canlyniadau llifogydd. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym a gynhaliwyd yr adolygiad hwnnw? Os felly, beth oedd y casgliadau? Credaf fod angen ail-lansio'r cynllun hwn. Gwn fod busnesau yng Nghymru—meigs Design and Supply Ltd ym Merthyr, sydd newydd ennill gwobr y DU am ddylunio a datblygu'r amddiffynfa orau rhag llifogydd ar gyfer drysau ar y farchnad yn ôl y sôn—sy'n barod i ateb yr her o wella'r gallu i wrthsefyll llifogydd.

Hoffwn ganolbwyntio ar bwynt 3 o'r cynnig, sy'n cyfeirio at y defnydd o gynlluniau a phrosiectau sydd â diben deuol. Yn ddi-os, bydd rhai agweddau ar y polisi amaethyddol cyffredin, yn enwedig o dan golofn 2, y bydd y Gweinidog am eu hystyried o ran rheoli perygl llifogydd mewn dyfrffyrdd mewndirol, megis llifogydd ar dir uchel a chynnal a chadw cyrsiau dŵr yn briodol. Fodd bynnag, gallai'r defnydd o gynlluniau ynni adnewyddadwy hefyd gael effaith sylweddol, yn fewndirol ac ar ein harfordir. Credaf y gallai'r defnydd o dechnolegau megis morlynnoedd llanw ac argaeau dŵr trydan mawr chwarae rôl bwysig i leihau effaith digwyddiadau llifogydd yn y dyfodol. Rwy'n siŵr bod yr Aelodau hynny sydd ar y pwyllgor amgylchedd wedi cael y dystiolaeth ychydig fisoedd yn ôl gan nifer o dystion a oedd yn siarad i'r perwyl hwnnw yn hynod ddiddorol fel minnau. Ac nid oedd yr un tyrbin gwynt yn y golwg. Byddai'n ddiddorol hefyd glywed barn y Gweinidog ar y defnydd o ynni adnewyddadwy er mwyn helpu i liniaru llifogydd a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i weithredu ar yr agenda honno.

I hope that this will be a thoughtful debate and one that is conducted in the spirit of consensus. It is vital that we proceed in a way where we do everything possible to protect the lives and livelihoods of all citizens in Wales.

Gobeithio y bydd hon yn ddadl ystyriol ac yn un sy'n cael ei chynnal mewn ysbryd o gonsensws. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu mewn ffordd lle rydym yn gwneud popeth posibl i ddiogelu bywydau a bywoliaethau holl ddinasyddion Cymru.

15:52

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf wedi dethol yr wyth gwelliant i'r cynnig a galwaf ar William Powell i gynneg gwelliannau 1, 3, 4, 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the eight amendments to the motion and call on William Powell to move amendments 1, 3, 4, 5 and 6, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn canmol gwirfoddolwyr lleol ar hyd a lled Cymru am eu hymroddiad yn ystod y broses lanhau ac adfer.

Commends the work of local volunteers across Wales for the dedication shown during the clean-up and recovery process.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new sub-point 4a and renumber accordingly:

cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch y camau y mae wedi'u cymryd i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd i gynorthwyo gyda'r costau yn sgîl gwaith atgyweirio.

update the National Assembly for Wales on the action it has taken to investigate the potential use of European Union funds to aid the costs incurred by repair work.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new sub-point 4a and renumber accordingly:

ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid perthnasol i sicrhau agwedd pragmatig tuag at geisiadau gan fusnesau a thai i ôl-ffitio eiddo at ddibenion gwella mesurau atal llifogydd.

engage positively with relevant partners to ensure that a pragmatic approach is adopted towards business and residential applications to retrofit properties for purposes of improved flood defence.

Gwelliant 5—Aled Roberts

Amendment 5—Aled Roberts

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new sub-point 4a and renumber accordingly:

amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i ddefnyddio gywbodaeth leol a thechnegau rheoli tir arloesol i wneud mwy o ddefnydd o adnoddau naturiol i leihau effaith llifogydd, a chymryd camau i sicrhau bod cynrychiolwyr yn gwella eu sgiliau'n briodol er mwyn gwella'r gallu i wrthsefyll llifogydd.

outline the actions being taken to use local knowledge and innovative land management techniques to make greater use of natural resources to reduce the impact of flooding, and take action to ensure that representatives are suitably up skilled to improve resilience.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Amendment 6—Aled Roberts

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new sub-point 4a and renumber accordingly:

annog adolygiad o'r polisi clirio afonydd yng Nghymru cyn gynted â phosibl, er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd.

instigate a review of river clearing policy in Wales as a matter of urgency to reduce the potential for flooding.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiad welliannau 1, 3, 4, 5 a 6.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 1, 3, 4, 5 and 6.

I thank the Welsh Conservatives for bringing forward this timely debate today. I also endorse the comments of Russell George in terms of the Minister's statement last night and his readiness to take out the ministerial cheque book for this very important investment for the communities affected. I confirm that the Welsh Liberal Democrat group will be supporting all amendments today, other than amendment 2 tabled by the Government. We do so because we believe that that amendment would weaken the motion as a whole and because it ignores the urgent need to review TAN 15, given its age, the availability of new and more accurate modelling data and the geomorphological changes that have occurred since it was produced.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl amserol hon heddiw. Cymeradwyaf hefyd sylwadau Russell George ynglŷn â datganiad y Gweinidog neithiwr a'i barodurwydd i ddefnyddio'r llyfr sicciau gweinidogol ar gyfer y buddsoddiad pwysig iawn hwn i'r cymunedau dan sylw. Cadarnhaf y bydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi pob gwelliant heddiw, ac eithrio gwelliant 2 a gyflwynwyd gan y Llywodraeth. Gwnawn hynny oherwydd credwn y byddai'r gwelliant hwnnw yn gwanhau'r cynnig yn ei gyfanrwydd ac am ei fod yn anwybyddu'r angen dybryd i adolygu TAN 15, o ystyried pa mor hen ydyw, y data modelu newydd a mwy cywir sydd ar gael a'r newidiadau geomorffolegol sydd wedi digwydd ers iddo gael ei baratoi.

Like other Members in the Chamber, I saw the impact of the recent storms at first hand by visiting some of the worst affected areas. I would particularly like to put on record my thanks to Aberystwyth hotelier Richard Griffiths, who explained to me the impact that his business had suffered, and to local residents, including Mair and Islwyn Hughes, who were kind enough to open their home to show me at first hand the effects that they had suffered. While it is impossible not to be struck by the sheer power of nature on occasions like this, the resilience of local homeowners and businesspeople was remarkable in the way in which they moved to get on with the clear-up effort and to put their lives back on track. I think that that deserves all our recognition.

Fel Aelodau eraill yn y Siambr, gwelais effaith y stormydd diweddar dros of fy hun drwy ymweld â rhai o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf. Yn benodol, hoffwn ddiolch i'm gwestywr yn Aberystwyth, Richard Griffiths, a eglurodd yr effaith ar ei fusnes imi, ac i drigolion lleol, gan gynnwys Mair ac Islwyn Hughes, a fu cystal ag agor eu cartref i ddangos imi yr hyn yr oeddent wedi'i ddiodes. Er na ellir ond syfrdanu at rym enfawr natur ar adegau fel hyn, roedd gwydnwch perchnogion tai a phobl fusnes leol yn rhyfeddol o ran y ffordd yr aethpwyd ati i glirio'r llastr a rhoi eu bywydau ar y trywydd iawn unwaith eto. Credaf fod hynny'n haeddu cydnabyddiaeth gan bawb.

Clearing up is not going to be easy. In fact, it will be expensive and time consuming and it will require us to think seriously about how we deal with the long-term impacts of climate change and coastal erosion in the decades to come. In terms of cost, we know that significant emphasis has been placed on the potential assistance of the EU solidarity fund. Whether this is an appropriate source for support has been a matter that has been debated in other places. The Liberal Democrat MEPs have been of one voice with those Welsh MEPs who have backed such a bid. However, we must remember that this is not the only potential source of funding available to us. Last week, during a visit to the European investment bank in Luxembourg, key officials emphasised their readiness to co-fund large-scale projects that relate both to infrastructure improvement and climate change mitigation. In this context, such resource could prove useful, given the extensive damage that has been seen, particularly to the Cambrian and north Wales railway lines.

Ni fydd y gwaith cymhennu yn hawdd. Yn wir, bydd yn gostus ac yn feichus a bydd yn gwneud inni feddwl o ddirif ynghylch sut rydym yn ymdrin ag effeithiau hirdymor newid yn yr hinsawdd ac erydu arfordirol yn y degawdau sydd i ddod. O ran cost, gwyddom fod pwyslais mawr wedi ei roi ar gymorth posibl o dan gronfa cydgefnogeth yr UE. Mae pa un a yw hon yn ffynhonnell briodol o gymorth wedi bod yn fater a drafodwyd mewn manau eraill. Mae'r ASEau sy'n Ddemocratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn unfryd â'r ASEau hynny o Gymru sydd wedi cefnogi cais o'r fath. Fodd bynnag, rhaid inni gofio nad hon yw'r unig ffynhonnell bosibl o arian sydd ar gael inni. Yr wythnos diwethaf, yn ystod ymweliad â banc buddsoddi Ewrop yn Lwcsembwrg, pwysleisiodd swyddogion allweddol eu parodrwydd i gyd-ariannu prosiectau ar raddfa fawr sy'n ymwneud â gwella seilwaith a lliniaru newid yn yr hinsawdd. Yn y cyd-destun hwn, gallai adnodd o'r fath fod yn ddefnyddiol, o ystyried y difrod helaeth a gafwyd, yn enwedig i linellau rheilffyrdd y Cambrian a'r gogledd.

However, as we begin the reconstruction work around Wales, we also need to recognise that simply engaging in like-for-like replacement of defences does not always represent a long-term and sustainable solution. Such a view is not always popular but, if the events of recent years have taught us anything, it is that our traditional attitude of Victorian defiance of the power of nature cannot always be the way forward. Instead, we need to ask some very serious questions about the state of some of our coastal and floodplain environments. How we take forward a pragmatic approach to site-specified managed retreat coupled with targeted defences and developments are questions we need to and must address.

This process does not mean that we abandon our coasts. Instead, it simply means that we must assess critically what can be protected, both in environmental and economic terms, and where we are simply becoming a modern-day King Canute. I think that, to be fair, the Welsh Government, and NRW, which has already had positive references made to it today, have begun thinking more constructively in recent times about these matters, and I trust that the ministerial review that has been announced recently will accelerate the trend. Of course, this process is not limited to our downstream and coastal environments. We still need to be doing more in our uplands to improve water retention and, indeed, to reduce surface run-off. I know that this was a theme that was high on the agenda at the Minister's meeting just last week with the members of the Wye and Usk Foundation.

I know that expanding forestry cover continues to be a matter of priority, as does the expansion of shelter belts. Indeed, this was a topic I raised with the Minister in the autumn last year, and I would appreciate any update he has with regard to that particular matter of shelter belts and what they offer. Finally, I want to touch on the importance—

Fodd bynnag, wrth inni ddechrau ar y gwaith aildeiladu ledled Cymru, mae angen inni hefyd gydnabod nad yw ailgodi amddiffynfeydd tebyg bob amser yn cynnig ateb hirdymor na chynaliadwy. Nid yw barn o'r fath bob amser yn boblogaidd, ond, os yw'r digwyddiadau dros y blynyddoedd diwethaf wedi dysgu unrhyw wersi inni, y wers yw na all ein hagwedd draddodiadol o geisio gwrthsefyll grym natur sy'n perthyn i oes Fictoria bob amser gynnig ffordd ymlaen. Yn lle hynny, mae angen inni ofyn rhai cwestiynau difrifol iawn am gyflwr rhai o'n hamgylcheddau arfordirol a'n gorlifdiroedd. Mae'r ffordd yr ydym yn mynd ati i gilio rhag safleoedd penodol o dan reolaeth yn bragmatig ynghyd ag amddiffynfeydd a datblygiadau wedi'u targedu, yn gwestiynau y mae angen ac y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hwy.

Nid yw'r broses hon yn golygu ein bod yn cefnu ar ein harfordiroedd. Yn hytrach, mae'n golygu, yn syml, fod yn rhaid inni asesu'n feirniadol yr hyn y gellir ei ddiogelu, mewn termau amgylcheddol ac economaidd, a lle rydym yn dechrau ymdebygu i'r Brenin Caniwt. Credaf, a bod yn deg, fod Llywodraeth Cymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru, y cyfeiriwyd ato'n gadarnhaol eisoes heddiw, wedi dechrau meddwl yn fwy adeiladol yn ddiweddar am y materion hyn, a hyderaf y bydd yr adolygiad gweinidogol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cyflymu'r duedd. Wrth gwrs, nid yw'r broses hon wedi'i chyfyngu i'n hamgylcheddau i lawr afonydd ac ar yr arfordir. Mae angen inni wneud mwy yn ein hucheldiroedd i wella'r broses o gadw dŵr ac, yn wir, leihau dŵr ffo. Gwn fod hyn yn thema a oedd yn uchel ar yr agenda yng nghyfarfod y Gweinidog yr wythnos diwethaf ag aelodau o Sefydliad Gwy ac Wysg.

Gwn fod ehangu gorchudd coedwigaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth, yn ogystal ag ehangu lleiniau cysgodi. Yn wir, mae hwn yn bwnc a godais gyda'r Gweinidog yn yr hydref y llynedd, a byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth newydd sydd ganddo am fater penodol lleiniau cysgodi a'r hyn y maent yn ei gynnig. Yn olaf, hoffwn sôn am bwysigrwydd—

- 15:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
It has to be finally as you have two seconds. [Laughter.] Rhaid mai yn olaf ydyw oherwydd dwy eiliad sydd gennych. [Chwerthin.]
- 15:57 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Thank you very much. Diolch yn fawr iawn.
- 15:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Lesley Griffiths. I call on the Minister for Natural Resources and Food to move amendment 2, tabled in the name of Lesley Griffiths.
Gwelliant 2—Lesley Griffiths *Amendment 2—Lesley Griffiths*
Dileu is-bwyntiau 4a a 4b a rhoi yn eu lle: *Delete sub-points 4a and 4b and replace with:*
parhau â'i dull a ddisgrifir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r buddsoddiad o £240 miliwn i ddelio â llifogydd yn ystod tymor y Llywodraeth hon. *continue its approach as set out in the National Strategy for Flood and Coastal Erosion Risk Management in Wales and the investment of £240 million into flooding over the lifetime of this Government.*

15:57

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I move amendment 2.

Cynigiau welliant 2.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:57

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig gwelliannau 7 ac 8, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I call Llyr Gruffydd to move amendments 7 and 8, tabled in the name of Elin Jones.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwelliant 7—Elin Jones

Amendment 7—Elin Jones

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

Add as new sub-point at the end of point 4:

'sefydlu Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i Gymru'.

'establish a National Flood Forum for Wales'.

Gwelliant 8—Elin Jones

Amendment 8—Elin Jones

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

Add as new sub-point at the end of point 4:

'cyfrifo'r gost ychwanegol i lywodraeth leol a sefydliadau cyhoeddus eraill yn sgîl y stormydd diweddar, ac ystyried ar unwaith yr angen i wneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU neu'r Undeb Ewropeaidd i helpu i ysgwyddo'r baich ariannol'.

'collate the additional cost on local government and other public organisations as a result of the recent storms and consider urgently the need to request additional funding from the UK Government or the European Union to help meet the financial burden'.

15:58

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch iawn i gynnig gwelliannau 7 ac 8 ar ran Plaid Cymru.

I am very pleased to move amendments 7 and 8 on behalf of Plaid Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fe wnaeth adroddiad yr IPCC ein hatgoffa yn ddiweddar ei bod hi'n debygol y bydd dyddodiad yn gyffredinol yn parhau i gynyddu; bydd Cymru yn profi mwy o ddirgwyddiadau tywydd eithafol a glaw eithafol yn y blynyddoedd i ddod; a bydd lefel y môr yn parhau i godi gyda chynnydd graddol yn nghyfradd y codiad hwnnw dros amser. Felly, mae'r arwyddion yn glir ein bod ni'n wynebu sefyllfa lle byddwn yn wynebu mwy o achosion o lifogydd yn y dyfodol, a'r rheini yn rhai mwy difrifol. Mae Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru yn rhybuddio na ddylid caniatáu unrhyw ddatblygiadau mawr pellach nac unrhyw fath o seilwaith hanfodol ar orlfdiroedd afonydd ac aberol, ond rydym wedi gweld ymchwil diweddar gan y BBC yn dangos bod miloedd o dai yn cael eu datblygu ar y safleoedd hyn. Rwy'n teimlo bod yn rhaid i'r Llywodraeth fynd i'r afael â hyn drwy roi mwy o flaenoriaeth o lawer i'r mater nag y mae wedi'i wneud yn y gorffennol.

The Intergovernmental Panel on Climate Change report recently reminded us that it is likely that precipitation generally will continue to increase; that Wales will experience more extreme weather events and extreme rainfall in coming years; and that sea levels will continue to rise with a gradual increase in the rate of that rise over a period of time. So, the signs are clear that we are facing a situation where there will be more examples of flooding facing us in future and that those will be even more extreme. The Climate Change Consortium of Wales has warned that no major developments should be allowed and that no major infrastructure should be built on river floodplains or estuary floodplains, but we have seen recent research by the BBC show that thousands of homes are being developed on these floodplain sites. I feel that the Government must tackle this issue as a matter of greater priority than it has done in the past.

Un o'r pryderon sydd wedi'i amlygu yng ngwaith diweddar y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr holl faes hwn oedd bod cyllid ar gyfer cynllunio ar gyfer llifogydd ac amddiffyn yr arfordir wedi'i rannu rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol. Nododd y Llywodraeth yn ei ymateb ei bod yn datblygu rhaglen fuddsoddi sengl i dargedu arian amddiffyn rhag risg arfordirol a llifogydd yn fwy effeithiol. Roedd ymgynghoriad ar y rhaglen fuddsoddi sengl fod i ddirgwydd yng ngwanwyn y llynedd, ac roedd y Llywodraeth fod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni yn ystod yr hydref. Nawr, nid wyf yn ymwybodol bod diweddariad wedi cael ei ddarparu, felly efallai y gall y Gweinidog esbonio'r oedi ac esbonio'r sefyllfa ddiweddaraf.

One of the concerns highlighted in the recent work of the Environment and Sustainability Committee on this whole area was that funding for planning in relation to flooding and coastal defences is shared between the Welsh Government, Natural Resources Wales and local authorities. The Government noted in its response that it was developing a single investment programme to target coastal risk and flood funding more effectively. A consultation on the single investment programme was to happen last spring, and the Government was to give an update to us during the autumn months. Now, I am not aware that such an update has been provided, so perhaps the Minister could explain why there has been this delay and what the latest position is.

Mae cyfeiriadau wedi bod at gronfa 'solidarity' yr Undeb Ewropeaidd. Mae Gogledd Iwerddon eisoes wedi gwneud cais am arian o'r gronfa honno i ymateb i'r difrod a achoswyd yn gynharach y mis hwn. Felly, mae'n hen bryd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddod i ddealltwriaeth ar y mater hwn, oherwydd mae'r arian yno, mae eraill yn mynd amdano, ac rwy'n meddwl ei bod ond yn iawn i Gymru hefyd wneud cais.

Mewn dadl ar lifogydd bron union flwyddyn yn ôl, galwais ar y Llywodraeth i sefydlu fforwm llifogydd cenedlaethol i Gymru. Byddai fforwm o'r fath yn gweithio mewn ardaloedd wedi'u targedu ac yn dod ag aelodau o'r gymuned at ei gilydd i ffurfio grŵp craidd er mwyn grymuso cymunedau sy'n wynebu risg llifogydd i helpu eu hunain. Byddai'r fforwm yn rhannu arfer da, yn hyrwyddo ac yn cynorthwyo gyda'r mesurau lliniaru gorau ar gyfer amgylchiadau'r holl unigolion sydd yn yr ardaloedd hynny dan risg, ac yn darparu pecynnau brys mewn argyfwng, ynghyd â lloches i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

Mewn ymateb yn gynharach i'r rhesymeg dros alw am y fforwm llifogydd hwn, cyfeiriodd llefarydd y Ceidwadwyr at adroddiad y pwyllgor cynaliadwyedd yn ôl yn 2010 a rhai o'i argymhellion. Roedd sefydlu'r fforwm llifogydd i Gymru yn un arall o'r argymhellion hynny, felly rwy'n siŵr eich bod eisoes wedi darllen y 'rationale' y tu ôl i hynny. Fodd bynnag, mae'r fforwm sydd yn bodoli i Gymru a Lloegr yn dweud nad oes ganddo'r capasiti angenrheidiol i ddarparu lefel y gasanaeth sydd ei angen yn awr, yn wyneb yr her gynyddol sy'n dod o gyfeiriad llifogydd yma yng Nghymru. Mae'r fforwm ei hunan yn dweud bod lle i sefydlu corff o'r fath.

Wrth ymateb i'r ddadl flwyddyn yn ôl, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd ei fod yn deall yn iawn yr alwad am fforwm llifogydd a'i fod wedi comisiynu ymchwil ar ddatblygu'r math hwnnw o gefnogaeth i gymunedau, a'i fod yn mynd i ystyried canlyniad yr ymchwil cyn gwneud unrhyw ymrwymiadau ffurfiol. Nid yw'r gwerthusiad hwnnw wedi cael ei gyhoeddi eto, a byddwn yn falch iawn pe bai'r Gweinidog yn rhoi diweddariad i ni ar y mater hwnnw.

Mae tir amaethyddol o dan ddŵr hefyd yn broblem. Mae Llywodraeth Cymru'n berffaith iawn i flaenoriaethu, wrth gwrs, lle'r effeithir ar fywydau pobl, yn enwedig lle mae bywydau mewn perygl, ond nid yw hynny i ddweud nad oes mwy y gellir ei wneud i gynorthwyo ffermwyr i dacio'r broblem benodol sydd ganddynt.

Un rheswm dros y broblem hon yn awr yw nad yw'r gwaith clirio a chynnal a chadw glannau afonydd a oedd yn arfer cael ei wneud bellach yn digwydd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr wedi sefydlu saith cynllun peilot a fydd yn rhoi cyfle i ffermwyr a grwpiau cymunedol ac amgylcheddol gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch dyfodol cynnal a chadw afonydd ac amddiffynfeydd llifogydd yn eu hardaloedd, ac wedi lleihau tâp coch yn yr ardaloedd hynny i'w gwneud yn haws i ffermwyr gynnal yr afonydd eu hunain, lle maent yn dewis gwneud hynny. Byddwn i'n dadlau bod yr amser wedi dod i Lywodraeth Cymru ystyried cynllun tebyg.

Reference has been made to the European Union's solidarity fund. Northern Ireland has already applied for money from that fund as a result of the damage caused earlier this month. Therefore, it is high time that the Welsh Government and the UK Government came to an understanding on this issue, because the money is there, others are applying for it, and I believe that it is only right that Wales also applies for it.

In a debate on flooding nearly a year ago, I called on the Government to establish a national floods forum for Wales. Such a forum would work in targeted areas, bringing members of the community together to form a core group in order to empower communities that face the risk of flooding to help themselves. The forum would share good practice, promote and assist with the best mitigation measures for all individuals in at-risk areas, and provide assistance in emergencies, along with shelter for those affected.

Earlier, in response to the rationale for calling for this floods forum, the Conservative spokesperson referred to the sustainability committee's report in 2010 and some of its recommendations. The establishment of the floods forum for Wales was another one of those recommendations, so I am sure that you have already read the rationale for that. However, the current forum for England and Wales says that it does not have the capacity to provide the level of services now needed, in light of the increasing challenge posed by flooding in Wales. The forum itself says that there is a need to establish such a body.

In replying to last year's debate, the Minister for the environment at the time said that he fully understood the call for a floods forum and that he had commissioned research on developing such support for communities, and that he would consider the results of that research before making any formal commitments. That assessment is yet to be published, and I would be grateful if the Minister could update us on that matter.

Flooding on agricultural land is also a problem. The Welsh Government is right, of course, to prioritise places where people's lives are affected, especially where lives are in danger, but that is not to say that there is not more that could be done to assist farmers in tackling the specific problem that they face.

One reason for this current problem is that the clearing and maintenance work that used to be done on river banks is no longer carried out. The Environment Agency in England has established seven pilot schemes that will give farmers and community and environment groups a say in decisions on the future maintenance of rivers and flood defences in their areas, and it has cut red tape in those areas to make it easier for farmers to maintain the rivers themselves, where they choose to do so. I would argue that the time has come for the Welsh Government to consider a similar scheme.

I would echo that last call from Llyr Huws Gruffydd that the Welsh Government looks at that scheme to see how it can be built upon and improved here in Wales.

Of course, the flooding of agricultural land is not only caused by sea flooding, but inland flooding. Minister, could you clarify when you give your response whether or not your report will just look at coastal flooding, or whether it will examine the broader issues around flooding, particularly inland flooding?

I would like to echo Russell George's comments on the fantastic work of the various emergency services. I know that, in the past, I have often been quite critical of Natural Resources Wales, but I think that it did very well in response to these events, Minister. However, I do wonder whether we can highlight more clearly how people could sign up to the flood aware service, which alerts people quickly to a serious risk to life from potential flood incidents.

I know that in your statement yesterday, Minister, you said that there were other opportunities, or funding, for businesses affected by the flooding. I know that the NatWest bank is offering a £250 million scheme to businesses of any size—they do not have to be NatWest or RBS customers—to apply for additional loans, interest-free for three months, to cover the costs of repairing flood damage. I would urge Members to highlight that in their constituencies, where they have particular businesses that have been affected by the flooding.

Llyr Huws Gruffydd raised the issue of the European Union solidarity fund. We know that the level of damage that would need to be suffered in the UK as a whole would have to be higher than €3 billion, or 0.6% of our gross national income, which, at a UK level, would be about £49 billion, if it were considered on that estimate. In your statement yesterday, Minister, you identified the repairs that councils had notified you of as being of the value of about £2 million. I wonder whether or not you now have some idea of the damage caused to historic buildings and transport links and other damage caused. If you have that information to hand now, there is a 10-week time limit to apply for European solidarity fund funding. If you are going to argue that, on a regional basis, Wales has suffered such bad impacts that the majority of the population has been affected by serious and lasting repercussions for living conditions and that it affects our economic stability, which are the tests for the European solidarity fund, those arguments are going to have to be made quickly. I wonder whether you could give us an idea as to how you are progressing in assessing the extent of the damage. Obviously, I would hope that, if you can make the case to Westminster, it would then take that forward.

Byddwn yn ategu'r alwad olaf honno gan Llyr Huws Gruffydd i Lywodraeth Cymru edrych ar y cynllun hwnnw i weld sut y gellir adeiladu arno a'i wella yma yng Nghymru.

Wrth gwrs, mae llifogydd ar dir amaethyddol yn cael eu hachosi nid yn unig gan lifogydd y môr, ond gan lifogydd mewndirol. Weinidog, a allech egluro pan fyddwch yn rhoi eich ymateb a fydd eich adroddiad yn edrych ar lifogydd arfordirol yn unig, neu a fydd yn edrych ar y materion ehangach sy'n ymwneud â llifogydd, yn enwedig llifogydd mewndirol?

Hoffwn ategu sylwadau Russell George ynglŷn â gwaith gwych y gwahanol wasanaethau brys. Gwn, yn y gorffennol, fy mod yn wedi bod yn eithaf beirniadol yn aml o Cyfoeth Naturiol Cymru, ond credaf iddo wneud yn dda iawn wrth ymateb i'r digwyddiadau hyn, Weinidog. Fodd bynnag, tybed a allwn dynnu sylw yn gliriach at sut y gallai pobl ymuno â'r gwasanaeth ymwybyddiaeth llifogydd, sy'n rhybuddio pobl yn ddi-oed os oes risg fawr i fywyd oherwydd llifogydd posibl.

Gwn ichi ddweud yn eich datganiad ddoe, Weinidog, fod cyfleoedd eraill, neu gyllid arall, i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd. Gwn fod banc NatWest yn cynnig cynllun gwerth £250 miliwn i fusnesau o unrhyw faint—nid oes angen iddynt fod yn gwsmeriaid NatWest neu RBS i wneud cais am fenthyciadau ychwanegol, yn ddi-log am dri mis, i dalu am gostau atgyweirio difrod a achoswyd gan lifogydd. Hoffwn annog Aelodau i dynnu sylw at hynny yn eu hetholaethau, lle mae busnesau penodol yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd.

Cyfeiriodd Llyr Huws Gruffydd at gronfa cydgefnogeth yr Undeb Ewropeaidd. Gwyddom y byddai'n rhaid i'r lefel o ddifrod a achoswyd yn y DU yn gyffredinol fod yn uwch na €3 biliwn, neu 0.6% o'n hincwm gwladol crynswth, sef tua £49 biliwn ar lefel y DU, pe câi ei ystyried ar sail yr amcangyfrif hwnnw. Yn eich datganiad ddoe, Weinidog, nodwyd bod cynghorau wedi rhoi gwybod ichi am waith atgyweirio gwerth tua £2 filiwn. Tybed a oes gennych ryw amcan erbyn hyn o'r difrod a achoswyd i adeiladau hanesyddol a chysylltiadau trafndiaeth a'r difrod arall a achoswyd. Os oes gennych y wybodaeth honno wrth law erbyn hyn, mae terfyn amser o 10 wythnos i wneud cais am arian o dan gronfa cydgefnogeth Ewrop. Os bwriadwch ddadlau, ar sail ranbarthol, fod Cymru wedi gweld effeithiau mor wael nes bod goblygiadau difrifol a pharhaol i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth o ran amodau byw a bod hynny'n effeithio ar ein sefydlogrwydd economaidd, sef profion cronfa cydgefnogeth Ewrop, bydd yn rhaid i'r dadleuon hynny gael eu cyflwyno'n ddi-oed. Tybed a allech roi syniad inni ynghylch sut mae'r gwaith o asesu maint y difrod gennych yn mynd rhagddo. Yn amlwg, gobeithio, os gallwch gyflwyno'r achos i San Steffan, byddai wedyn yn gweithredu ar hynny.

In 2007, when we last applied to the European solidarity fund, about 48,000 households were affected by the flooding and 7,000 businesses were hit. I think that, in relation to the recent incidents, we are looking at about 2,000 households being affected. I would hope, Minister, that you would look at other options. I am very grateful for the additional funding that you announced yesterday and I wonder whether you can highlight to us which budget that money has come from, because if you are prioritising this, it must have come out of another budget. Could you tell us where it has come from? The UK Government activated the Bellwin scheme in December, and the Welsh Government has a similar scheme, which is the emergency financial assistance scheme. Could you tell us whether you are activating that and whether the funds have come out of that? [Interruption.] I do not know who you are pointing at.

Yn 2007, y tro diwethaf inni wneud cais i gronfa cydfefnogaeth Ewrop, roedd y llifogydd wedi effeithio ar tua 48,000 o gartrefi a 7,000 o fusnesau. Credaf, o ran y digwyddiadau diweddar, i'r llifogydd effeithio ar tua 2,000 o gartrefi. Gobeithio, Weinidog, y byddech yn edrych ar opsiynau eraill. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr arian ychwanegol a gyhoeddwyd gennych ddoe a thybed a allwch ddweud wrthym o ba gyllideb y mae'r arian hwnnw wedi dod, oherwydd os ydych yn blaenoriaethu hyn, rhaid ei fod wedi dod o gyllideb arall. A allwch ddweud wrthym o ble mae wedi dod? Gweithredodd Llywodraeth y DU gynllun Bellwin ym mis Rhagfyr, ac mae gan Lywodraeth Cymru gynllun tebyg, sef y cynllun cymorth ariannol brys. A allech ddweud wrthym a ydych yn rhoi hwnnw ar waith ac a yw'r arian wedi dod o'r cynllun hwnnw? [Torri ar draws.] Ni wn at bwy rydych yn cyfeirio.

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:08 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If you can activate those schemes, it may well give councils access to the funding that they need to conduct the repairs that are required.

Os gallwch weithredu'r cynlluniau hynny, mae'n ddigon posibl y byddant yn cynnig y cyllid sydd ei angen ar gynghorau i wneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:08 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will endeavour to be brief, because I know that local Members also wish to speak. As the Stern review noted in 2006, the later we leave the measures that we need to take to combat climate change, the more it is going to cost us. Therefore, it is very good news that there is a sense of unanimity on the importance of this subject and on paragraph 3 of the motion in terms of the potential dual use of local renewable energy projects to be considered in the way that we tackle our sea defences.

Ceisïaf fod yn gryno, oherwydd gwn fod Aelodau lleol yn dymuno siarad hefyd. Fel y nododd adolygiad Stern yn 2006, po hwyrach y byddwn yn gohirio cymryd y camau y mae angen inni eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, y mwyaf y bydd yn ei gostio inni. Felly, mae'n newyddion da iawn bod unfrydedd ynglŷn â phwysigrwydd y pwnc hwn ac ym mharagraff 3 o'r cynnig o ran ystyried y defnydd deul posibl o brosiectau ynni adnewyddadwy lleol yn y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â'n hamddiffynfeydd rhag y môr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I note the £240 million that the Welsh Government is spending on flood and coastal erosion risk management, but I would like to explore whether this money could be even better spent by combining coastal defence objectives with tidal energy generation schemes. Wales has

Nodaf y swm o £240 miliwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, ond hoffwn ystyried a ellid gwario'r arian hwn hyd yn oed yn well drwy gyfuno amcanion amddiffyn yr arfordir â chynlluniau cynhyrchu ynni'r llanw. Mae gan Gymru

'some of the largest tides in the world'

rai o'r llanwau mwyaf yn y byd

and the benefits of the Severn barrage scheme for communities on both sides of the border has often been debated. Swansea lagoon offers energy generation, but poses little to no flood risk. Borth needs flood risk reduction, but offers no energy generation opportunities. The synergy of opportunity and threat is offered by the shallow waters on the north Wales coast. These are not my words, but those of Sir John Houghton, whose calculations on this are really quite astonishing. If we were to build a series of coastal lagoons between Anglesey and the Wirral peninsula, we could generate 3 GW of energy per year. That is sufficient for the total energy needs of Wales, from capturing the ebb and the flow tides. At the same time, it would transform the economies and quality of life of those communities living on low-lying coastal areas like Towyn, where people cannot get insurance, cannot sell their properties, and are really in a very difficult situation.

I note that the Welsh Government strategy for flood and coastal erosion risk management wants to work with natural processes and apply the ecosystem approach. I really would urge us to take a close look at the wave energy technologies being developed at the University of Manchester, which could do just that. These devices can aid sediment accretion, rather than depletion, which is the opposite of coastal erosion. This sediment could act as a natural dampener and be deployed on at-risk coastlines to help reshape our coasts and reduce wave heights. Projects like this do not come cheap; they require expertise, large amounts of capital funding, and their development is time-intensive, but they are long-term measures, built to last. We have the natural conditions and we have the technical expertise, but we do not have the political will, at least from the Tory climate change sceptic Owen Paterson, who has failed to take flood protection seriously enough or prioritise renewable energy generation at a UK level.

Other countries have been more farsighted. The first offshore wind projects in Germany are producing much more power than was originally predicted. That is good news for the investors, who include private equity firms and banks who made them possible. Last month, Denmark generated 55% of its energy needs from wind power—its official target for 2020.

So, private investors are not unaware of the opportunities, and some have the capacity to think long-term. We need to seize those natural opportunities that we have in Wales. With some of the largest tides in the world, we really can reap the opportunities for our communities. The benefits will last for decades, give hope and job opportunities to our at-risk coastal communities, as well as increasing the benefits for tourism. I would urge the Minister to look at the Llanddulas pilot scheme to see whether we can get it going.

ac mae manteision cynllun morglawdd Hafren i gymunedau ar y ddwy ochr i'r ffin wedi cael eu trafod yn fynych. Mae morlyn Abertawe yn cynnig cyfle i gynhyrchu ynni, ond nid oes fawr ddim perygl, os o gwbl, y bydd yn achosi llifogydd. Mae angen lleihau perygl llifogydd yn y Borth, ond nid yw'n cynnig unrhyw gyfleoedd i gynhyrchu ynni. Cynigir synergedd rhwng cyfleoedd a bygythiadau gan ddyfroedd bas arfordir y gogledd. Nid fy ngeiriau i yw'r rhain, ond geiriau Syr John Houghton, y mae ei gyfrifiadau o ran hyn yn wir yn gwbl ryfeddol. Pe baem yn adeiladu cyfres o forlynnoedd arfordirol rhwng Ynys Môn a phenrhyn Cilgwri, gallem gynhyrchu 3 GW o ynni y flwyddyn. Mae hynny'n ddigon ar gyfer anghenion ynni Cymru i gyd, o ddal llif y llanw. Ar yr un pryd, byddai'n trawsnewid economïau ac ansawdd bywyd y cymunedau hynny sy'n byw ar ardaloedd arfordirol isel fel Tywyn, lle na all pobl gael yswiriant, na allant werthu eu heiddo, a lle maent mewn sefyllfa anodd iawn.

Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol am weithio gyda phrosesau naturiol a chymhwyso dull ecosystem. Hoffwn wir ein hannog i edrych yn fanwl ar dechnolegau ynni'r tonnau sy'n cael eu datblygu ym Mhrifysgol Manceinion, a allai wneud yr union beth. Gall y dyfeisiau hyn helpu i Gronni gwaddod, yn hytrach na'i symud ymaith, sef y gwrthwyneb i erydu arfordirol. Gallai'r gwaddod hwn weithredu fel mesur lleddfu naturiol a chael ei ddefnyddio ar arfordiroedd sydd mewn perygl er mwyn helpu i ail-lunio ein harfordiroedd a lleihau uchder tonnau. Nid yw prosiectau o'r fath yn rhad; maent yn gofyn am arbenigedd, symiau mawr o arian cyfalaf, ac mae angen treulio cryn amser i'w datblygu, ond mesurau hirdymor ydynt, a fydd yn para. Mae gennym yr amodau naturiol ac mae gennym yr arbenigedd technegol, ond nid oes gennym yr ewyllys wleidyddol, o leiaf nid o du Owen Paterson y Tori sy'n amau newid yn yr hinsawdd, sydd wedi methu â chymryd amddiffyn rhag llifogydd yn ddigon o ddifrif neu flaenoriaethu cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar lefel y DU.

Mae gwledydd eraill wedi bod yn fwy craff. Mae'r prosiectau gwynt ar y môr cyntaf yn yr Almaen yn cynhyrchu llawer mwy o ynni nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae hynny'n newyddion da i'r buddsoddwyr, sy'n cynnwys cwmnïau ecwiti preifat a banciau a'u gwnaeth yn bosibl. Fis diwethaf, cynhyrchodd Denmarc 55% o'i hanghenion ynni drwy ynni'r gwynt—ei tharged swyddogol ar gyfer 2020.

Felly, mae buddsoddwyr preifat yn ymwybodol o'r cyfleoedd, a gall rhai feddwl am yr hirdymor. Mae angen inni fanteisio ar y cyfleoedd naturiol hynny sydd gennym yng Nghymru. Gyda rhai o'r llanwau mwyaf yn y byd, gallwn wir achub ar y cyfleoedd i'n cymunedau. Bydd y manteision yn para am ddegawdau, gan roi gobaith a chyfleoedd am swyddi i'n cymunedau arfordirol sydd mewn perygl, yn ogystal â chreu mwy o fanteisio i dwristiaeth. Hoffwn annog y Gweinidog i edrych ar gynllun peilot Llanddulas i weld a allwn ei roi ar waith.

I am grateful to speak in this debate and I also add my thanks for the excellent work that the emergency services and volunteers carried out in flood-hit communities around Wales over Christmas and the new year period. I could see the Minister look with some surprise as I got the lectern out to contribute to this debate. Clearly, most of the discussion so far has involved coastal problems and coastal flooding. However, the first line of our motion does refer to the effect across the whole of Wales of the weather over the new year period. Like other areas, my constituency was affected by that.

As Chair of the cross-party group on waterways, I would want to point out that, while it is often the rivers and the coast that we think about, there are also effects on our inland waterways, which cause a significant amount of cost, which will have to be met and which can also cause disruption to businesses and to the tourism industry. The new year period saw a breach of a 60 m length of the Monmouthshire and Brecon Canal, which had to be closed due to problems in Llanfoist near Abergavenny. I appreciate that waterways are not devolved to the Assembly, but if the canal is not fully opened by the summer, we will see effects on businesses and on the tourism industry. Therefore, I hope that the Minister will liaise with Glandŵr Cymru to make sure that the right support is in place for the canal to be opened in order to avoid an effect on businesses.

The value of effective flood management should not only be considered for its role in protecting people and the environment, but also, as I have alluded to, the role that it has in safeguarding jobs and promoting growth. We need to consider the costs that severe floods can mean for businesses, tourism, transport and agriculture. As has been mentioned, the UK climate change risk assessment for Wales highlighted that businesses in Wales are at a relatively high risk from tidal flooding, because most of the population and associated businesses are near the coast. It is not only the costs that are borne at the time of the floods, of course, but the costs of loss of business, damage to infrastructure and higher insurance premiums.

Another issue raised in the risk assessment is the threat to power generation in Wales from flooding. It is estimated that 20% of generation capacity is currently at risk, but this figure could rise to 30% by the 2020s and 50% by the 2080s, if the generation sites do not change. I know that other speakers have mentioned this, and I hope to hear from the Minister as to what the Welsh Government is doing to try to mitigate some of the energy problems that we are facing and will face in the future.

Rwy'n ddiolchgar o gael siarad yn y ddadl hon a hoffwn innau hefyd ddiolch i'r gwasanaethau brys a gwirfoddolwyr am y gwaith rhagorol mewn cymunedau lle bu llifogydd ledled Cymru dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Gallwn weld y Gweinidog yn edrych braidd yn syn wrth iddo fy ngweld yn gosod y ddarllenfa er mwyn cyfrannu at y ddadl hon. Yn amlwg, mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth hyd yn hyn wedi ymwneud â phroblemau arfordirol a llifogydd arfordirol. Fodd bynnag, mae llinell gyntaf ein cynnig yn cyfeirio at effaith y tywydd dros gyfnod y flwyddyn newydd yng Nghymru gyfan. Fel ardaloedd eraill, effeithiodd ar fy etholaeth innau.

Fel Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar ddyfrffyrdd, hoffwn dynnu'ch sylw at y ffaith, er mai am yr afonydd a'r arfordir y meddylw'n aml, fod effeithiau hefyd ar ein dyfrffyrdd mewndirol, sy'n arwain at gryn dipyn o gostau, y bydd yn rhaid talu amdanynt, a all hefyd darfu ar fusnesau a'r diwydiant twristiaeth. Dros gyfnod y flwyddyn newydd gorlifodd camlas Mynwy ac Aberhonddu dros hyd o 60m, a bu'n rhaid ei chau oherwydd problemau yn Llan-ffwyst ger y Fenni. Sylweddolaf nad yw dyfrffyrdd wedi'u datganoli i'r Cynulliad, ond os na fydd y gamlas yn agor yn llawn erbyn yr haf, byddwn yn gweld effeithiau ar fusnesau ac ar y diwydiant twristiaeth. Felly, gobeithio y bydd y Gweinidog yn cysylltu â Glandŵr Cymru i sicrhau bod y cymorth cywir ar gael er mwyn i'r gamlas gael ei hagor ac osgoi effaith ar fusnesau.

Dylai gwerth rheoli llifogydd yn effeithiol nid yn unig gael ei ystyried o ran ei rôl i ddiogelu pobl a'r amgylchedd, ond hefyd, fel y crybwyllais, o ran y rôl y mae'n ei chwarae i ddiogelu swyddi a hybu twf. Mae angen inni ystyried y costau y gall llifogydd mawr eu hachosi i fusnesau, twristiaeth, trafnidiaeth ac amaethyddiaeth. Fel y soniwyd, amlygodd asesiad risg y DU o newid yn yr hinsawdd i Gymru fod busnesau yng Nghymru yn wynebu risg gymharol uchel o lifogydd llanw, am fod y rhan fwyaf o'r boblogaeth a busnesau cysylltiedig yn agos i'r arfordir. Mae nid yn unig yn ymwneud â'r costau sy'n cael eu hysgwyyddo ar adeg y llifogydd, wrth gwrs, ond y costau sy'n gysylltiedig â cholli busnes, difrod i seilwaith a phremiymau yswiriant uwch.

Mater arall a godwyd yn yr asesiad risg yw'r bygythiad i'r gallu i gynhyrchu ynni yng Nghymru oherwydd llifogydd. Amcangyfrifir bod 20% o'r gallu i gynhyrchu ynni mewn perygl ar hyn o bryd, ond gallai'r ffigur hwn godi i 30% erbyn y 2020au a 50% erbyn y 2080au, os na fydd y safleoedd cynhyrchu yn newid. Gwn fod siaradwyr eraill wedi sôn am hyn, ac rwy'n gobeithio clywed gan y Gweinidog ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i geisio lliniaru rhai o'r problemau ynni yr ydym yn eu hwynebu ac y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Projects such as the Swansea tidal lagoon and—though I dread to mention it—the Severn barrage, controversial as they may be, would potentially help to reduce and eliminate the effect of tidal surges in certain areas, alongside their main function of energy production. Therefore, in considering sustainable energy schemes, the implications for flooding and the benefits there should be considered. There are also schemes that involve upland and grassland areas stopping the flow of water in peak periods into populated areas. When you have hard surfaces, you have more run-off, so, clearly, if you can have more open areas—and upland areas in Wales are perfectly suited to this—they can be used in their own way to protect more populated lowland areas.

There are many other schemes and small-scale projects that, by using effective land management, can help to reduce the risk and damage caused by flooding. Targeted tree-planting schemes such as the Pontbren project can not only help with livestock management, but also capture run-off and allow water to sink more rapidly into the soil. None of these projects is about reinventing the wheel. While we cannot blame the Welsh Government for the inclement weather—we try to blame it for many other things, but we cannot blame it for that—as many other speakers have pointed out in this debate, there are energy schemes and other projects that can be used to mitigate flooding that may result from global warming. I know that some people are sceptical about it, but many people now accept it, and because of the potential future problems of flooding, the Welsh Government needs to address these issues now, to make sure that, in the future, the people of Wales are as well-protected as possible.

Gallai prosiectau fel morlyn llanw Abertawe ac—er bod ofn arnaf sôn amdano—morglawdd Hafren, er mor ddadleuol ydynt, helpu i leihau a dileu effaith ymchwydd llanw mewn rhai ardaloedd, ochr yn ochr â'u prif swyddogaeth o gynhyrchu ynni. Felly, wrth ystyried cynlluniau ynni cynaliadwy, dylid ystyried y goblygiadau o ran llifogydd a'r manteision. Ceir cynlluniau hefyd lle mae ucheldir a glaswelltir yn atal llif y dŵr i ardaloedd poblog yn ystod cyfnodau brig hefyd. Pan fydd arwynebau caled, bydd mwy o ddŵr ffo, felly, yn amlwg, os gallwch gael mannau mwy agored—ac mae ucheldiroedd yng Nghymru yn berffaith at hyn—gallant gael eu defnyddio yn eu ffordd eu hunain i ddiogelu ardaloedd tir isel mwy poblog.

Mae llawer o gynlluniau a phrosiectau eraill ar raddfa fach a all, drwy ddefnyddio mesurau rheoli tir yn effeithiol, helpu i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan lifogydd. Gall cynlluniau plannu coed wedi'u targedu megis prosiect Pontbren nid yn unig helpu i reoli da byw, ond hefyd gasglu dŵr ffo a'i gwneud yn bosibl i ddŵr suddo i'r pridd yn gynt. Nid oes yr un o'r prosiectau hyn yn gofyn am aildyfeisio'r olwyn. Er na allwn feio'r Llywodraeth Cymru am dywydd garw—rydym yn ceisio ei beio am lawer o bethau eraill, ond ni allwn ei beio am hynny—fel y nododd llawer o siaradwyr eraill yn y ddadl hon, mae cynlluniau ynni a phrosiectau eraill a all gael eu defnyddio i liniaru llifogydd sy'n deillio o bosibl o gynhesu byd-eang. Gwn fod rhai pobl yn amheus am y peth, ond mae llawer o bobl yn ei dderbyn bellach, ac oherwydd problemau posibl lifogydd yn y dyfodol, mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r materion hyn yn awr, er mwyn sicrhau y bydd pobl Cymru, yn y dyfodol, yn cael eu diogelu cymaint ag y bo modd.

16:17

Joyce Watson [Bywgraffiad Biography](#)

To start, I welcome the first point of the Conservative motion. The Mid and West Wales coastline confronted the storms face-on. Day after day, coastal communities unsheltered by geography took the brunt of that battering. I add my admiration and praise for the emergency services and the organisations that provided support and relief to flood-affected communities, and also for the communities themselves, which have rallied around to support each other. West Walian stoicism and generosity was at its best when I went to Fishguard and called on an elderly couple on Quay Street whose house was flooded. The lady was reliant on a stairlift, and when the electric was knocked out, she was stranded upstairs. However, neighbours called in to do what they could, and the fire service and a local contractor quickly restored heating and power and fixed the stairlift. There were similar stories up and down the country. While knocking on doors in Fishguard, Newgale, Cardigan and Aberystwyth, among a few places, I found that people were anxious. However, they were not caught off guard. Modern weather forecasts and, critically, Welsh Government-funded flood prevention schemes mitigated some of the devastation. We need to recognise some of that here this afternoon.

I ddechrau, croesawaf bwynt cyntaf cynnig y Ceidwadwyr. Wynebodd arfordir y canolbarth a'r gorllewin y stormydd yn eu llawn nerth. Ddydd ar ôl dydd, cafodd cymunedau arfordirol digysgod eu curo'n ddirugaredd. Hoffwn innau fynegi fy edmygedd a'm canmoliaeth i'r gwasanaethau brysi a'r sefydliadau a roddodd gymorth i gymunedau lle bu llifogydd, a hefyd i'r cymunedau eu hunain, sydd wedi dod ynghyd i gefnogi ei gilydd. Bu stoiciaeth a haelioni pobl gorllewin Cymru ar eu gorau pan euthum i Abergwaun a galw ar bâr oedrannus ar Stryd y Cei yr oedd eu tŷ wedi bod dan ddŵr. Roedd y wraig yn dibynnu ar sedd godi, a phan dorwyd y cyflenwad trydan, ni allai ddod lawr y grisiau. Fodd bynnag, galwodd cymdogion heibio er mwyn gwneud yr hyn a allent, a gwnaeth y gwasanaeth tân a chontractwr lleol adfer gwres a phŵer yn gyflym a thrwsio'r sedd godi. Cafwyd straeon tebyg ar hyd a lled y wlad. Wrth guro ar ddrysau yn Abergwaun, Niwngwl, Aberteifi ac Aberystwyth, ymhlith ychydig o leoedd, gwelais fod pobl yn bryderus. Fodd bynnag, roeddent yn barod. Lliniarwyd ychydig o'r difrod gan ragolygon tywydd modern ac, yn hollbwysig, gynlluniau atal llifogydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae angen inni gydnabod rhai agweddau ar hynny yma y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On Monday, I visited Natural Resources Wales's forecasting unit in Haverfordwest. Andy Irving, the team leader there, explained to me how the Floodline warning direct service, together with community engagement, has helped people to prepare for the worst. An example of that is to be found in Solva. Since the river flooded there in 2005, Natural Resources Wales has worked with the community council to provide individual property protection to every household and business that wanted to be engaged in that scheme. I understand that NRW has visited every property in a flood warning area since 2010. The point that I want to make is that while these floods were severe, they were not exceptional. It seems like we have more and more one-in-100 weather events. The truth is that we must expect similar conditions in the coming years and perhaps in the coming weeks, with the second highest tide forecast for 1 and 2 February.

Of course, in emergencies like the ones that we have had over the new year, the response must be a multi-agency one, and that goes for the clean-up operation, too. From local authorities, Governments and Government agencies, the response has to be joined up. In terms of paying for flood repairs, can the Minister, in answer to the debate, update Members on the latest discussions between the Welsh and the UK Governments? There has been considerable confusion and consternation following reports that the UK Treasury is not likely to release extra money for flood repairs in Wales, or apply for funding from the European Union. Is that indeed the UK Government's position?

Moving on to the rail network, I did meet yesterday with representatives from Network Rail, and discussed the work that they are undertaking to re-open the railway lines in my region. I am sure that Members here are aware that coastal railway lines around Ferryside and multiple points up the Cambrian coast were particularly badly damaged. Two of the hardest-hit lines were Aberdovey to Pwllheli and Llanelli to Carmarthen. Such line closures have caused, and in some cases continue to cause, widespread disruption in the north-west of my region. Some lines are likely to remain closed until June. In some places, the railway line is the sea defence. The repair work is going to cost into the tens of millions of pounds. I am aware that Network Rail is undertaking a review of coastal management, which it started last May. I understand that the north Wales pilot is coming to an end, so we will wait for the outcome and lessons from that. We might think that a single agency would be more effective in repairing and restoring damage to infrastructure. We might think it, but in my experience in Wales, we are best when we work together.

Ddydd Llun, ymwelais ag uned rhagolygon Cyfoeth Naturiol Cymru yn Hwlfordd. Esboniodd Andy Irving, arweinydd y tîm yno, wrthyf sut y mae gwasanaeth uniongyrchol Llinell Rybuddion Llifogydd, ynghyd ag ymgysylltu â'r gymuned, wedi helpu pobl i baratoi am y gwaethaf. Ceir un enghraifft o hynny yn Solfach. Ers i'r afon orlifo yno yn 2005, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio gyda'r cyngor cymuned i gynnig diogelwch eiddo unigol i bob cartref a busnes sydd am gymryd rhan yn y cynllun hwnnw. Caf ar ddeall bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymweld â phob eiddo mewn ardal rhybudd llifogydd ers 2010. Y pwynt yr wyf am ei wneud yw, er bod y llifogydd hyn yn ddifrifol, nad oeddent yn eithriadol. Ymddengys ein bod yn gweld mwy a mwy o ddigwyddiadau tywydd unwaith bob 100 mlynedd. Y gwir yw bod yn rhaid inni ddisgwyl amodau tebyg yn y blynyddoedd i ddod ac efallai yn yr wythnosau nesaf, gyda'r llanw uchaf ond un wedi'i ragweld ar 1 a 2 Chwefror.

Wrth gwrs, mewn sefyllfaoedd argyfyngus fel y rhai a welsom dros y flwyddyn newydd, rhaid i'r ymateb fod yn un amlasiantaethol, ac mae hynny'n wir am y gwaith glanhau ac adfer hefyd. O awdurdodau lleol, Llywodraethau ac asiantaethau'r Llywodraeth, rhaid i'r ymateb fod yn un cydgyssylltiedig. O ran talu am waith atgyweirio ar ôl y llifogydd, a wnaiff y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl, roi gwybodaeth i'r Aelodau am y trafodaethau diweddaraf rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU? Bu cryn ddryswch a syndod yn dilyn adroddiadau nad yw Trysorlys y DU yn debygol o ryddhau arian ychwanegol am waith atgyweirio ar ôl y llifogydd yng Nghymru, na gwneud cais am gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Ai dyna safbwynt Llywodraeth y DU mewn gwirionedd?

Gan droi at y rhwydwaith rheilffyrdd, cyfarfûm â chynrychiolwyr o Network Rail ddoe, a thrafodwyd y gwaith y maent yn ei wneud i ailagor y llinellau rheilffordd yn fy rhanbarth. Rwy'n siŵr bod Aelodau yma yn ymwybodol fod llinellau rheilffordd arfordirol yn ardal Glanyfferi a sawl man ar hyd llinell y Cambrian wedi cael eu difrodi'n wael iawn. Dwy o'r llinellau yr effeithiwyd arnynt fwyaf oedd Aberdyfi i Bwllheli a Llanelli i Gaerfyrddin. Mae cau'r llinellau hyn wedi achosi, ac mewn rhai achosion yn parhau i achosi, tarfu mawr yng ngogledd-orllewin fy rhanbarth. Mae rhai llinellau yn debygol o fod ar gau tan fis Mehefin. Mewn rhai manau, y rheilffordd yw'r amddiffynfa rhag y môr. Bydd y gwaith atgyweirio yn costio degau o filiynau o bunnoedd. Rwy'n ymwybodol bod Network Rail yn cynnal adolygiad o reoli'r arfordir, a ddechreuodd fis Mai diwethaf. Caf ar ddeall bod cynllun peilot y gogledd yn dod i ben, felly byddwn yn aros am y canlyniad a'r gwersi o hynny. Efallai y byddwn yn meddwl y byddai un asiantaeth yn fwy effeithiol o ran atgyweirio ac unioni difrod i seilwaith. Efallai y byddwn yn credu hynny, ond yn fy mhrofiad i yng Nghymru, rydym ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

Like everybody in this Chamber, I want to do what I can to work with the Government to deliver the improvements in flood resilience that we need to see in Wales. Like other people in this Chamber, I have personal experience of living in an area that is itself at risk of flooding, and have had the unfortunate experience of having been through a flood in my home in the 1990 floods in Towyn. So, I share the awful experience that so many people have been through during this winter period. Of course, there were homes in my own constituency, in Kinmel Bay, which were flooded in December, along with people in Rhyl in the Vale of Clwyd. Our hearts go out to those people who experienced those problems. That is why I feel all the more determined to get to grips with this problem once and for all, and to make sure that we do our duty to improve the situation in the future and to reduce the risk of flooding.

One thing that stands out from the current situation is that there has been a lack of investment, I think, in flood defences in some parts of the country—not all. There has been welcome investment in my own constituency, for example, in Abergele, and there will be more investment going in in Ruthin, and there has been some in Colwyn Bay. However, there are certain parts of the coastline, and indeed the inland water areas at risk of flooding, that are still very vulnerable. It would be remiss of me not to mention the Old Colwyn part of the coast in my own constituency, which of course lies very close to the A55 and the north Wales railway line. Perhaps, Minister, you will be able to provide an update, because that is of significance for the whole of north Wales, given the proximity of the transport infrastructure. I just seek an update on where your officials are with helping to work towards a resolution of that problem.

I was very pleased with the written statement that was issued yesterday that identified some more resources for flooding. However, what concerned me was the figure of £2 million that you have awarded, which, as I understand it, is just about half the money that my own local authority in Conwy has estimated that it will need in order to rectify the damage and enhance the flood defences along the Conwy part of the coastline, in places like Deganwy, Old Colwyn and, indeed, Kinmel Bay, which of course is the place where I live. We need to understand the allocation process for that £2 million. Is it money that you expect local authorities to match fund? Where is it going? There was no information in your statement yesterday. It would be helpful if you could identify how that has been allocated between the various schemes that you listed in your statement.

Fel pawb yn y Siambr hon, rwyf am wneud yr hyn a allaf i weithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau'r gwelliannau yn ein gallu i wrthsefyll llifogydd y mae angen inni eu gweld yng Nghymru. Fel pobl eraill yn y Siambr hon, rwyf wedi cael profiad personol o fyw mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd ei hun, ac wedi cael y profiad anffodus o lifogydd yn fy nghartref yn ystod llifogydd Tywyn yn 1990. Felly, rhannaf y profiad ofnadwy y mae cymaint o bobl wedi ei gael yn ystod y gaeaf hwn. Wrth gwrs, aeth cartrefi yn fy etholaeth i, ym Mae Cinmel, dan ddŵr ym mis Rhagfyr, ynghyd â rhai yn y Rhyl yn Nyffryn Clwyd. Rydym yn cydymdeimlo â'r bobl hynny a wynebodd y problemau hynny. Dyna pam y teimlaf mor benderfynol bod angen mynd i'r afael â'r broblem hon unwaith ac am byth, a sicrhau ein bod yn gwneud ein dyletswydd i wella'r sefyllfa yn y dyfodol ac i leihau'r perygl o lifogydd.

Un peth sydd wedi dod i'r amlwg o'r sefyllfa bresennol yw bod diffyg buddsoddi, yn fy marn i, mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd mewn rhai rhannau o'r wlad—nid pob un. Bu buddsoddiad i'w groesawu yn fy etholaeth fy hun, er enghraifft, yn Abergele, a bydd mwy o fuddsoddiad yn Rhuthun, a bu ychydig ym Mae Colwyn. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r arfordir, ac yn wir yr ardal oedd dŵr mewndirol sydd mewn perygl o lifogydd, yn dal yn agored iawn i lifogydd. Byddwn ar fai pe na bawn yn sôn am y rhan o'r arfordir yn Hen Golwyn yn fy etholaeth i, sydd wrth gwrs yn agos iawn i'r A55 a llinell reilffordd gogledd Cymru. Efallai, Weinidog, y byddwch yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, gan ei fod yn bwysig i'r gogledd cyfan, o ystyried pa mor agos yw'r seilwaith trafnidiaeth. Hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ble mae eich swyddogion arni o ran helpu i weithio tuag at ddatrys y broblem honno.

Roeddwn yn fodlon iawn ar y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ddoe a oedd yn nodi ychydig mwy o adnoddau ar gyfer llifogydd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n fy mhoeni oedd y ffigur o £2 filiwn a ddyfarnwyd gennych, sydd, yn ôl a ddeallaf, fwy neu lai tua hanner yr arian y mae fy awdurdod lleol fy hun yng Nghonwy wedi amcangyfrif y bydd ei angen arno i unioni'r difrod a gwella'r amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyd yr arfordir yng Nghonwy, mewn lleoedd fel Deganwy, Hen Golwyn ac, yn wir, Bae Cinmel, lle rwy'n byw wrth gwrs. Mae angen inni ddeall y broses ddyrannu ar gyfer y swm hwnnw o £2 filiwn. A yw'n arian yr ydych yn disgwyl i awdurdodau lleol ychwanegu arian cyfatebol ato? I ble y bydd yn mynd? Nid oedd unrhyw wybodaeth yn eich datganiad ddoe. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi sut y mae wedi cael ei ddyrannu rhwng y gwahanol gynlluniau a restrwyd gennych yn eich datganiad.

I, too, believe that there are opportunities through renewable energy schemes to improve flood protection along our coastline, particularly with tidal-empowerment-type schemes, which can form another first line of defence around certain parts of the coast. One of the things that prevent those sorts of schemes going forward very often is the need for some sort of subsidy or support. Minister, in your response to the debate today, will you tell us whether you are prepared to consider investment in such schemes if they deliver flood improvements, even if that is a partnership sort of approach with a private enterprise in order to get there?

One of the things that my constituents say to me is that very often, in the immediate aftermath of a flood, they do not know where to turn, what to do or who to contact in order to get the confusion on the ground resolved. The best example of this was the situation in Ruthin when the local residents, back in November 2012, did not know whether Natural Resources Wales, Denbighshire County Council, the developer or a local farmer in the field next door was responsible for trying to help them to resolve the immediate crisis that was happening on the ground. Minister, can you tell us what work you are doing to help to resolve that sort of confusion in the future in the immediate aftermath of floods?

Time has beaten me so I cannot go on further, but the one thing that has been positive that has come out of these recent experiences has been to see the tremendous community spirit across Wales in those communities that have been affected with volunteers, neighbours helping neighbours—

Credaf innau hefyd fod cyfleoedd i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyd ein harfordir drwy gynlluniau ynni adnewyddadwy, yn enwedig cynlluniau grymuso llanw, a all fod yn rheng gyntaf arall yn yr amddiffynfeydd o amgylch rhai rhannau o'r arfordir. Un o'r pethau sy'n atal y mathau hynny o gynlluniau rhag mynd rhagddynt yn aml iawn yw'r angen am ryw fath o gymhorthdal neu gymorth. Weinidog, yn eich ymateb i'r ddaedl heddiw, a wnech chi ddweud wrthym a ydych yn barod i ystyried buddsoddi mewn cynlluniau o'r fath os ydynt yn sicrhau gwelliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd, hyd yn oed os yw hynny'n gofyn am lunio partneriaeth â menter breifat er mwyn cyrraedd y nod?

Un o'r pethau y mae fy etholwyr yn ei ddweud wrthyf, yn aml iawn, yn union ar ôl llifogydd, yw nad ydynt yn gwybod ble i droi, beth i'w wneud na gyda phwy y dylid cysylltu er mwyn unioni'r sefyllfa ar lawr gwlad. Yr enghraifft orau o hyn oedd y sefyllfa yn Rhuthun pan nad oedd y trigolion lleol, yn ôl ym mis Tachwedd 2012, yn gwybod ai Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, y datblygwr neu ffermwr lleol yn y cae cyfagos oedd yn gyfrifol am geisio eu helpu i unioni'r argyfwng a oedd yn digwydd ar lawr gwlad. Weinidog, a allwch chi ddweud wrthym pa waith yr ydych yn ei wneud i helpu i osgoi'r math hwnnw o ddryswch yn y dyfodol yn union ar ôl llifogydd?

Mae fy amser ar ben felly ni allaf fynd ymlaen ymhellach, ond un peth sydd wedi bod yn gadarnhaol yn sgil y profiadau diweddar hyn fu'r ysbryd cymunedol aruthrol a welwyd ledled Cymru yn y cymunedau hynny dan sylw gyda gwirfoddolwyr, cymdogion yn helpu cymdogion—

- 16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Finish on this wholesome note, please. Quickly. Gorffennwch ar y nodyn buddiol hwn, os gwelwch yn dda. Yn gyflym.
- 16:27 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We must remember that Wales is a small place and there is an awful lot we can do when we work together. Rhaid inni gofio mai lle bach yw Cymru ac mae llawer iawn y gallwn ei wneud pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.
- 16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Ann Jones. Galwaf ar Ann Jones.
- 16:27 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Darren Millar referred to the Towyn floods; I hope that he thinks that, when I was on duty in the control room through those awful floods, that I served his family well. Cyfeiriodd Darren Millar at y llifogydd yn Nhywyn; gobeithio ei fod yn credu, pan oeddwn ar ddyletswydd yn yr ystafell reoli drwy'r llifogydd ofnadwy hynny, imi roi wasanaeth da i'w deulu.
- I want to start this contribution by paying tribute to all emergency services whenever there is a civil incident. This last lot of flooding that we have seen was a civil incident. It is all the emergency services, including the public sector and the volunteers, who we often forget. I know how hard people work and we do come together. Darren is right; when we are together, we work well. Rwyf am ddechrau'r cyfraniad hwn drwy dalu teyrnged i'r holl wasanaethau brys pryd bynnag y bo digwyddiad sifil. Digwyddiad sifil oedd yr holl llifogydd a welsom yn ddiweddar. Mae'n cynnwys yr holl wasanaethau brys, gan gynnwys y sector cyhoeddus a'r gwirfoddolwyr, yr ydym yn aml yn eu hanghofio. Gwn pa mor galed y mae pobl yn gweithio ac rydym yn wir yn dod at ein gilydd. Mae Darren yn llygad ei le; pan fyddwn gyda'n gilydd, rydym yn gweithio'n dda.

I am pleased to see that the Minister has committed to undertaking a full-scale review of flood defences. I am reassured that you have stated, Minister, that it will be wide ranging and take place on an all-Wales basis. That is the right approach. The review must also be specific and look at individual areas. An area that I would want it to focus on would be Rhyl east, which is where the last lot of flooding occurred. Also, there is the flooding that occurred during the Towyn floods back in the 1990s. Residents feel that they have been hit twice and they were almost hit a third time. They feel very unsure about what is going to happen.

Moving further east in my constituency, while the defences did not breach in Prestatyn, that was down to the fact that the community got together, including the MP who filled sandbags between Christmas and the new year—there is the community coming together. I have to say that I did not offer to fill sandbags; I think that I would have been more of a hindrance than help, but he did. It is in those areas that people need reassurance that we are no longer going to take managed retreat as the answer, unless that is the answer, of course, but we have to look at that clearly.

The report should also focus on preventive work too, not just to respond to these things. I want to briefly mention the contour planting of trees and the way in which it can assist with water run-off. I know that I am running out of time, and I thank the Deputy Presiding Officer for calling me, but I want to say one other thing. The people of St Asaph, more than 12 months ago, back in November 2012, suffered some huge flooding. I am grateful to the Minister for having taken a personal interest in that, but those people do need to see the report that was promised. They need to know that people are thinking about them and that we have not moved our attention away from them. All in all, community spirit has been good throughout, and I think that the people of Rhyl have demonstrated that, as Darren has indicated, as have others, but we cannot keep relying on public spirit. It is great that we all get together, but we have an opportunity now to make something work. Please, let us all do it together.

Rwy'n falch o weld bod y Gweinidog wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o amddiffynfeydd rhag llifogydd. Rwyf wedi fy sicrhau eich bod wedi datgan, Weinidog, y bydd yn eang ei gwmpas ac yn cael ei gynnal ar sail Cymru gyfan. Dyna'r ffordd gywir o fwrw ati. Rhaid i'r adolygiad hefyd fod yn benodol ac edrych ar ardaloedd unigol. Un ardal yr wyf am iddo ganolbwyntio arni yw dwyrain y Rhyl, lle y cafwyd y llifogydd diwethaf. Hefyd, cafwyd llifogydd a ddigwyddodd yn ystod llifogydd Tywyn yn ôl yn y 1990au. Mae trigolion yn teimlo eu bod wedi cael anffawd ddwywaith a bu bron iddo ddigwydd am y trydydd tro. Maent yn teimlo'n ansicr iawn am yr hyn a fydd yn digwydd.

Gan symud ymhellach i'r dwyrain yn fy etholaeth, er na orlifodd y môr dros yr amddiffynfeydd ym Mhrestatyn, gellir priodoli hynny i'r ffaith bod y gymuned wedi dod at ei gilydd, gan gynnwys yr AS a lenwodd fagiau tywod rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd—dyma enghraifft o'r gymuned yn dod at ei gilydd. Rhaid imi ddweud na chynigais lenwi bagiau tywod; credaf y byddwn wedi bod yn fwy o rwystr nag o gymorth, ond gwnaeth yntau. Yn yr ardaloedd hynny y mae angen i bobl gael sicrwydd na fyddwn yn derbyn cilio rheoledig fel yr ateb, oni bai mai dyna'r ateb, wrth gwrs, ond rhaid inni edrych ar hynny yn glir.

Dylai'r adroddiad hefyd ganolbwyntio ar waith ataliol, yn hytrach nag ymateb i'r pethau hyn yn unig. Hoffwn sôn ychydig am blannu coed yn ôl cyfuchlin a'r ffordd y gall fod o gymorth gyda dŵr ffo. Gwn fod amser yn mynd yn brin a hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Lywydd am alw arnaf, ond hoffwn ddweud un peth arall. Wynebodd pobl Llanelwy, dros 12 mis yn ôl, yn ôl ym mis Tachwedd 2012, lifogydd enfawr. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am gymryd diddordeb personol yn hynny, ond mae angen i'r bobl hynny weld yr adroddiad a addawyd. Mae angen iddynt wybod bod pobl yn meddwl amdanynt ac nad ydym wedi colli diddordeb ynddynt. Ar y cyfan, bu'r ysbryd cymunedol yn dda drwyddi draw, a chredaf fod pobl y Rhyl wedi dangos, fel y nododd Darren, fel eraill, ond ni allwn barhau i ddibynnu ar ysbryd y cyhoedd. Mae'n braf ein bod ni i gyd yn dod at ein gilydd, ond cawn gyfle yn awr i gynnig ateb. Da chi, gadewch inni i gyd wneud hynny gyda'n gilydd.

16:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog, Alun Davies.

I call on the Minister, Alun Davies.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:30 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I would like to welcome the opportunity to reply to this debate on behalf of the Welsh Government.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn groesawu'r cyfle i ymateb i'r ddadl hon ar ran Llywodraeth Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

As others have done, I will start my contribution this afternoon with the same thanks to the emergency services, to NRW, to volunteers and to local authorities. A large number of people worked very closely and very well together over a period of time to ensure that the coastal communities that were affected by the events in December and January were protected as well as they could be and were kept safe during those two events. I think that all of us, on all sides of the Chamber this afternoon, would want to join together and thank all of those people who worked so hard and in such terrible conditions to support those communities.

May I say, Deputy Presiding Officer, that I think that it is important that we recognise the context in which we are having this debate? This Government does recognise the impact of climate change on policy and on our people. We recognise that the extreme weather episodes that we have witnessed in recent months will become more frequent, and we recognise that we need to prepare for that, and that adaptation to deal with the impact of climate change has to be a fundamental part of the policy approach of this Government and of future Governments. That is why we continue to invest in coastal and flood defences. The moneys that we are investing in this during the time of this Assembly will be protected within my portfolio and I will ensure that, within my portfolio, we are able to continue to make those investments throughout the time of this Assembly.

The towns and communities that were affected, both in December and January, have clearly suffered a great deal. We will be looking to provide support for those people and for those communities. Members will be aware, from my oral statement before Christmas, that I visited Rhyl and Kinmel Bay, and Members will also be aware, from my written statements, that I visited Aberystwyth at the beginning of this month and saw for myself the impact, not only on the towns and communities, not only on the fabric, but on the people. I think that it is important that, in responding to this debate, and in responding to the issue, we keep in mind the human impact of these great storms, as perhaps Ann and Darren have reminded us during this debate.

Fel y gwnaeth eraill, dechreuaf fy nghyfraniad y prynhawn yma drwy ddiolch yn yr un modd i'r gwasanaethau brys, i Cyfoeth Naturiol Cymru, i wirfoddolwyr ac i'r awdurdodau lleol. Bu nifer fawr o bobl yn gweithio'n agos iawn ac yn dda iawn gyda'i gilydd dros gyfnod o amser er mwyn sicrhau bod y cymunedau arfordirol yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiadau ym mis Rhagfyr a mis Ionawr yn cael eu hamddiffyn cymaint â phosibl a'u cadw yn ddiogel yn ystod y ddau ddiwyddiad hynny. Credaf fod pob un ohonom, ar bob ochr i'r Siambr y prynhawn yma, am ddod ynghyd a diolch i'r holl bobl hynny a fu'n gweithio mor galed ac o dan amgylchiadau mor ofnadwy i gynorthwyo'r cymunedau hynny.

A gaf ddweud, Ddirprwy Lywydd, fy mod yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod y cyd-destun yr ydym yn cynnal y ddadl hon ynddo. Mae'r Llywodraeth hon yn cydnabod effaith newid yn yr hinsawdd ar bolisiau ac ar ein pobl. Rydym yn cydnabod y bydd y cyfnodau o dywydd eithafol a welsom yn ystod y misoedd diwethaf yn digwydd yn amlach, ac rydym yn cydnabod bod angen inni baratoi ar gyfer hynny, a bod yn rhaid ymaddasu er mwyn ymdrin ag effaith newid yn yr hinsawdd fod yn rhan annatod o bolisi'r Llywodraeth hon a Llywodraethau'r dyfodol. Dyna pam rydym yn parhau i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd. Bydd yr arian yr ydym yn ei fuddsoddi yn hyn yn ystod y Cynulliad hwn yn cael ei ddiogelu o fewn fy mhortffolio a byddaf yn sicrhau, o fewn fy mhortffolio, y gallwn barhau i wneud y buddsoddiadau hynny gydol y Cynulliad hwn.

Mae'r trefi a'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt, ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, yn amlwg wedi dioddef cryn dipyn. Byddwn yn ceisio rhoi cymorth i'r bobl hynny ac i'r cymunedau hynny. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol, yn dilyn fy natganiad llafar cyn y Nadolig, imi ymweld â'r Rhyl a Bae Cinmel, a bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol, yn sgîl fy natganiadau ysgrifenedig, imi ymweld ag Aberystwyth ddechrau'r mis hwn a gwelais drosof fy hun yr effaith, nid yn unig ar y trefi a'r cymunedau, nid yn unig ar adeiladwaith, ond ar y bobl. Credaf ei bod yn bwysig, wrth ymateb i'r ddadl hon, ac wrth ymateb i'r mater, y byddwn yn cadw mewn cof effaith y stormydd mawr hyn ar bobl, fel y mae Ann a Darren wedi ein hatgoffa efallai yn ystod y ddadl hon.

I have been asked about the review that I have asked Natural Resources Wales to carry out. This is a review of our coastal flood defences. It was clear in December, and it was clear again in January, that the coastal defences in many parts of Wales withstood the storm and protected communities. We recognise and understand that there are many communities and many properties that were protected by existing coastal defences and as a consequence of investment in flood defences. However, it is also clear that a number of communities were not. I and the local Member, Elin Jones, saw for ourselves the impact on Aberystwyth when, not a flood defence, but the prom, which had been used as a coastal defence, failed. It is not reasonable, and I do not believe that it is in the long-term interests of the town, to simply rebuild like for like. We need to look hard at what is needed in the future. So, in the review, I have asked NRW to look immediately at where the gaps are in our defences, where the damage was done, and at what work needs to be done today, tomorrow, this week and next month in order to repair that damage.

Darren Millar a gododd—

Fem holwyd ynglŷn â'r adolygiad yr wyf wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ei gynnal. Mae hwn yn adolygiad o'n hamddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol. Roedd yn amlwg ym mis Rhagfyr, ac roedd yn amlwg eto ym mis Ionawr, bod yr amddiffynfeydd arfordirol mewn sawl rhan o Gymru wedi gwrthsefyll y storm ac wedi amddiffyn cymunedau. Rydym yn cydnabod ac yn deall bod llawer o gymunedau a llawer o eiddo wedi cael eu diogelu gan yr amddiffynfeydd arfordirol presennol ac o ganlyniad i fuddsoddiadau mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg na chafodd nifer o gymunedau eu diogelu. Gwelodd yr Aelod lleol, Elin Jones, a minnau drosom ein hunain yr effaith ar Aberystwyth pan fethodd y rhodfa, a oedd wedi cael ei defnyddio fel amddiffynfa arfordirol. Nid yw'n rhesymol, ac ni chredaf y bydd yn fuddiol i'r dref yn yr hirdymor, pe baem ond yn ailadeiladu rhywbeth tebyg yn ei lle. Mae angen inni edrych yn fanwl ar yr hyn y bydd ei angen yn y dyfodol. Felly, yn yr adolygiad, rwyf wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried ar unwaith lle mae'r bylchau yn ein hamddiffynfeydd, lle y bu difrod, a pha waith y mae angen ei wneud heddiw, yfory, yr wythnos hon a'r mis nesaf er mwyn unioni'r difrod hwnnw.

Darren Millar rose—

16:34 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will give way in a moment. I just want to finish this sentence.

So, we will at the end of this month—next week—have a report from NRW on the immediate impact of that, but I have also asked it to go further than that, and to re-examine the sort of coastal defences that we will require in the future.

Ildiaf mewn munud. Hoffwn orffen y frawddeg hon.

Felly, ar ddiwedd y mis hwn—yr wythnos nesaf—byddwn yn cael adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar effaith uniongyrchol hynny, ond rwyf hefyd wedi gofyn iddo fynd ymhellach na hynny, ac ailystyried y math o amddiffynfeydd arfordirol y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:34 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That is a very reassuring comment about needing to address the immediate damage. My concern is those areas of the coast that are vulnerable but did just about stand up to the pressure that they were put under in December and January. What are you doing to make sure that they are not left vulnerable because of the focus on the damaged areas only?

Diolch, Weinidog. Mae hwnnw'n sylw calonogol iawn am yr angen i fynd i'r afael â'r difrod ar unwaith. Fy mhryder i yw'r rhannau hynny o'r arfordir sydd yn agored i ddifrod ond a lwyddodd o fewn dim i wrthsefyll y pwysau arnynt ym mis Rhagfyr a mis Ionawr. Beth rydych yn ei wneud i sicrhau na fyddant yn cael eu gadael yn agored i ddifrod oherwydd y ffocws ar yr ardaloedd lle bu difrod yn unig?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:35 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, this is a review of the whole of the Welsh coastline; it is not a review of places that appeared on news bulletins. It is a review of the coastline and of where flood defences were impacted, where flood defences succeeded, and where coastal defences need to be strengthened immediately. So, it is a review that covers the whole of the Welsh coast. I have asked NRW to report back to me next week with the first phase of this, and then we will take it forward from there. A number of people have asked during the debate whether those reports will be published. The answer is 'yes'; I hope that I have made that clear. Those reports will be put into the public domain as soon as we receive them, and I am happy to ensure that Members receive copies of those reports.

Wel, mae hwn yn adolygiad o arfordir cyfan Cymru; nid yw'n adolygiad o'r lleoedd a ymddangosodd ar fwletinâu newyddion. Mae'n adolygiad o'r arfordir ac o'r mannau lle yr effeithiwyd ar amddiffynfeydd rhag llifogydd, lle bu amddiffynfeydd rhag llifogydd yn llwyddo, a lle mae angen cryfhau amddiffynfeydd arfordirol ar unwaith. Felly, mae'n adolygiad sy'n cynnwys arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd. Rwyf wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru iddo adroddiad imi ar y cam cyntaf yr wythnos nesaf, ac yna byddwn yn bwrw ymlaen â'r cam nesaf. Mae nifer o bobl wedi gofyn yn ystod y ddadl a fydd yr adroddiadau hynny yn cael eu cyhoeddi. Yr ateb yw 'byddant'; gobeithio fy mod wedi gwneud hynny'n glir. Bydd yr adroddiadau hynny'n cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y byddant yn dod i law, ac rwy'n fodlon sicrhau y bydd Aelodau yn cael copiâu o'r adroddiadau hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of our national strategy and the approach we are taking, we will continue the approach as set out in the 'National Strategy for Flood and Coastal Erosion Risk Management in Wales', which includes the £240 million investment over the lifetime of this Government. This document was published in November 2011 and sets out the overarching objectives for the management of flood and coastal erosion risk in Wales. We will also be looking at a number of coastline management plans—and this is a point that Llyr Huws Gruffydd raised in part of his contribution. These plans will be published.

We are reviewing some of these matters. Bill Powell made some very thoughtful comments—do not look so surprised, Bill—in his discussion about how we manage the coastline. I think that the points that you made were absolutely right, Bill. We need to protect our communities and our major settlements, but we also need to look at the coastal habitats and the coastal environment in totality. We know and we recognise that, in the long term, we cannot simply protect the whole coast as it is today. We need to look hard at this, and I hope that Members on all sides of the Chamber will join us in reviewing creatively, if you like, and looking hard at the questions about how we manage the realignment of the coast, and at whether it is right and proper to invest considerable sums of public money in defences that will not be sustainable in the long term, and, if we come to the conclusion that it is not right to make those investments, at what then will be the strategy and the approach. Clearly, it will be different in different places—I accept exactly the point that was made by Bill Powell in his contribution—but I believe that we need that debate and discussion to take place, and, certainly, I am happy to do that.

We are, as a part of this overall strategy, ensuring that we are raising awareness and building resilience among individuals, communities and businesses to ensure that flood-risk management is included in the approach to managing flood risk in communities in different parts of Wales. I will take an intervention.

O ran ein strategaeth genedlaethol a'n dull o weithredu, byddwn yn parhau â'r dull o weithredu fel y'i nodir yn y 'Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru', sy'n cynnwys y buddsoddiad o £240 miliwn yn ystod oes y Llywodraeth hon. Cyhoeddwyd y ddogfen hon ym mis Tachwedd 2011 ac mae'n nodi'r amcanion cyffredinol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Byddwn hefyd yn edrych ar nifer o gynlluniau rheoli arfordir—ac mae hwn yn bwynt a godwyd gan Llyr Huws Gruffydd fel rhan o'i gyfraniad. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi.

Rydym yn adolygu rhai o'r materion hyn. Gwnaeth Bill Powell rai sylwadau ystyriol iawn—peidiwch ag edrych mor syn, Bill—wrth drafod sut rydym yn rheoli'r arfordir. Credaf fod y pwyntiau a wnaethoch yn hollol iawn, Bill. Mae angen inni amddiffyn ein cymunedau a'n prif aneddiadau, ond mae angen inni hefyd edrych ar y cynefinoedd arfordirol a'r amgylchedd arfordirol yn eu cyfanrwydd. Rydym yn gwybod ac yn cydnabod, yn yr hirdymor, na allwn amddiffyn yr arfordir cyfan fel y mae heddiw. Mae angen inni edrych yn fanwl ar hyn, a gobeithio y bydd Aelodau ar bob ochr i'r Siambr yn ymuno â ni i adolygu'n greadigol, os mynnwch, ac edrych yn fanwl ar y cwestiynau ynghylch sut rydym yn rheoli proses o adlinio'r arfordir, a yw'n briodol buddsoddi symiau sylweddol o arian cyhoeddus mewn amddiffynfeydd na fyddant yn gynaliadwy yn yr hirdymor, ac, os byddwn yn dod i'r casgliad nad yw'n briodol gwneud y buddsoddiadau hynny, ar ba strategaeth a dull gweithredu y byddwn yn eu mabwysiadu wedyn. Yn amlwg, bydd yn wahanol mewn gwahanol leoedd—derbyniat yr union bwynt a wnaeth Bill Powell yn ei gyfraniad—ond credaf fod angen inni gynnal y ddadl honno a chael y drafodaeth honno, ac, yn sicr, rwy'n fwy na pharod i wneud hynny.

Fel rhan o'r strategaeth gyffredinol hon, rydym yn sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth ac yn atgyfnerthu'r gallu i wrthsefyll llifogydd ymhlith unigolion, cymunedau a busnesau er mwyn sicrhau bod gwaith rheoli perygl llifogydd yn cael ei gynnwys yn y ffordd y rheolir perygl llifogydd mewn cymunedau mewn gwahanol rannau o Gymru. Byddaf yn derbyn ymyriad.

16:38 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention, Minister. Can you clarify whether the £240 million that you referred to a moment ago, and in your amendment, is part of the extra funding that you announced last night or not? Can you clarify that aspect?

Diolch ichi am dderbyn ymyriad, Weinidog. A allwch egluro a yw'r swm o £240 miliwn y cyfeiriwyd ato eiliad yn ôl, ac yn eich gwelliant, yn rhan o'r arian ychwanegol a gyhoeddwyd gennych neithiwr ai peidio? A allwch roi eglurhad ynglŷn â hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:38 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The £2 million that I announced in my written statement this week comes out of existing budgets and will be spent in this financial year. That is why we have made that sum of money available. It is dependent upon applications from local authorities, and we will be continuing conversations with local authorities to ensure that they have the funds that they require to support both immediate repairs and long-term investment.

Daw'r swm o £2 filiwn a gyhoeddais yn fy natganiad ysgrifenedig yr wythnos hon o'r cyllidebau presennol a bydd yn cael ei wario yn y flwyddyn ariannol hon. Dyna pam rydym wedi darparu'r swm hwnnw o arian. Mae'n dibynnu ar geisiadau gan awdurdodau lleol, a byddwn yn parhau i siarad ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr arian sydd ei angen arnynt ar gyfer gwaith atgyweirio ar unwaith a buddsoddiadau yn yr hirdymor.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Time has beaten me, Deputy Presiding Officer, but I am very grateful for the opportunity to reply to this debate. This is a debate that we need to continue and the Government will certainly play its role not only in listening to what is being said, but leading the debate about how we manage coastal defences and flood risk in the future. I am very happy, this afternoon, to support not only all of the amendments but the motion as well.

Yn anffodus mae fy amser ar ben, Ddirprwy Lywydd, ond rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i ymateb i'r ddatl hon. Mae hon yn ddatl y mae angen inni barhau â hi a bydd y Llywodraeth yn sicr yn chwarae ei rôl, nid yn unig o ran gwrandio ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, ond o ran arwain y ddatl ynghylch sut rydym yn rheoli amddiffynfeydd arfordirol a pherygl llifogydd yn y dyfodol. Mae'n dda gennyf, y prynhawn yma, nid yn unig gefnogi'r holl welliannau, ond y cynnig hefyd.

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Angela Burns i ymateb i'r ddatl.

I call on Angela Burns to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:39 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I am delighted to conclude this debate today and I would like to thank everyone who took part in it. I was trying to work it out, but this must be the fifth or sixth debate on flooding that I have stood up and contributed to since I became an Assembly Member in 2007. That is partly because we are not doing everything we could do, and partly because we are not doing what we should be doing, but it also partly because we are suffering an enormous change to our climate, and we cannot manage every single instance all of the time. However, what this debate is seeking to do is build a consensus here that we will try to put into place the most preventative measures that can be mostly used most of the time to the benefit of most people. I think that is the best we can do.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser gennyf gloi'r ddatl hon heddiw a hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd rhan. Roeddwn yn ceisio cyfrif, ond rhaid mai hon yw'r bumed neu'r chweched ddatl ar lifogydd lle rwyf wedi codi ar fy nhraed ac wedi cyfrannu ers imi ddod yn Aelod Cynulliad yn 2007. Mae hynny'n rhannol am nad ydym yn gwneud popeth y gallem ei wneud, ac yn rhannol am nad ydym yn gwneud yr hyn y dylem ei wneud, ond mae hefyd yn rhannol oherwydd ein bod yn dioddef newid enfawr i'n hinsawdd, ac ni allwn reoli pob achos unigol bob amser. Fodd bynnag, yr hyn y mae'r ddatl hon yn ceisio ei wneud yw creu consensws yma y byddwn yn ceisio rhoi ar waith y mesurau mwyaf ataliol y gellir eu defnyddio gan mwyaf y rhan fwyaf o'r amser er budd y rhan fwyaf o'r bobl. Credaf mai dyna'r gorau y gallwn ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Turning to the debate, I am very pleased that the Minister, Ann Jones and Darren Millar all referred to what it is all about, because all of us here we will have been inside people's homes and businesses that have suffered from flooding. It is totally devastating. Fire and flood are two of the most awful things that can happen to individuals, and, of course, it is not just an individual who suffers, it is an entire family. It is not just for a day or a week, when the media attention skips off, but goes on for months and months.

Gan droi at y ddatl, rwy'n falch iawn i'r Gweinidog, Ann Jones a Darren Millar i gyd fynd at graidd y mater, oherwydd bydd pob un ohonom yma wedi bod y tu mewn i gartrefi a busnesau sydd wedi dioddef oherwydd llifogydd. Mae'n ergyd ofnadwy. Mae tân a llifogydd yn ddau o'r pethau mwyaf ofnadwy a all ddigwydd i unigolion, ac, wrth gwrs, nid dim ond unigolyn sy'n dioddef, ond teulu cyfan. Nid am ddiwrnod neu wythnos y mae'n para, pan fydd y sylw yn y cyfryngau yn dod i ben, ond mae'n para am fisoedd a misoedd.

I have a village in my community called Llanddowror that has been flooded serially for the last couple of years with one of these 'once in 100 years' events—those have come along three years consecutively because of the changes that are going on. These are people who cannot move back into their houses for months on end. They finally get in, they are just cracking open the bottle of champagne and settling down, just stopping their children from having nightmares, and suddenly along comes another devastating blow for them. Of course, they are trapped. They cannot go anywhere. They cannot move or sell their houses. Most of them cannot get insurance. One of my constituents telephoned 96 insurance companies a few months ago. I wrote to the Minister about it. Both the First Minister and Alun Davies said that there was not a lot they could do about it and that it was down to the vagaries of the insurance profession—he phoned 96 companies and no one would insure him.

Mae pentref yn fy nghymuned o'r enw Llanddowror lle bu llifogydd dro ar ôl tro yn ystod y blynyddoedd diwethaf gydag un o'r digwyddiadau 'unwaith bob 100 mlynedd' hyn—mae'r rhain wedi digwydd am dair blynedd yn olynol oherwydd y newidiadau sydd ar droed. Mae'r rhain yn bobl na allant symud yn ôl i'w tai am fisoedd ar y tro. Byddant yn symud yn ôl o'r diwedd, maent yn dathlu drwy agor potel o siampên ac ymgartrefu unwaith eto, mae hunllefau eu plant yn dechrau dod i ben, ac yn sydyn cânt ergyd drom arall. Wrth gwrs, maent wedi'u dal. Ni allant fynd i unrhyw le. Ni allant symud na gwerthu eu tai. Ni all y rhan fwyaf ohonynt gael yswiriant. Ffoniodd un o'm hetholwyr 96 o gwmnïau yswiriant ychydig fisoedd yn ôl. Ysgrifennais at y Gweinidog ynglŷn â'r mater. Dywedodd y Prif Weinidog ac Alun Davies nad oedd llawer y gallent ei wneud am y peth oherwydd mympwyon y proffesiwn yswirio—ffoniodd 96 o gwmnïau ac ni fyddai neb yn ei yswirio.

The shock of flooding bites into your soul; it absolutely affects you. Of course, we are having flooding now in areas in which we did not expect to have flooding previously. Some weeks ago, when I drove through Amroth on my Christmas 'Hello everybody' tour, I was not expecting that coastal road to completely fall apart. I was not expecting it, and I do not think that anybody in Amroth thought that that devastation would happen or that they would have to drive round for 20 miles to get to their neighbour, because that is it: Amroth is a go-in, around and back-out place, and there is nothing else that you can do. That road will eventually be mended, but it is going to take months and it will probably impact on the tourism season. So, the knock-on effect is huge. I have in front of me an e-mail from the clerk of Amroth Community Council and her words are 'catastrophic in Amroth'; that is what flooding means to people.

So, what is the Government going to do, because this is a perennial problem? Russell George was right to say that we need to move forward with consensus. I want to spend a moment reminding the Government of two highly significant reports that were done by various environment and sustainability committees over the last few years. There was one that I remember sitting on, which was the inquiry into flooding in 2010. There were a couple of recommendations in the report that were absolutely essential, and which the Government accepted; it accepted most of the recommendations of both reports, I have to say. However, that is not enough. We have to get out there and implement them and make them happen. One of them, which goes to the heart of our motion, is that we should look to what we can do to help people to make their homes and properties as flood-proof as they possibly can. There is no doubt about it: I can take you to places in my constituency where what used to be Environment Agency Wales stepped in and made enormous changes that have really protected people. However, we still have pockets and pockets of people who are not protected and we need to go ahead and we need to free up that money.

Minister, you mentioned that you have the investment going, and that it is a protected investment. However, one of the problems is that people do not know about it. They do not know how to access it and they do not know how to get it to their particular house, business or driveway. It gets sucked up by all the middle organisations, and we have to get it to the front line.

Mae ysgytwad llifogydd yn brathu'ch enaid; mae'n effeithio arnoch yn gyfan gwbl. Wrth gwrs, mae llifogydd yn digwydd bellach mewn ardaloedd lle nad oeddem yn disgwyl cael llifogydd o'r blaen. Ychydig wythnosau yn ôl, pan oeddwn yn gyrru drwy Lanrath ar fy nhaith dros y Nadolig i ddweud 'Helo bawb', nid oeddwn yn disgwyl i'r ffordd arfordirol chwalu'n gyfan gwbl. Nid oeddwn yn disgwyl hynny, ac ni chredaf fod unrhyw un yn Llanrath yn meddwl y byddai'r difrod hwnnw yn digwydd neu y byddai'n rhaid iddynt yrru am 20 milltir i gyrraedd eu cymydog, oherwydd dyna ni: lle i fynd iddo, troi o gwmpas a'i dael yw Llanrath, ac nid oes dim arall y gallwch ei wneud. Bydd y ffordd honno'n cael ei hatgyweirio yn y pen draw, ond bydd yn cymryd misoedd ac mae'n debyg y bydd yn effeithio ar dymor yr ymwelwyr. Felly, mae'r sgîl-ffaith yn enfawr. O'm blaen mae e-bost gan glerc Cyngor Cymuned Llanrath a'i geiriau yw 'trichinebus yn Llanrath'; dyna'r hyn y mae llifogydd yn ei olygu i bobl.

Felly, beth mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud, oherwydd mae hon yn broblem barhaol? Roedd Russell George yn llygad ei le i ddweud bod angen inni symud ymlaen drwy gonsensws. Hoffwn dreulio ryw eiliad yn atgoffa'r Llywodraeth am ddau adroddiad hynod bwysig a baratowyd gan amryw bwyllgorau amgylchedd a chynaliadwyedd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cofiaf fod yn rhan o un, sef yr ymchwiliad i lifogydd yn 2010. Roedd un neu ddau o argymhellion yn yr adroddiad a oedd yn hollol hanfodol, ac a dderbyniodd y Llywodraeth; derbyniodd y rhan fwyaf o argymhellion y ddau adroddiad, rhaid imi ddweud. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ddigon. Rhaid inni fynd ati a'u rhoi ar waith a gwneud iddynt ddigwydd. Un ohonynt, sy'n mynd at wraidd ein cynnig, yw y dylem edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud er mwyn helpu pobl i wneud eu cartrefi a'u heiddo mor ddiogel â phosibl rhag llifogydd. Nid oes amheuaeth am hynny: gallaf fynd â chi i leoedd yn fy etholaeth lle y cymerodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt gamau gweithredol a gwneud newidiadau enfawr sydd wedi diogelu pobl mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae pobl yma a thraw nad dynt yn cael eu diogelu ac mae angen inni fwrw ati ac mae angen inni ryddhau'r arian hwnnw.

Weinidog, soniwyd bod y buddsoddiad ar waith gennych, ac mai buddsoddiad a ddiogelir ydyw. Fodd bynnag, un o'r problemau yw nad yw pobl yn gwybod amdano. Ni wyddant sut i gael gafael arno, ac ni wyddant sut i'w hawlio ar gyfer eu tŷ, eu busnes neu eu dreif penodol eu hunain. Mae'n cael ei sugno gan yr holl sefydliadau yn y canol, a rhaid inni sicrhau ei fod yn cyrraedd y rheng flaen.

The other recommendation was a review, which is really important, of technical advice note 15. I want to dwell on this for a minute or two. I know that the Welsh Government has been so resistant to this in the past that it has been accepted that, eventually, it will be reviewed, but said that there are a great many other things have to be looked at first to make the policy cohesive. I kind of buy that, but there are other things that I simply do not buy, because there are things that we could be doing now, for example on blue belts. We need to concentrate on ensuring that we do not build in flood prevention areas or in areas that can suffer from flooding. If we are mad enough to do that, we need to make sure that we can pin the result of it on the developers, the councils or the people who said that it was okay to build 500 houses on a particular piece of land. However, if you ask the bloke up the road whose family has lived there for donkey's years, he will say to you, 'I can tell you now that that always floods every couple of years'. We do not listen to local knowledge—a point made by the Liberal Democrats in one of their amendments—and we absolutely need to do that.

We should look at how we can put in sustainable drainage systems and how we can build a housing development and turn the road into a drain that will take the water away. There are so many small things that we could do today, and we need to do them with the benefit of a technical advice note from the Government that will make councils and developers adhere to it.

Finally, I would like to thank Bill Powell, the Minister and Russell for bringing forward a very important thing, which is having the courage to face some very difficult decisions, namely to abandon or defend. That is going to hurt everybody, because our home is our castle. However, there are such places that will be abandoned, and this is a very mature debate that we need to have sooner rather than later. I thank everyone for taking part in this debate.

Yr argymhelliad arall oedd adolygiad, sy'n bwysig iawn, o nodyn cyngor technegol 15. Rwyf am ystyried hyn am funud neu ddwy. Gwn fod Llywodraeth Cymru wedi bod mor amharod i wneud hyn yn y gorffennol nes ei bod wedi cael ei dderbyn, yn y pen draw, y bydd yn cael ei adolygu, ond dywedodd fod nifer fawr o bethau eraill i'w hystyried ar y dechrau er mwyn sicrhau bod y polisi yn gydlynol. Derbynaf hynny i ryw raddau, ond mae pethau eraill nad wyf yn eu derbyn o gwbl, oherwydd mae pethau y gallem fod yn eu gwneud yn awr, er enghraifft o ran lleiniau glas. Mae angen inni ganolbwyntio ar sicrhau nad ydym yn adeiladu mewn ardaloedd atal llifogydd nac mewn ardaloedd lle y gall llifogydd ddigwydd. Os ydym yn ddigon hurt i wneud hynny, mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn gallu sicrhau mai'r datblygwyr, y cynghorau neu'r bobl a ddywedodd ei bod yn iawn adeiladu 500 o dai ar ddarn penodol o dir sy'n gyfrifol am unrhyw beth sy'n digwydd. Fodd bynnag, os gofynnwch i'r dyn i fyny'r ffordd y mae ei deulu wedi byw yno ers blynnyddoedd, bydd yn dweud wrthy, 'gallaf ddweud wrthy yn awr y byddwn yn wastad yn cael llifogydd bob hyn a hyn'. Nid ydym yn gwrandao ar wybodaeth leol—pwynt a wnaed gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn un o'u gwelliannau—ac mae angen dybryd inni wneud hynny.

Dylem ystyried sut y gallwn roi systemau draenio cynaliadwy ar waith a sut y gallwn adeiladu datblygiad tai a throi'r ffordd yn ddraen a fydd yn symud y dŵr ymaith. Mae cymaint o bethau bach y gallem eu gwneud heddiw, ac mae angen inni eu gwneud gyda nodyn cyngor technegol gan y Llywodraeth a fydd yn gwneud i gynghorau a datblygwyr lynu wrth hynny.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Bill Powell, y Gweinidog ac i Russell am godi rhywbeth pwysig iawn, sef y dewrder i wynebu rhai penderfyniadau anodd iawn, sef, cilio ynteu amddiffyn. Bydd hynny'n rhoi loes i bawb, gan mai ein cartref yw ein lloches. Fodd bynnag, bydd lleoedd o'r fath a fydd yn cael eu gadael, ac mae hon yn ddadl aeddfed iawn y mae angen inni ei chynnal mor fuan â phosibl. Diolch i bawb am gymryd rhan yn y ddadl hon.

16:46

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is that the motion be agreed without amendment. Is there any objection? I see that there is objection, therefore I will defer all voting on this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Dadl Plaid Cymru: Y Gymraeg

Plaid Cymru Debate: The Welsh Language

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 2, 5 a 6 yn enw William Graham, a gwelliant 4 yn enw Lesley Griffiths. Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol.

The following amendments have been selected: amendments 1, 3, 7, 8, 9, 10 and 11 in the name of Aled Roberts, amendments 2, 5 and 6 in the name of William Graham, and amendment 4 in the name of Lesley Griffiths. If amendment 3 is agreed, amendment 4 will be de-selected.

Cynnig NDM5405 Elin Jones

Motion NDM5405 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod dros flwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi ffigurau cyfrifiad 2011 sy'n dangos bod gostyngiad o 2 y cant yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn galluogi'r Gymraeg i ffynnu drwy, ymysg pethau eraill:

a) sicrhau bod gan bawb yng Nghymru'r cyfle i ddysgu Cymraeg;

b) buddsoddi mewn gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg;

c) cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg;

d) defnyddio'r potensial o dan Fesur y Gymraeg 2011 i osod safonau ar gyfer y Gymraeg sy'n rhoi hawliau cryfach i siaradwyr Cymraeg na chynlluniau iaith o dan Ddeddf Iaith 1993;

e) annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith weinyddol yn fewnol;

f) creu cyfleoedd economaidd a swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg drwy hybu datblygiad Bangor a Menai, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas-ranbarthau;

g) sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd o ddifrif yn y system gynllunio.

1. Notes that over a year has passed since the publication of the figures of the 2011 census that show a reduction of 2% in the number of Welsh speakers in Wales.

2. Calls on the Welsh Government to act to enable the Welsh language to thrive, by, among other things:

a) ensuring that everyone in Wales has the opportunity to learn Welsh;

b) investing in Welsh-medium childcare;

c) increasing the number of pupils receiving the Foundation Phase through the medium of Welsh;

d) using the potential under the Welsh Language Measure 2011 to set standards for the Welsh language that provide Welsh speakers with stronger rights than those provided by Welsh-language schemes under the Welsh Language Act 1993;

e) encouraging public bodies to use the Welsh language as an administrative language internally;

f) creating economic opportunities and jobs in Welsh-language strongholds, by promoting Bangor and Menai, Aberystwyth and Carmarthen as city-regions;

g) ensuring that the Welsh language is taken seriously within the planning system.

16:47

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiad y cynnig.

Mae'n dda gennyf agor y ddadl y prynhawn yma ar faterion yn ymwneud â dyfodol yr iaith a'r polisiau sydd angen eu gosod yn eu lle i sicrhau dyfodol yr iaith. Mae'r ddadl yn dilyn ein hymgyngoriad ni fel Plaid Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf, ers Diwrnod Santes Dwynwen y llynedd, ar bolisiau ar yr iaith Gymraeg. Cafodd y Llywodraeth ymgynghoriad reit debyg yn ystod y flwyddyn, ond roeddem o'r farn y dylem fel plaid gynnal ymgynghoriad hefyd. Heddiw rydym yn cyhoeddi ffrwyth yr ymgynghoriad hwnnw, sy'n cynnwys nifer o feysydd y byddwn fel plaid yn datblygu polisiau arnynt gogyfer manifesto Llywodraeth nesaf Cymru. Rydym yn gwneud hyn ar sail bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, yn siaradwyr Cymraeg ai peidio. Dyna pam y gwnaethom ofyn i bawb gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Rydym yn ddiolchgar i'r bobl hynny sydd wedi cyfrannu syniadau; rydym yn awr yn barod i ffurfio polisiau ar gefn y syniadau sydd wedi dod gerbron.

I move the motion.

I am pleased to open the debate this afternoon on issues relating to the future of the Welsh language and the policies that need to be put in place to safeguard the future of the language. The debate follows our own consultation as Plaid Cymru—The Party of Wales over the past year, since Santes Dwynwen Day of last year, on Welsh language policies. The Welsh Government had a similar consultation during the year, but we were of the opinion that we as a party should hold a consultation, too. Today we are publishing the outcome of that consultation, which includes a number of areas on which we as a party will develop policies for the manifesto of the next Welsh Government. We do that on the basis that the Welsh language belongs to everyone in Wales—Welsh speakers and non-Welsh speakers. That is why we have asked everyone to participate in the consultation. We are grateful to those people who have contributed their ideas; we are now ready to formulate policies on the back of those ideas.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n gwrthgyferbynnu yr hyn rydym wedi ei wneud gydag ymateb y Llywodraeth. Rwy'n derbyn bod y Llywodraeth wedi cael ei sgwrs fawr ei hun, ond, yn anffodus, er bod y negeseuon yn y sgwrs fawr honno yn debyg iawn i'r negeseuon a gawsom ninnau, fel y byddech yn ddisgwyl, mae ymateb y Llywodraeth mor belled wedi bod yn llugoer iawn ac nid yw wedi ennyn cefnogaeth eang iawn ymysg caredigion yr iaith na chwaith y bobl hynny sy'n arbenigo mewn meysydd megis maes cynllunio iaith a maes yr economi o ran cefnogi'r iaith.

Rwy'n mynd i ymdrin â phum maes penodol lle gwelwn angen i gymryd camau i ddiogelu'r iaith. Rwy'n gweld bod nifer o welliannau, yn enwedig gan y Democratiaid Rhyddfrydol, sydd yn mynd y tu hwnt i'r meysydd hynny. Gobeithio y caf gyfle wrth gloi'r ddadl i ymateb i rai o'r gwelliannau hynny. Yn gyffredinol, rydym yn derbyn y rhan fwyaf o'r gwelliannau sydd wedi cael eu cynnig heddiw, er ein bod wedi cynnig rhywbeth sydd efallai ychydig yn fwy strategol na'r hyn sydd yn gynwysedig yn ambell un o'r gwelliannau hyn.

I ddechrau gydag addysg, roedd teimlad cryf iawn nad yw dysgu Cymraeg fel ail iaith yn galluogi disgyblion i ddsygu Cymraeg yn rhugl. Cawsom dystiolaeth bod rhaglenni trochi yn gweithio'n llawer mwy effeithiol o ran trosglwyddo sgiliau ieithyddol. Roedd pryder dybryd ynglŷn â dilyniant ieithyddol o un cyfnod addysg i'r llall, a'r angen i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fas i'r dosbarth, gyda'u teuluoedd a chydag oedolion sy'n dysgu Cymraeg hefyd. Dyna rai o'r cynlluniau a'r syniadau sydd gennym yn awr ar gyfer datblygiad pellach yn y maes.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych yn awr ar raglenni trochi ar gyfer disgyblion di-Gymraeg, ac mae Gwynedd wedi arwain ar hyn. Yn bendant, mae angen inni edrych ar gyflwyno'r Gymraeg i bob plentyn yng Nghymru yn y cyfnod sylfaen. Ni fydd hynny'n cael ei gyflawni dros nos; mae'n rhaglen 10 mlynedd o leiaf, byddwn yn tybio. Fodd bynnag, fel plaid—a gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gallu cytuno â hyn—byddem yn dechrau yn yr ardaloedd Cymraeg. Yn y Gwynedd newydd a'r Dyfed newydd, os caf ei roi yn nhermau Williams, byddai angen i bob plentyn yn y cyfnod sylfaen gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mor syml â hynny er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cael ei chadw ac yn datblygu yn yr ardaloedd hynny. Yna, byddwn am roi'r cyfle hwnnw i blant yn gyffredinol drwy Gymru. Wedyn, bydd cyfle i rieni ddatblygu barn ynghylch a ydynt am ddewis y brif ffrwd Gymraeg neu'r ffrwd Saesneg ar gyfer eu plant ar ôl hynny. Mae'n bwysig iawn, serch hynny, bod hyn yn digwydd yn yr ardaloedd penodol hynny.

I contrast what we have done with the Government's response. I accept that the Government has had its own big conversation, but, unfortunately, although the messages in that big conversation were very similar to the messages that we heard, as you would expect, the Government's response, to date, has been muted and has not gained broad support among supporters of the language or those people who have expertise in areas such as the language planning area and the area of the economy in terms of supporting the language.

I am going to deal with five specific areas where we see a need to take steps to safeguard the language. I note that there are a number of amendments, particularly from the Liberal Democrats, which go beyond those areas. I hope that I will have an opportunity in closing the debate to respond to some of those amendments. We generally accept the majority of the amendments that have been proposed today, although we have proposed something a little more strategic than what is contained within some of these amendments.

To start with education, there was a strong feeling that teaching Welsh as a second language does not enable pupils to learn the Welsh language fluently. We had evidence that immersion programmes worked far more effectively in terms of transferring language skills. There was great concern about the linguistic continuity from one education period to the next, and the need to ensure that children and young people have the opportunity to use the Welsh language outside the classroom, with their families and with adults who are also learning the language. These are some of the ideas that we now have for further development in this area.

It is important that we now look at immersion programmes for non-Welsh-speaking pupils, and Gwynedd has been leading on this. Certainly, we need to look at introducing the Welsh language to every child in Wales during the foundation phase. That will not be achieved overnight; it is at least a 10-year programme, I would have thought. However, as a party—and hopefully the Government will be able to agree with this—we would start in the Welsh-speaking areas. In the new Gwynedd and the new Dyfed, if I could put it in Williams terms, every child in the foundation phase would need to receive their education through the medium of Welsh. It is as simple as that in order to ensure that the Welsh language is retained and developed in those areas. Then, we would want to give that opportunity to children generally across Wales. There would then be an opportunity for parents at a later date to develop an opinion regarding whether they want to choose the Welsh stream or the English stream for their children. It is very important, however, that that happens in those specific areas.

Mae tystiolaeth glir iawn—yn fwyaf diweddar gan ysgol addysg Prifysgol Bangor—nad yw addysg Gymraeg yn niweidio perfformiad disgyblion Saesneg eu hiaith mewn unrhyw ffordd, ac yn benodol yn yr iaith Saesneg. Felly, mae hyn er lles pawb, ac er lles penodol plant. Mae tystiolaeth hefyd bod dysgu'n ddwyieithog yn helpu datblygu ymennydd a sgiliau plant, fel eu bod hefyd yn gwella mewn meysydd hollol amherthnasol, fel mathemateg. Mae plant sy'n derbyn addysg ddwyieithog yn well yn gyffredinol mewn meysydd megis mathemateg, er eu bod nhw'n derbyn addysg mewn dwy iaith. Felly, mae angen inni fod yn glir ynglŷn â'r dystiolaeth yn hynny o beth.

Yr ail beth sydd ynghlwm wrth hyn yw gofal plant a'r angen am well dilyniant ieithyddol o lefel gofal plant hyd at lefel addysg prifysgol, a chefnogi ac ysgogi rhieni di-Gymraeg i ystyried addysg Gymraeg i'w plant a gwneud yn siŵr bod gofal plant ar gael drwy'r Gymraeg. Mae angen unioni polisi gofal plant gyda'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod yr un gyfran o blant sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg yn gallu mynychu a defnyddio gwasanaethau gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Wedyn, dylid cynnig gwersi Cymraeg i rieni di-Gymraeg sydd â phlant yn y system Gymraeg, fel eu bod nhw'n gallu cefnogi eu plant.

Mae hyn yn ymwneud â'r ddadl ynglŷn â Dechrau'n Deg. Os edrychwn ar y dystiolaeth sy'n dod o'r rhaglen Dechrau'n Deg ar hyn o bryd, gwelwn fod 15% o blant blwyddyn 2 yng Nghaerdydd yn derbyn addysg Gymraeg. Fodd bynnag, hanner y rheini, 7.7% o blant, sy'n derbyn darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg drwy'r Gymraeg. Felly, mae yna fwlch rhwng yr hyn y mae rhieni'n dymuno gweld o ran addysg Gymraeg i'w plant a'r gofal plant sydd ar gael yn y cyd-destun hwnnw, yn enwedig o ran y rhaglen Dechrau'n Deg. Rwy'n sylwi bod gan Leanne Wood ddadl nes ymlaen y prynhawn yma ar Dechrau'n Deg yn fwy penodol; efallai y bydd rhai o'r pethau hyn yn cael eu codi yn ystod y ddadl honno hefyd.

Y trydydd maes roeddem yn edrych arno oedd swyddi a'r economi. Rwy'n gweld bod nifer o welliannau wedi dod i law yn y maes penodol hwn. Rydym yn bendant o'r farn bod ffyniant yr iaith yn dibynnu ar ffyniant economaidd a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg aros yn eu cynefin, i weithio yn eu cynefin ac i ychwanegu at werth economaidd yr ardal honno. Wrth gwrs, nid ydym am stopio pobl rhag symud—mae nifer y Cymry Cymraeg sydd wedi dod i Gaerdydd yn benodol ers datganoli wedi bod yn syfrdanol a nodweddiadol—ond rydym hefyd am sicrhau bod cyfleoedd gwaith yn yr ardaloedd hynny.

There is very clear evidence—most recently from the school of education at Bangor University—that Welsh-language education does not damage the educational attainment of English-speaking pupils in any way, particularly in the English language. So, this is for the benefit of all, and particularly for the benefit of children. There is also evidence that bilingual learning assists in developing the mental abilities and skills of children, so that they make improvements in totally unrelated areas, such as mathematics. Children who are taught bilingually do better in general in areas such as mathematics, even though they are taught in two languages. So, we need to be clear about the evidence in relation to that.

The second part that relates to this is childcare and the need for better language continuity from the childcare level up to university education level, and supporting and encouraging non-Welsh-speaking parents to consider Welsh education for their children and ensuring that childcare is available through the medium of Welsh. There is a need to align childcare policies with the Welsh-medium education strategy and ensure that the same number of children who attend Welsh-medium schools can also access Welsh-medium childcare. Then, Welsh-language lessons should be offered to parents who have children in the Welsh-medium education system, so that they can support their children.

This relates to the debate on Flying Start. If we look at the evidence emerging from the Flying Start programme at present, we will see that, here in Cardiff, 15% of year 2 pupils receive Welsh-medium education. However, half of those, 7.7%, are provided with Flying Start provision through the medium of Welsh. So, there is a gulf between what parents wish to see in terms of Welsh-medium education for their children and the childcare that is available in that context, particularly in terms of Flying Start. I note that Leanne Wood has a debate later on this afternoon on Flying Start more generally; perhaps some of these issues will be raised during that debate as well.

The third area that we looked at was jobs and the economy. I see that a number of amendments have been tabled in this specific area. We are certainly of the opinion that the prosperity of the language depends on economic prosperity and opportunities for Welsh speakers to stay in their own area, to work in their own area, and to add to the economic value of their area. Of course, we do not want to stop people from moving—the number of Welsh speakers who have come to Cardiff specifically since devolution has been quite staggering and characteristic—but we also want to ensure that there are job opportunities in those areas.

Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn derbyn adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Llywodraeth ar ddyfodol yr iaith yn yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg, a oedd yn gweld bod hybu datblygiad ardaloedd fel Bangor-Menai, Aberystwyth a Chaerfyrddin, ar y patrwm dinas-ranbarthau, yn ffordd ymlaen. Rydym ni'n derbyn hynny, ac felly wedi'i osod yn y cynnig heddiw. Rwy'n gweld bod yna welliannau yn ymwneud â'r pwynt hwn; ni allwn dderbyn y gwelliannau hynny. Rwyf yn derbyn ac yn deall pam fod pobl yn meddwl bod hyn yn ddull 'one size fits all' ac yn meddwl efallai ei fod yn ddiffygiol, ond nid dyna'r gwirionedd o gwbl, achos mae ffyrdd amgen o ddelio ag ardaloedd eraill. Rydym wedi rhoi pwysau ar y Llywodraeth—ac mae'r Llywodraeth wedi derbyn hyn, mae'n dda gennyf ddweud—i edrych ar un enghraifft o hynny yn ardal dyffryn Teifi, lle cafwyd ymgais, a datganiad yr wythnos hon gan y Gweinidog, i ddarganfod ffyrdd amgen o weithio mewn ardal mwy penodol. Mae yma gyfle, gyda Williams a chymdeithas broses o ailddiffinio ffiniau, os taw dyna fydd yn digwydd, y tu mewn i'r Dyfed a'r Gwynedd newydd—rwyf am ddefnyddio'r termau hynny fel llaw fer am y tro—i weld datblygiad mwy cyson ar draws y ffiniau fel hyn. Er enghraifft, o hynny ymlaen, byddai dyffryn Teifi, o bosibl, yn rhan o'r un awdurdod, a fyddai'n ei gwneud hi dipyn yn haws o ran canolbwyntio ar ddatblygu'r economi a'r iaith. Rydym hefyd eisiau gweld cyrff yn y sector cyhoeddus yn defnyddio'r Gymraeg yn llawer mwy fel iaith weinyddol yn fewnol; mae hynny'n hynod bwysig. Mae Cyngor Gwynedd wedi arwain ar hyn, ac mae Ceredigion yn dechrau datblygu yn y maes hwn yn awr, ond rydym eisiau gweld hyn yn datblygu'n llawer mwy cyffredin drwy Gymru. Rydym eisiau gweld bod y safonau iaith newydd yn cefnogi'r broses honno. Yn hynny o beth, mae'r safonau drafft sydd wedi'u cyhoeddi yn ddiffygiol.

Mae ffyrdd o hybu'r Gymraeg, wrth gwrs. Mae cynllun .cymru, a chynllun .wales sy'n cyd-fynd â hynny, bellach ar y gweill, ac rydym eisiau clywed yn gliriach oddi wrth y Llywodraeth pa gyrff cyhoeddus fydd o hyn ymlaen yn dechrau defnyddio .cymru/.wales, gan ddangos pa mor glir ydyw i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg; bydd yn amlwg iawn i bawb pa wefan fydd yn rhoi'r ddarpariaeth Gymraeg neu Saesneg i chi.

In that context, we accept the report of the Government's task and finish group on the future of the Welsh language in those traditionally Welsh-speaking areas, which identified that promoting the development of areas such as Bangor-Menai, Aberystwyth and Carmarthen, on the city regions pattern, is a way forward. We accept that, and therefore we have included it in the motion today. I see that there are amendments on that point; we cannot accept those amendments. I accept and understand why people think that this is a one-size-fits-all approach and see it as being deficient in that regard, but that is not the reality, because there are other ways to deal with other areas. We have put pressure on the Government—and the Government has accepted this, I am pleased to say—to look at one example of this in the Teifi valley, where there has been an attempt, and a statement this week by the Minister, to discover alternative ways of working in a specific area. There is an opportunity here, with Williams and with redrawing the boundaries, if that happens, within the new Gwynedd and the new Dyfed—I use those terms as shorthand for the time being—to see more consistent development across these boundaries. For example, from then on, the Teifi valley would, possibly, be part of the same authority, which would make it much easier to concentrate on developing the economy and the language. We also wish to see public sector bodies making far more use of the Welsh language as an administrative language internally; that is extremely important. Gwynedd Council has led on this, and Ceredigion is starting to develop in this area now, but we want to see this develop to be more commonplace throughout Wales. We want to ensure that the new language standards support that process. In that regard, the draft standards that have been published are deficient.

There are ways of promoting the Welsh language, of course. The .cymru campaign, and the related .wales campaign, are now in the pipeline, and we want to hear more clearly from the Government what public bodies will now be starting to make use of .wales/.cymru, demonstrating how easy it is to use the Welsh language and the English language; it will be clear to everyone which website provides you with the English or the Welsh material.

Mae'r maes olaf yr wyf eisiau ymdrin ag ef wrth agor y ddaol yn ymwneud yn benodol â safonau iaith. Rydym yn gweld bod y safonau iaith yn gallu arwain at hawliau cryf i siaradwyr Cymraeg, ac roeddem ni, fel Plaid Cymru, wastad wedi credu yn hynny wrth roi'r Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 at ei gilydd. Roedd rhai beirniaid yn meddwl na fyddai hynny'n bosibl. Roeddwn yn falch gweld, yn 'Golwg' yn ddiweddar, un o'r beirniaid hynny, Emyr Lewis, dyn uchel ei barch yng Nghymru, yn cydnabod bod safonau iaith, o ran theori cyfreithiol—dyna'r geiriau a ddefnyddiodd, ond mae'n gydnabyddiaeth, serch hynny—yn medru darparu hawliau cryfach i siaradwyr Cymraeg. Aeth ymlaen i ddweud na fyddai'r safonau, os nad ydynt yn ddigon cryf, mewn sefyllfa i gyflwyno'r hawliau yr ydym yn chwilio amdanynt. Yn y cyd-destun hwnnw, nid ydym yn gweld y safonau drafft sydd wedi'u cyhoeddi yn rhai digon cryf. Fodd bynnag, rydym yn derbyn bod ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg ar hyn o bryd i mewn i'r rhain, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar iawn at weld beth sydd gan y comisiynydd i'w ddweud, o gofio bod ei safonau drafft hithau, a gafodd eu gwrthod gan y Llywodraeth, yn dipyn cryfach na'r rhai y mae'r Llywodraeth wedi'u cyflwyno. Pwrpas cael comisiynydd yw cael rhywun sy'n annibynnol ar Lywodraeth, ym mha bynnag ffordd y caiff ei phenodi, ac yn gallu tystio, felly, yn erbyn rhai o syniadau a chynlluniau'r Llywodraeth, os oes raid. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y ddaol hon yn un adeiladol sy'n casglu syniadau ar gyfer cryfhau'r iaith, diogelu'r iaith a sicrhau bod yr iaith nid yn unig yn rhan o etifeddiaeth Cymru ond yn rhan o'i dyfodol hefyd.

The last area I want to deal with in opening this debate specifically relates to Welsh language standards. We see that the standards could lead to strong rights for Welsh speakers, and we, as Plaid Cymru, always believed in that while putting the Welsh Language (Wales) Measure 2011 together. There were some critics who thought that this would not be possible. I was pleased to see that, recently, in 'Golwg', one of those critics, Emyr Lewis, a highly respected individual in Wales, recognised that language standards, in legal theory—that is what he said, but that is still recognition—can provide stronger rights to Welsh speakers. He went on to say that, if the standards are not robust enough, they will not be in a position to provide the rights that we are seeking. In that context, we do not see that the draft standards published are robust enough. However, we accept that there is an ongoing inquiry by the Welsh Language Commissioner into these, and we look forward with great anticipation to see what the commissioner has to say, given that her own draft standards, which were rejected by the Government, were a fair bit more robust than those put forward by the Government. The purpose of having a commissioner is to have someone who is independent of Government, however she is appointed, and that she is able to bear witness against some of the proposals and plans of Government. I very much hope that this debate will be constructive and encourages the presentation of ideas to strengthen the language, safeguard the language and ensure that the Welsh language is not only part of Welsh heritage but part of its future, too.

16:57

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf wedi dethol yr 11 o welliannau i'r cynnig. Os derbynir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-dethol. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1, 3, 7, 8, 9, 10 ac 11 a gyflwynwyd yn ei enw.

I have selected the 11 amendments to the motion. If amendment 3 is agreed, amendment 4 will be deselected. I call on Aled Roberts to move amendments 1, 3, 7, 8, 9, 10 and 11 tabled in his name.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Yn nodi methiannau Llywodraeth Cymru o ran bodloni'r safonau yn llawn wrth hybu'r defnydd o ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol mewn bywyd cyhoeddus, fel y nodir yn Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop.

Notes failures by the Welsh Government to fully meet standards to promote the use of regional and minority languages in public life as set out in the European Charter for Regional or Minority Languages.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Dileu pwynt 2f a rhoi yn ei le:

Delete point 2f and replace with:

cefnogi cadarnleoedd y Gymraeg yng ngorllewin Cymru drwy ddatblygu strategaeth economaidd ar gyfer yr ardaloedd hyn, sy'n adlewyrchu eu cymeriad ac sydd wedi'u teilwra'n unol â'u hanghenion.

supporting Welsh-language heartlands in West Wales by developing an economic strategy for these areas that reflects their character and is tailored to their needs.

Gwelliant 7—Aled Roberts

Amendment 7—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

Add as new sub-point at end of point 2:

rhoi sylw i'r anawsterau a wynebwyd yn lleol o ran derbyn darllediadau yn y Gymraeg ers newid i'r digidol ar gyfer teledu yn 2010.

addressing local difficulties faced in receiving Welsh language broadcasting since the digital TV switchover in 2010.

Gwelliant 8—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

rhoi sylw i'r gwendidau yn narpariaeth Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion.

Gwelliant 9—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau y caiff Comisiynydd y Gymraeg ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gwelliant 10—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau bod Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg yn gadarn ac yn cynnwys mesurau y mae modd eu cyflawni i gwrdd â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac i sicrhau dilyniant rhwng yr addysg gynradd ac uwchradd a gynigir.

Gwelliant 11—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau bod unrhyw werthusiad o'r rhaglen Dechrau'n Deg yn rhoi sylw i'r ddarpariaeth Gymraeg.

Amendment 8—Aled Roberts

Add as new sub-point at end of point 2:

addressing weaknesses in Welsh second language provision in schools.

Amendment 9—Aled Roberts

Add as new sub-point at end of point 2:

ensuring the Welsh Language Commissioner is appointed by the National Assembly for Wales.

Amendment 10—Aled Roberts

Add as new sub-point at end of point 2:

ensuring that Welsh Education Strategic Plans are robust and contain deliverable measures to meet demand for Welsh medium education and ensure continuity between primary and secondary education on offer.

Amendment 11—Aled Roberts

Add as new sub-point at end of point 2:

ensure that any evaluation of the Flying Start programme addresses Welsh language provision.

16:57

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiad welliannau 1, 3, 7, 8, 9, 10 ac 11.

Rydym ni, fel grŵp, yn croesawu'r ffaith fod gennym gyfle unwaith eto y prynhawn yma i drafod sefyllfa'r iaith Gymraeg a, hwyrach, i edrych ymlaen yn lle edrych yn ôl. Byddem yn sicr yn cytuno mewn egwyddor â llawer o'r pwyntiau a godwyd. Mae nifer ohonynt wedi'u trafod o'r blaen mewn dadleuon blaenorol yn y Siambr hon.

I move amendments 1, 3, 7, 8, 9, 10 and 11.

We, as a group, welcome the fact that we have an opportunity once again this afternoon to discuss the position of the Welsh language and, perhaps, look forward rather than backwards. We would certainly agree in principle with many of the points that were raised. Many of these points have already been discussed in previous debates in the Chamber.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Nodais fod cynnig Plaid Cymru heddiw yn debyg iawn i'r adroddiad diweddar gan y grŵp gorchwyl a gorffen y Llywodraeth, yn enwedig y cyfeiriad at ddinas-ranbarthau. Rwy'n siŵr bod Plaid yn barod i dderbyn nad ydym ni wedi ein darbwylllo, ar hyn o bryd, o ran dinas-ranbarthau, er ein bod ni'n gweld bod angen inni edrych ar ddatblygu economaidd yn yr ardaloedd hynny yn y gorllewin lle mae'r problemau o ran cadw'r iaith yn ymwneud â phroblemau o ran swyddi a chadw pobl ifanc yn yr ardaloedd hynny. Wrth gwrs, cafwyd syniad tebyg o ran y gogledd-ddwyrain, ond, yn hynny o beth, roedd yr adroddiad yn erbyn y syniad o gael dinas-ranbarthau oherwydd maint y boblogaeth a'r strategaethau a oedd ar gael. Rydym ni'n credu mai'r ffordd ymlaen yw gwthio'r agenda leol yn gryfach, gan y byddai hynny'n fwy buddiol o ran rhoi hwb i'r iaith trwy ddatblygu economaidd. Rydym yn credu ei bod yn bwysig nad ydym yn mabwysiadu dull un ateb i bawb wrth ystyried y gwahanol agweddau economaidd ar yr iaith Gymraeg yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae ein gwelliannau eraill yn adlewyrchu rhwystredigaeth Plaid Cymru ynghylch y cynnydd dianghenraid o araf o safbwynt y Gymraeg.

Rydym yn hapus i gefnogi gwelliannau 5 a 6 y Ceidwadwyr, ond byddwn yn pleidleisio yn erbyn gwlliant 2 gan nad yw ei ddiben na'i bwrsas yn glir. Cwta wythnos yn ôl, fe gyhoeddwyd pedwerydd adroddiad y pwyllgor o arbenigwyr ar siarter Ewropeaidd dros ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Neilltuwyd naw tudalen o'r adroddiad i Gymru, gan edrych ar bynciau megis addysg, gwasanaethau cyhoeddus a bywyd economaidd. Nid yw'n ddarllen da o ran y Llywodraeth. Nid oes llawer o dystiolaeth ein bod wedi symud ymlaen llawer ers y trydydd adroddiad gwerthuso. Ar y pryd, roedd y trydydd adroddiad yn dweud nad yw galw cynyddol am addysg Gymraeg yn cael ei ddiwallu ar draws Gymru, a dyna'r casgliad y daethpwyd ato yn y pedwerydd adroddiad.

Ers 2011, mae gofyn i bob awdurdod lleol lunio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg—WESPS—a chawsant eu eu dynodi yn gynlluniau statudol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Roedd disgwyl y byddai'r cynlluniau hynny ar waith erbyn hyn. Mae'r adroddiad yn feirniadol o'r ffaith bod y cynlluniau'n araf iawn yn cael eu cyhoeddi. Er mawr gywilydd hefyd, mae'n tynnu sylw at agwedd yn y gwasanaeth sifil ac ar lefel llywodraeth leol sy'n gweld addysg cyfrwng Cymraeg fel atodiad yn hytrach na rhan greiddiol o addysg. Mae'n disgrifio addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg fel un tameidiog iawn mewn sawl rhan o Gymru. Brif Weinidog, nid yw hyn yn ddigon da.

Nid ydym yn gwneud yn well o safbwynt darparu awdurdodau gweinyddol a gwasanaethau cyhoeddus. Er bod y trydydd adroddiad gwerthuso yn nodi mai ateb rhannol a gafwyd gennym yn unig, nid ydym wedi gwneud yn well o gwbl yn y gwerthusiad diweddaraf, 'tameidiog', unwaith eto. Yn ôl yr adroddiad, nid oedd awdurdodau'n cymryd eu rhwymedigaethau o dan y cynlluniau iaith Gymraeg o ddifrif bellach. Mae'n amser inni weithredu.

Mae'r un feirniadaeth ar gael o ran y rhaglen, Dechrau'n Deg, lle nad oes dilyniant rhwng trefniadau sy'n cael eu cynllunio gan wasanaethau cymdeithasol, yn y rhan amlaf, a'r gwasanaeth addysg.

I did note that the Plaid Cymru motion today is similar to the recent report by the task and finish group put together by the Government, particularly the reference to city regions. I am sure that Plaid would be willing to accept that we have not been convinced, as yet, about city regions, although we do see that there is a need to look at economic development in those areas in west Wales where the problems in terms of maintaining the language are problems that relate to jobs and keeping young people within those areas. Of course, a similar idea was raised about north-east Wales, and, in that regard, the report is against having city regions because of the size of the population and the strategies that were available. We think that the way forward is to push the local agenda, which will be more beneficial in terms of giving a boost to the language through economic development. We believe that it is important that we should not adopt a one-size-fits-all approach in considering the different effects of economic issues on the Welsh language in Wales. Having said that, our other amendments reflect the frustration of Plaid Cymru in terms of the unnecessary slow growth in terms of the Welsh language.

We are happy to support amendments 5 and 6 tabled by the Conservatives, but we will be voting against amendment 2, as its objective and purpose are not clear. Just a week ago, the fourth report of the committee of experts on the European charter for regional or minority languages was published. Nine pages were assigned to Wales, looking at areas such as education, public services and economic life. It does not make for a good read in terms of the Government. There is not a lot of evidence that we have moved forward much since the third evaluation report. At the time, the third report said that the increasing demand for Welsh-language education was not being met across Wales, and that was the conclusion in the fourth report.

Since 2011, every local authority has been required to draw up a Welsh education strategic plan, and they have been designated as being statutory under the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013. It was expected that those schemes would be in place by now. The report is very critical of the fact that the schemes are very slow in being published. It is shameful that it also draws attention to the attitude of the civil service at local government level, which sees Welsh-medium education as an add-on rather than a core part of education. It describes secondary Welsh-medium education as being very patchy in many parts of Wales. First Minister, this is simply not good enough.

We are doing no better in terms of providing administrative services and public services. Although the third evaluation report noted that we offered only a partial solution, we have not done better at all in the most recent evaluation; it is 'patchy' once again. According to the report, authorities were not taking their responsibilities under the Welsh language schemes seriously. It is now time for us to take action.

The same criticism exists in terms of the Flying Start programme, where there is no continuity between the arrangements put in place by the social services, for the most part, and the education services.

Mae gwelliant 7, unwaith eto, yn ceisio tynnu sylw at y ffaith nad yw nifer sylweddol o wylwyr teledu yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn arbennig, ond mewn rhai ardaloedd eraill hefyd, yn derbyn rhaglenni Cymraeg. Mewn llawer o achosion, nid ydynt yn gallu gwyllo rhaglenni newyddion a materion cyfoes Cymru. Os yw ein haith nid yn unig i oroesi, ond i ffynnu, mae'n rhaid inni weld mwy o weithredu gan Lywodraeth Cymru.

Amendment 7, once again, attempts to highlight the fact that very many television viewers in north-east Wales in particular, but also in other areas, do not receive Welsh-language programmes. In many cases, they cannot watch news and current affairs programmes from Wales. If our language is not only to survive but to prosper, then we must see more action from the Welsh Government.

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar y Prif Weinidog i gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Lesley Griffiths.

I call on the First Minister to move amendment 4, tabled in the name of Lesley Griffiths.

Gwelliant 4—Lesley Griffiths

Amendment 4—Lesley Griffiths

Yn is-bwynt 2f, dileu popeth ar ôl 'Gymraeg'.

In sub-point 2f, delete all after 'strongholds'.

17:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Cynigaf welliant 4.

I move amendment 4

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 2, 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

I call on Suzy Davies to move amendments 2, 5 and 6, tabled in the name of William Graham.

Gwelliant 2—William Graham

Amendment 2—William Graham

Cynnwys 'yn effeithiol' ar ddiwedd is-bwynt 2a.

Insert 'effectively' at end of sub-point 2a.

Gwelliant 5—William Graham

Amendment 5—William Graham

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

Add as new sub-point at end of point 2:

manteisio ar y cyllid ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg i wella'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg ymysg plant ifanc a'u teuluoedd.

capitalising on the extra funding for Flying Start to improve the promotion of Welsh to young children and their families.

Gwelliant 6—William Graham

Amendment 6—William Graham

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

Add as new sub-point at end of point 2:

gweithio gydag oedolion sy'n dysgu Cymraeg er mwyn creu cyfleoedd i siarad Cymraeg yn eu cymunedau.

working with adults learning Welsh to create opportunities for Welsh to be spoken in their community.

17:03 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigaf welliannau 2, 5 a 6.

I move amendments 2, 5 and 6.

Diolch i Plaid Cymru am ddod â'r ddadl hon ger ein bron heddiw i rannu ei syniadau. Edrychaf ymlaen at ymateb adeiladol—cawn ddweud—gan y Prif Weinidog ar ddiwedd y ddadl hon.

I thank Plaid Cymru for bringing forward this debate today to share its ideas. I look forward to a constructive response, shall we say, from the First Minister at the end of this debate.

Yn eich datganiad diweddar ym mis Tachwedd, Brif Weinidog, fe ddwedoch chi fod angen i ni weithredu'n bwrpasol er mwyn atgyfnerthu cyswllt rhwng yr economi a'r iaith. Rwy'n cytuno gyda chi, gan nodi fy mod i'n dal i edrych ymlaen at adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog dros yr economi. Er bod gen i rywffaint o gydymdeimlad â phwynt 2(d) a gwelliant 3 heddiw, byddwn yn cefnogi gwelliant 4 y Llywodraeth. Credaf i'r carn y dylem fod yn creu cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd nad ydynt yn gadarnleoedd y Gymraeg hefyd. Heb greu galw am sgiliau iaith Gymraeg yn y rhannau hynny o Gymru, byddwch yn dal i weld awdurdodau lleol, a hyd yn oed athrawon, yn trin y syniad o ddwyieithrwydd fel niwsans drud. Mae Aled Roberts wedi sôn am driniaeth rhai ohonynt ynghylch WESPs.

Tra peri'r amgylchedd hwnnw, gallwn fuddsoddi cymaint ag y liciem ni mewn mwy o ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg a mwy o addysg cyfnod sylfaen trwy'r Gymraeg —ac rwy'n cefnogi'r rheini—ond, cyn gynted â bod plant yn sylweddoli bod y byd tu allan i'r cocŵn hwnnw yn uniaith Saesneg, mae'r broses o gategoreiddio a labelu yn dechrau: Cymraeg pan fyddaf yn y lleoedd hyn a Saesneg ar gyfer popeth arall. Ni fydd y bwriadau gorau a'r addysg fwyaf effeithiol yn cynhyrchu sgiliau iaith Gymraeg parhaus os yw'r rhesymau sydd wrth eu gwraidd yn diflannu ar ôl i blentyn droi'n wyth mlwydd oed. Yn anffodus, dyna brofiad plant o deuluoedd di-Gymraeg sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn gadarnleoedd y Gymraeg.

Fe ddwedoch chi hefyd, Brif Weinidog, fod angen inni hyrwyddo gwerth yr iaith Gymraeg er mwyn rhoi hwb i'w statws cymdeithasol ac yn y gweithle. Gobeithiaf y bydd safonau'r iaith Gymraeg yn helpu o safbwynt cyrff cyhoeddus, wrth gwrs, ond pa waith yn gwmws sydd ar y gweill i ddarganfod pa sgiliau dwyieithog sydd eu hangen ar gyflogwyr mewn llawer o sectorau? Ymhellach, pa waith sydd eisoes ar y gweill i gynyddu'r galw? Os ydym yn magu plant dwyieithog, bydd angen iddyn nhw a'r oedolion o'u cwrpas fod â syniad pam mae'n werth iddynt aros yn ddwyieithog. Dyna yw'r pryder yng ngwelliannau 5 a 6.

Ym mis Tachwedd, ddwedoch chi, Brif Weinidog, fod angen gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac atgyfnerthu'r cyswllt rhwng ysgolion, y gymuned a'r gweithle. Mae terfynau i'r hyn y gall aps a gwefannau eu gwneud. Mae gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg yn syniad hyfryd, ond mae'n rhaid inni hefyd ddarbwyllo rhiant sy'n trio dod o hyd i therapydd iaith a lleferydd eich bod yn gwario arian yn ddoeth yr un fath. Mae hon yn her i'r galon a'r meddwl, ac nid oes modd i'r Llywodraeth wneud hyn ar ei phen ei hun. Bydd angen i gymdeithas ddinesig Cymru ac unigolion yng Nghymru helpu gyda hyn, ond, a bod yn blwmp ac yn blaen, sut fyddwch chi'n helpu i wneud hyn yn werth chweil iddynt? Mae'r rhai sydd yn credu yng ngwerth sgiliau iaith Gymraeg eisoes wedi ymroi i hynny, felly sut fyddwch yn cyrraedd y rhai nad ydynt yn gweld eu gwerth?

In your recent statement in November, First Minister, you said that we need to take purposeful action to strengthen the link between the economy and the language. I agree with you, and I note that I am still looking forward to the Minister for the economy's task and finish group report. Although I have some sympathy with point 2(d) and amendment 3 today, we will be supporting the Government's amendment 4. We strongly believe that we should be creating economic opportunities in areas that are not Welsh-speaking heartlands as well. Without creating demand for Welsh-medium skills in those areas, you will still see local authorities, and even teachers, treating the idea of bilingualism as an expensive nuisance. Aled Roberts has already mentioned their attitude in terms of WESPs.

While that environment remains, we can invest as much as we like in more Welsh-medium childcare and more foundation phase education through the medium of Welsh —and I support those proposals—but, as soon as children realise that the world outside of those cocoons is monolingual English, then the process of categorisation and labelling commences: Welsh when we are in these places, and English for everything else. The best intentions and the most effective education will not create continuing Welsh language skills if the reason at their core disappears after pupils turn eight years of age. Unfortunately, that is the experience of children from non-Welsh-speaking families who live in areas that are not Welsh-speaking heartlands.

You also said, First Minister, that we need to promote the value of the Welsh language in order to give it a boost in terms of its social status and its status within the workplace. I hope that the Welsh language standards will work in terms of public bodies, but what work is in the pipeline to determine the bilingual skills required by employers in different sectors? Furthermore, what work is ongoing in order to increase the demand? If we are bringing up bilingual children, then they and the adults around them will have an idea of why it is worth while for them to maintain their bilingualism. That is the concern expressed in amendments 5 and 6.

In November, First Minister, you said that the teaching of Welsh in English-medium schools needs to be improved and that the links between the schools, the community and the workplace need to be reinforced. There are limits to what apps and websites can achieve in this regard. Welsh-medium swimming lessons are a wonderful idea, but we must also convince a parent who is trying to find speech and language therapy that you are spending your money wisely. This is a challenge for both the heart and the head, and the Government cannot achieve this alone. Civic society and individuals in Wales will have to assist with this, but, to put it plainly, how can you ensure that this is worth their while? Those who believe in the value of Welsh language skills are already committed to this, so how will you reach those who do not necessarily see the value of those skills?

Dyna lle mae Dechrau'n Deg yn helpu, rwy'n credu. Mae mwy i Ddechrau'n Deg na dim ond plant; mae'n cyrraedd teuluoedd, ac rwy'n gweld yn y ddadl hon bod llawer ohonom wedi cael gafael ar hyn. Mae helpu'r teuluoedd hynny i ddeall gwerth economaidd sgiliau iaith Gymraeg yn bwysig i'w phresenoldeb parhaus mewn cymunedau Dechrau'n Deg, boed yn gadarnleoedd Cymraeg eu hiaith ai peidio.

Os gall plant weld bod yr iaith o bwys i'w teuluoedd, mae'n fwy tebygol y bydd o bwys iddyn nhw. Os yw awdurdodau addysg yn gweld bod yr iaith o bwys i deuluoedd, mae'n fwy tebygol o fod o bwys iddyn nhw, gobeithio. Os yw'r naill a'r llall yn gweld y rheini'n defnyddio'r Gymraeg, hyd yn oed rhyw faint, o ddydd i ddydd, mae'n dechrau dod yn iaith bywyd bob dydd, nid dim ond iaith yr ysgol. Yn bwysicach na dim, fe ystyrir yr iaith yn fwy na phwnc ysgol gydag arholiad i'w basio ac yn rhywbeth i'w anghofio ar ôl troi'n 16 mlwydd oed. Os oes unrhyw beth wedi cyfrannu at sinigiaeth rhai pobl ifanc a'u rhieni am yr iaith Gymraeg, y cwrs TGAU byr yw hwnnw, a dyna'r pryder sydd wedi cael ei adlewyrchu yng ngwelliant 2. Rwy'n gobeithio y bydd adolygiad y Gweinidog addysg o'r cwricwlwm yn dod o hyd i ffordd i hyrwyddo dwyieithrwydd yn hytrach na gwthio plant drwy beiriant selsig yn ein hysgolion.

This is where Flying Start helps, I believe. There is more to Flying Start than children alone; it reaches families, and I see from this debate that many of us have grasped this concept. Assisting those families to understand the economic value of Welsh language skills is important to its continued presence in Flying Start communities, be they in Welsh-speaking heartlands or not.

If children can see that the language is important to their families, then it is more likely to be of importance to them. If education authorities believe that it is important to families, then it is more likely that those education authorities will also see it as being important, hopefully. If they see people using the Welsh language on a day-to-day basis, then it starts to become the language of everyday communication, not just a language to be used at school. Most importantly, the language is then seen as more than a subject to be learnt at school or as an exam to be passed, or as something to be forgotten once those pupils turn 16 years of age. If anything has contributed to the cynicism of some young people and their parents about the Welsh language, then it will be the short GCSE course, and that concern is reflected in amendment 2. I very much hope that the Minister for education's review of the curriculum will find a way of promoting bilingualism rather than pushing our children through a sausage machine in our schools.

17:08

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n mynd i ddefnyddio fy nghyfraniad heddiw i drafod Cymraeg ail iaith ac, yn benodol, y cwrs TGAU byr mewn Cymraeg ail iaith. Rwyf wedi bod yn bryderus ers peth amser fod nifer fawr o ddisgyblion rwy'n eu hadnabod yn gadael yr ysgol, ar ôl astudio Cymraeg ail iaith am saith mlynedd, heb hyd yn oed allu creu brawddeg yn Gymraeg. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn rhoi'r sgiliau i ddisgyblion fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae tua 80% o ddisgyblion Cymru yn derbyn addysg Gymraeg ail iaith, ond, er i 73.6% o'r ymgeiswyr a wnaeth y cwrs Cymraeg ail iaith llawn yn 2012 ennill TGAU A* i C, dim ond 49.6% o ymgeiswyr a wnaeth gyflawni'r cwrs TGAU byr a chael A* i C. Mae'r larwm yn canu yng nghyfnod allweddol 3, lle mae disgyblion yn perfformio yn waeth yn y Gymraeg, gyda dim ond 68.2% o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Nid oes yn rhaid i ymgeiswyr y cwrs byr sefyll arholiad Cymraeg ail iaith, ac, yn 2012, ni wnaeth dros 20% o ddisgyblion TGAU sefyll arholiad mewn Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith.

I will use my contribution to discuss Welsh as a second language and, particularly, the short GCSE course in Welsh as a second language. I have been concerned for some time that many pupils that I know, leave school, having studied second-language Welsh for seven years, unable to even construct a sentence in Welsh. The current provision does not give pupils the skills for them to become fluent Welsh speakers. Some 80% of pupils in Wales study Welsh as a second language, but, even though 73.6% of candidates who followed the full Welsh as a second language course in 2012 gained A* to C grades at GCSE, only 49.6% of those who followed the short course gained A* to C grades. The alarm bells are ringing at key stage 3, where pupils have a low level of attainment in Welsh, as only 68.2% reach the level expected of them. Candidates on the short course do not have to sit the second-language Welsh exam, and, in 2012, more than 20% of GCSE pupils did not actually sit an exam in either first-language or second-language Welsh.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n siŵr bod pob Aelod Cynulliad yn y Siambr heddiw yn dymuno gweld pob plentyn yng Nghymru yn gwbl fedrus yn yr iaith Gymraeg, ond mae'r amser wedi dod i Lywodraeth Cymru wynebu'r ffaith blaen mai nid y cwrs TGAU byr yw'r cyfrwng i gyflawni'r diben hwnnw yn y dyfodol. Felly, mae Plaid Cymru'n credu y dylem ystyried mabwysiadu'r polisiau canlynol fel mater o flaenoriaeth: diddymu'r cwrs byr mewn Cymraeg ail iaith ac, yn y tymor hir, cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith. Gellid ystyried dulliau o asesu sgiliau yn y Gymraeg ar draws y continwmm ieithyddol ac ar draws pob cyfnod allweddol. Mae'n rhaid inni gynyddu oriau cyswllt ar gyfer astudio Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd Saesneg eu hiaith, a darparu cyfleoedd y tu allan i oriau ysgol er mwyn iddynt allu defnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth a ffurfioldeb y sefyllfa honno. Rwy'n clywed yr alwad honno yn aml gan bobl ifanc sydd am ddefnyddio'r iaith mewn ffordd gymdeithasol.

Mae angen inni hefyd gynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer disgyblion sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn yr ysgol uwchradd er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt am y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael lle mae sgiliau dwyieithog yn fantais iddynt. Mae angen inni sicrhau bod ysgolion dwy ffrwd yn cynnig cyrsiau trochi i ddisgyblion a ddewisodd ffrwd Saesneg yng nghyfnod allweddol 2, er mwyn rhoi cyfle iddynt barhau gydag addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd.

Rwy'n gwerthfawrogi, os ydym am gyflawni hyn, fod angen inni sicrhau bod digon o athrawon yn meddu ar sgiliau cryf yn yr iaith Gymraeg yn ogystal â gwybodaeth glir am sut i ddysgu hynny o fewn yr ysgolion penodedig hynny. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen inni lansio ymgyrch recriwtio egniol i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg a phobl gymwys i fod yn athrawon. Mae nifer o athrawon sy'n medru'r Gymraeg mewn ysgolion di-Gymraeg yn dweud wrthyf yn aml fod gormod o bwysau arnynt yn barod am nad oes digon ohonynt yn gyffredinol i rannu'r baich. Mae angen inni fuddsoddi mewn rhaglen hyfforddi eang er mwyn cynyddu nifer yr athrawon a chynorthwyyr trwyddedig sydd ar gael i ddysgu Cymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hefyd angen inni ymestyn y cynllun sabothol er mwyn sicrhau bod mwy o athrawon a chynorthwyyr dosbarth yn cael y cyfle i fynychu cyrsiau dwys i ddysgu Cymraeg neu i loywi eu sgiliau.

Mae angen inni gynnal ymchwiliad llawn i sgiliau iaith athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd Saesneg eu hiaith. Mae angen inni ddarparu rhaglen hyfforddi barhaus, yn lleol ac yn genedlaethol, i ddatblygu sgiliau ieithyddol staff ac i gyflwyno'r fethodoleg ddiweddaraf mewn addysg ail iaith. Mae angen inni sefydlu a datblygu cronfa ddata ar-lein o'r adnoddau gorau ar gyfer dysgu Cymraeg fel pwnc a chyfrwng, a gwneud gwaith ymchwil rhyngwladol ar ddulliau addysgu ail iaith er mwyn sefydlu arfer gorau a lledaenu gwybodaeth am arfer da drwy gynlluniau hyfforddiant mewn swydd.

I am sure that every Assembly Member in this Chamber today would wish to see every child in Wales being entirely fluent in the Welsh language, but the time has come for the Welsh Government to face up to the plain fact that the short GCSE course is not the means of achieving this in the future. Therefore, Plaid Cymru believes that we should consider adopting the following policies as a matter of priority: abolish the short GCSE course in Welsh as a second language and, in the long term, abolish the difference between Welsh as first language and Welsh as a second language. We could consider means of assessing Welsh language skills across the linguistic continuum and across all key stages. We need to increase the contact hours for the study of Welsh as a second language in primary and secondary English-medium schools, and provide opportunities outside school hours so that pupils can use the language outwith the classroom and its formal setting. I hear this demand expressed often by young people who want to use the language socially.

We need to hold awareness sessions for pupils who study Welsh as a second language in our secondary schools to provide them with information about the career opportunities that are available where bilingual skills would be beneficial to them. We also need to ensure that two-streamed schools offer immersion courses for pupils who chose the English stream in key stage 2, in order to give them an opportunity to continue with Welsh-medium education in secondary school.

I appreciate that, if we are to achieve this, we need to ensure that an adequate number of teachers will have strong Welsh-language skills as well as clear information on how to actually convey those within those designated schools. To that end, we would need to launch a rigorous recruitment campaign to attract more Welsh-speakers and qualified people to become teachers. A number of Welsh-speaking teachers in non-Welsh speaking schools often tell me that there is too much pressure on them already because there are not enough of them, generally speaking, to share the burden. We need to invest in a broad-ranging training programme to increase the number of teachers and licensed classroom assistants available to teach Welsh as a subject and as a medium for communication in primary and secondary schools. We also need to extend the sabbatical programme in order to ensure that more teachers and classroom assistants have the opportunity to attend intensive courses to learn the Welsh language or to improve their skills.

We need to hold a full inquiry into the language skills of teachers in primary and secondary schools that teach through the medium of English. We need to provide a continuing training programme, both locally and nationally, to develop the linguistic skills of staff and to introduce the latest methodologies in second-language teaching. We need to establish and develop an online database of the best resources for the teaching of Welsh as a subject and medium of communication, and to conduct international research into second-language teaching methods in order to establish best practice and to spread best practice through in-service training programmes.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r Gymraeg fel ail iaith, a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Medi 2011. Roedd hwnnw'n cynnwys nifer o argymhellion, gan gynnwys cael gwared ar y cwrs TGAU byr. Byddai diddordeb gennyf i, fel Aelod yma yn y Senedd, i ddysgu gan y Gweinidog, neu gan y Prif Weinidog, beth yn gwmws sy'n digwydd ynghylch hynny o beth. A oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i newid yr hyn sy'n digwydd ym maes Cymraeg ail iaith? Ar ddiwedd y dydd, os ydym am wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael eu trwytho yn yr iaith a bod eraill yn dysgu'r iaith o'r newydd, mae'n rhaid i addysg Gymraeg fod yn gwbl ddatblygedig ac effeithiol i'r dyfodol.

The Welsh Government commissioned a review of the Welsh language as a second language, the report on which was published in September 2011. It included a number of recommendations, including getting rid of the short GCSE course. I, as a Member in the Senedd, would be interested to hear from the Minister, or the First Minister, what exactly is happening in that regard. Does the Welsh Government have plans to change what is happening within Welsh as a second language? At the end of the day, if we are to ensure that young people are immersed in the Welsh language and that people can learn the Welsh language anew, Welsh-medium education must be fully developed and effective for the future.

17:14

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n cofio mynegi pryderon am ddiffyg addysg uwchradd Cymraeg yn ein gwlad pan ymunais â'r Cynulliad ym 1999. Bymtheg mlynedd wedyn, mae'r diffyg darpariaeth yn parhau yn bwnc trafod. Os ydym am i'r iaith ffynnu a goroesi, mae'n rhaid inni weithredu.

I recall expressing concerns about a lack of Welsh-medium education at secondary level in Wales when I first joined the Assembly in 1999. Fifteen years later, the lack of provision continues to be an issue for discussion. If we want the language to prosper and to survive, we must take action.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae ysgolion mewn lle da i fod ar flaen yr ymdrech honno. Mae llawer o bobl yn ne a chanol sir Powys am i'w plant dderbyn addysg Gymraeg. Nid yw hynny'n llawer i'w ofyn. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod dymuniadau'r rhieni hynny yn cael eu bodloni?

Schools are well-placed in the vanguard in that regard. There are many people in south and mid Powys who want their children to receive Welsh-medium education, which is not much to ask. What is the Welsh Government doing to ensure that the wishes of those parents are satisfied?

17:15

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llongyfarchiadau i Kirsty—nid wyf yn credu fy mod wedi ei chlywed yn siarad Cymraeg yn gyhoeddus o'r blaen, ac rwy'n gwybod nad yw'n beth hawdd. Un o sloganau Plaid Cymru yn y 1960au a'r 1970au—a'r mudiad iaith hefyd—oedd 'Iaith a Gwaith'. Mae'r odl yn helpu i wneud y slogan yn gofiadwy, ac mae'r slogan yn tanlinellu'r cyswllt creiddiol hwnnw rhwng yr angen i greu a chynnal swyddi os yw'r iaith i ffynnu ac adnewyddu ei hun. Heb waith, mae pobl ifanc yn allfudo, mae cymdeithasau yn heneiddio ac yn colli eu bywiogrwydd a'u hyder. Mae adroddiad diweddar i'r Llywodraeth, o dan y teitl 'Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith', yn gwneud yr un pwnt. Ym mharagraff 4.5, mae'r adroddiad yn dweud bod perthynas hanfodol rhwng datblygu economaidd a thynged yr iaith Gymraeg.

Congratulations, Kirsty—I do not think that I have heard Kirsty speak Welsh in public before. I know that it is not an easy thing to do. A Plaid Cymru slogan—as well as a language movement slogan—in the 1960s and 1970s was 'Iaith a Gwaith'. The rhyme helped to make it memorable, but it also underlines the strong link between the need to create and sustain work if the language is to prosper. Without work, young people move away and communities get older and lose their vibrancy and confidence. A recent report for the Government, entitled 'Increasing the number of communities where Welsh is the main language', makes the same point. In paragraph 4.5, the report says that there is a vital relationship between economic development and the future of the Welsh language.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Wrth gwrs, mae'r cymunedau lle mae'r Gymraeg yn dal yn iaith gymdeithasol, yn iaith y siop, yn iaith y farchnad ac yn iaith y lle gwaith yn yr ardaloedd tlotaf, lle mae'r cyfleoedd gwaith yn llai amrywiol a chyflogau yn is. Felly, mae'r her yn un sylweddol. Mae'r un her, wrth gwrs, yn wynebu cymoedd ôl-ddiwydiannol ym mhob rhan o Gymru. Felly, dylai'r Llywodraeth, os yw o ddifrif am ei strategaeth iaith, chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gynlluniau economaidd, o bosibl o fewn y rhaglenni Ewropeaidd. Mae hon yn thema sydd wedi cael ei phwysleisio gan Gomisiynydd y Gymraeg, a byddwn yn edrych ymlaen at glywed barn y Llywodraeth. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen hefyd wedi pwysleisio'r angen i greu canolfannau twf rhanbarthol, a fydd yn creu ffocws i weithgarwch entrepreneuriaidd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r grŵp yn enwi Bangor Menai, Aberystwyth a Chaerfyrddin. Nid wyf yn credu mai dinas-ranbarthau yw'r rhain. Rwy'n siŵr mai canolfannau twf ydynt, lle mae'r iaith eisoes yn gryf ond yn colli tir. Nid yw'r iaith yn bodoli mewn gwagle, ac mae entrepreneuriaid angen byw mewn lleoedd sy'n cynnig cyfleoedd adloniant, addysg a hamdden da. Mae angen gwneud y Gymraeg yn rhan hanfodol o'r profiadau hynny.

Mae'n rhaid i iaith fyw gael ei defnyddio yn y lle gwaith, fel ym mhob lle arall. Mae hon yn thema y mae Simon Thomas wedi cyfeirio ati, sef creu mwy o gyfleoedd i bobl allu defnyddio'r Gymraeg yn y lle gwaith. Mae cynghorau lleol yn lleoedd o'r fath, ac mae Cyngor Gwynedd wedi cael ei enwi fel enghraifft o arfer da i'r cyfeiriad hwn. Fodd bynnag, mae angen rhagor o enghreifftiau yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae ar y gwasanaeth iechyd, er enghraifft, angen polisi o ddatblygu staff dwyieithog am bob math o resymau, ac nid yw'n cyflawni hynny ar hyn o bryd. Mae angen i'r Llywodraeth a'r gwasanaeth sifil wneud yr un peth. Rydym yn credu y dylid sefydlu coleg gwasanaeth sifil yng Nghymru, lle byddai'r Gymraeg yn cael ei lle fel un o'r sgiliau hanfodol, gan arwain at fwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd.

Of course, the communities where the Welsh language is still a social language, the language of the shop and the market and the language of the workplace, are in the poorest areas, where work opportunities are less varied and where wages are lower. So, the challenge is significant. The same challenge, of course, faces post-industrial valleys in all parts of Wales. Therefore, the Government, if it is serious about its language strategy, should look for opportunities to promote the language through economic schemes, possibly within the European programmes. This is a theme that has been stressed by the Welsh Language Commissioner, and we look forward to hearing the Government's view. The task and finish group also emphasised the need to create regional growth centres that will create a focus for Welsh-medium entrepreneurial activities. The group names Bangor Menai, Aberystwyth and Carmarthen. I do not believe that these are city regions. I am sure that they are growth centres, where the language is already strong but is losing ground. The language does not exist in a vacuum, and entrepreneurs need to live in places that provide them with good entertainment, education and leisure opportunities. The Welsh language needs to become a vital part of these experiences.

A living language has to be used in the workplace, as in all other places. This is a theme to which Simon Thomas has referred, that is to create more opportunities for people to be able to use the Welsh language in the workplace. Local councils are such places, and Gwynedd Council has been named as an example of good practice in this area. However, there need to more examples in public services. The health service, for example, needs a policy of developing bilingual staff for all sorts of reasons, and it does not achieve that at present. The Government and the civil service need to do the same thing. We believe that a civil service college should be developed in Wales, where Welsh would have a role as one of the crucial skills, so people would have more opportunities to use the Welsh language in their day-to-day work.

Mae creu cyfleoedd i Gymry Cymraeg hyfforddi ar gyfer mathau o swyddi hefyd yn bwysig. Rydym yn cwyno neu'n dweud yn aml bod angen creu swyddi, ac nid yw hynny mor hawdd ag y mae'n swnio. Fodd bynnag, mae enghreifftiau lle mae yna swyddi, ond nid yw Cymry Cymraeg i'w gweld yn cael eu hyfforddi ar eu cyfer neu yn eu cymryd. Yr enghraifft berffaith yn y gogledd-orllewin, wrth gwrs, yw'r maes gweithgarwch awyr agored. Gwnaethpwyd astudiaeth 10 mlynedd yn ôl lle dangoswyd bod tua 400 i 500 o bobl yn gweithio yn y maes hyfforddi ym maes gweithgarwch awyr agored. Dim ond 5%—lai na hynny, mewn gwirionedd—oedd wedi cael eu haddysg yng Ngwynedd, felly roedd y ganran a oedd yn siarad Cymraeg yn llai na hynny. Mae rhywbeth o'i le â sefyllfa o'r fath. Os oes yna gyfleoedd gwaith ond, am ba bynnag resymau—y system addysg ac yn y blaen—nad yw pobl leol yn cael eu hyfforddi ar gyfer y swyddi hynny, mae rhywbeth o'i le. Mae lle yn y fan hon i fentrau iaith ac asiantaethau hyfforddi adnabod meysydd ac i hyfforddi pobl, neu sicrhau bod cyfleoedd i bobl hyfforddi, ar gyfer y swyddi hynny. Mae peth cynnydd wedi bod ers hynny, ond mae angen bod yn llawer mwy strategol ynglŷn â hynny. Dim ond un enghraifft yw honno. Un peth y gallwn gytuno arno heddiw, rwy'n siŵr, ar draws y pleidiau, yw nad yw gwneud yr un peth yn yr un ffordd rydym wedi ei wneud yn ddigon—er waethaf yr ewyllys da, ac er waethaf yr ymdrechion sydd wedi bod. Mae'n rhaid inni feddwl yn fwy strategol a dyblu ein hymdrechion os ydym o ddirif am weld adfer y Gymraeg yng Nghymru.

The creation of opportunities for Welsh speakers to train for various types of jobs is also important. We complain or we often say that we need to create jobs, but that is not as easy as it sounds. However, there are examples whereby there are jobs, but Welsh speakers do not seem to be trained for those or do not take them up. A perfect example in north-west Wales, of course, is the field of outdoor activities. A study was undertaken 10 years ago where it was shown that about 400 to 500 people worked in the training area in outdoor activities. However, only 5%—less than that, to be honest—had received their education in Gwynedd, so the percentage of Welsh speakers was smaller than that. There is something wrong with such a situation. If there are opportunities for work but, for whatever reason—the education system and so on—local people are not trained for those jobs, there is something wrong. There is room here for the mentrau iaith and training agencies to identify fields and train people, or ensure that there are opportunities for people to train, for those roles. There has been some progress since then, but we need to be more strategic about that. That is just one example. One thing that we can agree on today, I am sure, across the parties, is that doing the same thing in the same way as we have been doing it is not enough—despite the goodwill and the efforts that have been undertaken. We need to think more strategically and redouble our efforts if we are serious about safeguarding the Welsh language in Wales.

17:20

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n loes calon imi ddweud hyn, ond nid yw trefn gynllunio Cymru fel pe bai'n gyfaill i'r iaith Gymraeg. Rydym yn gweld, yn enwedig yn y gogledd—yr ardal rwy'n ei chynrychioli—lefelau uchel o orddatblygu sy'n cael eu gyrru gan gynlluniau datblygu lleol. Yn y sir rwy'n byw ynddi, sir Ddinbych, rydym wedi gweld cynnydd o ryw 500 yn y boblogaeth yn y 10 mlynedd diwethaf, ond eto mae dros 7,000 o dai yn yr arfaeth o ganlyniad i'r cynllun datblygu lleol. Oes, wrth gwrs, mae angen tai, mae angen datblygiad, ond mae angen datblygiad sy'n fwy cymesur â'r galw, oherwydd mae goblygiadau cael hynny yn anghywir o safbwynt yr iaith yn amlwg i bawb. Adiwch at ei gilydd yr amcanestyniadau ar gyfer datblygu tai yn chwe awdurdod lleol y gogledd dros y cyfnod nesaf, mae'n cyfateb i greu sir cyfan newydd o dai. Nid ymateb i'r angen lleol yw hynny. Nid twf organig cymunedau yw hynny. Nid yw hynny'n ddatblygu cynaliadwy.

Rhodda enghraifft i chi o ffolineb y drefn. Ym mhentref Trefriw, yn nyffryn Conwy, mae cais cynllunio wedi cael ei roi ymlaen i godi 12 tŷ. Nid oes dim byd yn anarferol yn hynny, rwy'n siŵr, ond wrth gwrs roedd rhywun yn tynnu sylw at y ffaith bod 21 tŷ gwag yn y pentref. Dyna i chi enghraifft o ffolineb y drefn bresennol. Ar ben arall y sbectrwm, ddydd Gwener diwethaf, roedd cais cynllunio ffurfiol yn cael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych i godi 1,700 o dai ym mhentref Bodelwyddan. Mae pawb yn gwybod, wrth gwrs, y bydd datblygiad o'r fath yn niweidiol i'r iaith. Yr eironi yw bod Cyngor Sir Ddinbych, yr wythnos hon, yn lansio ymgynghoriad ynglŷn â sut i gryfhau dyfodol yr iaith yn y sir. Felly, ar yr un llaw, roedd yn ceisio gwrthdroi'r niwed i'r iaith a welwyd yn y cyfrifiad diwethaf, ond ar y llaw arall wedyn roedd yn gorfod dygymod â datblygiadau fel yr un sy'n cael ei argymhell ym Modelwyddan.

It is painful for me to say this, but the Welsh planning system is no friend of the Welsh language. We have seen, particularly in north Wales—the area that I represent—high levels of overdevelopment driven by local development plans. In the county where I live, in Denbighshire, we have seen an increase of some 500 in the population over the past 10 years but there are some 7,000 houses in the pipeline as a result of the LDP. Yes, of course we need housing and we need development, but we need development that corresponds to demand, because the implications of getting that wrong for the language are apparent to everyone. If you add together the projections for developments in the six local authorities in north Wales over the ensuing period, it corresponds to creating a whole new county of houses. That is not responding to local demand. That is not organic growth within communities. That is not sustainable development.

I will give you an example of where the system is going wrong. In Trefriw, in the Conwy valley, a planning application has been made to build 12 houses. There is nothing unusual in that, I am sure, but someone drew attention to the fact that there are 21 vacant homes in the village. That gives you an example of the problems with the current system. At the other end of the spectrum, last Friday there was a formal planning application introduced to Denbighshire County Council to build 1,700 homes in Bodelwyddan. Everyone knows that such a development will be damaging to the Welsh language. The irony is that this week Denbighshire council launched a consultation on how to strengthen the future of the language in the county. So, on the one hand, it was trying to counteract the damage seen in the language in the last census, but on the other hand it was having to cope with developments such as the one being recommended in Bodelwyddan.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae TAN 20 i fod i warchod buddiannau'r Gymraeg, a'r gobaith oedd y byddai ei ddiwygio yn cryfhau ystyriaethau ieithyddol o fewn y drefn gynllunio. Bu'n rhaid aros blynyddoedd, wrth gwrs, am y nodyn diwygiedig, a phan ddaeth, roedd yn siomedig o wan. Y cyfan a wnaeth, mewn gwirionedd, oedd addo canllawiau ymarferol pellach, a oedd yn destun siom i nifer fawr, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg.

Yn ôl gwybodaeth a gafwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg y llynedd, roedd llai nag un o bob 3,000 o geisiadau cynllunio yn cael eu hasesu am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Dim ond tri awdurdod lleol yng Nghymru a oedd wedi asesu effaith cynllunio ar yr iaith yn y ddwy flynedd flaenorol—16 asesiad allan o 50,000 o geisiadau cynllunio, sef, 0.03%. Os ydym am gael unrhyw obaith y bydd y Gymraeg yn goroesi, mae'n rhaid i hynny newid.

Hoffwn symud ymlaen i bwnc arall, sef, dyfodol addysg Cymraeg i Oedolion. Fis Gorffennaf diwethaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad a gomisiynodd ynghylch dyfodol Cymraeg i oedolion. Prif argymhelliad yr adroddiad oedd bod y strwythur hierarchaidd presennol o chwech o ganolfannau gweinyddol rhanbarthol yn darparu cyllid i ddarparwyr Cymraeg i oedolion yn rhy fiwrocratig. Roedd yr adroddiad felly yn argymhell sefydlu endid cenedlaethol i gyd-drefnu'r rhaglen, a chyllido darparwyr yn uniongyrchol gan y Llywodraeth. Ar hyn o bryd, mae'r arian yn mynd drwy'r canolfannau gweinyddol. Wrth dderbyn byrdwn cyffredinol yr adroddiad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai cyllideb Cymraeg i oedolion yn cael ei thorri 8% y flwyddyn nesaf. Roedd yr adroddiad gwreiddiol yn dadlau na ddylai'r endid cenedlaethol newydd fod yn ariannu darparwyr; yn hytrach, dylai hyn gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn ganolog. Roedd y Gweinidog addysg yn ansicr ynghylch yr argymhelliad hwn, a dywedodd y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r mater. Ond mae'n rhaid gofyn y cwestiwn: ai'r ddefnydd gorau o'r adnoddau yw defnyddio'r holl arian sy'n cael ei arbed o ddiddymu'r canolfannau gweinyddol rhanbarthol i ariannu'r endid cenedlaethol newydd, tra bo'r darparwyr—y rhai sy'n gwneud y gwaith dysgu Cymraeg i oedolion yn y gymuned—yn wynebu toriadau dwfn yn eu hincwm? Oni fyddai'n fwy adeiladol defnyddio peth o'r arian a gronwyd o ddiddymu'r canolfannau gweinyddol i ariannu darparwyr yn well, a thrwy hynny helpu i wrthbwysu peth o'r gostyngiad hanesyddol maent wedi'i weld mewn cyllid ac yna buddsoddi beth sy'n weddill yn yr endid cenedlaethol newydd? Wedi'r cyfan, ni fydd yr endid cenedlaethol newydd yn llwyddiannus os nad yw gwaith y darparwyr Cymraeg i oedolion yn ein cymunedau yn cael ei gefnogi gan gyllid digonol.

TAN 20 is supposed to safeguard the interests of the Welsh language, and the hope was that the reformed TAN would strengthen the consideration given to the language in the planning system. We have had to wait years for that revised note, but when it arrived it was disappointingly weak. All that it did, in reality, was pledge further practical guidelines, which disappointed many, including the Welsh Language Commissioner.

According to information received by the Welsh Language Society last year, fewer than one in 3,000 planning applications were assessed for their impact on the Welsh language. Only three local authorities in Wales assessed the impact of planning on the Welsh language within the previous two years—16 assessments out of 50,000 planning applications, or 0.03%. If the Welsh language is to have any hope of survival, that must change.

I would like to move on to another issue, which is the future of Welsh-language education for adults. Last July, the Welsh Government published the report that it commissioned on the future of Welsh for adults. The report's main recommendation was that the hierarchical structure of six regional administrative centres providing funding for providers of Welsh for adults was too bureaucratic. The report, therefore, suggested that there should be a national entity to co-ordinate the programme, and that funding should be directly provided by the Government. At the moment, the funding goes through the administrative centres. While accepting the main message of the report, the Welsh Government announced that the budget for Welsh for adults would be cut by 8% next year. The original report argued that the national body should not fund providers, but that this should be done centrally by the Welsh Government. The Minister for education was uncertain about this recommendation, and said that he would give the issue further consideration. However, we must ask the question: is it best use of resources to use all the money saved by abolishing the six regional administrative centres to fund the single national body, while the providers—those doing the work of teaching Welsh to adults in the community—face deep cuts in their incomes? Would it not be more constructive to use some of the funding saved by abolishing the administrative centres to better fund the providers, thereby assisting to counteract some of the historic reduction in their funding, and then invest the rest in the new national body? After all, the new national body will not be successful unless the work of the providers of Welsh for adults in communities is supported by adequate funding.

17:25

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rwy'n diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl. Mae'n dangos faint mae Cymru wedi newid ei bod yn bwysig ac yn bosibl cael dadl ar yr iaith Gymraeg heb sgrechian na choethan mawr. Nid felly oedd hi tua 30 mlynedd yn ôl.

I thank everyone who has contributed to the debate. It shows how much Wales has changed that it is important and possible to have a debate on the Welsh language without any screaming or major arguing. It was not like that about 30 years ago.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae sawl pwynt pwysig wedi'u gwneud. Rydym yn dechrau â safbwynt lle mae gennym ewyllys da tuag at yr iaith ond nid oes gennym atebion clir. Gwyddom fod addysg Gymraeg wedi cynyddu dros y blynyddoedd, ond rydym hefyd yn gwybod bod y nifer a'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn y boblogaeth wedi cwmpo.

Er enghraifft, yng nghyfrifiad 1981, roedd 71.5% o blant ysgol Ceredigion yn siarad Cymraeg. Erbyn hyn, gwyddom bod llai na hanner y boblogaeth yng Ngheredigion yn siarad Cymraeg. Beth sydd wedi digwydd i'r bobl ifanc hynny? Mae addysg yn bwysig dros ben, ond rydym i gyd yn gwybod nad dim ond addysg mae'n rhaid i ni ei ystyried.

Yn gyntaf, rwyf am atgoffa Aelodau o'r adroddiad a gafodd y Llywodraeth gan grŵp Rhodri Llwyd Morgan. Mae swyddogion wrthi'n paratoi ateb i argymhellion y grŵp hwnnw. Mae'r argymhellion hynny yn hynod o bwysig i'r ffordd y gallwn drin a hybu'r iaith Gymraeg yn y dyfodol dros Gymru gyfan.

Rwyf am ddelio'n gyntaf â'r gwelliannau. Ni allwn gefnogi gwelliant 1 am nad yw'n ffeithiol gywir. Dywedodd y Cyngor Ewropeaidd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf tuag at hybu'r iaith Gymraeg. Mae'r argraff wedi cael ei rhoi ein bod ni fel Llywodraeth yn eistedd yn ôl, heb hybu'r iaith Gymraeg. Nid dyna eiriau'r adroddiad. Gallwn gefnogi gwelliant 2, sy'n weddol fach, a gwelliant 3, sy'n bwysig dros ben.

Mae gwelliant 4 yn welliant gan y Llywodraeth. Nid yw'n welliant i wrthwynebu'n gyfan gwbl bwynt 2f ond i ehangu'r pwynt i sicrhau ein bod yn ystyried y sefyllfa i sawl cadarnle i'r Gymraeg ac nid dim ond yr ardaloedd sydd wedi'u nodi yno, er eu bod yn bwysig ac yn rhywbeth rydym yn ei ystyried i'r dyfodol.

Rydym yn cefnogi gwelliant 5. Rydym yn deall bod Dechrau'n Deg yn bwysig dros ben. Mae datblygiad ieithyddol yn rhan allweddol o'r rhaglen ac mae cefnogaeth yn cael ei rhoi i rieni i ddefnyddio'r rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwn gefnogi gwelliant 6. Mae gwelliant 7 yn hen broblem yn ardal y gogledd-ddwyrain. Mae'n dal i fod yn broblem yn sgil beth a ddigwyddodd pan newidiodd y system ddarlledu i fod yn ddirgiddol. Mae Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud sawl gwaith wrth Digital UK ac Ofcom bod rhaid datrys y sefyllfa i sicrhau bod pobl yn yr ardaloedd hynny'n gallu cael teledu nid yn unig yn Gymraeg ond o Gymru.

Gallwn gefnogi gwelliant 8. Cynhaliwyd adolygiad o Gymraeg ail iaith yn ddiweddar. Bydd yr adolygiad yn cael ei ystyried a bydd argymhellion yr adroddiad hwnnw yn rhan o ail gyfnod adolygiad y cwricwlwm.

Several important points have been made. We start from a position of goodwill towards the language but we do not have clear answers. We know that Welsh-medium education has grown over the years, but we also know that the number and percentage of Welsh speakers in the population has fallen.

For example, in the 1981 census, 71.5% of school children in Ceredigion spoke Welsh. Nowadays, we know that less than half the population in Ceredigion speaks Welsh. What has happened to those young people? Education is very important, but we all know that we have to think about more than just education.

First, I want to remind Members of the report produced for the Government by Rhodri Llwyd Morgan's group. Officials are working on a response to the recommendations made by that group. Those recommendations are extremely important in terms of how we deal with and promote the language in the future across the whole of Wales.

I will deal first of all with the amendments. We cannot support amendment 1, as it is factually inaccurate. The European Council said that the Welsh Government continued to demonstrate a strong commitment to promoting the language. The impression is being given that we, as a Government, are resting on our laurels, and are not promoting the language. That is not what the report says. We can support amendment 2, which is fairly minor, and amendment 3, which is vitally important.

Amendment 4 is a Government amendment. It is not meant to amend the whole of point 2f, but to expand upon it to ensure that we deal with a number of the language's strongholds, and not just those named there, even though those are important and something that we are considering for the future.

We support amendment 5. We understand that Flying Start is very important. Linguistic development is a key part of the programme and support is provided for parents to use the programme through the medium of Welsh. We can support amendment 6. Amendment 7 is an old problem in north-east Wales. It is still a problem as a result of what happened with the analogue switch off. Welsh Ministers and Welsh Government officials have told Digital UK and Ofcom on many occasions that this must be resolved, so that people in those areas are able to receive television not only in Welsh but from Wales.

We can support amendment 8. Welsh as a second language was reviewed recently. That review will be considered and the recommendations made in that report will feature in the second phase of the curriculum review.

Ni allwn gefnogi gwelliant 9. Byddai hynny'n wahanol i sut mae Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Plant Cymru yn cael eu penodi. Byddai hefyd yn golygu y byddai Comisiwn y Cynulliad yn gorfod talu am Gomisiynydd y Gymraeg. Y syniad y tu ôl i'r gwelliant hwn yw bod rhyw fath o broblem o ran annibyniaeth y comisiynydd. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth o hynny. Mae'r comisiynydd wedi bod yn feiriadol o'r Llywodraeth, fel y dylai hi fod, wrth gwrs, ynglŷn â sefyllfa annibynnol y comisiynydd. Nid wyf yn gweld, felly, bod unrhyw fath o fantais ynglŷn ag apwyntio'r comisiynydd gan y Cynulliad yn gyfan gwbl. Gallwn hefyd gefnogi gwelliannau 10 ac 11.

A gaf i droi at sefyllfa addysg? Un o'r pethau y mae'n rhaid i ni ystyried yw bod blynyddoedd maith wedi mynd heib ers i ni gael Cymraeg gorfodol yn ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Wrth ddweud hynny, rwyf yn credu y byddai pawb yn derbyn nad yw'r system wedi bod yn un llwyddiannus dros ben. Nid yw hynny yn rhywbeth sydd o blaid newid y system yn gyfan gwbl, ond beth sydd yn amlwg yw nad ydym yn creu siaradwyr hyderus yn y Gymraeg yn yr ysgolion hynny. Mae rhai yn dod mas o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr un sefyllfa— ddim yn llwyddiannus yn defnyddio'r Gymraeg. 'Pam?', felly, yw'r cwestiwn. Wel, un o'r problemau yw unwaith y maen nhw'n gadael yr ysgol, maen nhw'n colli'r cyfle i siarad Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd sydd yn ddi-Gymraeg yn gymunedol. Felly, yr her inni fel Llywodraeth yw sicrhau— ac mae adroddiad Rhodri Llwyd Morgan, wrth gwrs, yn dweud hyn—bod digon o weithgareddau ar gael i bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg unwaith eu bod yn gadael yr ysgol.

Pwysig hefyd yw sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd Aelodau yn gwybod ein bod ni fel Llywodraeth wedi bod yn gefnogol iawn o sicrhau bod hyn yn digwydd yn y gorffennol, er mwyn sicrhau bod yr iaith yn dal i gael ei hystyried fel iaith sydd yn iaith swyddogol ac nid dim ond yn iaith gymunedol.

A gaf i droi at y sefyllfa ynglŷn â gofal plant? Mae gennym system Twf sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn, yn fy marn i, o ran sicrhau bod rhieni yn trosglwyddo'r iaith i'w plant, yn enwedig rhieni nad ydynt yn hyderus dros ben yn y Gymraeg, gan gynnwys, efallai, rhieni sydd â rhieni eu hunain sydd wedi siarad Cymraeg, ond heb siarad yr iaith yn y teulu. Rwyf wedi gweld enghreifftiau o bobl nad ydynt wedi siarad Cymraeg yn arferol, ond sydd yn siarad Cymraeg gyda'u plant er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cael ei throsglwyddo.

Hefyd, ynglŷn â sicrhau bod mwy o bobl yn ystyried addysg Gymraeg, cafodd ymgyrch ei lansio cyn y Nadolig gennyf fi, fel Prif Weinidog, yn Ysgol Gymraeg Trelyn yn y Coed-duon, er mwyn sicrhau bod pobl yn deall manteision addysg ddwyieithog. Mae hynny yn rhywbeth, yn fy marn i, sy'n mynd i dyfu yn y dyfodol.

We cannot support amendment 9. That would differ from the way in which the Older People's Commissioner and the Children's Commissioner for Wales are appointed. It would also mean that the Assembly Commission would have to pay for the Welsh Language Commissioner. This amendment is predicated on a misconception that there is a problem with the commissioner's independence. The commissioner has been critical of Government, and that is how it should be, of course, in terms of the commissioner's independent position. So, I do not think that there would be any advantage to appointing the commissioner by the National Assembly as a whole. Amendments 10 and 11 we can also support.

I would like to turn to the situation of education. One of the things that we have to consider is that many years have gone by since we have had Welsh as a compulsory subject in English-medium schools. Having said that, I think that everyone would accept that the system has not been very successful. That does not mean that you should change the system completely, but what is evident is that, in those schools, we are not creating confident speakers in Welsh. There are some who come out of Welsh-medium schools in the same position, who are not confident about using Welsh. So, why does that happen? Well, one of the problems is that once they leave school, they do not have the opportunity to speak Welsh, particularly in those areas that are non-Welsh-speaking areas at community level. So, our challenge as a Government is to ensure—and Rhodri Llwyd Morgan's report, of course, does say this—that there are enough activities available for people who can speak Welsh to use Welsh once they leave school.

It is also important to ensure that people have the opportunity to use Welsh in the workplace. Members will know that we, as a Government, have been very supportive of ensuring that this does happen in the past, in order to ensure that the language is still considered to be an official language and not just a community language.

I would like to turn to the position as regards childcare. We have the Twf system, which has been very successful, in my opinion, in terms of ensuring that parents pass the language on to their children, and particularly parents who are not confident in Welsh, including, perhaps, parents whose parents spoke Welsh, but who did not speak Welsh as a family. I have seen examples of people who do not usually speak Welsh who speak Welsh with their children to make sure that they pass the language on.

Also, in terms of ensuring that more people consider Welsh-medium education, a campaign was launched before Christmas by me, as First Minister, in Ysgol Gymraeg Trelyn in Blackwood, in order to ensure that people understand the advantages of a bilingual education. That is something, in my opinion, that is going to grow in future.

Ynglŷn â'r economi, rwyf wedi dweud, fel y gwnaeth Alun Ffred Jones, bod gwaith ac iaith yn bwysig. Rwyf yn cofio slogan arall o Plaid Cymru yn yr 1980au: 'Colli gwaith, colli iaith'. Rwyf yn credu mai trydedd ran y slogan oedd 'Cymru rydd'. Nid wyf yn barod i gefnogi'r rhan honno o'r slogan, ond pwysig dros ben yw ystyried bod pobl wedi gadael yr ardaloedd Cymraeg—rhai wedi dod i weithio yng Nghaerdydd—ac wedi symud o'u hardaloedd o achos y ffaith eu bod yn ffaelu cael gwaith. Rydym yn deall pa mor bwysig yw hi, ac mae'r adroddiad ei hun yn deall pa mor bwysig yw hi, i sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael i bobl ifanc gael aros. Hefyd, mae angen sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael i bobl fynd yn ôl i'w hardaloedd, efallai gyda phrofiad ar ôl iddynt fod yn rhywle arall fel Caerdydd —yr 'Aberaeron effect', os caf i ei alw'n hynny, sydd i'w weld mewn rhai rhannau o Gymru lle y mae lles wedi bod dros yr iaith Gymraeg. Wrth gwrs, mae sicrhau bod hyn yn digwydd yn bwysig, a bydd e'n rhan o'r ymateb y bydd y Llywodraeth yn rhoi i'r adroddiad ei hun.

Yn gyflym iawn, fel Llywodraeth rydym wedi helpu o ran gweinyddu yn yr iaith Gymraeg: mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg yn y gwasanaeth sifil yng Nghymru nag oedd o'r blaen. Mae swyddfeydd newydd yng Nghyffordd Llandudno ac Aberystwyth sydd yn rhoi cyfle i bobl sydd yn siarad Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg ac i fyw mewn ardaloedd Cymraeg gan eu bod yn ennill bywoliaeth yno.

Mae TAN 20 yn rhywbeth sydd wedi cael ei gryfhau ac wedi cael ei groesawu gan arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cyngorydd Dyfed Edwards, sydd wrth gwrs yn aelod o Plaid Cymru. Wrth gwrs, mae lot fawr o waith i'w wneud a'r cam nesaf yw sicrhau bod ymateb llawn i adroddiad Rhodri Llwyd Morgan. Bydd hynny yn digwydd cyn bo hir.

In terms of the economy, I have said, as Alun Ffred Jones said, that work and language are important. I remember another Plaid Cymru slogan from the 1980s: 'Lose the work, lose the language'. I think that the third part of the slogan was 'free Wales'. I am not quite willing to support that part of the slogan, but it is very important for us to consider that people have left Welsh-speaking areas—some moved to work in Cardiff—and moved from their own areas because they could not find work. We understand how important it is, and the report itself understands how important it is, to ensure that there are enough opportunities for young people to be able to stay. Also, there is a need to ensure that there are enough opportunities for people to go back to their areas, perhaps with experience after they have been somewhere else, such as Cardiff, for example—the Aberaeron effect, if I may call it that, which is to be seen in some parts of Wales where they have benefited in terms of the Welsh language. Of course, it is important to ensure that this happens, and that will be part of the response that the Government will give to the report itself.

Briefly, as a Government we have helped in terms of administration in the Welsh language: more people now speak Welsh in the civil service in Wales than did in the past. There are new offices in Llandudno Junction and Aberystwyth that offer opportunities to those who speak Welsh to use Welsh and to live in Welsh-speaking areas as they can make a living in those areas.

TAN 20 is something that has been strengthened and has been welcomed by the leader of Gwynedd Council, Councillor Dyfed Edwards, who is of course a member of Plaid Cymru. However, there is a lot of work to be done and the next step is to ensure that there is a full response to Rhodri Llwyd Morgan's report. That will happen soon.

17:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i'r ddatl.

I call on Simon Thomas to respond to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:34 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i yn gyntaf ddiolch i bawb a gyfrannodd at y ddatl? Yr oedd nifer o syniadau adeiladol iawn, ond yn anffodus nid o gyfeiriad y Llywodraeth y daeth nifer o'r rheiny.

Thanks, Deputy Presiding Officer. May I first of all thank everyone who contributed to the debate? There were a number of very constructive ideas, but unfortunately they did not come from the Government, generally speaking.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf yn meddwl ein bod wedi gweld tair prif thema yn ystod y ddatl. Roedd y cyntaf ynglŷn â chryfhau'r economi a'r angen i wneud hynny, yr ail ynglŷn ag addysg, ac addysg ail-iaith yn arbennig, a'r trydydd yn ymwneud â phwysigrwydd datblygu'r iaith yng nghyd-destun cynllunio a'r cyd-destun cymdeithasol ehangach.

I think that we have seen three main themes emerge during the debate. The first was on strengthening the economy and the need to do that, the second was in relation to education, particularly second-language education, and the third related to the importance of developing the language in the context of planning and in wider social context.

I ddechrau, hoffwn ymateb i'r rhai a gododd pwyntiau ynglŷn â'r economi. Wrth sôn am ddinas-rhanbarthau, neu unrhyw derm arall yr ydych yn defnyddio i'w disgrifio, yr hyn rydym yn sôn amdano yw pa mor bwysig ydyw bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel rhywbeth sy'n gysylltiedig ag economi ffyniannus. Rwyf am weld miliynyddion yn y Gymraeg a phobl yn gwneud eu miliynau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn economaidd, ac yn llwyddo. Rwyf am weld hynny yn digwydd yn yr ardaloedd Cymraeg ac nid dim ond yn y dinasoedd. Mae'n bwysig felly, fel y mae tasglu Rhodri Llwyd Morgan wedi cydnabod, bod rhannau o ardaloedd traddodiadol Cymraeg yn cael eu troi yn ganolfannau twf ac yn derbyn yr un math o sylw a chefnogaeth ag y mae ardaloedd menter a dinas-rhanbarthau yn eu derbyn. Nid oes ots gennyf beth yr ydych yn eu galw. Mae hynny'n hynod o bwysig fel nad ydym yn gweld yr hyn y gwnaeth y Prif Weinidog ei gydnabod, sef bod 70% o blant a phobl ifanc Ceredigion yn siarad Cymraeg yn y gorffennol. Un rheswm y mae'r nifer wedi mynd lawr yw bod rhai wedi symud allan o'r sir gan eu bod wedi derbyn addysg dda, ac mae nifer o bobl eraill wedi symud i mewn nad ydynt yn medru'r Gymraeg ac sydd, i bob pwrpas, wedi ymddeol i'r sir.

Mae ail bwynt yr hoffwn ei godi ynglŷn â Chymraeg fel ail iaith. Mae'n bwysig gwrandao ar yr hyn yr oedd Bethan Jenkins yn ei ddweud. Nid yw dysgu ail iaith yn llwyddo ar hyn o bryd ac felly mae'n rhaid inni ailfeddlw sut yr ydym yn buddsoddi yn hynny a chreu'r cyfleoedd y mae Plaid Cymru yn credu ynddynt. Gobeithiaf ein bod ni erbyn hyn, gan ein bod wedi mynd heibio'r coethan y bu i'r Prif Weinidog sôn amdano, yn gallu coleddu'r un syniad bod hawl gan bob plentyn yng Nghymru feddu ar y Gymraeg—yn yr un ffordd y maent yn meddu ar fathemateg a sgiliau sylfaenol eraill. Mae'r Gymraeg yn un o'r sgiliau hynny y dylai fod yn agored ac yn hawl i bob plentyn yng Nghymru ei feithrin.

Yn y cyd-destun hwnnw, diolchaf yn arbennig i Kirsty Williams. Dyna'r tro cyntaf i mi ei chlywed yn siarad Cymraeg yn y Siambr. Roedd yr hyn yr oeddech yn ei ddweud, Kirsty, yn gwbl glir a chroyw, ac felly rwy'n gobeithio y byddwch yn manteisio ar y cyfle i wneud hynny eto rhywbryd. Cytunaf yn llwyr â'r hyn y bu ichi ei ddweud ynglŷn â dewis rhieni, yn enwedig yn ne a chanol Powys, ond er mwyn datrys y broblem honno, bydd angen ymateb i anghenion cludiant plant. Mae hynny yn hollbwysig yn ardaloedd fel Powys, fel sy'n digwydd ym Merthyr Tudful ar hyn o bryd, lle mae cludiant plant i ysgolion Cymraeg yn cael ei gydnabod yn llwyr.

Nid oes angen imi ailadrodd yr hyn ddywedodd Llyr ynglŷn â chynllunio. Fodd bynnag, hoffwn ychwanegu at yr hyn ddywedodd Llyr ynglŷn ag addysg i oedolion a pha mor bwysig ydyw bod yr adroddiad hwn yn ymateb i'r broblem o gael gormod o ganolfannau nad ydynt yn ddigon cryf. Rwyf wedi bod yn siarad â chanolfannau sy'n derbyn bod angen corff cenedlaethol, ond maent hefyd am weld canolfannau sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith i oedolion sydd yn gallu bod yn strategol yn eu hardaloedd. Rwy'n meddwl bod hwnnw'n bwynt yr ydym yn aros i'r Gweinidog ddweud ychydig yn fwy yn ei gylch.

If I may, I will, first of all, respond to those who raised points on the economy. In talking of city regions, or whatever other term you want to adopt, what we are talking of is how important it is that the Welsh language is seen as being linked to a prosperous economy. I want to see Welsh-speaking millionaires. I want to see people making millions through the medium of Welsh, succeeding on an economic basis. I want to see that happening in the indigenously Welsh-speaking areas, and not just in our cities. It is important therefore, as Rhodri Llwyd Morgan's taskforce has acknowledged, that parts of the traditionally Welsh-speaking areas are turned into growth areas and receive the same kind of attention and support as the enterprise zones and the city regions. I do not care what you call them. That is extremely important so that we do not see what the First Minister identified, that is, that 70% of children and young people in Ceredigion spoke Welsh in the past. One of the reasons for the decline in that number is that some have moved out of the county because they got a good education, and many other people have moved in who are not Welsh speakers and who, to all intents and purposes, have retired to the area.

There is a second point that I would like to raise on Welsh as a second language. It is important that we listen to Bethan Jenkins's comments. The teaching of second-language Welsh is not working at present and therefore we must reconsider how we invest in that and create the opportunities that Plaid Cymru believes in. As we have got past the petty arguments that the First Minister referred to, I hope that we can now embrace the same idea that every child in Wales has the right to acquire the Welsh language—in the same way as they acquire maths skills and other fundamental skills. The Welsh language is one of those skills that should be available and accessible to all children in Wales.

In that context, I particularly thank Kirsty Williams. That is the first time that I have heard her using Welsh in the Chamber. What you said, Kirsty, was entirely clear and articulate and I hope therefore that you will take the opportunity to use the Welsh language again. One of the things that I agree with you entirely on is the options available to parents, particularly in mid and south Powys, but in order to resolve that problem, the transportation of pupils needs to be addressed. That is so important in areas such as Powys, as is happening in Merthyr Tydfil at present, where the transportation of children to Welsh schools is actually addressed.

I do not need to rehearse what Llyr had to say on planning. However, I would like to add to what Llyr had to say about Welsh for adults and how important it is that this report does respond to the need not to have too many centres that are not strong enough. I have been talking to the current centres that accept the need for a national body, but they also want to see centres that teach Welsh as a second language to adults that can be strategic within their areas. I do think that that is a point on which we are awaiting a further response from the Minister.

I gloi, mae'n rhaid i mi fynd yn ôl at yr hyn ddywedodd y Prif Weinidog. Erbyn hyn, rydym mewn sefyllfa lle mae Llywodraeth Cymru yn deall y sefyllfa a beth sydd wedi mynd o'i le, ac yn gwybod beth yw'r pryderon. Derbynaf hynny, ond nid wyf yn cytuno â'r Prif Weinidog wrth iddo ddweud nad yw'r Llywodraeth yn gwybod beth yw'r atebion a bod yn rhaid aros ac ystyried hwn ymhellach. Mae rhai atebion pendant wedi cael eu hargymell mewn adroddiad ar ôl adroddiad ynglŷn â thyfu'r economi, trosglwyddo iaith, trochi a'r dulliau dysgu gorau. Nid yw'r Prif Weinidog yn barod i wrando ar hynny. Os yw'n meddwl y bydd yn gallu cael 'getaway' gyda pheidio â gweithredu lot yn hirach, bydd yn cael rhyw fath o ddiuniad, oherwydd mae pobl sy'n paratou i brotestio ynglŷn â'r diffyg gweithredu ac mae pobl eraill sy'n mynd i'w ddal i gyfrif ynglŷn â hynny a chraffu ar ei benderfyniadau. Hoffwn ddweud wrth y Prif Weinidog ein bod yn derbyn ei fod yn deall y sefyllfa, ond nid ydym yn derbyn ei fod yn rhoi digon o flaenoriaeth, fel Prif Weinidog, i ddelio â sefyllfa'r Gymraeg erbyn hyn. Mae'r teimlad hwnnw yn cael ei rannu yn fwyfwy gan bobl y tu allan i'r sefydliad hwn hefyd.

One of the things that I want to say in conclusion is on the First Minister's comments. We have now reached a position where the Welsh Government understands the situation and what has gone wrong, and knows what the concerns are. I accept that, but I do not agree with the First Minister when he says that the Government does not know what the solutions are and that we will have to wait and consider this further. There are some specific ideas that have been put forward in one report after another on developing the economy, the transmission of language, immersion and the best teaching methods. The First Minister is not willing to listen to that. If he thinks that he can get away without taking action, he is going to receive a wake-up call, because there are people who are preparing to protest because of a lack of action and there are others who will hold him to account on that and scrutinise his decisions. I would like to inform the First Minister that we now accept that he understands the situation, but what we do not accept is that he, as First Minister, is giving it adequate priority, to deal with the issue of the Welsh language. That feeling is shared by more and more by people outwith this institution too.

17:39

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly, gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion without amendment be agreed. Are there any objections? There is objection, therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n awyddus i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5407](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 21, Yn erbyn 31, Ymatal 0.

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5407](#)

Motion not agreed: For 21, Against 31, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5407](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 51, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5407](#)

Amendment agreed: For 51, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5407](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5407](#)

Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5407](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5407](#)

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5407](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5407](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5407](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5407](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5407](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5407](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5407](#)

[Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5407](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnis NDM5407](#)

[Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5407](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

Cynnig NDM5407 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5407 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi llifogydd a difrod mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 sydd wedi effeithio ar bobl a chymunedau ledled Cymru.

1. Notes the flooding and devastation of December 2013 and January 2014 which has affected people and communities throughout Wales.

2. Yn cydnabod gwaith rhagorol y gwasanaethau a'r sefydliadau brys o ran darparu cefnogaeth a chymorth i'r cymunedau hynny.

2. Recognises the excellent work of the emergency services and organisations in providing support and relief to those communities.

3. Yn canmol gwirfoddolwyr lleol ar hyd a lled Cymru am eu hymroddiad yn ystod y broses lanhau ac adfer.

3. Commends the work of local volunteers across Wales for the dedication shown during the clean-up and recovery process.

4. Yn credu y dylai'r defnydd deuol posibl o brosiectau ynni adnewyddadwy lleol gael ei ystyried o ran darparu amddiffynfeydd môr pellach.

4. Believes that the potential dual use of local renewable energy projects should be considered in providing further sea defences.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

5. Calls on the Welsh Government to:

a) annog adolygiad o'r polisi clirio afonydd yng Nghymru cyn gynted â phosibl, er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd.

a) instigate a review of river clearing policy in Wales as a matter of urgency to reduce the potential for flooding.

b) amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i ddefnyddio gwybodaeth leol a thechnegau rheoli tir arloesol i wneud mwy o ddefnydd o adnoddau naturiol i leihau effaith llifogydd, a chymryd camau i sicrhau bod cynrychiolwyr yn gwella eu sgiliau'n briodol er mwyn gwella'r gallu i wrthsefyll llifogydd.

b) outline the actions being taken to use local knowledge and innovative land management techniques to make greater use of natural resources to reduce the impact of flooding, and take action to ensure that representatives are suitably up skilled to improve resilience.

c) ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid perthnasol i sicrhau agwedd pragmatig tuag at geisiadau gan fusnesau a thai i ôl-ffitio eiddo at ddibenion gwella mesurau atal llifogydd.

c) engage positively with relevant partners to ensure that a pragmatic approach is adopted towards business and residential applications to retrofit properties for purposes of improved flood defence.

d) cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch y camau y mae wedi'u cymryd i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd i gynorthwyo gyda'r costau yn sgîl gwaith atgyweirio.

e) mynd ati ar unwaith i adolygu Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd;

f) datblygu ac ail-lansio'r cynllun grant a dreialwyd yn 2010/11 i ddarparu cyllid i'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd i wneud eu cartrefi'n fwy diogel rhag llifogydd;

g) cyhoeddi adroddiadau ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru i'r llifogydd diweddar, ar ôl eu cwblhau.

h) sefydlu Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i Gymru.

i) cyfrifo'r gost ychwanegol i lywodraeth leol a sefydliadau cyhoeddus eraill yn sgîl y stormydd diweddar, ac ystyried ar unwaith yr angen i wneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU neu'r Undeb Ewropeaidd i helpu i ysgwyddo'r baich ariannol.

d) update the National Assembly for Wales on the action it has taken to investigate the potential use of European Union funds to aid the costs incurred by repair work.

e) urgently review Technical Advice Note 15: Development and Flood Risk;

f) develop and re-launch the grant scheme piloted in 2010/11 to provide funding for those who are at greatest risk of flooding to make their homes more flood resilient; and

g) publish reports of the investigation of Natural Resources Wales into the recent flooding, once completed.

h) establish a National Flood Forum for Wales.

i) collate the additional cost on local government and other public organisations as a result of the recent storms and consider urgently the need to request additional funding from the UK Government or the European Union to help meet the financial burden.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5407 fel y'i diwygiwyd](#)

Gwrthodwyd cynnig NDM5407 fel y'i diwygiwyd: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5405](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 43, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5405.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5405.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 0, Ymatal 14.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5405.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 31, Yn erbyn 0, Ymatal 21.

Cafodd gwelliant 4 ei ddad-dethol.

[Result of the vote on motion NDM5407 as amended](#)

Motion NDM5407 as amended not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the motion.

[Result of the vote on motion NDM5405](#)

Motion not agreed: For 9, Against 43, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5405.](#)

Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5405.](#)

Amendment agreed: For 38, Against 0, Abstain 14.

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5405.](#)

Amendment agreed: For 31, Against 0, Abstain 21.

Amendment 4 deselected.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5405.](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5405.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5405.](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5405.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5405.](#)

[Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5405.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnis NDM5405.](#)

[Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5405.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnis NDM5405.](#)

[Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5405.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 35, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 17, Against 35, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 10 i gynnis NDM5405.](#)

[Result of the vote on amendment 10 to motion NDM5405.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 11 i gynnis NDM5405.](#)

[Result of the vote on amendment 11 to motion NDM5405.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

Cynnig NDM5405 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5405 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod dros flwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi ffigurau cyfrifiad 2011 sy'n dangos bod gostyngiad o 2 y cant yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

1. Notes that over a year has passed since the publication of the figures of the 2011 census that show a reduction of 2% in the number of Welsh speakers in Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn galluogi'r Gymraeg i ffynnu drwy, ymysg pethau eraill:

2. Calls on the Welsh Government to act to enable the Welsh language to thrive, by, among other things:

a) sicrhau bod gan bawb yng Nghymru'r cyfle i ddysgu Cymraeg yn effeithiol;

a) ensuring that everyone in Wales has the opportunity to learn Welsh effectively;

b) buddsoddi mewn gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg;

b) investing in Welsh-medium childcare;

c) cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg;

c) increasing the number of pupils receiving the Foundation Phase through the medium of Welsh;

d) defnyddio'r potensial o dan Fesur y Gymraeg 2011 i osod safonau ar gyfer y Gymraeg sy'n rhoi hawliau cryfach i siaradwyr Cymraeg na chynlluniau iaith o dan Ddeddf Iaith 1993;

d) using the potential under the Welsh Language Measure 2011 to set standards for the Welsh language that provide Welsh speakers with stronger rights than those provided by Welsh-language schemes under the Welsh Language Act 1993;

e) annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith weinyddol yn fewnol;

e) encouraging public bodies to use the Welsh language as an administrative language internally;

f) cefnogi cadarnleoedd y Gymraeg yng ngorllewin Cymru drwy ddatblygu strategaeth economaidd ar gyfer yr ardaloedd hyn, sy'n adlewyrchu eu cymeriad ac sydd wedi'u teulwra'n unol â'u hanghenion;

g) sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd o ddifrif yn y system gynllunio.

h) manteisio ar y cyllid ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg i wella'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg ymysg plant ifanc a'u teuluoedd.

i) gweithio gydag oedolion sy'n dysgu Cymraeg er mwyn creu cyfleoedd i siarad Cymraeg yn eu cymunedau.

j) rhoi sylw i'r anawsterau a wynebwyd yn lleol o ran derbyn darllediadau yn y Gymraeg ers newid i'r digidol ar gyfer teledu yn 2010.

k) rhoi sylw i'r gwendidau yn narpariaeth Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion.

l) sicrhau bod Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg yn gadarn ac yn cynnwys mesurau y mae modd eu cyflawni i gwrdd â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac i sicrhau dilyniant rhwng yr addysg gynradd ac uwchradd a gynigir.

m) sicrhau bod unrhyw werthusiad o'r rhaglen Dechrau'n Deg yn rhoi sylw i'r ddarpariaeth Gymraeg.

f) supporting Welsh-language heartlands in West Wales by developing an economic strategy for these areas that reflects their character and is tailored to their needs;

g) ensuring that the Welsh language is taken seriously within the planning system.

h) capitalising on the extra funding for Flying Start to improve the promotion of Welsh to young children and their families.

i) working with adults learning Welsh to create opportunities for Welsh to be spoken in their community.

j) addressing local difficulties faced in receiving Welsh language broadcasting since the digital TV switchover in 2010.

k) addressing weaknesses in Welsh second language provision in schools.

l) ensuring that Welsh Education Strategic Plans are robust and contain deliverable measures to meet demand for Welsh medium education and ensure continuity between primary and secondary education on offer.

m) ensure that any evaluation of the Flying Start programme addresses Welsh language provision.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5405 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5405 as amended.](#)

Derbyniwyd gynnig NDM5405 fel y'i diwygiwyd: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 12.

Motion NDM5405 as amended agreed: For 40, Against 0, Abstain 12.

17:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I would be grateful if those Members who are leaving would do so quickly and quietly.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Aelodau hynny sy'n gadael wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:49 **Dadl Fer: Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Dyhead Gwirioneddol i Bawb?**

I ask Leanne Wood to speak to the topic that she chosen.

Short Debate: The Best Start in Life: A Genuine Aspiration for All? **Y** [Senedd.tv Fideo Video](#)
Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Gofynnaf i Leanne Wood siarad ar y pwnc a ddewiswyd ganddi.

17:50 **Leanne Wood** [Bywgraffiad Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Diolch, Dirprwy Lywydd. I have had requests from Mike Hedges and Aled Roberts to take part in this short debate and I will grant them a minute each at the end of the speech.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cefais geisiadau gan Mike Hedges ac Aled Roberts i gymryd rhan yn y ddadl fer hon a rhoddaf funud yr un iddynt ar ddiwedd yr araith.

An excellent education is one of the greatest gifts that a child can have. It was the late, great Nelson Mandela who said:

Mae addysg ardderchog yn un o'r rhoddion gorau y gellir ei rhoi i blentyn. Fel y dywedodd yr anrhydeddus, ddiweddar Nelson Mandela:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'Education is the most powerful weapon which you can use to change the world.'

I agree with him. We have been acutely reminded of the importance of education—especially early-years education—during the recent protests held locally in Rhondda Cynon Taf over the Labour-led council's decision to cut nursery provision. There is great anger in communities from Treorchy to Taff's Well, because people fully understand the academic consensus that early-years education plays a vital role in a child's prospects in life. A point made repeatedly in the well-attended public meetings around the campaign against the cuts was the importance of being exposed to language immersion from the youngest possible age, if children are to be bilingual, via a Welsh-medium education.

Early-years education is also an important component in reducing the gap in educational attainment between disadvantaged and advantaged children. Research by Save the Children shows that 80% of the difference in attainment at GCSE level has already been determined by the age of seven. Poverty, educational attainment and the link between the two is a big discussion; too big a discussion, really, to be given serious consideration in a short debate. I therefore intend to focus my remarks today on one aspect of policy relating to this agenda, namely the Flying Start scheme, which the Party of Wales is, on the whole, supportive of. Plaid Cymru is also in favour of the commitment to double the number of children receiving support from the scheme during this Assembly. While we are supportive of the scheme, what we cannot support is the inequality that exists in the Flying Start scheme when it comes to provision through the medium of either Welsh or English. For most families in Flying Start areas, this provision will be their first contact with the Welsh language. If provision is not easily available, then these families risk losing the opportunity to access the Welsh language for their child and the benefits that that can bring.

We have a postcode lottery. Why should access to Welsh-medium provision be determined by where you live? This inequality must be addressed as a matter of priority. If not, the expansion of the Flying Start scheme will reinforce and exacerbate the inequalities that are already there in around a half of Welsh local authorities. The number of children receiving Flying Start through the medium of Welsh falls far short of the number that go on to Welsh-medium primary-level education. Figures obtained by RhAG, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, the organisation representing parents for Welsh-medium education, show that, in Rhondda Cynon Taf, just 9% of Flying Start provision is delivered through the medium of Welsh, yet 20.5% of children attend Welsh-medium education. In Swansea, just 1.8% of children receive Flying Start provision through the medium of Welsh, yet 13.6% of children receive Welsh-medium education. In Neath Port Talbot, the gap is greater: 1.5% of children receive Welsh-medium Flying Start provision, yet 17.7% of children are in Welsh-medium education. There are further disparities to be found in Torfaen, Wrexham, Pembrokeshire, Merthyr and Cardiff, to name but a few. It is no surprise, therefore, that RhAG has said that the figures highlight

Addysg yw'r arf mwyaf pwerus y gallwch ei ddefnyddio i newid y byd.

Cytunaf ag ef. Cawsom ein hatgoffa o ddifrif am bwysigrwydd addysg—yn enwedig addysg y blynyddoedd cynnar—yn ystod y protestiadau diweddar a gynhaliwyd yn lleol yn Rhondda Cynon Taf dros benderfyniad y cyngor o dan arweiniad Llafur i gwtogi'r ddarpariaeth feithrin. Mae dicter mawr mewn cymunedau o Dreorci i Ffynnon Taf, gan fod pobl yn gwbl ymwybodol o'r consensws academaidd fod addysg y blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan hanfodol mewn rhagolygon plentyn mewn bywyd. Pwynt a wnaed dro ar ôl tro yn y cyfarfodydd cyhoeddus i drafod yr ymgyrch yn erbyn y toriadau, a lle cafwyd lefelau presenoldeb uchel, oedd pwysigrwydd trochi plant mewn iaith o'r oedran ifancaf posibl, os ydym am iddynt fod yn ddwyieithog, drwy addysg cyfrwng Gymraeg.

Mae addysg y blynyddoedd cynnar hefyd yn elfen bwysig wrth leihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol rhwng plant difreintiedig a phlant breintiedig. Dengys ymchwil gan Achub y Plant fod 80% o'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad ar lefel TGAU eisoes wedi'i benderfynu erbyn saith oed. Mae tlodi, cyrhaeddiad addysgol a'r cyswllt rhwng y ddau yn drafodaeth fawr; mae'n drafodaeth rhy fawr, mewn gwirionedd, i gael ei hystyried o ddifrif mewn dadl fer. Felly, bwriadaf ganolbwyntio fy sylwadau heddiw ar un agwedd ar bolisi sy'n gysylltiedig â'r agenda hon, sef cynllun Dechrau'n Deg, y mae Plaid Cymru, ar y cyfan, yn ei gefnogi. Mae Plaid Cymru hefyd o blaid yr ymrwymiad i ddyblu nifer y plant a gaiff gymorth gan y cynllun yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn. Er ein bod yn cefnogi'r cynllun, ni allwn gefnogi'r anghydraddoldeb sy'n bodoli o fewn cynllun Dechrau'n Deg o ran y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. I'r rhan fwyaf o deuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg, y ddarpariaeth hon fydd eu cyswllt cyntaf â'r Gymraeg. Onid yw'r ddarpariaeth ar gael yn hawdd, mae perygl y bydd y teuluoedd hyn yn methu'r cyfle i gyflwyno eu plentyn i'r Gymraeg a'r manteision sy'n gysylltiedig â hynny.

Mae gennym loteri cod post. Pam ddylai ble rydych yn byw effeithio ar eich gallu i gael darpariaeth Gymraeg? Rhaid ymdrin â'r anghydraddoldeb hwn fel blaenoriaeth. Oni wneir hynny, bydd ymdrechion i ehangu cynllun Dechrau'n Deg yn atgyfnerthu ac yn gwaethygu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes mewn tua hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae nifer y plant sy'n cael Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg yn llawer is na'r nifer sy'n mynd ymlaen i addysg gynradd Gymraeg. Dengys ffigurau a gafwyd gan RhAG, sef Rhieni Dros Addysg Gymraeg, y sefydliad sy'n cynrychioli rhieni mewn perthynas ag addysg cyfrwng Gymraeg, yn Rhondda Cynon Taf, mai dim ond 9% o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg a gaiff ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, ond bod 20.5% o blant yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn Abertawe, dim ond 1.8% o blant sy'n cael darpariaeth Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae 13.6% o blant yn cael addysg Gymraeg. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r bwlch yn fwy: 1.5% o blant sy'n cael darpariaeth Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae 17.7% o blant yn cael addysg Gymraeg. Mae anghysondebau pellach i'w gweld yn Nhorfaen, Wrecsam, Sir Benfro, Merthyr a Chaerdydd, ymhlith eraill. Felly, nid yw'r syndod bod RhAG wedi datgan bod y ffigurau yn amlygu

'a number of serious questions about the delivery of Flying Start on the ground and the status of the Welsh language within the policy.'

Let us take a look at Newport, where there is no provision of Welsh-medium Flying Start. I am aware of a family living in the Bettws part of Newport, who helped illustrate the problem. In June 2013, when their son was 18 months old, the family was seen by a health visitor as part of a general visit. It was explained that a Flying Start playgroup application form would be completed during that meeting. During the meeting, the boy's mother noted that she wanted Welsh-medium Flying Start provision for her son and asked for the Welsh preference to be noted. To the mother's dismay, her choice was dismissed. The mother said:

'She just laughed in my face and said that there wasn't any Welsh-medium provision and from what she knew there wasn't going to be any Welsh-medium provision either.'

The couple has now reluctantly accepted a place in an English-medium nursery on the proviso that their son is switched to Welsh-medium provision as soon as it becomes available. The couple has said:

'English provision has been made available immediately and Welsh provision is always an afterthought. Why is this? We live in Wales, surely. Who is making sure that Newport is providing these things in Welsh? It is unfair that we have had to chase these people to make sure this provision is available immediately. The English provisions are set up without any problems for the parents so why should we be treated differently?'

This case study demonstrates that, while there is great demand for Welsh-medium education, there is a danger that parents are being put off at the very first hurdle. Huw Maguire, head of family support within the Welsh Government, has said in a letter to Flying Start co-ordinators,

'There appears to be a low uptake of Welsh-language childcare provision. Please ensure that the Welsh language childcare provision is actively offered to all families rather than being reliant on specific requests from families.'

In the foreword to the Welsh medium education strategy annual report 2012-13, the current Minister for Education and Skills says that,

'despite all this activity there has been little progress made against the strategy's targets. For instance, we are unlikely to see 25 per cent of seven-year-old children being taught through the medium of Welsh by 2015. Better planning is needed to stimulate growth in Welsh-medium education in some areas. While there has been significant progress in the percentage of Year 9 learners assessed in Welsh first language, linguistic continuity remains a major priority for us.'

nifer o gwestiynau difrifol am y ffordd y cyflwynir Dechrau'n Deg ar lawr gwlad a statws y Gymraeg o fewn y polisi.

Gadewch inni ystyried Casnewydd, lle nad oes darpariaeth Dechrau'n Deg Gymraeg. Rwy'n ymwybodol o deulu sy'n byw yn ardal Bettws yng Nghasnewydd, sy'n esiampl dda o'r broblem. Ym mis Mehefin 2013, pan oedd eu mab yn 18 mis oed, aeth ymwelydd iechyd i weld y teulu fel rhan o ymweliad cyffredinol. Esboniwyd y câi ffurflen gais am gylch chwarae Dechrau'n Deg ei chwblhau yn ystod y cyfarfod hwnnw. Yn ystod y cyfarfod, nododd mam y bachgen ei bod am i'w mab gael darpariaeth Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg a gofynnodd i'r dewis hwn gael ei nodi. Er siom i'r fam, gwrthodwyd ei dewis. Dywedodd y fam:

Dim ond chwerthin a wnaeth a dywedodd nad oedd unrhyw ddarpariaeth Gymraeg ac, hyd y gwyddai, ni fyddai unrhyw ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol ychwaith.

Mae'r pâr yn awr, er yn anfodlon, wedi derbyn lle mewn meithrinfa Saesneg ar yr amod y caiff eu mab ei symud i ddarpariaeth Gymraeg cyn gynted ag y bydd ar gael. Mae'r pâr wedi dweud:

Roedd darpariaeth Saesneg ar gael ar unwaith ac mae darpariaeth Gymraeg bob amser yn ystyriaeth eilaidd. Pam hynny? Onid ydym yn byw yng Nghymru? Pwy sy'n sicrhau bod Casnewydd yn darparu'r pethau hyn yn Gymraeg? Mae'n annheg ein bod wedi gorfod erlid y bobl hyn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth hon ar gael ar unwaith. Caiff y darpariaethau Saesneg eu rhoi ar waith yn ddiffwdan i'r rhieni felly pam y dylid ein trin ni yn wahanol?

Dengys yr astudiaeth achos hon, er bod galw mawr am addysg Gymraeg, fod perygl y bydd rhieni yn diystyru'r dewis o ganlyniad i'r rhwystr cychwynnol hwn. Dywedodd Huw Maguire, pennaeth cymorth i deuluoedd Llywodraeth Cymru, mewn llythyr at gydgyssylltwyr Dechrau'n Deg,

Ymddengys mai nifer isel o bobl sy'n manteisio ar y ddarpariaeth gofal plant Gymraeg. A fydddechystal â sicrhau y caiff y ddarpariaeth gofal plant Gymraeg ei chynnig yn benodol i bob teulu yn hytrach na dibynnu ar geisiadau penodol gan deuluoedd.

Yn y rhagair i adroddiad blynyddol 2012-13 y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, dywed y Gweinidog Addysg a Sgiliau presennol,

'er gwaethaf yr holl weithgaredd hwn, ychydig iawn o gynydd a wnaed yn erbyn targedau'r strategaeth. Er enghraifft, rydym yn annhebygol o weld 25 y cant o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015. Mae angen cynllunio'n well i ysgogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd. Er y gwnaed cynnydd sylweddol yng nghanran y dysgwyr Blwyddyn 9 a aseswyd mewn Cymraeg iaith gyntaf, mae dilyniant ieithyddol yn un o'n prif flaenoriaethau o hyd.'

It is clear, therefore, that the Welsh Government is not delivering on its own modest targets. It is unlikely to meet its targets unless the inequalities in the delivery of Flying Start provision are addressed. The Welsh language is a national treasure, a distinct and unique selling point for our nation. Plaid Cymru wants the gift of bilingualism to be extended to all children in the foundation phase over the long term. Addressing Flying Start will help to make a good start.

I welcome the launch of the recent Live in Wales: Learn in Welsh campaign that seeks to give information to parents about the educational options available to their children. It is telling that, in the launch press release, the First Minister is quoted as saying,

'Parents are not always aware, or do not have easy access to information about Welsh-medium schools.'

This shows that there are problems, which is why I have raised this debate today. If the Welsh language is to be given the chance to survive and thrive, the many declarations of goodwill and numerous initiatives must deliver in a more aligned and joined-up way.

Rhaid i bolisi gydnabod bod gan Gymru ddwy iaith swyddogol a bod y diffyg cydraddoldeb sy'n bresennol yn y system ar hyn o bryd ddim yn dderbyniol. Diolch yn fawr.

Mae'n amlwg, felly, nad yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei thargedau isel ei hun. Nid yw'n debygol o gyrraedd ei thargedau onid ymdrinnir â'r anghydraddoldebau yn y ffordd y cyflwynir y ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Mae'r iaith Gymraeg yn drysor cenedlaethol, yn bwynt gwerthu arbennig ac unigryw ar gyfer ein cenedl. Mae Plaid Cymru yn awyddus i bob plentyn yn y cyfnod sylfaen gael cynnig rhodd dwyieithrwydd yn yr hirdymor. Bydd ymdrin â Dechrau'n Deg yn fan cychwyn da.

Croesawaf yr ymgyrch Byw yng Nghymru: Dysgu yn Gymraeg a lansiwyd yn ddiweddar sy'n anelu at roi gwybodaeth i rieni am yr opsiynau addysgol sydd ar gael i'w plant. Mae'n arwyddocaol bod dyfyniad gan y Prif Weinidog, yn y datganiad i'r wasg ar gyfer yr achlysur lansio, yn datgan,

'Dydy rhieni ddim bob amser yn ymwybodol o ysgolion cyfrwng Gymraeg neu maen nhw'n ei chael hi'n anodd cael gwybodaeth am ysgolion o'r fath.'

Mae hyn yn dangos bod problemau, a dyna pam rwyf wedi cyflwyno'r ddaol hon heddiw. Er mwyn rhoi cyfle i'r Gymraeg oroesi a ffynnu, rhaid sicrhau bod y datganiadau niferus o ewyllys da a'r mentrau niferus yn cyflawni mewn ffordd fwy cyson a chydgyssylltiedig.

Policy must recognise that Wales has two official languages and that the lack of equality that exists within the system at present is not acceptable. Thank you very much.

17:58

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ddiolch i Leanne Wood am funud i gyfrannu at y drafodaeth. Dylai pob plentyn gael y cyfle i ddewis darpariaeth Dechrau'n Deg yn y Gymraeg, fel maent yn cael dewis darpariaeth meithrin cyfrwng Gymraeg. Yn Abertawe, mae plant yn mynd at y ddarpariaeth Dechrau'n Deg agosaf. Rwy'n meddwl dylai fod dewis o ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Os ydym eisiau plant i siarad Gymraeg, rhaid i ni gynnig y cyfle.

I would like to thank Leanne Wood for a minute in which to contribute to the debate. All children should have the opportunity to choose Flying Start provision in Welsh, in the same way that they can choose Welsh-medium nursery provision. In Swansea, children go to the nearest Flying Start provision. I think that there should be a choice of Flying Start provision in Welsh or in English. If we want children to speak Welsh, we have to offer them the opportunity.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:59

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn innau hefyd ddiolch i Leanne Wood am y cyfle i gyfrannu. Rwy'n meddwl bod y ddaol fer hon yn mynd at wraidd y broblem ynghylch a yw'r Gymraeg yn iaith sydd ar gael i holl bobl Cymru, yn hytrach na'i bod ar gael i rai mewn rhai ardaloedd yn unig. Rwy'n meddwl ei bod hi'n adlewyrchiad o'r sefyllfa 20 mlynedd yn ôl, pan nad oedd gan y dosbarth gweithiol mewn rhai mannau fynediad at addysg Gymraeg. Rwy'n credu bod y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn ymwybodol o hyn, ond fe ges i ateb ysgrifenedig oddi wrth y Gweinidog ar 29 Awst a ddywedodd bod y Llywodraeth yn mynd i edrych yn fwy manwl ar y wybodaeth yr oedd ymwelwyr iechyd ac asiantaethau eraill yn ei chasglu ar gyfer dewisiadau rhieni o ran iaith. A yw'r gwaith hwnnw wedi cael ei gyflawni, ac a roddwyd unrhyw fath o ystyriaeth i rôl yr iaith Gymraeg o fewn y cynllun i ddyblu'r rhaglen i 36,000 yn ystod y flwyddyn hon?

I would also like to thank Leanne Wood for the opportunity to contribute. I believe that this short debate gets to the heart of the problem in terms of whether the Welsh language is available to all people in Wales rather than simply being available to some in certain areas. I think it is a reflection of the situation some 20 years ago, when the working class in certain areas did not have access to Welsh-medium education. I believe that the Minister and Deputy Minister are aware of this, but I received a written response from the Minister on 29 August that stated that the Government was to look in greater detail at the information that health visitors and other agencies garner in terms of parental choice in terms of language. Has that work now been undertaken, and has any thought been given to the role of the Welsh language within the proposal to double the programme to 36,000 within this year?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am pleased to be here this evening to discuss the Flying Start programme and I welcome the opportunity, yet again, to highlight the positive impact that this programme is already having on the lives of children and families in some of our most disadvantaged communities in Wales.

The Welsh Government has set an ambitious target of doubling the number of children benefitting from Flying Start from 18,000 to 36,000 by 2016. We are on track to deliver against that pledge. We remain absolutely committed to ensuring that we help 36,000 of our most disadvantaged children have the best possible start in life. By the end of this financial year, we will already be supporting over 28,000 children. By the end of this Assembly, we will have invested over £270 million in revenue funding and £25 million in capital.

Flying Start is one of our key early intervention programmes. It aims to make a decisive difference to the children and families that we support. It is a complex programme built on high-quality provision. The evidence base for the programme is reinforced—the need to have high-quality interventions is what is especially effective in working with these families. I am clear, as are, I believe, the overall majority of staff who deliver Flying Start, that our main focus must always be to improve outcomes for these children and families. We knew from the outset that the expansion would not be straightforward, partly because of the complexity of the programme, the scale of the expansion and the need to maintain quality as the programme expands.

One of the challenges that we have had in both English and Welsh-medium settings has been in ensuring that there are sufficient numbers of health visitors to deliver the lower caseload required by the programme. The training of new health visitors is under way, so we are now more confident that we will have a highly trained additional workforce in place to meet the commitment to expansion. In addition, the Care and Social Services Inspectorate Wales is already working closely with Flying Start teams to ensure that new Flying Start settings meet the standards and are open on time.

Recruitment across all relevant professions is well under way. We are ensuring that we do more to guarantee that we have a bilingual workforce to meet the needs of families. We recognise that, in significant parts of Wales, Welsh-medium provision is essential, because it is the language of the community and the language of the home. We simply could not deliver Flying Start in a significant number of settings without recruiting Welsh-medium staff with the appropriate skills.

Mae'n bleser gennyf fod yma heno i drafod rhaglen Dechrau'n Deg a chroesawaf y cyfle, unwaith eto, i dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen hon eisoes yn ei chael ar fywydau plant a theuluoedd yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed uchelgeisiol o ddyblu nifer y plant y mae Dechrau'n Deg o fudd iddynt o 18,000 i 36,000 erbyn 2016. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn yr addewid honno. Rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i sicrhau ein bod yn helpu 36,000 o'n plant mwyaf difreintiedig i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, byddwn eisoes yn cefnogi dros 28,000 o blant. Erbyn diwedd y Cynulliad hwn, byddwn wedi buddsoddi dros £270 miliwn mewn cyllid refeniw a £25 miliwn mewn cyfalaf.

Mae Dechrau'n Deg yn un o'n rhaglenni ymyrraeth gynnar allweddol. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth pendant i'r plant a'r teuluoedd rydym yn eu cefnogi. Mae'n rhaglen gymhleth sy'n seiliedig ar ddarpariaeth o ansawdd uchel. Caiff sail y dystiolaeth ar gyfer y rhaglen ei hatgyfnerthu—mae'r angen i sicrhau ymyraethau o ansawdd uchel yn effeithiol iawn wrth weithio gyda'r teuluoedd hyn. Rwy'n gllir, fel y mae mwyafrif helaeth y staff sy'n darparu Dechrau'n Deg, credaf, y dylem ganolbwyntio'n barhaus ar wella canlyniadau i'r plant a'r teuluoedd hyn. Roeddem yn ymwybodol o'r cychwyn na fyddai ehangu'r rhaglen yn syml, yn rhannol oherwydd cymhlethdod y rhaglen, graddau'r ehangu a'r angen i sicrhau bod ansawdd y rhaglen yn parhau wrth iddi ehangu.

Un o'r heriau a wynebwyd gennym mewn lleoliadau Saesneg a Chymraeg fel ei gilydd yw sicrhau bod nifer ddigonol o ymwelwyr iechyd i fodloni'r llwyth achosion is sy'n ofynnol gan y rhaglen. Mae ymwelwyr iechyd newydd wrthi'n cael eu hyfforddi, felly rydym bellach yn fwy hyderus y bydd gennym weithlu ychwanegol hyfforddedig i gyflawni'r ymrwymiad i ehangu. Yn ogystal, mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru eisoes yn gweithio'n agos gyda thimau Dechrau'n Deg i sicrhau bod lleoliadau newydd Dechrau'n Deg yn cyrraedd y safonau ac yn cael eu hagor ar amser.

Mae'r broses recriwtio ar draws yr holl broffesiynau perthnasol yn mynd rhagddi. Rydym yn sicrhau ein bod yn gwneud mwy i sicrhau bod gennym weithlu dwyieithog er mwyn diwallu anghenion teuluoedd. Rydym yn cydnabod bod darpariaeth Gymraeg yn hanfodol mewn rhannau helaeth o Gymru, gan mai dyma iaith y gymuned ac iaith y cartref. Yn syml, ni allem ddarparu Dechrau'n Deg mewn nifer sylweddol o leoliadau heb recriwtio staff Cymraeg sy'n meddu ar y sgiliau priodol.

A vital component of the success of the programme has been creating suitable infrastructure, to support childcare in particular. That is where the majority of the Flying Start capital programme is going. In many of these communities, we are creating facilities and provision where none has previously existed. These new settings, funded by Flying Start capital, will help to strengthen and extend the reach of Welsh-language provision. One example is the already-funded provision at the Sealand community centre in Flintshire, where we have created the first ever Welsh-medium childcare provision within that community. Projects such as this are very much part of promoting Welsh-language early years provision across Wales within Flying Start.

Members will be aware that the Flying Start programme has been subject to a wide range of rigorous independent evaluation. So far, the overall evidence shows us that the programme is making a difference with an increased level of intensive health visiting, leading to better family support. It has also led to improved earlier assessment of need and higher quality childcare. The evidence shows, as intended, that the programme is life changing for many of our most vulnerable families. I am committed to supporting that drive to significant and life-changing intervention, to a culture of continuous improvement for child development outcomes, parental engagement in the child's learning and improving outcomes for parents themselves. Improving outcomes for the citizen must be at the centre of what Flying Start does. I think that there are grounds for optimism that all Flying Start practitioners and managers will buy into a culture where best practice today becomes standard practice tomorrow. We will rigorously examine what is working and has the greatest impact from the recent evaluation evidence and the ongoing information that we receive each year confirming what each Flying Start setting achieves with and for its families.

Parental engagement is a central plank of the Flying Start programme. The role of the parent in singing, talking and reading with their child cannot be overstated. We also recognise that, frequently, parental attitudes to learning have a lifelong impact upon the child. Flying Start, in many cases, has to overcome the reticence of parents who had an unhappy time of it with their own school and learning experience. Part of this is encouraging parents to read with their children. We know that many Flying Start parents do not have books for children in the home. We have recently committed to providing every Flying Start child with a book bag that includes a Welsh and English book. This bilingual resource is designed to help to introduce more children, especially from English-speaking homes, to reading and learning Welsh phrases.

Un o'r elfennau hanfodol o ran llwyddiant y rhaglen fu creu seilwaith addas, er mwyn cefnogi gofal plant yn benodol. Dyna lle y caiff y rhan fwyaf o raglen gyfalaf Dechrau'n Deg ei thargedu. Mewn llawer o'r cymunedau hyn, rydym yn creu cyfleusterau a darpariaeth lle nad oedd yn bodoli gynt. Bydd y lleoliadau newydd hyn, a ariennir gan gyfalaf Dechrau'n Deg, yn helpu i atgyfnerthu ac ehangu cyrhaeddiad y ddarpariaeth Gymraeg. Un enghraifft yw'r ddarpariaeth a ariennir eisoes yng nghanolfan gymunedol Sealand yn Sir y Fflint, lle rydym wedi creu'r ddarpariaeth gofal plant Gymraeg gyntaf erioed o fewn y gymuned honno. Mae prosiectau o'r fath yn rhan bwysig iawn o'r gwaith i hyrwyddo darpariaeth blynyddoedd cynnar Gymraeg ledled Cymru o fewn Dechrau'n Deg.

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod amrywiaeth eang o werthusiadau annibynnol trylwyr wedi'u cynnal mewn perthynas â rhaglen Dechrau'n Deg. Hyd yn hyn, dengys y dystiolaeth gyffredinol fod y rhaglen yn gwneud gwahaniaeth gyda lefel uwch o ymweliadau iechyd dwys, gan arwain at well cymorth i deuluoedd. Arweiniodd hefyd at well trefniadau ar gyfer asesu angen yn gynharach a gofal plant o ansawdd uwch. Dengys y dystiolaeth, fel y bwriadwyd, fod y rhaglen yn newid bywydau llawer o'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Rwy'n ymrwymedig i gefnogi'r ymdrech honno i sicrhau ymyrraeth sylweddol sy'n newid bywydau, diwylliant o welliant parhaus o ran canlyniadau ym maes datblygiad plant, cyfraniad rhieni yn nysgu eu plant ac i sicrhau y caiff y canlyniadau i rieni eu hunain eu gwella. Rhaid sicrhau bod gwella canlyniadau i ddinasyddion wrth wraidd holl ymdrechion Dechrau'n Deg. Credaf fod gobaith y bydd pob ymarferwr a rheolwr Dechrau'n Deg yn ymrwymo i ddiwylliant lle y daw'r arfer gorau heddiw yn arfer safonol yn y dyfodol. Byddwn yn rhoi ystyriaeth drylwyr i'r hyn sy'n gweithio ac sy'n cael yr effaith fwyaf o dystiolaeth gwerthusiadau diweddar a'r wybodaeth barhaus a gawn bob blwyddyn yn cadarnhau beth y mae pob lleoliad Dechrau'n Deg yn ei gyflawni gyda'i deuluoedd ac ar ran ei deuluoedd.

Mae cyfraniad rhieni yn un o elfennau canolog rhaglen Dechrau'n Deg. Mae rôl y rhiant wrth ganu, siarad a darllen gyda'u plentyn yn hollbwysig. Rydym yn cydnabod hefyd, yn aml, bod agweddau rhieni at ddysgu yn cael effaith gydol oes ar y plentyn. Rhaid i Dechrau'n Deg, mewn sawl achos, oresgyn amharoddrwydd rhieni a gafodd gyfnod anhapus eu hunain yn yr ysgol ac o ran eu profiad dysgu. Rhan o hyn yw annog rhieni i ddarllen gyda'u plant. Gwyddom nad oes gan lawer o rieni Dechrau'n Deg lyfrau i blant yn y cartref. Rydym wedi ymrwymo'n ddiweddar i ddarparu bag llyfrau i bob plentyn Dechrau'n Deg sy'n cynnwys llyfr Cymraeg a llyfr Saesneg. Cynlluniwyd yr adnodd dwyieithog hwn er mwyn helpu i gyflwyno mwy o blant, yn enwedig o gartrefi Saesneg, i ddarllen a dysgu ymadroddion Cymraeg.

The programme can only continue its current success and achieve more for children and families if we continue to assess how well we are doing in delivering the core elements of the programme, and one of those is early language development. Delayed language development is a significant barrier to educational achievement. There are still far too many children who start primary school without being able to speak properly in either Welsh or English, regardless of which one is the main language of the home. The role of parents and not just staff is essential to overcoming that early language delay. That is why we invest significant funding in, first, identifying early language delay and then in providing children and parents with early language support. There is a challenge in ensuring that we provide professional support in the right language for each family to ensure that that support is effective. Supporting the Welsh-language needs of children and families is key to this element of the programme and, indeed, to the wider programme, as has been mentioned, including childcare.

Wherever possible, local authorities should give parents the opportunity for their children to attend a childcare setting that offers Welsh-language provision, and each local authority's performance is monitored against this commitment. At present, our monitoring data show that around 95% of requests for Welsh-medium childcare are being met. In previous conversations with both the Member for Swansea East and Aled Roberts from North Wales, they have raised issues and concerns with me around whether this pledge is really being met in practice. The difficulty is that individual issues need to be raised with me because the current monitoring data are significant and successful. I encourage Members to write to me with those individual concerns, and I would be very interested to hear more about the particular point raised about Newport by the leader of Plaid Cymru. I have some reticence about the figures that are quoted by RhAG, particularly because of the link between the cohort of Flying Start Welsh-medium provision and primary Welsh-medium provision. I would need to be clear whether we are really dealing with the same cohorts of parents and families. However, I am committed to looking in more detail at this particular issue, and I had a useful meeting earlier today with the Minister for Education and Skills on this very issue.

I am pleased that the leader of Plaid Cymru quoted from the letter from Huw Maguire, because that was a deliberate effort by the Welsh Government to remind local authorities that they must have regard to the needs of parents in their area, including the need for the provision of Welsh-language childcare, and especially to actively make parents aware of Welsh-language provision. Each local authority submits a three-year strategic plan at the start of the expansion programme. Within this plan, it sets out how it will meet the need and preference for Welsh-language provision and includes details of how it will meet the needs or preferences of parents through Welsh-medium or bilingual childcare through the expansion of the programme.

Dim ond os byddwn yn parhau i asesu ein llwyddiant wrth gyflawni elfennau craidd y rhaglen, gan gynnwys datblygiad ieithyddol cynnar, y gall llwyddiant cyfredol y rhaglen barhau ac y gall gyflawni mwy i blant a theuluoedd. Mae oedi o ran datblygiad ieithyddol yn rhwystr sylweddol i gyflawniad addysgol. Mae gormod o blant o lawer yn dechrau'r ysgol gynradd o hyd heb allu siarad yn rhugl yn y Gymraeg na'r Saesneg, ni waeth pa un yw prif iaith y cartref. Mae rôl rhieni, yn ogystal â staff, yn hanfodol er mwyn goresgyn yr oedi hwnnw o ran sgiliau ieithyddol cynnar. Dyna pam ein bod yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, yn gyntaf, i nodi achosion o oedi o ran sgiliau ieithyddol cynnar ac wedyn i roi cymorth ieithyddol cynnar i blant a rhieni. Mae sicrhau ein bod yn rhoi cymorth proffesiynol yn yr iaith briodol i bob teulu er mwyn sicrhau bod y cymorth hwnnw yn effeithiol yn her. Mae diwallu anghenion Cymraeg plant a theuluoedd yn allweddol mewn perthynas â'r elfen hon o'r rhaglen ac, yn wir, y rhaglen ehangach, fel y crybwyllwyd, gan gynnwys gofal plant.

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai awdurdodau lleol roi'r cyfle i rieni i'w plant fynd i leoliad gofal plant sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg, a chaiff perfformiad pob awdurdod lleol ei fonitro yn erbyn yr ymrwymiad hwn. Ar hyn o bryd, dengys ein data monitro bod tua 95% o geisiadau am ofal plant Cymraeg yn cael eu bodloni. Mewn sgrysiâu blaenorol gyda'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe ac Aled Roberts o Ogledd Cymru, codwyd materion a phryderon gyda mi ynghylch a yw'r addewid hon mewn gwirionedd yn cael ei bodloni'n ymarferol. Yr anhawster yw bod angen codi materion unigol gyda mi gan fod y data monitro presennol yn arwyddocaol ac yn llwyddiannus. Anogaf yr Aelodau i ysgrifennu ataf gan nodi'r pryderon unigol hynny, a byddai gennyf ddiddordeb mawr i glywed mwy am y pwynt penodol a godwyd am Gasnewydd gan arweinydd Plaid Cymru. Gochelaf, i raddau, rhag dibynnu ar y ffigurau a ddyfynnwyd gan RhAG, yn arbennig oherwydd y cyswllt rhwng carfan y ddarpariaeth Dechrau'n Deg Gymraeg ac addysg gynradd Gymraeg. Byddai angen imi fod yn glir pa un a ydym o ddirifrin yn ymdrin â'r un carfanau o rieni a theuluoedd. Fodd bynnag, rwy'n ymrwymedig i ystyried y mater penodol hwn yn fanylach, a chefais gyfarfod defnyddiol yn gynharach heddiw gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i drafod yr union fater hwn.

Rwy'n falch bod arweinydd Plaid Cymru wedi dyfynnu o'r llythyr gan Huw Maguire, gan mai ymdrech fwriadol oedd hynny gan Lywodraeth Cymru i atgoffa awdurdodau lleol fod yn rhaid iddynt ystyried anghenion rhieni yn eu hardal, gan gynnwys yr angen i ddarparu gofal plant Cymraeg, ac yn arbennig i fynd ati i sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae pob awdurdod lleol yn cyflwyno cynllun strategol tair blynedd ar ddechrau'r rhaglen ehangu. O fewn y cynllun hwn, mae'n nodi sut y bydd yn diwallu'r angen am ddarpariaeth Gymraeg ac yn bodloni dewisiadau rhieni ac mae'n cynnwys manylion o ran sut y bydd yn diwallu anghenion neu'n bodloni dewisiadau rhieni drwy ofal plant Cymraeg neu ddwyieithog drwy ehangu'r rhaglen.

Our significant investment in Flying Start, particularly in the current economic climate, is a concrete sign of our commitment to preventative services in the early years. We know that the best way of supporting children, particularly those in disadvantaged areas, is to work with the whole family. During my visits to Flying Start settings, I have seen at first hand the life-changing work undertaken by staff, schools, the third sector, families and communities. The families' own descriptions of the impact that Flying Start has had are truly inspirational. We want to ensure that more of this life-changing experience can and does happen through the medium of Welsh. We want to guarantee that, whenever that happens, we stick to the main tenet that improving outcomes for these families across Wales and ensuring that children really do have a flying start in life is, and must, remain the focus of this programme.

Mae ein buddsoddiad sylweddol yn Dechrau'n Deg, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, yn arwydd pendant o'n hymrwymiad i wasanaethau ataliol yn y blynyddoedd cynnar. Gwyddom mai'r ffordd orau o gefnogi plant, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd difreintiedig, yw gweithio gyda'r teulu cyfan. Yn ystod fy ymweliadau â lleoliadau Dechrau'n Deg, gwelais yn uniongyrchol y gwaith a wneir gan staff, ysgolion, y trydydd sector, teuluoedd a chymunedau i newid bywydau. Mae disgrifiadau teuluoedd eu hunain o'r effaith y mae Dechrau'n Deg wedi'i chael yn gwbl ysbrydoledig. Rydym am sicrhau y gellir newid mwy o fywydau, ac y gwneir hynny, drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym am warantu, pa bryd bynnag y bydd hynny'n digwydd, y byddwn yn cadw at y brif egwyddor mai gwella canlyniadau i'r teuluoedd hyn ledled Cymru a sicrhau bod plant o ddifrif yn cael dechrau teg mewn bywyd yw ffocws y rhaglen hon ac y dylai barhau felly.

18:10

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That concludes proceedings for today.

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:10.

The meeting ended at 18:10.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)